

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 01/10/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)  
[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor](#)  
[Motion to Elect a Member to a Committee](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\)](#)  
[Statement: Introduction of the National Health Service Finance \(Wales\) Bill](#)

[Datganiad: Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol: Gweithio Rhanbarthol](#)  
[Statement: The Review of the Future Delivery of Education Services in Wales: Regional Working](#)

[Datganiad: Lansio'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Datblygiad Ieuencid](#)  
[Statement: Launch of the Youth Engagement and Progression Implementation Plan](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardrethi Busnes](#)  
[Statement: Update on Business Rates Policy](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol](#)  
[Legislative Consent Memorandum on the Intellectual Property Bill](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol \(Cymru\)](#)  
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Active Travel \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo'r Bil Teithio Llesol \(Cymru\) o dan Reol Sefydlog 26.47](#)  
[Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Active Travel \(Wales\) Bill](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Trefn.

Order.

The National Assembly is now in session.

Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Recriwtio Meddygon

### The Recruitment of Doctors

13:30 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sefyllfa recriwtio meddygon yn ardal Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr? OAQ(4)1230(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the situation regarding the recruitment of doctors in the Betsi Cadwaladr Health Trust area? OAQ(4)1230(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

*Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael inni gan y bwrdd iechyd yn dangos bod dros 96% o'r swyddi staff meddygol a deintyddol wedi'u llenwi.*

*The latest information made available to us by the health board shows that over 96% of posts in the medical and dental staff group are filled.*

- 13:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r ffigurau hynny yn dipyn o syndod i mi gan fod argyfwng yn sicr ymhlith recriwtio meddygon teulu, ac mae meddygon teulu sy'n gallu siarad Cymraeg yn brinnach fyth. Hefyd, mae prinder meddygon ac arbenigwyr yn ein hysbytai ni. Rwy'n cael ar ddeall bod un o'n hysbytai cyffredinol ni yn llwyr ddibynnol bron ar 'locums'. Mae hynny'n arwain wedyn at sefyllfa lle na allwch hyfforddi. A ydych chi'n cytuno bod angen datblygu a grymuso hyfforddiant meddygol yn y gogledd, a sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni hynny?
- Those figures come as quite a surprise to me because there is certainly a crisis in the recruitment of general practitioners, and GPs who can speak Welsh are even scarcer. Also, there is a shortage of doctors and specialists in our hospitals. I am given to understand that one of our general hospitals is almost completely dependent on locums. That then leads to a situation where you cannot train doctors. Do you agree that there is a need to develop and strengthen medical training in north Wales, and how does the Government intend to achieve that?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Rwy'n deall bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Aelod i ddweud y bydd y bwrdd academiaidd yn ystyried y sefyllfa ynglŷn ag addysg meddygol yn y gogledd yn ei gyfarfod y mis hwn, ac rwy'n deall ei fod wedi cytuno i gwrdd ag ef ar ôl y drafodaeth honno.
- I understand that the Minister has written to the Member to say that the academic board will consider the situation in terms of medical education in north Wales in its meeting this month, and I understand that it has agreed to meet him following that discussion.
- 13:32 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, we have seen a number of horrific reports in respect of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board, including failures in governance and failures in infection control. Just this week, the chief officer of the community health council in north Wales declared that public confidence has collapsed, and said that the name of the health board was a toxic brand. Do you think that that could be having an impact on recruitment? What consideration has the Welsh Government given to changing the name of the health board to give it a fresh new start?
- Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld nifer o adroddiadau erchyll o ran Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys methiannau o ran llywodraethu a methiannau o ran rheoli heintiau. Dim ond yr wythnos hon, dywedodd prif swyddog y cyngor iechyd cymuned yng ngogledd Cymru bod hyder y cyhoedd wedi diflannu, a dywedodd fod enw'r bwrdd iechyd yn frand gwenwynig. A ydych chi'n credu y gallai hynny fod yn cael effaith ar recriwtio? Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i newid enw'r bwrdd iechyd i roi dechrau newydd ffres iddo?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Member seems not to have listened to the answer that I gave originally, and that was that 96% of posts are filled. So, clearly, there has been no effect on recruitment as far as recent events are concerned.
- Mae'n ymddangos nad yw'r Aelod wedi gwrandao ar yr ateb a roddais yn wreiddiol, sef bod 96% o swyddi wedi eu llenwi. Felly, yn amlwg, ni fu unrhyw effaith ar recriwtio cyn belled ag y mae digwyddiadau diweddar yn y cwestiwn.
- Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg** **Science, Technology, Engineering and Mathematics**
- 13:32 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y merched sy'n dewis pynciau STEM? OAQ(4)1227(FM)*
- 2. What is the Welsh Government doing to increase the number of girls taking up STEM subjects? OAQ(4)1227(FM)*
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We are committed to ensuring that high-quality STEM education is available to all young people in Wales, regardless of their gender. I know that the National Science Academy is working to co-ordinate STEM outreach and engagement across Wales, aiming to increase participation by girls.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg STEM o ansawdd uchel ar gael i holl bobl ifanc Cymru, waeth beth fo'u rhyw. Rwy'n gwybod bod yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn gweithio i gydgyssylltu allgymorth ac ymgysylltiad STEM ledled Cymru, gyda'r nod o gynyddu nifer y merched sy'n cymryd rhan.

- 13:33 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister, that is very welcome. However, Naomi Lombard has written of a discourse of difference restricting the ambitions of women. She says that a young woman may want to be an engineer or scientist, but that she is limited in achieving this by the anticipation of future gendered roles such as a wife or a mother. What more can we do to ensure more girls study STEM subjects? What work can be done with employers to ensure that they are much more family friendly so that they can benefit from a wider talent pool?
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog, mae hynny i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae Naomi Lombard wedi ysgrifennu am drafodaeth o wahaniaeth sy'n cyfyngu ar uchelgeisiau menywod. Mae hi'n dweud y gall menyw ifanc fod eisiau bod yn beiriannydd neu'n wyddonydd, ond ei bod yn cael ei chyfyngu o ran cyflawni hyn gan y disgwyliad o swyddogaethau rhywedd yn y dyfodol, fel bod yn wraig neu'n fam. Beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod mwy o ferched yn astudio pynciau STEM? Pa waith ellir ei wneud gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn llawer mwy ystyriol o deuluoedd fel y gallant elwa o gronfa ehangach o dalent?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Any sensible employer would wish to ensure that they have access to the best pool of talent available and that means being flexible in terms of recruitment and working hours. I can say that several National Science Academy-supported projects have sought to break down barriers to engaging with science, technology, engineering and maths subjects, including looking at issues such as gender, poverty and, indeed, disability. It is important that we give a good example in terms of what can be achieved as far as women's role in science, and we now have the appointment of our chief scientific adviser, Professor Julie Williams, who will provide a high-profile role of course for female students.
- Byddai unrhyw gyflogwr doeth yn dymuno sicrhau bod ganddo fynediad at y gronfa orau o dalent sydd ar gael ac mae hynny'n golygu bod yn hyblyg o ran recriwtio ac oriau gwaith. Gallaf ddweud bod nifer o brosiectau a gefnogir gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol wedi ceisio chwalu'r rhwystrau i ymgysylltu â phynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, gan gynnwys edrych ar faterion fel rhyw, tlodi ac, yn wir, anabled. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi esiampl dda o ran yr hyn y gellir ei gyflawni o ran swyddogaeth menywod ym myd gwyddoniaeth, ac erbyn hyn rydym wedi gweld penodiad ein prif gynghorydd gwyddonol, yr Athro Julie Williams, a fydd yn cyflawni swyddogaeth uchel ei phroffil ar gyfer myfyrwyr benywaidd wrth gwrs.
- 13:34 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I draw your attention to an organisation called STEMNET—the Science, Technology, Engineering and Mathematics Network—which works throughout the UK. It has some 26,000 ambassadors in secondary schools and is trying to get more of a foothold here in Wales, but funding is obviously an issue. Its objective is to ensure that pupils at secondary school understand the importance of STEM subjects and how they help in careers across the piste: you need mathematics, perhaps, if you want to be someone who designs video games, and there is the use of chemistry in, for example, hair and beauty—
- Brif Weinidog, tynnaf eich sylw at sefydliad o'r enw STEMNET—y Rhwydwaith Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg—sy'n gweithio ledled y DU. Mae ganddo tua 26,000 o genhadon mewn ysgolion uwchradd ac mae'n ceisio ymsefydlu ei hun yn gryfach yma yng Nghymru, ond mae cyllid yn amlwg yn broblem. Ei amcan yw sicrhau bod disgyblion yn yr ysgol uwchradd yn deall pwysigrwydd pynciau STEM a sut y maent o gymorth ym mhob math o yrfa: mae angen mathemateg arnoch, efallai, os ydych eisiau bod yn rhywun sy'n cynllunio gemau fideo, a defnyddir cemeg ym maes gwallt a harddwch, er enghraifft—
- 13:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Do not give too many examples. Come on. Peidiwch â rhoi gormod o enghreifftiau. Dewch ymlaen.
- 13:35 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I just wondered whether you might be able to look at how we might be able to encourage their development throughout Wales. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi ystyried sut y gallen annog eu datblygiad ledled Cymru.
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes, the STEM ambassadors programme is an excellent programme. I would encourage people from a wide range of backgrounds to become part of that. There are Welsh schemes as well. The NSA-funded engineering education scheme Wales has specifically brought forward an initiative called Girls into Engineering, which encourages careers in the engineering and manufacturing sectors. Ydy, mae rhaglen cenhadon STEM yn rhaglen ardderchog. Byddwn yn annog pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd i fod yn rhan o hynny. Ceir cynlluniau Cymreig hefyd. Mae'r cynllun addysg peirianneg yng Nghymru a ariennir gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, wedi cyflwyno menter benodol o'r enw Denu Merched i Faes Peirianneg, sy'n annog gyrfaoedd yn y sectorau peirianneg a gweithgynhyrchu.

13:35

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

First Minister, we all agree that there is an issue with the numbers of young women getting involved in and looking at careers that are related to the STEM subject areas. The STEM Cymru Girls into Engineering scheme is a very welcome idea to try to improve the situation. What a shame society carries on stereotyping gender roles. What are your Government's plans to improve and expand on such schemes, perhaps looking at mentoring programmes such as the MentorSET programme—it was regrettably defunded by the UK Government—to provide support and advice to young women entering these fields?

Brif Weinidog, rydym ni i gyd yn cytuno bod problem gyda nifer y merched ifanc sy'n ystyried ac yn ymgymryd â gyrfaedd sy'n gysylltiedig â meysydd pynciau STEM. Mae cynllun Denu Merched i Faes Peirianeg STEM Cymru yn syniad i'w groesawu'n fawr i geisio gwella'r sefyllfa. Onid yw'n drueni bod cymdeithas yn parhau i stereoteipio swyddogaethau'r ddau ryw? Beth yw cynlluniau eich Llywodraeth i wella ac ehangu cynlluniau o'r fath, gan ystyried rhaglenni mentora efallai, fel rhaglen MentorSET—a gollodd ei chyllid gan Lywodraeth y DU yn anffodus—i gynig cefnogaeth a chyngor i fenywod ifanc sy'n mynd i mewn i'r meysydd hyn?

13:36

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The STEM ambassadors initiative, the National Science Academy-supported initiatives that I have already mentioned, and the Girls into Engineering scheme, are all good examples of what can be done to encourage more girls into STEM subjects in the future. That is something that we as a Government will continue to encourage.

Mae'r fenter cenhadon STEM, y mentrau a gefnogir gan yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt, a'r cynllun Denu Merched i Faes Peirianeg, i gyd yn enghreifftiau da o'r hyn y gellir ei wneud i annog mwy o ferched i astudio pynciau STEM yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn ni fel Llywodraeth yn parhau i'w annog.

13:36

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

First Minister, studies have shown that, for those young women who do go into the STEM subjects at university, there is significant drop-out at doctoral level, and then again at post-doctoral level, from the academic career pathways. Do you have any targets in your science strategy for the number of women to be recruited through programmes such as Sêr Cymru? Are there any other schemes that you are looking at to encourage women to fulfil their potential at the higher end of the academic career path?

Brif Weinidog, mae astudiaethau wedi dangos, ar gyfer y menywod ifanc hynny sy'n astudio pynciau STEM yn y brifysgol, bod nifer sylweddol yn rhoi'r gorau i'r llwybrau gyrfa academaidd ar lefel doethuriaeth, ac yna eto ar lefel ôl-ddoethurol. A oes gennych unrhyw dargedau yn eich strategaeth wyddoniaeth ar gyfer y nifer o fenywod y dylid eu recriwtio trwy raglenni fel Sêr Cymru? A oes unrhyw gynlluniau eraill yr ydych chi'n eu hystyried i annog menywod i wireddu eu potensial ar ben uchaf y llwybr gyrfa academaidd?

13:36

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

If that is correct, that is disappointing, and it is certainly something that we would not wish to see. We need to see the appropriate proportion of female students going on towards doctoral and post-doctoral study. Part of the key to encouraging that is to use schemes such as Girls into Engineering, because so many of the young women who go through that scheme end up in post-doctoral study, to show that there are opportunities for employment post-university in manufacturing and engineering. That scheme does exactly that.

Os yw hynny'n gywir, mae'n siomedig, ac mae'n sicr yn rhywbeth na fyddem yn dymuno ei weld. Mae angen i ni weld y gyfran briodol o fyfyrwyr benywaidd yn mynd ymlaen tuag at astudiaethau doethuriaeth ac ôl-ddoethurol. Rhan o'r allwedd i annog hynny yw defnyddio cynlluniau fel Denu Merched i Faes Peirianeg, gan fod cymaint o'r merched ifanc sy'n mynd drwy'r cynllun hwnnw yn cyflawni astudiaethau ôl-ddoethurol yn y pen draw, i ddangos bod cyfleoedd am gyflogaeth ar ôl y brifysgol ym meysydd gweithgynhyrchu a pheirianeg. Mae'r cynllun hwnnw'n gwneud yn union hynny.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

13:37

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I now call the party leaders to question the First Minister. I call first on the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf nawr ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood yn gyntaf.

13:37

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, your party and mine are on the same page regarding the privatisation of the health service. In fact, when our parties were in coalition, we jointly agreed to end the internal market in the NHS, so if we can just park that point. Given that we have seen a number of emerging problems—ambulance waiting times, referral-to-treatment times, and cancer waiting lists; in fact, the health board that covers your own constituency has the worst cancer waiting times in Wales—will you now accept that there are problems in the health service, or are you still in denial?

Brif Weinidog, mae eich plaid chi a'm plaid innau o'r un meddylfryd o ran preifateiddio'r gwasanaeth iechyd. Yn wir, pan roedd ein pleidiau mewn clymblaid, cytunwyd gennym ar y cyd i roi terfyn ar y farchnad fewnol yn y GIG, felly os cawn ni roi'r pwynt hwnnw o'r neilltu. O ystyried ein bod wedi gweld nifer o broblemau yn dod i'r amlwg—amseroedd aros am ambiwlans, yr amser rhwng atgyfeiriadau a thriniaeth, a rhestrau aros canser; a dweud y gwir, y bwrdd iechyd sy'n gwasanaethu eich etholaeth chi eich hun sydd â'r amseroedd aros gwaethaf o ran canser yng Nghymru—a wnewch chi dderbyn nawr bod problemau yn y gwasanaeth iechyd, neu a ydych chi'n dal i'w gwadu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not know whether the leader of Plaid Cymru is asking me whether we intend to privatise, as she mentioned privatisation at the start—that is not the case. We have made it very clear that privatisation is not part of the agenda. We have been very clear for many weeks in the Chamber that there are challenges in the health service—that much is true. There is increasing demand, and we have seen, for example, a 68% increase in accident and emergency demand over the past 10 years. There is also an ageing population that creates an extra demand. At the same time, we have had our budget cut dramatically by the UK Government. That is a matter of fact. However, notwithstanding those challenges, we have put forward plans to deal with those challenges, and also of course to provide a safe and sustainable health service in the future.

Nid wyf yn gwybod pa un a yw arweinydd Plaid Cymru yn gofyn i mi a ydym yn bwriadu preifateiddio, gan iddi sôn am breifateiddio ar y cychwyn—nid dyna'r achos. Rydym ni wedi ei gwneud yn eglur iawn nad yw preifateiddio yn rhan o'r agenda. Rydym ni wedi bod yn eglur iawn ers wythnosau lawer yn y Siambr bod heriau yn y gwasanaeth iechyd—mae hynny'n wir. Mae galw cynyddol, ac rydym ni wedi gweld, er enghraifft, cynnydd o 68% i'r galw ar adrannau damweiniau ac achosion brys dros y 10 mlynedd diwethaf. Ceir poblogaeth sy'n heneiddio hefyd, ac mae hynny'n creu galw ychwanegol. Ar yr un pryd, mae ein cyllideb wedi ei thorri'n sylweddol gan Lywodraeth y DU. Mater o ffaith yw hynny. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hynny, rydym ni wedi cyflwyno cynlluniau i ymateb i'r heriau hynny, a hefyd, wrth gwrs, i ddarparu gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not quite sure which part of the 'let's park the privatisation' argument that you do not understand, First Minister. Last night, on the BBC, your own party colleague, Ann Clwyd, said:

'You cannot bury your head in the sand and pretend everything is well, because it isn't. I think Aneurin Bevan would be turning in his grave'.

Is criticism like this not the real reason that you refused to appear on that tv debate last night on the health service?

Nid wyf yn hollol siŵr pa ran o 'gadewch i ni roi'r ddadl preifateiddio o'r neilltu' nad ydych chi'n ei deall, Brif Weinidog. Ar y BBC neithiwr, dywedodd cydweithiwr o'ch plaid eich hun, Ann Clwyd:

Ni allwch roi eich pen yn y tywod ac esgus bod popeth yn iawn, oherwydd nid yw hynny'n wir. Rwy'n credu y byddai Aneurin Bevan yn troi yn ei fedd .

Onid beirniadaeth fel hyn yw'r gwir reswm i chi wrthod ymddangos ar y drafodaeth deledu honno ar y gwasanaethau iechyd neithiwr?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They never asked for me. However, what I can say is that, unlike your party, we actually put forward proposals to improve the health service. You oppose every single thing that we try to do—every single thing. You stand there, and you say that there need to be improvements in the health service, which we have acknowledged, but then you oppose everything. You oppose any reconfiguration, of any kind, at any time, and despite the fact that the medical evidence supports some of the reconfiguration, you oppose that as well. It is one thing to say that there needs to be change, and that we accept; it is one thing to say that there needs to be improvement, and that we accept; but you cannot, on the other hand, at the same time, say that you will oppose each and every thing that the Government is trying to do to improve the health service.

Ni wnaethant ofyn amdanaf. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod ni, yn wahanol i'ch plaid chi, wedi cyflwyno cynigion i wella'r gwasanaeth iechyd. Rydych chi'n gwrthwynebu pob un dim yr ydym ni'n ceisio ei wneud—pob un dim. Rydych chi'n sefyll yn y fan yna, ac rydych chi'n dweud bod angen gwelliannau yn y gwasanaeth iechyd, ac rydym ni wedi cydnabod hynny, ond wedyn rydych chi'n gwrthwynebu popeth. Rydych chi'n gwrthwynebu unrhyw ad-drefnu, o unrhyw fath, ar unrhyw adeg, ac er gwaethaf y ffaith fod y dystiolaeth feddygol yn cefnogi rhywfaint o'r ad-drefnu, rydych chi'n gwrthwynebu hynny hefyd. Un peth yw dweud bod angen newid, ac rydym ni'n derbyn hynny; un peth yw dweud bod angen gwella, ac rydym ni'n derbyn hynny; ond ni allwch chi, ar y llaw arall, ar yr un pryd, ddweud y byddwch yn gwrthwynebu pob un dim y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei wneud i wella'r gwasanaeth iechyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:40

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you may not be aware that one of the ideas that were launched by your Government yesterday, the My Local Health Service page, was an idea that came from these benches, from the Plaid Cymru health spokesperson, Elin Jones. Therefore, if we do not have any ideas, what are you doing, stealing our ideas?

Brif Weinidog, efallai nad ydych chi'n ymwybodol bod un o'r syniadau a lanswyd gan eich Llywodraeth ddoe, y dudalen Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol, yn syniad a ddaeth o'r meinciau hyn, gan lefarydd iechyd Plaid Cymru, Elin Jones. Felly, os nad oes gennym unrhyw syniadau, beth ydych chi'n ei wneud yn dwyn ein syniadau?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

First Minister, month on month, you miss your targets and, this week, your only answer to that fact has been to drop targets, to remove the goalposts altogether. We stand here, week after week, listening to you blaming the Tories for the financial situation, blaming other people for reconfiguration and now for the ditching of targets, and you refuse to participate in television programmes to defend your policies. Is it not the truth that you will do anything to avoid taking responsibility for the Welsh health service? Will you now accept that Ann Clwyd is right to say that Aneurin Bevan will indeed be turning in his grave?

Brif Weinidog, fis ar ôl mis, rydych chi'n methu â chyrraedd eich targedau ac, yr wythnos hon, yr unig ateb i'r ffaith honno fu gostwng targedau, a chael gwared ar y gofynion yn gyfan gwbl. Rydym yn sefyll yma, wythnos ar ôl wythnos, yn gwrandao arnoch chi'n beio'r Toriaid am y sefyllfa ariannol, yn beio pobl eraill am ad-drefnu a nawr am gael gwared ar dargedau, ac rydych chi'n gwrthod cymryd rhan mewn rhaglenni teledu i amddiffyn eich polisiau. Onid y gwir yw y gwnewch chi unrhyw beth i osgoi cymryd cyfrifoldeb am wasanaeth iechyd Cymru? A wnewch chi dderbyn nawr bod Ann Clwyd yn iawn i ddweud y bydd Aneurin Bevan wir yn troi yn ei fedd?

13:41

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

My Health Online is a very good website, but is that it? Is that the answer that Plaid Cymru gave to the improvements that we need in the health service: have a new website and that is it, there is nothing else that we need to do? It is striking that whenever the leader of Plaid Cymru asks questions, she cannot veer away from her script. She cannot do it, even though she was informed on two occasions when I gave answers that we do not shy away from responsibility for the health service, far from it. I said on two occasions in answer to her that we know that there are challenges in the health service, as we know that there is much scope for improvement. That much we understand, and that is what we are doing. However, the reality is that every time that there are proposals to improve the Welsh health service, Plaid Cymru opposes those proposals without putting forward any proposals of its own. That is why people have confidence in us as a Government and that is why the opinion polls show the level of satisfaction that most people have with the Welsh NHS.

Mae Fy Iechyd Ar-lein yn wefan dda iawn, ond ai dyna'r cwbl? Ai dyna'r ateb a roddodd Plaid Cymru i'r gwelliannau sydd eu hangen arnom yn y gwasanaeth iechyd: cael gwefan newydd a dyna ni, nid oes unrhyw beth arall y mae angen i ni ei wneud? Mae'n drawiadol na all arweinydd Plaid Cymru wyro oddi wrth ei sgript pryd bynnag y bydd yn gofyn cwestiynau. Nid yw'n gallu gwneud hynny, er iddi gael ei hysbysu ar ddau achlysur pan roddais atebion nad ydym yn osgoi cyfrifoldeb am y gwasanaeth iechyd, o bell ffordd. Dywedais ar ddau achlysur yn fy ateb iddi ein bod yn gwybod bod heriau yn y gwasanaeth iechyd, ac rydym hefyd yn gwybod bod llawer o le i wella. Rydym ni'n deall cymaint â hynny, a dyna beth yr ydym ni'n ei wneud. Fodd bynnag, y gwirionedd yw, bob tro y ceir cynigion i wella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r cynigion hynny heb gyflwyno unrhyw gynigion ei hun. Dyna pam mae gan bobl hyder ynion ni fel Llywodraeth, a dyna pam mae'r polau piniwn yn dangos lefel y bodlonrwydd sydd gan y rhan fwyaf o bobl â'r GIG yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

- 13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies. Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:42 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*  
First Minister, after we broke for the summer recess, there was a report from the Royal College of Surgeons that stated that 125 patients had died in the past five years while waiting for heart surgery in Cardiff. There was a review, published last week, on Morriston Hospital that stated that the number of patients who have died while experiencing long waits for surgery is a deeply unsatisfactory situation. We have heard from my health spokesman about the issues in north Wales, and I have challenged you on that, about governance, clinical management and infection rates. I asked you in July whether your Government would consider a Keogh-style inquiry. I have also put that to your Minister for Health and Social Services. Will you now, in the light of all the evidence that is out there about the Welsh NHS, commission such an inquiry into the outcomes of our Welsh NHS?  
Brif Weinidog, ar ôl i ni adael ar gyfer toriad yr haf, cyhoeddwyd adroddiad gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon a ddywedodd bod 125 o gleifion wedi marw yn y pum mlynedd diwethaf tra eu bod yn aros am lawdriniaeth i'r galon yng Nghaerdydd. Bu adolygiad, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, ar Ysbyty Treforys a oedd yn dweud bod nifer y cleifion sydd wedi marw tra eu bod yn aros dros gyfnod hir am lawdriniaeth yn sefyllfa anfodddhaol iawn. Rydym ni wedi clywed gan fy llefarydd iechyd am y materion yng ngogledd Cymru, ac rwyf wedi eich herio chi ynglŷn â hynny, am lywodraethu, rheolaeth glinigol a chyfraddau heintiau. Gofynnais i chi ym mis Gorffennaf a fyddai eich Llywodraeth yn ystyried ymchwiliad tebyg i Keogh. Rwyf hefyd wedi cynnig hynny i'ch Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. A wnech chi nawr, yng ngoleuni'r holl dystiolaeth sydd ar gael am y GIG yng Nghymru, gomisiynu ymchwiliad o'r fath i ganlyniadau ein GIG yng Nghymru?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Of course, the irony is that it is as the result of an inquiry that these problems were identified in the first place. Why have a Keogh-style inquiry, at a cost of possibly more than £1 million—money that could be put into the NHS—when there is no need for it, when these issues are being identified and dealt with appropriately? That is the difference between Wales and England. As far as we are concerned, we will continue to identify those issues and deal with them as robustly and quickly as possible, and that is exactly what I believe that we have been doing.  
Wrth gwrs, yr eironi yw mai o ganlyniad i ymchwiliad y nodwyd y problemau hyn yn y lle cyntaf. Pam cynnal ymchwiliad tebyg i Keogh, am gost fwy nag £1 filiwn o bosibl—arian y gellid ei gyfrannu at y GIG—pan nad oes ei angen, pan fo'r materion hyn yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw'n briodol? Dyna'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr. O'n safbwynt ni, byddwn yn parhau i nodi'r materion hynny ac ymdrin â nhw mor gadarn a chyflym â phosibl, a dyna'n union yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud, yn fy marn i.
- 13:43 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I opened by saying that 125 patients had died in the last five years. I went on and talked about other inquiries, and the First Minister talked about £1 million. What is the price of an unexpected or early death, First Minister? The publication of mortality data in March 2013 indicated that 11 out of 17 district general hospitals in Wales had higher death rates than should be expected. You stated in the Record of Proceedings on 9 July,  
Dechreuais drwy ddweud bod 125 o gleifion wedi marw yn y pum mlynedd diwethaf. Euthum ymlaen i siarad am ymchwiliadau eraill, a siaradodd y Prif Weinidog am £1 filiwn. Beth yw pris marwolaeth annisgwyl neu gynnar, Brif Weinidog? Mae cyhoeddiad data marwolaethau ym mis Mawrth 2013 yn dangos bod gan 11 allan o 17 o ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru gyfraddau marwolaeth uwch nag y dylid eu disgwyl. Dywedasoch yng Nghofnod y Trafodion ar 9 Gorffennaf,  
'Wherever there are difficulties, wherever there are weaknesses in the health service, the people of Wales can be guaranteed that we will take swift and decisive action.'  
Pa le bynnag y ceir anawsterau, pa le bynnag y ceir gwendidau yn y gwasanaeth iechyd, gall pobl Cymru fod yn sicr y byddwn yn cymryd camau cyflym a phendant.  
How can the people of Wales have confidence that you will take swift and decisive action when, in the light of the compelling evidence that has come from many third-party sources, your Government is failing to respond? Has Labour learnt nothing from what happened at the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust?  
Sut y gall pobl Cymru fod yn hyderus y byddwch yn cymryd camau cyflym a phendant pan fo'ch Llywodraeth, yng ngoleuni'r dystiolaeth gref sydd wedi dod o lawer o ffynonellau trydydd parti, yn methu ag ymateb? Onid yw Llafur wedi dysgu unrhyw beth o'r hyn a ddigwyddodd yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford?

Mid Staffs is something that occurred in England. We are nowhere near what happened in Mid Staffs. The reality is that, when issues arise in the health service, they are dealt with quickly. We are open and transparent, which is why we have My Health Online. I know that the leader of the opposition wants to create some kind of crisis around the health service; that is what he has to do in his position, but let us have a look at what the polls say and what the public tells us. Yesterday the BBC, effectively undermining its own programme, 'Week In Week Out', I thought, published an opinion poll stating that 72% of the population expect good treatment from the health service in Wales. Of those who have treatment, more than 80% are satisfied with the treatment that they have in Wales. The reality is that the health service in Wales is better run, and the people of Wales have more confidence in it, than is the case in England under your party.

Mae achos Canol Swydd Stafford yn rhywbeth a ddigwyddodd yn Lloegr. Nid ydym yn agos at yr hyn a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford. Y gwir amdani yw, pan fydd materion yn codi yn y gwasanaeth iechyd, ymdrinnir â nhw yn gyflym. Rydym yn agored ac yn dryloyw, a dyna pam mae gennym Fy Iechyd Ar-lein. Gwn fod arweinydd yr wrthblaid eisiau creu rhyw fath o argyfwng o amgylch y gwasanaeth iechyd; dyna beth mae'n rhaid iddo ei wneud yn ei sefyllfa ef, ond gadewch i ni edrych ar yr hyn y mae'r polau'n ei ddweud a'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddweud wrthym. Ddoe, cyhoeddodd BBC, gan danseilio ei raglen ei hun, 'Week In Week Out', fwy neu lai yn fy marn i, arolwg barn yn datgan bod 72% o'r boblogaeth yn disgwyl triniaeth dda gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. O'r rhai sy'n cael triniaeth, mae mwy na 80% yn fodlon â'r driniaeth maen nhw'n ei chael yng Nghymru. Y gwir amdani yw bod y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cael ei redeg yn well, a bod gan bobl Cymru fwy o hyder ynddo, na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr dan eich plaid chi.

That answer, First Minister, is hugely complacent, given the facts that I have just given you. You said in March that there can be no room for complacency within our healthcare system. I have to say that I join many Members and the general public in being flabbergasted that last night's programme had no ministerial representation on it at all. In credit to the Minister for Finance, I can well remember, some 10 years ago, when she was the Minister for health and a similar programme was run, that she did sit in the middle of that forum and take the questions and the points that were put to her. The Welsh Government clearly has gone backwards on its openness and transparency. I will finish today with this remark, which came from one of your own backbenchers, who has just walked in now—the Member for Cardiff Central. She said this, in March:

'Anyone who suggests that what happened in Mid Staffs is an isolated example that could not possibly happen here is misguided.'

You clearly are very, very misguided, First Minister, and I urge you to take action.

Mae'r ateb yna, Brif Weinidog, yn eithriadol o hunanfodlon, o ystyried y ffeithiau yr wyf newydd eu rhoi i chi. Dywedasoch ym mis Mawrth nad oes lle i fod yn hunanfodlon yn ein system gofal iechyd. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn ymuno â llawer o Aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol o fod wedi fy syfrdanu nad oedd unrhyw gynrychiolaeth weinidogol o gwbl yn y rhaglen neithiwr. Er clod i'r Gweinidog Cyllid, cofiaf yn iawn, tua 10 mlynedd yn ôl, pan roedd hi'n Weinidog iechyd ac y darlledwyd rhaglen debyg, ei bod wedi eistedd yng nghanol y fforwm hwnnw a derbyn y cwestiynau a'r pwyntiau a wnaed iddi. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi mynd tuag yn ôl o ran bod yn agored a thryloyw. Rwyf am orffen heddiw gyda'r sylw hwn, a wnaed gan un o'r rhai ar eich meinciau cefn eich hun, sydd newydd gerdded i mewn nawr—yr Aelod dros Ganol Caerdydd. Dywedodd hyn, ym mis Mawrth:

Mae unrhyw un sy'n awgrymu bod yr hyn a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford yn enghraifft ar ei phen ei hun nad oes modd iddi ddigwydd yma yn camsynied

Mae'n amlwg eich bod chi'n camsynied yn arw iawn, iawn Brif Weinidog, ac rwy'n eich annog i gymryd camau.



**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let us describe some of the action that we have taken. Let us look at the cancer drugs fund. It is a fund that the party opposite has mentioned many times in this Chamber, yet we know now that the cancer drugs fund is nothing more than a confidence trick. I will explain why I say that. Of those who apply for funding to the cancer drugs fund, more than 70% are refused. For the equivalent in Wales, the individual patient funding requests, which are open to people with all conditions, not just those with cancer, more than half of the applications are accepted. The cancer drugs fund has actually made things worse for people in England, not better. We have a fund and a situation in Wales that makes it far better and easier for people in Wales to get approval and funding for non-NICE-approved drugs. That much we know. There are people in England who are being told that they can have drugs as a result of the cancer drugs fund, and yet we know that they will be denied access to those drugs. We spend in Wales—[Interruption.]

I know that it is painful for them, but if they listened they might learn something. [Interruption.] In Wales, we spend £12 per head more on cancer treatment than is the case in England, even with the cancer drugs fund. The reality is that, in Wales, people have better access to non-NICE-approved drugs, and the reality is that, in Wales, people with dementia and heart disease, and people with strokes and multiple sclerosis, are not denied access to drugs, as they are in England, because there is no specific fund for them. I say to the party opposite: you can lecture us when your Government in London spends as much on cancer treatment as the Welsh Government. You are letting the people of England down. [Assembly Members: 'Oh']

Gadewch i ni ddisgrifio rhai o'r camau yr ydym ni wedi eu cymryd. Gadewch i ni edrych ar y gronfa cyffuriau cancer. Mae'n gronfa y mae'r blaid gyferbyn wedi ei chrybwyll droeon yn y Siambr hon, ac eto rydym yn gwybod nawr nad yw'r gronfa cyffuriau cancer yn ddim mwy na thwyll. Byddaf yn egluro pam rwy'n dweud hynny. O'r rhai sy'n gwneud cais am gyllid i'r gronfa cyffuriau cancer, mae mwy na 70% yn cael eu gwrthod. O ran y gronfa gyfatebol yng Nghymru, y ceisiadau am gyllid i gleifion unigol, sy'n agored i bobl â phob cyflwr, nid yn unig y rhai sy'n dioddef o ganser, derbynnir mwy na hanner y ceisiadau. Mae'r gronfa cyffuriau cancer wedi gwneud pethau'n waeth i bobl yn Lloegr mewn gwirionedd, nid yn well. Mae gennym gronfa a sefyllfa yng Nghymru sy'n ei gwneud yn llawer gwell a haws i bobl yng Nghymru gael cymeradwyaeth a chyllid ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan NICE. Rydym yn gwybod cymaint â hynny. Mae pobl yn Lloegr yn cael eu hysbysu y gallant gael cyffuriau o ganlyniad i'r gronfa cyffuriau cancer, ac eto rydym yn gwybod y bydd mynediad at y cyffuriau hynny yn cael ei wrthod iddynt. Yng Nghymru, rydym yn gwario —[Torri ar draws.]

Rwy'n gwybod bod hyn yn boenus iddyn nhw, ond pe byddent yn gwranddo, efallai y byddant yn dysgu rhywbeth. [Torri ar draws.] Yng Nghymru, rydym yn gwario £12 y pen yn fwy ar driniaeth cancer na'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, hyd yn oed gyda'r gronfa cyffuriau cancer. Y gwir amdani yw bod gan bobl well mynediad at gyffuriau nad ydynt wedi eu cymeradwyo gan NICE yng Nghymru, a'r gwirionedd yw, nid yw pobl yng Nghymru sydd â dementia a chlefyd y galon, a phobl sy'n dioddef o strôc a sglerosis ymledol, yn cael gwrthod mynediad at gyffuriau, fel y maen nhw yn Lloegr, gan nad oes cronfa benodol ar eu cyfer. Dywedaf wrth y blaid gyferbyn: Cewch bregethu wrthym ni pan fydd eich Llywodraeth yn Llundain yn gwario cymaint ar driniaeth cancer â Llywodraeth Cymru. Rydych chi'n siomi pobl Lloegr. [Aelodau Cynulliad: 'O']

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I realise that passions are raised by this subject, but the way that question time works is that you ask the questions, the First Minister answers them, and you listen to the answers, otherwise we have no meaningful exchange. There is far too much muttering, at times, during the replies. I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Trefn. Rwy'n sylweddoli bod y pwnc hwn yn codi gwrychyn pobl, ond y ffordd y mae'r sesiwn holi ac ateb yn gweithio yw eich bod chi'n gofyn y cwestiynau, mae'r Prif Weinidog yn eu hateb, ac rydych chi'n gwranddo ar yr atebion, fel arall, nid oes gennym unrhyw drafodaeth ystyrlon. Mae llawer gormod o fwmial ar adegau, yn ystod yr atebion. Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. First Minister, the Deputy Prime Minister has announced that all reception, year 1 and year 2 primary pupils in England will be entitled to a free hot meal at lunch time. Will you commit your Government to doing the same here in Wales?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi y bydd gan bob disgybl cynradd dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn Lloegr hawl i gael pryd o fwyd poeth am ddim yn ystod amser cinio. A wnewch chi ymrwmo eich Llywodraeth chi i wneud yr un peth yma yng Nghymru?

- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 We make provision for all primary school children, not just those in infant school, to be provided with a free breakfast: something that I know that she opposed bitterly for many years.
- 13:49 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 First Minister, the evidence shows that offering a free school meal for all infant pupils takes away the stigma that some people associate with claiming free school meals, it ensures the children have a nutritious meal, and it saves hard-pressed families approximately £400 a year. Will you agree that a policy that tackles social stigma, improves nutrition and helps family budgets is one that is worth considering?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 If it tackles social stigma, why keep it only to infant schools? Why not extend it to primary schools, or, indeed, to secondary schools? If that is the issue—and I understand the point that is being made—it makes no sense just to keep it for the younger children. There is the sound of a door creaking open above me; I do not know whether you can hear that.
- I have to say that the arguments that she has put forward on behalf of free school lunches are the very arguments that we put forward as a Government in favour of free school breakfasts, and she opposed and did not accept those arguments at the time. Now, the evidence does show, as we have demonstrated in years gone by—we have shown that evidence to the Assembly and to the Welsh public—that the provision of a free school breakfast helps a child to learn during the course of the day. So, my argument would be that we already provide free school meals in Wales, and have done for many years. This is something that, in reality, your party has copied from us.
- 13:51 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 First Minister, not everybody can access a free school breakfast. All children are in school at lunch time. On top of the benefits that I have just mentioned, evidence from independent reviews showed that, where all children were given a free school lunch, those students were academically months ahead of their peers elsewhere. Crucially, it showed a bigger improvement in performance among pupils from more deprived households. Is that not why the Children's Society, Child Poverty Action Group and Barnardo's all agree with me and with parents the length and breadth of Wales that this is the right thing for the Welsh Government to do?

Rydym yn darparu ar gyfer yr holl blant ysgol gynradd, nid dim ond y rhai mewn ysgolion babanod, i dderbyn brecwast am ddim: rhywbeth rwy'n gwybod ei bod hi wedi ei wrthwynebu'n chwerw ers blynyddoedd lawer.

Brif Weinidog, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl babanod yn cael gwared ar y stigma y mae rhai pobl yn ei gysylltu â hawlio prydau ysgol am ddim, mae'n sicrhau bod y plant yn cael pryd o fwyd maethlon, ac mae'n arbed tua £400 y flwyddyn i deuluoedd sy'n brin o arian. A wneuch chi gytuno bod polisi sy'n mynd i'r afael â stigma cymdeithasol, yn gwella maeth ac yn helpu cyllidebau teuluoedd yn un sy'n werth ei ystyried?

Pam ei gadw i ysgolion babanod yn unig os yw'n mynd i'r afael â stigma cymdeithasol? Pam ddim ei ymestyn i ysgolion cynradd, neu, yn wir, i ysgolion uwchradd? Os mai dyna'r broblem—ac rwy'n deall y pwynt sy'n cael ei wneud—nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i'w gadw ar gyfer y plant iau yn unig. Mae sŵn drws yn gwichian ar agor uwch fy mhen; nid wyf yn gwybod a allwch chi glywed hynny.

Mae'n rhaid i mi ddweud mai'r dadleuon y mae hi wedi eu rhoi dros ginio ysgol am ddim yw'r union ddadleuon a gyflwynwyd gennym ni fel Llywodraeth o blaid brecwast am ddim mewn ysgolion, ac a wrthwynebwyd ganddi hi ac nid oedd hi'n derbyn y dadleuon hynny ar y pryd. Nawr, mae'r dystiolaeth yn dangos, fel rydym ni wedi ei ddangos yn y gorffennol—rydym ni wedi dangos y dystiolaeth honno i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd yng Nghymru—bod darparu brecwast ysgol am ddim yn helpu plentyn i ddysgu yn ystod y dydd. Felly, fy nadl i fyddai ein bod eisoes yn darparu prydau ysgol am ddim yng Nghymru, ac rydym wedi gwneud hynny ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn rhywbeth, mewn gwirionedd, y mae eich plaid chi wedi ei gopïo oddi wrthym ni.

Brif Weinidog, nid yw brecwast ysgol am ddim ar gael i bawb. Mae pob plentyn yn yr ysgol yn ystod amser cinio. Yn ogystal â'r buddion yr wyf newydd eu crybwyll, mae dystiolaeth o adolygiadau annibynnol wedi dangos, lle rhoddwyd cinio ysgol am ddim i bob plentyn, bod y myfyrwyr hynny fisoedd o flaen eu cyfoedion mewn mannau eraill yn academaidd. Yn hanfodol, roedd yn dangos mwy o welliant i berfformiad ymhlith disgyblion o gartrefi mwy difreintiedig. Ai nid dyna pam mae Cymdeithas y Plant, y Grŵp Gweithredu ar Dlodï Plant a Barnardo's i gyd yn cytuno â mi a chydâ rhieni ym mhob cwr o Gymru mai dyma'r peth iawn i Lywodraeth Cymru ei wneud?

13:52

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We seem to be arguing, ultimately, about breakfast or lunch. There is a wealth of evidence that suggests that a free school breakfast does the same thing, along the same lines. The reality is that we cannot have free school breakfasts and a free school lunch; we know what the cost of that would be. We have an established free breakfast policy. The difference is that free breakfasts are available to all primary school children, whereas that would not be the case as far as free school lunches are concerned in England. So, I would argue that, actually, our policy is far more comprehensive than is the case with the policy in England.

Also, we do not know, because we have not been notified, what consequential there may be from this announcement, if there will be any consequential. So, it is very difficult, even leaving aside the debate that we have had here, to know what might be done, because we do not even know whether there will be a penny in it as far as Wales and Scotland are concerned.

**Cyflog Byw**

13:53

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cyflog byw yng Nghymru? OAQ(4)1225(FM)*

13:53

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We encourage employers to adopt a living wage as one of a range of positive actions to help to alleviate the problems caused by low wages.

13:53

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The debate on the concept of a living wage has moved forward and now embraces socialising corporatism. It is not just about wages; it is also about training and terms and conditions, to mention just two things. It is about creating a decent quality of life for people who do a full job. In contrast to the Tory race to the bottom, will the First Minister welcome the progressive statements from Ed Miliband outlining what is probably the most radical policy initiative for the UK since the great Labour Government of 1945?

13:53

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed I will. I think that it is exceptionally important that we strive to ensure that people have a living wage. It was a Labour Government that introduced the minimum wage in the teeth of opposition from the Conservatives and their claims that jobs would be lost and that it would be a disaster. They accept it now, and I welcome that. However, they certainly opposed it tooth and nail at the time.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n ymddangos ein bod yn dadlau, yn y pen draw, am frewcwast neu ginio. Ceir cyfoeth o dystiolaeth sy'n awgrymu bod brewcwast ysgol am ddim yn gwneud yr un peth, yr un math o beth. Y gwirionedd yw na allwn ni gael brewcwast ysgol am ddim a chinio ysgol am ddim; rydym yn gwybod beth fyddai cost hynny. Mae gennym bolisi brewcwast am ddim sydd wedi'i sefydlu. Y gwahaniaeth yw bod brewcwast am ddim ar gael i bob plentyn ysgol gynradd, ond na fyddai hynny'n wir o safbwynt cinio ysgol am ddim yn Lloegr. Felly, byddwn yn dadlau bod ein polisi ni, mewn gwirionedd, yn llawer mwy cynhwysfawr na'r hyn sy'n wir am y polisi yn Lloegr.

Hefyd, nid ydym yn gwybod, gan nad ydym wedi cael ein hysbysu, pa ganlyniadau allai ddod o'r cyhoeddiad hwn, a pha un a fydd unrhyw ganlyniadau. Felly, mae'n anodd iawn, hyd yn oed gan roi'r ddadl yr ydym ni wedi ei chael yma o'r neilltu, gwybod yr hyn y gellid ei wneud, gan nad ydym hyd yn oed yn gwybod a fydd ceiniog ar gael cyn belled ag y mae Cymru a'r Alban yn y cwestiwn.

**Living Wage**

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy for the establishment of a living wage in Wales? OAQ(4)1225(FM)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn annog cyflogwyr i fabwysiadu cyflog byw fel un o amrywiaeth o gamau cadarnhaol i helpu i liniaru'r problemau a achosir gan gyflogau isel.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r ddadl am y syniad o gyflog byw wedi symud ymlaen ac mae'n cynnwys cymdeithasu corfforaetholdeb bellach. Nid yw'n ymwneud â chyflogau yn unig; mae hefyd yn ymwneud â hyfforddiant a thelerau ac amodau, i enwi dim ond dau beth. Mae'n ymwneud â chreu ansawdd bywyd da i bobl sy'n gwneud swydd lawn. Yn wahanol i ras i'r gwaelod y Torïaid, a wnaiff y Prif Weinidog groesawu'r datganiadau blaengar gan Ed Miliband yn amlinellu'r hyn, y mae'n debyg, yw'r fenter polisi fwyaf radical ar gyfer y DU ers Llywodraeth Lafur ardderchog 1945?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf yn wir. Credaf ei bod yn eithriadol o bwysig ein bod yn ymdrechu i sicrhau bod pobl yn cael cyflog byw. Llywodraeth Lafur a gyflwynodd yr isafswm cyflog yn wyneb gwrthwynebiad y Ceidwadwyr a'u honiadau y byddai swyddi'n cael eu colli ac y byddai'n drychineb. Maen nhw'n ei dderbyn erbyn hyn, ac rwy'n croesawu hynny. Fodd bynnag, fe'i gwrthwynebydd ganddynt â'u holl nerth ar y pryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The next step, of course, is the living wage. When all is said and done, we are one of the richest countries in the world, despite the best efforts of the Tories and the Lib Dems, and therefore it cannot be right that we should shy away from the issue of ensuring that people have the ability to have a wage on which they can live.

Y cam nesaf, wrth gwrs, yw'r cyflog byw. Yn y pen draw, ni yw un o wledydd cyfoethocaf y byd, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Torïaid a'r Democratïaid Rhyddfrydol, ac felly ni all fod yn iawn y dylem osgoi'r mater o sicrhau bod y gallu gan bobl i gael cyflog y gallant fyw arno.

13:54 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n deall bod eich Llywodraeth wedi sefydlu grŵp polisi dros yr haf i edrych ar y cyflog byw yng Nghymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am waith y grŵp hwn ac amlinellu'r camau nesaf?

First Minister, I understand that your Government has established a policy group over the summer to look at a living wage in Wales. Can you give us an update on the work of that group and outline the next steps?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n iawn. Yr hyn mae'r grŵp yn ei gwneud yw edrych ar ba ymchwil a thystiolaeth sydd eu heisiau er mwyn symud ymlaen â'r tal ei hun. Mae hefyd yn edrych ar ba rwystrau sydd o ran sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly, mae'n bwysig dros ben, er nad yw tâl ei hunan wedi ei ddatganoli, ein bod yn gallu gweithio gyda'r comisiwn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen gyda'r tal hwn yn y dyfodol.

You are quite right. What the group is doing is looking at what research and evidence is required in order to move forward with the wage itself. It is also looking at what obstacles exist that might stop this from happening. So, it is extremely important, although pay itself is not devolved, that we can work with the commission to ensure that we can progress this wage in future.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether you provide any guidance for Government-funded bodies that have contracts with the public sector. We are led to understand that some such bodies provide zero-hour contracts for members of staff and I wondered, if you are aware of such contracts, whether you could write to me with those details.

Weinidog, tybed a ydych chi'n darparu unrhyw ganllawiau ar gyfer cyrff a ariennir gan y Llywodraeth sydd â chontractau gyda'r sector cyhoeddus. Rydym ni wedi cael ar ddeall bod rhai cyrff o'r fath yn darparu contractau dim oriau i aelodau staff ac roeddwn i'n meddwl, os ydych chi'n ymwybodol o gontractau o'r fath, tybed a allech chi ysgrifennu ataf gyda'r manylion hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As far as direct employees of the Welsh Government are concerned, there is nobody on a zero-hour contract, and nobody who is not being paid the living wage. With regard to other parts of the public sector, I did ask the workforce partnership council yesterday to accept the living wage as something that it would be looking at, and it certainly accepted that, and that work will now be taken forward by it to look at the living wage as part of an overall employment deal, not just in terms of payment—that is important—but the whole package of employment. The workforce partnership council covers the public sector only, but, nevertheless, the council will now be moving forward with this work in the future.

Cyn belled ag y mae cyflogeion uniongyrchol Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn, nid oes unrhyw un ohonynt ar gontract dim oriau, ac nid oes unrhyw un nad yw'n derbyn y cyflog byw. O ran rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, gofynnais i gyngor partneriaeth y gweithlu ddoe dderbyn sic cyflog byw fel rhywbeth y byddai'n ei ystyried, ac mae'n sic iddo dderbyn hynny, a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu ganddo nawr i ystyried y cyflog byw fel rhan o gytundeb cyflogaeth cyffredinol, nid yn unig o ran tâl—mae hynny'n bwysig—ond y pecyn cyflogaeth cyfan. Mae cyngor partneriaeth y gweithlu yn cynnwys y sector cyhoeddus yn unig, ond, serch hynny, bydd y cyngor yn bwrw ymlaen nawr â'r gwaith hwn ar gyfer y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Yr Uned Gyflawni

## Delivery Unit

13:56 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r targedau a'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr Uned Gyflawni yn ei werthusiad o broses cyflawni polisiau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1234(FM)*

*4. Will the First Minister outline the targets and KPIs set for the Delivery Unit in its evaluation of the delivery of Welsh Government policies? OAQ(4)1234(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They are to be found in the programme for government.

Maent i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:56 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, precise targets and key performance indicators are not available for the delivery unit. You said that the delivery unit would look at clear, measureable and transparent targets, and that you wanted to be able to evaluate at any given time to be sure that you were delivering against outcomes. Given that, what targets has your delivery unit set for health, where the urgent cancer treatment target has not been met for five years—presumably, that is in your programme for government? The ambulance response time targets have not been met for 15 months—presumably, they are in your programme for government. The accident and emergency waiting targets have not been met since 2009. Are the delivery unit targets different from those targets?
- Brif Weinidog, nid oes targedau manwl a dangosyddion perfformiad allweddol ar gael ar gyfer yr uned gyflawni. Dywedasoch y byddai'r uned gyflawni yn edrych ar dargedau eglur, mesuradwy a thryloyw, ac eich bod am allu gwerthuso ar unrhyw adeg benodol i fod yn sicr eich bod yn cyflawni yn erbyn canlyniadau. O gofio hynny, pa dargedau mae eich uned gyflawni wedi eu gosod ar gyfer iechyd, lle nad yw'r targed triniaeth canser frys wedi ei gyrraedd ers pum mlynedd—mae hynny yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu yn ôl pob tebyg? Ni chyrrhaeddwyd y targedau amser ymateb ambiwlansys ers 15 mis—maen nhw yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu yn ôl pob tebyg. Ni chyrrhaeddwyd y targedau aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ers 2009. A yw targedau'r uned gyflawni yn wahanol i'r targedau hynny?
- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- No.
- Nac ydynt.
- 13:57 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I am sure the delivery unit will want to assist you in keeping your Government pledges, and one of your election promises was to oversee a successful economy. I am sure that you would agree that it is vital for new businesses to be aided in driving innovation and creating jobs. So, what consideration have you given to the suggestions in the report 'Access to Finance Review' that the lack of support for start-ups must be remedied in Wales?
- Brif Weinidog, rwy'n siŵr y bydd yr uned gyflawni eisiau eich helpu i gadw addewidion eich Llywodraeth, ac un o'ch addewidion ar adeg yr etholiad oedd i oruchwyllo economi lwyddiannus. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn hanfodol i fusnesau newydd gael eu cynorthwyo i sbarduno arloesedd a chreu swyddi. Felly, pa ystyriaeth ydych chi wedi ei rhoi i'r awgrymiadau yn yr adroddiad 'Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru' bod yn rhaid datrys y diffyg cymorth ar gyfer dechrau busnesau newydd yng Nghymru?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- These are matters that the Minister is looking at at this moment in time. It is a question not just of assisting start-ups—there is assistance there, but it needs to be measured very carefully—but of what help can be given with business rates, and you will be aware that the Minister will be making a statement on that particular issue in the course of this afternoon's proceedings.
- Mae'r rhain yn faterion y mae'r Gweinidog yn eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'n gwestiwn nid yn unig o helpu pobl i gychwyn busnesau newydd—mae cymorth ar gyfer hynny, ond mae angen ei fesur yn ofalus iawn—ond o ba gymorth y gellir ei roi gydag ardrethi busnes, a byddwch yn ymwybodol y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar y mater penodol hwnnw yn ystod trafodion y prynhawn yma.
- 13:58 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, as you will be aware, recently the UK Committee on Climate Change had cause to note the fact that Wales was falling behind the rest of the UK in terms of the renewable energy scheme deployment. What assessment has your delivery unit made of this fact in relation to your Government's wider targets in this area? What recommendations has the delivery unit made in terms of having greater progress in this area?
- Brif Weinidog, fel y gwyddoch, yn ddiweddar, bu'n rhaid i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd nodi'r ffaith bod Cymru yn disgyn y tu ôl i weddill y DU o ran defnyddio'r cynllun ynni adnewyddadwy. Pa asesiad y mae eich uned gyflawni wedi ei wneud o'r ffaith hon o ran targedau ehangach eich Llywodraeth yn y maes hwn? Pa argymhellion mae'r uned gyflawni wedi eu gwneud o ran cael mwy o gynnydd yn y maes hwn?

13:59

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Devolution of renewables obligation certificates and executive consents over energy projects have both been turned down flat by the UK Government. We cannot expect to make the progress that we would want to make without the proper levers. If you look at Scotland, for example, it has indeed done very well in terms of attracting marine energy offshore. The situation in Wales is more promising in terms of the geography, but the reality is that the Scots can offer more money than we can through subsidy, and they can do that because they control the renewables obligation certificates. If we had control over the ROCs we would be in a position to offer an attractive package to future developers, but, unfortunately, that has been denied us.

Mae datganoli tystysgrifau rhwymedigaeth a chydysniadau gweithredol ynni adnewyddadwy dros brosiectau ynni wedi cael ei wrthod yn bendant gan Lywodraeth y DU. Ni allwn ddisgwyl gwneud y cynnydd y byddem yn dymuno ei wneud heb y pwerau priodol. Os edrychwch chi ar yr Alban, er enghraifft, mae wedi gwneud yn dda iawn o ran denu ynni morol ar y môr. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn fwy addawol o ran y ddaearyddiaeth, ond y gwir amdani yw y gall yr Albanwyr gynnig mwy o arian trwy gymorthdaliadau nag y gallwn ni, a gallant wneud hynny oherwydd eu bod yn rheoli'r tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy. Pe byddai gennym reolaeth dros dystysgrifau, byddem mewn sefyllfa i gynnig pecyn deniadol i ddatblygwyr yn y dyfodol, ond, yn anffodus, gwrthodwyd hynny i ni.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Mynd i'r Afael â Thlodi**

**Tackling Poverty**

13:59

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*5 A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi y tymor hwn? OAQ(4)1238(FM)*

*5. Will the First Minister outline his priorities for tackling poverty this term? OAQ(4)1238(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The tackling poverty action plan sets out in detail where we aim to make the biggest difference and includes measurable targets and milestones, which I know are well beloved by the party opposite. The Minister for Communities and Tackling Poverty and the Deputy Minister for Tackling Poverty are ensuring that the plan is closely monitored and is moving forward.

Gwnaf. Mae'r cynllun gweithredu ar dlodi yn nodi'n fanwl lle'r ydym yn bwriadu gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac mae'n cynnwys targedau a cherrig milltir mesuradwy, yr wyf yn gwybod y mae'r blaidd gyferbyn wrth eu boddau â nhw. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro'n agos ac yn symud yn ei flaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed, milestones are incredibly important, as I know you agree. The Joseph Rowntree Foundation has produced a report 'Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2013'. I am sure that you will be aware of it and the value it puts on the importance of job creation. One of the comments it makes is that research from the United States has shown that it is equally as important for people who are not in work to be offered work that is better paid and work that has more hours—they may only be in part-time work. Yet, the recently announced poverty action plan, launched by you earlier this year, concentrates much more on more hours rather than higher pay. I want to try to explore with you the reason behind that.

Yn wir, mae cerrig milltir yn anhygoel o bwysig, fel rwy'n gwybod eich bod yn cytuno. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi cynhyrchu adroddiad 'Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru 2013'. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol ohono a'r pwyslais y mae'n ei roi ar bwysigrwydd creu swyddi. Un o'r sylwadau y mae'n ei wneud yw bod ymchwil o'r Unol Daleithiau wedi dangos ei bod yr un mor bwysig i bobl nad ydynt mewn gwaith i gael cynnig gwaith sy'n talu'n well a gwaith sydd â mwy o oriau—efallai mai dim ond mewn gwaith rhan-amser y maen nhw. Eto i gyd, mae'r cynllun gweithredu ar dlodi a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac a lansiwyd gennych chi yn gynharach eleni, yn canolbwyntio llawer mwy ar fwy o oriau yn hytrach na chyflog uwch. Hoffwn geisio archwilio gyda chi y rheswm am hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that both are correct. We have said many times, and I have said in the Chamber many times, that the key to improving people's economic position in Wales is to ensure that they have the skills they need for the future. We know that if people have those skills they are able to access more hours of work should they wish and they are also able to access more in terms of salary. We are able to attract investment into Wales based on those skills—investment that quite often brings highly skilled, highly paid jobs with it. While we have the tackling poverty action plan, it runs very strongly with our policy of attracting investment into Wales and up-skilling our people so that they can improve their economic position in the future.

Rwy'n credu bod y ddau yn gywir. Rydym ni wedi dweud lawer gwaith, ac rwyf i wedi dweud yn y Siambr droeon, mai'r allwedd i wella sefyllfa economaidd pobl yng Nghymru yw sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Gwyddom, os yw'r sgiliau hynny gan bobl, y gallant gael mynediad at fwy o oriau gwaith os ydynt yn dymuno, ac maent hefyd yn gallu cael mynediad at fwy o ran cyflog. Gallwn ddenu buddsoddiad i Gymru yn seiliedig ar y sgiliau hynny—buddsoddiad sy'n aml yn dod â swyddi uchel o ran sgiliau a chyflogau yn ei sgil. Tra bod y cynllun gweithredu trechu tlodi gennym ni, mae'n rhedeg yn gryf iawn â'n polisi o ddenu buddsoddiad i Gymru ac uwchsgilio ein pobl fel y gallant wella eu sefyllfa economaidd yn y dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the First Minister agree that the biggest impact on poverty in Wales is caused by the UK Government's welfare cuts, such as the bedroom tax? Does he also agree with me that the impact of the latest proposals of the UK Government to make claimants sign in at job centres on a daily basis could mean that many of my constituents would have to pay more than half their benefit in travel costs?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai achos yr effaith fwyaf ar dlodi yng Nghymru yw toriadau lles Llywodraeth y DU, fel y dreth ystafell wely? A yw hefyd yn cytuno â mi y gallai effaith cynigion diweddaraf Llywodraeth y DU i orfodi hawlwrwr i fynychu canolfannau gwaith bob dydd olygu y byddai'n rhaid i lawer o'm hetholwrwr dalu mwy na hanner eu budd-dal mewn costau teithio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, is the First Minister aware that today the Prime Minister has said that he does not know the price of a loaf of bread because he uses a breadmaker? I think that the breadmaker is called Clegg. Does the First Minister agree with me that the clear message going out from the UK Government to those in poverty is that they should buy a breadmaker?

Yn olaf, a yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol bod Prif Weinidog y DU wedi dweud heddiw nad yw'n gwybod beth yw pris torth o fara oherwydd ei fod yn defnyddio gwneuthurwr bara? Rwy'n credu mai Clegg yw enw'r gwneuthurwr bara. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi bod y neges eglur sy'n cael ei chyfleu gan Lywodraeth y DU i'r rhai sydd mewn tlodi yw y dylent brynu gwneuthurwr bara?

14:02

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

'Give us this day our daily bread' says the Lord's Prayer. That is not something that the UK Government is providing for the vast majority of people. 'Give us this day our daily breadmaker' sounds more like it. However, I think the point is a serious one, and it is this: with the bedroom tax—[Interruption.] What is the price of a loaf of bread? It depends what type it is. It varies between 60p and £2.50, depending on where you buy it and what type of bread it is. It is like asking what the price of a car is. [Interruption.]

'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol' meddai Gweddi'r Arglwydd. Nid yw hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth y DU yn ei ddarparu ar gyfer y mwyafrif llethol o bobl. Mae 'Dyro i ni heddiw ein gwneuthurwr bara beunyddiol' yn fwy agos ati. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y pwynt yn un difrifol, a dyma fe: o ran y dreth ystafell wely— [Torri ar draws.] Beth yw pris torth o fara? Mae'n dibynnu pa fath o dorth yw hi. Mae'n amrywio rhwng 60c a £2.50, yn dibynnu ar ble yr ydych chi'n ei phrynu a pha fath o fara yw e. Mae fel gofyn beth yw pris car. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The hubbub has now got to the scale where I cannot hear what is going on. I do know the price of bread, so I did not need that information. First Minister, you really should not react to sedentary comments, ever.

Trefn. Mae'r bwrlwm wed cynyddu gymaint bellach fel na allaf glywed yr hyn sy'n digwydd. Rwyf yn gwybod beth yw pris bara, felly nid oedd angen y wybodaeth honno arnaf. Brif Weinidog, ni ddylech ymateb i sylwadau gan rai sy'n eistedd, byth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As somebody who is often told by people in Bridgend, 'It's nice to see you out shopping in the local shops', that is something that I am more than familiar with. I am given the task, when I am free, to go shopping, so I am familiar with the price of bread and litres of milk.

Fel rhywun sy'n clywed pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dweud yn aml, 'Mae'n braf eich gweld chi allan yn siopa yn y siopau lleol', mae hynny'n rhywbeth rwy'n fwy na chyfarwydd ag ef. Rwy'n cael y dasg, pan fyddaf yn rhydd, o fynd i siopa, felly rwy'n gyfarwydd â phris bara a litrau o laeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The serious point here is this: there are people who will be suffering as a result of these benefit cuts. The point that the Member for the Rhondda makes about travel costs is a serious point. People will now have to lose money in order to sign in, for no apparent purpose or reason; it will not help them to get jobs and to reduce the number of people who are unemployed. It is the same with the idea that people who are long-term unemployed should be made to work. That is an argument that many people in Wales would find attractive, I understand that, but it is not an attractive argument if it means that those people would be doing work that people who are paid to do it can no longer do, and they lose their jobs as a result. We know from the bedroom tax and the benefit cuts that the reality is that the message the Tories and the Lib Dems are trying to project is that people who are unemployed have only themselves to blame. That is what they are saying. The people who are being made redundant—it is their own fault. The people who lose their jobs because of the economic conditions created by the UK Government—it is their fault. That is the narrative that they are trying to construct, but the reality is that none of them understands the true cost on individuals and families in Wales of the benefit cuts that their Government is taking forward.

Y pwynt difrifol yma yw hyn: mae yna bobl a fydd yn dioddef o ganlyniad i'r toriadau hyn i fudd-daliadau. Mae'r pwynt y mae'r Aelod dros y Rhondda yn ei wneud am gostau teithio yn bwynt difrifol. Bydd yn rhaid i bobl golli arian bellach er mwyn mynd i'r ganolfan byd gwaith, am ddim pwrpas na rheswm amlwg; ni fydd yn eu helpu i gael swyddi a lleihau nifer y bobl sy'n ddi-waith. Mae yr un fath â'r syniad y dylai pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir gael eu gorfodi i weithio. Mae honno'n ddadl a fyddai'n ddeniadol i lawer o bobl yng Nghymru, rwy'n deall hynny, ond nid yw'n ddadl ddeniadol os yw hynny'n golygu y byddai'r bobl hynny yn gwneud gwaith nad yw pobl sy'n cael eu talu i'w wneud yn gallu ei wneud mwyach, a'u bod yn colli eu swyddi o ganlyniad. Rydym yn ymwybodol yn sgil y dreth ystafell wely a'r toriadau i fudd-daliadau mai'r gwir yw mai'r neges y mae'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio ei chyfleu yw mai pobl sy'n ddi-waith sydd ar fai am hynny eu hunain. Dyna beth maen nhw'n ei ddweud. Y bobl sy'n cael eu diswyddo—eu bai nhw eu hunain yw hynny. Y bobl sy'n colli eu swyddi oherwydd yr amodau economaidd a grëwyd gan Lywodraeth y DU—nhw sydd ar fai. Dyna'r naratif maen nhw'n ceisio ei greu, ond y gwir amdani yw nad oes yr un ohonynt yn deall gwir gost y toriadau i fudd-daliadau y mae eu Llywodraeth yn bwrw ymlaen â nhw i unigolion a theuluoedd yng Nghymru.

## Comisiynydd y Gymraeg

## Welsh Language Commissioner

14:04

### Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waith Comisiynydd y Gymraeg? OAQ(4)1231(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the work of the Welsh Language Commissioner? OAQ(4)1231(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:04

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The commissioner has a key role to play in strengthening the position of the Welsh language and in promoting and facilitating its use. The commissioner's first annual report was laid before the Assembly last week, and I will be leading a debate on the report before the end of the month.

Mae gan y comisiynydd swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran cryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol cyntaf y comisiynydd i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf, a byddaf yn arwain dadl ar yr adroddiad cyn diwedd y mis.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:05

### Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the row over proposals to change the spelling of Varteg in my constituency will not have escaped your attention. I think that it is desperately sad that, when so much hard work and investment has gone into promoting the language in places like Torfaen, this clumsy intervention has served once again to drive a wedge between Welsh-speaking and non-Welsh-speaking communities. First Minister, will you listen to the people of Varteg who overwhelmingly do not want this change? More widely, will you look at this wider programme of activity to see whether the budget of the Welsh Language Commissioner could not be better spent positively promoting the language rather than henpecking already hard-pressed communities?

Rwy'n siŵr na fydd y ffræ dros gynigion i newid sillafiad Farteg yn fy etholaeth wedi dianc eich sylw. Rwy'n meddwl ei bod yn drist ofnadwy, pan fo cymaint o waith caled a buddsoddiad wedi mynd at hyrwyddo'r iaith mewn lleoedd fel Torfaen, bod yr ymyriad trwsgl hwn wedi creu hollt rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg eu hiaith unwaith eto. Brif Weinidog, a wnewch chi wrando ar bobl Farteg nad yw'r mwyafrif llethol ohonynt eisiau'r newid hwn? Yn fwy cyffredinol, a wnewch chi ystyried y rhaglen ehangach hon o weithgareddau i weld a oes modd gwario cyllideb Comisiynydd y Gymraeg yn well yn hyrwyddo'r iaith mewn ffordd gadarnhaol yn hytrach na phigo ar gymunedau sydd eisoes dan bwysau?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



14:05

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that we have to be practical and pragmatic about these things. Some years ago, the late Dr Phil Williams, who was a Member in the Chamber, as many of us will remember, picked out Varteg precisely as an example of where it would not, perhaps, be sensible to use the correct Welsh spelling, for obvious reasons.

He picked out other communities; for example, he wondered whether the good people of Sully wanted to be described as living in 'Sili', which is the translation. He picked out the Welsh for Usk, which, when mispronounced, is a very unfortunate mispronunciation. He also made reference to the fact that the village of Beguildy, in Radnorshire, was called 'Bugeildy'. It was mispronounced as 'bug-eildy' over the years and the children were called 'Bugeildy bugs', and an 'e' was put into the spelling of the village name instead of the 'u'. I think that the reality is that, as a bilingual nation, we have to be sensitive to the misinterpretations that can be put on certain spellings. A practical approach would, I think, be welcomed by your constituents.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn ymarferol a phragmataidd am y pethau hyn. Rai blynyddoedd yn ôl, dewiswyd Farteg gan y diweddar Dr Phil Williams, a oedd yn Aelod yn y Siambr, fel y bydd llawer ohonom yn cofio, fel union enghraifft o le na fyddai, efallai, yn ddoeth i ddefnyddio'r sillafiad Cymraeg cywir, am resymau amlwg.

Nododd gymunedau eraill; er enghraifft, meddyliodd tybed a yw pobl Sully yn awyddus i gael ei ddisgrifio fel pobl sy'n byw yn 'Sili', sef y cyfieithiad. Nododd y Gymraeg ar gyfer Usk, sydd, pan gaiff ei ynganu'n anghywir, yn gamynganiad anffodus iawn. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith mai 'Bugeildy' yw enw Beguildy, yn Sir Faesyfed. Fe'i camynganwyd fel 'bug-eildy' dros y blynyddoedd a galwyd y plant yn 'Bugeildy bugs', a rhoddwyd 'e' yn sillafiad enw'r pentref yn hytrach na 'u'. Credaf mai'r gwirionedd yw bod yn rhaid i ni fod yn sensitif, fel cenedl ddwyieithog, i'r camddehongliadau sy'n deillio o ffyrdd penodol o sillafu. Byddai dull ymarferol yn cael ei groesawu gan eich etholwyr, rwy'n credu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:06

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cymeradwyo'r comisiynydd ar ei gwaith i annog defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y sector preifat, yn enwedig y gwaith gyda Google i ddatblygu fersiwn Gymraeg o Gmail, sy'n gweithredu ledled y byd, wrth gwrs. A ydych yn ystyried bod adolygiad barnwrol yn arf defnyddiol i annog sefydliadau di-Gymraeg i ddefnyddio mwy o Gymraeg?

First Minister, I am sure that you would applaud the commissioner on her work in encouraging wider use of the Welsh language in the private sector, particularly the work with Google to develop a Welsh version of Gmail, which operates throughout the world, of course. Do you believe that judicial review is a useful tool to encourage non-Welsh-speaking institutions to make more use of the language?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:07

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ydw; dyna beth yw'r gyfraith. Cafodd y gyfraith honno ei phasio yn y Siambr, felly mae'n bwysig dros ben bod y comisiynydd yn gallu ei defnyddio. Pe na byddai'n defnyddio'r gyfraith i wneud hynny, beth, felly, oedd pwynt cefnogi'r Mesur pan oedd o flaen y Cynulliad?

Yes, I do; that is the law. That law was passed in the Chamber, therefore it is exceptionally important that the commissioner can make use of it. If she cannot use that law to do that, what, therefore, was the point of supporting the Measure when it came before the Assembly?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:07

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, roedd tua 500 o fechgyn yn yr ysgol yr oeddwn ynddi—ysywaeth, roedd y merched mewn ysgol ar wahân. O'r 500 o fechgyn hynny, dim ond dau ohonom i mi wybod sydd wedi llwyddo i ddysgu'r Gymraeg. Rwyf innau'n meddwl, fel Sioned Davies yn ei hadroddiad i chi, fod caffael y Gymraeg fel ail iaith yn hollbwysig i greu cymdeithas ddwyieithog, fel yr ydych newydd ei awgrymu. Pa gamau fyddwch yn eu cymryd, fel Llywodraeth, i ymateb i adroddiad Sioned Davies? Beth fyddwch yn ei wneud i weddnewid y ffaith nad yw dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn llwyddo yn ein hysgolion ar hyn o bryd?

First Minister, in the school that I attended there were some 500 boys—unfortunately, the girls were in a separate school. Of those 500 boys, only two of us whom I know of have succeeded to learn the Welsh language. I believe, as Sioned Davies pointed out in her report to you, that acquiring the Welsh language as a second language is crucial in creating a bilingual society, as you have just suggested. What steps will you take as a Government to respond to Sioned Davies's report? What will you do to transform the fact that the teaching of Welsh as a second language is not succeeding in our schools at present?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:08	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rwy'n cydymdeimlo â'r Aelod am y ffaith ei fod wedi mynd i ysgol Aberdâr, achos dim ond bechgyn oedd yn mynd yno—nid wyf yn gwybod os mai cael merched yn yr ysgol yw'r ateb i sicrhau bod mwy o fechgyn yn dysgu'r Gymraeg. Rydym wedi derbyn yr adroddiad, ac rydym am ystyried beth yw'r ymateb mwyaf cadarn i'r adroddiad hwnnw. Mae'n wir i ddweud bod gwaith i'w wneud i hybu mwy o oedolion yn enwedig i ddysgu'r Gymraeg, ac i sicrhau eu bod yn dal i ddysgu'r Gymraeg—fel nad ydynt yn dechrau cwrs ac yn rhoi gorau i'r cwrs hwnnw. Byddwn yn ystyried yr adroddiad a bydd ymateb yn cael ei wneud mewn amser.</p>	<p>I sympathise with the Member because he went to Aberdare's boys-only school—I do not know whether having girls in a school would be the answer to ensuring that more of the boys learn the Welsh language. We have just received the report, and we have to consider what the most robust response to that report should be. It is true to say that there is work to be done in encouraging more adults to learn Welsh, and to ensure that they continue with their studies—so that they do not start a course and drop it later on. We will be considering the report and there will be a response in due course.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:08	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn gynharach eleni, gwnaethoch addo cynnal adolygiad o effaith gwariant pob adran ar yr iaith Gymraeg. Dywedodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr iaith Gymraeg ar y pryd fod swyddogion yn edrych ar ddull cynnal yr adolygiad hwnnw. A yw'r adolygiad wedi'i gwblhau? A fyddwch yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad cyn i'r gyllideb gael ei thrafod?</p>	<p>Earlier this year, you promised to hold a review of the impact of the expenditure of all departments on the Welsh language. The Minister responsible for the Welsh language at that time said that officials were looking at how that review should be conducted. Has that review been completed? Will you be publishing the outcome of that review before the budget is discussed?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:09	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid yw'r adolygiad wedi cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn ôl beth yr wyf yn ei ddeall. Wrth gwrs, os bydd yr adolygiad yn un sy'n berthnasol o ran y ffordd y mae arian yn cael ei hala yn y lle hwn, byddwn, fel Llywodraeth, yn ystyried unrhyw argymhellion er mwyn eu cymryd ymlaen.</p>	<p>The review is not complete at present, as I understand it. Of course, if the review is relevant as regards the way that money is spent in this place, then we, as a Government, will consider any recommendations in order to take them forward.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Gofal Plant</b></p>		<p><b>Childcare</b></p>	
14:09	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>7. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofal plant ar gael yn fwy hwylus i rieni sy'n gweithio? OAQ(4)1224(FM)</i></p>	<p><i>7. What plans does the Welsh Government have to make childcare more easily available for working parents? OAQ(4)1224(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:09	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Our priorities for childcare are set out in 'Building a Brighter Future: Early Years and Childcare Plan'.</p>	<p>Nodir ein blaenoriaethau ar gyfer gofal plant yn 'Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:09	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the First Minister for that response. Following Ed Miliband's announcement at the Labour conference that when there is a Labour Government in Westminster there will be 10 additional hours of free care in England, and all schools will open from 8 a.m. until 6 p.m. Would he anticipate that there would be a Barnett consequential from these plans, and what would he plan to do to increase childcare?</p>	<p>Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Yn dilyn cyhoeddiad Ed Miliband yng nghynhadledd y Blaid Lafur, y bydd 10 awr ychwanegol o ofal am ddim yn Lloegr pan fydd Llywodraeth Lafur yn San Steffan, ac y bydd pob ysgol ar agor o 8 a.m. tan 6 p.m., a fyddai'n rhagweld y byddai elfen ganlyniadol Barnett o'r cynlluniau hyn, a beth fyddai'n bwriadu ei wneud i gynyddu gofal plant?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:10	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, I would anticipate there being a Barnett consequential, because, of course, this is a devolved area of responsibility. Of course, we would seek to build on what we are already doing in Wales as a Government. We would look at any new plans in England with interest to see how they can build on the foundations that we have already laid in Wales.</p>	<p>Byddwn, byddwn yn rhagweld y byddai elfen ganlyniadol Barnett, oherwydd, wrth gwrs, mae hwn yn faes cyfrifoldeb sydd wedi ei ddatganoli. Wrth gwrs, byddem yn ceisio adeiladu ar yr hyn yr ydym ni'n ei wneud eisoes yng Nghymru fel Llywodraeth. Byddem yn edrych ar unrhyw gynlluniau newydd yn Lloegr yn eiddgar i weld sut y gallant adeiladu ar y sylfeini rydym ni eisoes wedi eu gosod yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:10	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, the UK Government has introduced a new childcare business grant scheme to encourage and support the starting up of new childcare businesses in England by providing a start-up grant. Will the First Minister consider introducing a similar scheme in Wales to increase the number of childcare places available here?</p>	<p>Brif Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynllun grant busnes gofal plant newydd i annog a chefnogi busnesau gofal plant newydd i gael eu cychwyn yn Lloegr trwy ddarparu grant cychwyn busnes. A wnaiff y Prif Weinidog ystyried cyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yma?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>This is, of course, part of the early years and childcare plan. The Member will find details of what is planned in that plan.</p>	<p>Mae hyn, wrth gwrs, yn rhan o gynllun y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gall yr Aelod dod o hyd i fanylion yr hyn a fwriedir yn y cynllun hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>When your party leader outlined the plan in England for schools to be open from 8 a.m. until 6 p.m., he also said that they would be enshrining that in law. Do you intend to enshrine childcare in law in Wales?</p>	<p>Pan amlinellodd arweinydd eich plaid gynllun yn Lloegr i ysgolion fod ar agor o 8 a.m. tan 6 p.m., dywedodd hefyd y byddent yn ymgorffori hynny yn y gyfraith. A ydych chi'n bwriadu ymgorffori gofal plant yn y gyfraith yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is not something that we have considered hitherto. We have preferred to take a different approach including, of course, ensuring that there is funding available. Of course, we will study any options in order to strengthen the provision of childcare in Wales. It is important that if there is to be a legal obligation imposed the finance follows. That is something that we would need to consider very carefully, should we decide to go down the same path in Wales.</p>	<p>Nid yw'n rhywbeth yr ydym ni wedi ei ystyried hyd yn hyn. Mae wedi bod yn well gennym ddefnyddio gwahanol ddull gan gynnwys, wrth gwrs, sicrhau bod arian ar gael. Wrth gwrs, byddwn yn astudio unrhyw opsiynau er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth o ofal plant yng Nghymru. Os cyflwynir rhwymedigaeth gyfreithiol, mae'n bwysig bod y cyllid yn dilyn. Mae hynny'n rhywbeth y byddai angen i ni ei ystyried yn ofalus iawn, pe byddem yn penderfynu dilyn yr un llwybr yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Prosiectau Adfywio</b>		<b>Regeneration Projects</b>	
14:11	<p><b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau adfywio yn Nyffryn Clwyd?</i>  OAQ(4)1226(FM)</p>	<p><i>8. Will the First Minister provide an update on regeneration projects in the Vale of Clwyd?</i>  OAQ(4)1226(FM)</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:12	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Through our north Wales coast regeneration area programme, Rhyl has been the focus of sustained regeneration activity since 2009. The programme is aimed at providing better housing conditions, a more diverse and sustainable economy and at improving the leisure and tourism offer in the town.</p>	<p>Mae'r Rhyl wedi bod yn ganolbwynt gweithgareddau adfywio parhaus ers 2009, trwy ein rhaglen ardal adfywio arfordir gogledd Cymru. Nod y rhaglen yw darparu tai gwell, economi mwy amrywiol a chynaliadwy, a gwella'r hyn a gynigir o ran hamdden a thwristiaeth yn y dref.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:12

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you for that. As you have noted, and as I have said many times, regeneration, particularly for Rhyl, is progressing well. I think that most of the grotspots, such as the Honey Club in Rhyl, have now gone. Various houses of ill-repute have also gone, which is good. However, it is about more than bricks and mortar, First Minister, and I want to touch on how we regenerate the town in terms of its heritage and its history. In 1853, a rowing lifeboat put out to sea and six members of the crew lost their lives. The present crew, 160 years later, have replicated that rescue and rowed in an old-fashioned rowing boat—five of them never having rowed before—to raise money to put up a memorial of the six men who lost their lives. Is it that sort of regeneration that we should concentrate on as well, so that people's lives can be enriched, and that their history is enshrined in a regeneration programme such as what the lifeboatmen have done in Rhyl?

Diolch am hynna. Fel yr ydych chi wedi ei nodi, ac fel rwyf wedi ei ddweud lawer gwaith, mae gwaith adfywio yn mynd rhagddo'n dda, yn enwedig yn y Rhyl. Credaf fod y rhan fwyaf o'r mannau drwg, fel yr Honey Club yn y Rhyl, wedi diflannu bellach. Mae amryw o buteindai wedi diflannu hefyd, sy'n beth da. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â mwy na brics a mortar, Brif Weinidog, a hoffwn drafod sut y gallwn ni adfywio'r dref o ran ei threftadaeth a'i hanes. Ym 1853, aeth bad achub rhwyfo allan i'r môr a cholodd chwe aelod o'r criw eu bywydau. Mae'r criw presennol, 160 mlynedd yn ddiweddarach, wedi ailadrodd yr achubiad hwnnw gan rwyfo mewn cwch rhwyfo hen-ffasiwn—nid oedd pump ohonynt erioed wedi rhwyfo o'r blaen—i godi arian i osod cofeb ar gyfer y chwe gŵr a gollodd eu bywydau. Ai dyna'r math o adfywio y dylem ganolbwyntio arno hefyd, fel y gellir cyfoethogi bywydau pobl, ac ymgorffori eu hanes mewn rhaglen adfywio fel yr hyn y mae gŵyr y bad achub wedi ei wneud yn y Rhyl?

14:13

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Clearly, history must be part of heritage. I very much welcome the recent installation of a memorial on the seafront at Rhyl. I have a similar memorial in my constituency to the Samtampa that went down in the late 1940s off the coast of Kenfig; all hands and the crew of the Mumbles lifeboat were taken with the Samtampa itself. It is important that we remember these things.

Yn amlwg, mae'n rhaid i hanes fod yn rhan o dreftadaeth. Croesawaf yn fawr iawn yr achos diweddar o osod cofeb ar lan y môr yn y Rhyl. Mae gen i gofeb debyg yn fy etholaeth i i'r Samtampa a suddodd ddiwedd y 1940au oddi ar arfordir Cynffig; collwyd yr holl griw a chriw bad achub y Mwmbwls gyda'r Samtampa ei hun. Mae'n bwysig ein bod yn cofio'r pethau hyn.

We know that regeneration activity can help to protect and make the best use of heritage assets. It is therefore important to ensure—and we are doing this through 'Vibrant and Viable Places'—that heritage is seen as an important part of regeneration, and that it is seen as a way of encouraging regeneration by building on the history of any town or village, and the strengths and the messages that come from that history over the years.

Rydym yn gwybod y gall gweithgareddau adfywio helpu i warchod a gwneud y defnydd gorau o asedau treftadaeth. Felly mae'n bwysig sicrhau—ac rydym ni'n gwneud hyn trwy 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'—bod treftadaeth yn cael ei hystyried yn rhan bwysig o adfywio, a bod hynny'n cael ei ystyried fel ffordd o annog adfywio trwy adeiladu ar hanes unrhyw dref neu bentref, a'r cryfderau a'r negeseuon a ddaw o'r hanes hwnnw dros y blynyddoedd.

14:14

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The regeneration of Rhyl and supporting the rural Vale of Clwyd were included in the consultation on Denbighshire's regeneration plan put out by the council this summer. That plan also said that manufacturing is a target sector, using employment sites along the A55 corridor. How would you therefore respond to the e-mail that I received today from an advanced technology and sustainable energy system business, which started life in Bodelwyddan and which approached the Welsh Government to alert it of the opportunity to—

Roedd adfywio'r Rhyl a chefnogi ardaloedd gwledig Dyffryn Clwyd wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar gynllun adfywio Sir Ddinbych a gyflwynwyd gan y cyngor yr haf hwn. Nododd y cynllun hwnnw hefyd bod gweithgynhyrchu yn sector targed, gan ddefnyddio safleoedd cyfogaeth ar hyd coridor yr A55. Sut y byddech chi'n ymateb felly i'r e-bost a dderbyniais heddiw gan fusnes systemau technoleg uwch ac ynni cynaliadwy, a ddechreuodd ym Modelwyddan ac a gysylltodd â Llywodraeth Cymru i roi gwybod iddi am y cyfle i—

14:14

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hurry up, please.

Brysiwch, os gwelwch yn dda.

14:14

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It approached the Welsh Government to alert it of the fact that the opportunity to establish production of this technology in Wales could be lost to other interested parties. The response was not as positive or swift—

Cysylltodd â Llywodraeth Cymru i roi gwybod iddi am y ffaith y gallai'r cyfle i sefydlu cynhyrchiad y dechnoleg hon yng Nghymru gael ei golli i bartion eraill â buddiant. Nid oedd yr ymateb mor gadarnhaol na chyflym—

- 14:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Your question, please; come on. Eich cwestiwn, os gwelwch yn dda; dewch ymlaen.
- 14:14 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I asked how the First Minister would respond to the e-mail. The Welsh Government response was not— Gofynnais sut y byddai'r Prif Weinidog yn ymateb i'r e-bost. Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn—
- 14:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I am sorry, but you have run out of time. Sit down. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae eich amser wedi dod i ben. Eisteddwch.
- 14:15 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Un o adeiladau eiconig Dyffryn Clwyd yw'r hen ysbyty meddwl yn Ninbych. A wnech chi ymuno â mi wrth longyfarch y cyngor am fod yn 'proactive' wrth fynd i'r afael â'r sefyllfa druenus yno, ac a wnech chi ymrwymo y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth y gall wneud i'w gynorthwyo i sicrhau bod gan yr adeilad hwnnw ran 'proactive' yn adfywiad dyffryn Clwyd? One of the Vale of Clwyd's iconic buildings is the former mental hospital in Denbigh. Will you join with me in congratulating the council on being proactive in trying to address the terrible situation there, and will you assure us that the Welsh Government will do everything possible to assist the council in ensuring that the hospital has a proactive part to play in the regeneration of the Vale of Clwyd?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Fe wnawn ni ei helpu. Mae'n bwysig dros ben bod yr ysbyty wedi ei achub. Mae hanes yr ysbyty wedi bod yn un anodd iawn yn ddiweddar; mae pawb wedi gweld sut mae'r ysbyty wedi dirywio a'r problemau mawr ynghylch y ffaith na chafodd arian ei hala yno am flynyddoedd mawr. Yr ofn yw y bydd yr ysbyty, fwy na lai, yn cwmpo lawr. Mae'n bwysig dros ben felly bod cynllun i symud yr ysbyty ymlaen. Rwy'n llongyfarch pawb sydd wedi bod yn rhan o sicrhau hynny. We will, of course, assist the council. It is very important that the hospital has been saved. The recent history of the hospital has been very difficult; we have all seen the decline and the huge problems as a result of the fact that there had been no investment over many years. The fear is that the hospital will collapse, so it is very important that there is now a plan to progress and develop the building. I congratulate everyone who has secured that.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

### Adeiladau Hanesyddol

## Questions to the Minister for Culture and Sport

### Historic Buildings

- 14:16 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddiogelu adeiladau hanesyddol? OAQ(4)0060(CS)* *1. Will the Minister make a statement outlining the powers available to the Welsh Government to protect historic buildings? OAQ(4)0060(CS)*
- 14:16 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*  
Provisions relating to the protection of listed buildings are set out in the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990. The current consultation on the heritage Bill includes proposals for change in primary and secondary legislation and improvements to guidance and policy interventions. Nodir darpariaethau yn ymwneud â diogelu adeiladau rhestredig yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r ymgynghoriad presennol ar y Bil treftadaeth yn cynnwys cynigion ar gyfer newid i ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a gwelliannau i ganllawiau ac ymyriadau polisi.

- 14:16 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- In Merthyr, in my constituency, there is a large number of historic buildings. Whereas they can receive protection, the biggest challenge, of course, is that unless the owners of those buildings take positive action to maintain them, they can be allowed to disintegrate. It seems to me that there is a gap in the law here. Will it be the Welsh Government's intention to consider initiating legislation to obtain those powers in order to protect those sorts of buildings?
- Ym Merthyr, yn fy etholaeth i, ceir nifer fawr o adeiladau hanesyddol. Er y gallant gael eu gwarchod, yr her fwyaf, wrth gwrs, yw oni bai fod perchnogion yr adeiladau hynny yn cymryd camau cadarnhaol i'w cynnal, gallant gael eu gadael i ddirywio. Mae'n ymddangos i mi fod bwch yn y gyfraith yn hynny o beth. Ai bwriad Llywodraeth Cymru yw ystyried sefydlu deddfwriaeth i gael y pwerau hynny er mwyn diogelu'r mathau hynny o adeiladau?
- 14:17 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The heritage Bill is testimony to the Welsh Government's commitment to protecting Wales's historic environment. Chapter 4 of the current consultation considers how we can support the third sector in providing historic-environment services across Wales. The third sector is very good at partnering community development and activities, and that approach would be useful.
- Mae'r Bil treftadaeth yn dystiolaeth o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae Pennod 4 yr ymgynghoriad cyfredol yn ystyried sut y gallwn gefnogi'r trydydd sector o ran darparu gwasanaethau hanesyddol-amgylcheddol ledled Cymru. Mae'r trydydd sector yn dda iawn fel partner i ddatblygiad a gweithgareddau cymunedol, a byddai'r dull hwnnw'n ddefnyddiol.
- 14:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You mention the heritage Bill, and that foresees the establishment of an umbrella organisation to support the network of voluntary and non-governmental heritage organisations. What work have you done to identify what this organisation might look like?
- Rydych chi'n sôn am y Bil treftadaeth, ac mae hynny'n rhagweld sefydlu corff ymbarél i gefnogi'r rhwydwaith o sefydliadau treftadaeth gwirfoddol ac anllywodraethol. Pa waith yr ydych chi wedi ei wneud i nodi sut y gallai'r sefydliad hwn edrych?
- 14:18 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- At the moment, we are dealing with the responses to our consultation—and the consultation on the heritage Bill closes quickly now—and we have taken forward our general historic environment strategy as well. Therefore, at this stage, we want to listen carefully to all views expressed and to set out our views and policies in due course.
- Ar hyn o bryd, rydym yn ymdrin â'r ymatebion i'n hymgynghoriad—a bydd yr ymgynghori ar y Bil treftadaeth yn dod i ben yn fuan nawr—ac rydym ni wedi datblygu ein strategaeth amgylchedd hanesyddol gyffredinol hefyd. Felly, ar hyn o bryd, rydym eisiau gwrando'n ofalus ar yr holl safbwyntiau a fynegir a chyflwyno ein safbwyntiau a'n polisiau maes o law.
- 14:18 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer. I urge Members to respond to that consultation as well. Many communities play an active role in preserving their local heritage, as you know. I recently visited Owain Glyndŵr's parliament house, which is an example of local people making good use of taxpayers' money to preserve a building of national importance. However, they were concerned about the succession planning for the building's management. In a visit to Blaengwynfi in my region, it was explained to me that, despite years of Communities First funding, some communities do not have the skill set to draw on in order to take on the relevant responsibilities of owning or managing heritage assets. How do you plan to use the heritage Bill to help to build a skills capacity into communities so that your policy objectives can be met?
- Diolch i chi am yr ateb yna. Anogaf yr Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw hefyd. Mae llawer o gymunedau yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gadw eu treftadaeth leol, fel y gwyddoch. Yn ddiweddar, ymwelais â thŷ senedd Owain Glyndŵr, sy'n enghraifft o bobl leol yn gwneud defnydd da o arian trethdalwyr i gadw adeilad o bwysigrwydd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedden nhw'n pryderu am y broses o gynllunio olyniaeth ar gyfer rheoli'r adeilad. Esboniwyd i mi yn ystod ymweliad â Blaengwynfi yn fy rhanbarth i, nad yw'r sgiliau gan rai cymunedau i fanteisio arnynt er mwyn ymgymryd â'r cyfrifoldebau perthnasol o reoli neu fod yn berchen ar asedau treftadaeth, a hynny er gwaethaf blynyddoedd o arian Cymunedau yn Gyntaf. Sut ydych chi'n bwriadu defnyddio'r Bil treftadaeth i helpu i ddatblygu cronfa sgiliau mewn cymunedau fel y gellir bodloni eich amcanion polisi?

14:19 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It will be a vital part of taking our Bill forward and of our general strategy, in terms of building the networks and the partnerships, spreading information and building that sort of expertise. There is obviously a lot of work to be done and a lot of thinking, and an analysis of the response is yet to take place. However, uppermost in our minds will be that sort of support for communities that want to take action and which, I think, every Member here would support.

Bydd yn rhan hanfodol o symud ein Bil yn ei flaen ac o'n strategaeth gyffredinol, o ran creu'r rhwydweithiau a'r partneriaethau, rhannu gwybodaeth a datblygu'r math hwnnw o arbenigedd. Mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud a llawer o bendroni, ac nid oes dadansoddiad o'r ymateb wedi ei gynnal eto. Fodd bynnag, yn flaenaf yn ein meddyliau fydd y math yna o gefnogaeth i gymunedau sy'n awyddus i weithredu ac, rwy'n credu, y byddai pob Aelod yma yn ei chefnogi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to talk about the historic built environment, and I know that you will already know about the question that I will ask you, which is with regard to the Chartist mural that is set to be taken down in Newport in your area. I have been contacted by the group that is campaigning against the demolition of this mural because of the importance of Chartism to all our histories in Wales. Will you help by taking part in discussions with this campaign group in order to see whether there is a viable alternative with regard to the placement of this mural or to see whether something new can be created instead of this mural so that we can all celebrate what Chartism means for us in Wales?

Hoffwn sôn am yr amgylchedd adeiledig hanesyddol, ac rwy'n gwybod y byddwch eisoes yn gwybod am y cwestiwn y byddaf yn ei ofyn i chi, sy'n ymwneud â murlun y Siartwyr sydd ar fin cael ei dynnu i lawr yng Nghasnewydd yn eich ardal chi. Mae'r grŵp sy'n ymgyrchu yn erbyn dymchwel y murlun hwn oherwydd pwysigrwydd Siartiaeth i'n holl hanes yng Nghymru, wedi cysylltu â mi. A wnech chi helpu trwy gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r grŵp ymgyrchu hwn er mwyn gweld a oes dewis arall ymarferol o ran lleoli'r murlun hwn neu i weld a ellir creu rhywbeth newydd yn hytrach na'r murlun hwn fel y gall pob un ohonom ddathlu'r hyn y mae Siartiaeth yn ei olygu i ni yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will say initially, Dirprwy Lywydd, that the Chartist history of Wales is a quite incredible history and is extremely important not just to Wales, but much further afield. It is celebrated in many ways. In Newport, for example, there will be a series of events this autumn to commemorate the Chartist uprising in Newport and the surrounding area, and I know that that is the case in other parts of Wales. So, the history is extremely important and significant.

Hoffwn ddweud i ddechrau, Ddirprwy Lywydd, fod hanes y Siartwyr yng Nghymru yn hanes cwbl anhygoel ac yn hynod o bwysig nid yn unig i Gymru, ond yn llawer pellach i ffwrdd. Mae'n cael ei ddathlu mewn nifer o ffyrdd. Yng Nghasnewydd, er enghraifft, bydd cyfres o ddiwyddiadau yn ystod yr hydref i ddathlu gwrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd a'r cyffiniau, ac rwy'n gwybod bod hynny'n wir mewn rhannau eraill o Gymru. Felly, mae'r hanes yn hynod o bwysig ac arwyddocaol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Chartist mural in Newport is a matter for the local authority. Of course, it is taking forward its city-centre redevelopment, and there are factors involved that impact on whether the mural can stay in place or, indeed, be relocated elsewhere. Cadw decided that it was not a matter of listing, because the mural did not meet the criteria for listing. So, that is where we are at the moment. Essentially, these are matters for the local authority.

Mater i'r awdurdod lleol yw murlun y Siartwyr yng Nghasnewydd. Wrth gwrs, mae'n bwrw ymlaen â'i ailddatblygiad o ganol y ddinas, a cheir ffactorau cysylltiedig sy'n effeithio ar ba un a all y murlun aros yn ei le, neu, yn wir, gael ei symud i rywle arall. Penderfynodd Cadw nad oedd yn fater o restru, gan nad oedd y murlun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru. Felly, dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Materion i'r awdurdod lleol yw'r rhain yn eu hanfod.

14:21 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is sad to hear that you feel that you cannot do that much. With regard to the fact that Cadw has determined that it is not for listing, this reflects the issues that we have, especially with regard to the industrial built heritage, across Wales. My second question is to ask for an update on the consultation processes that Cadw had with Assembly Members and stakeholders with regard to that aspect, especially when many of us have been critical, in my area, of the demolition of the customs house in Port Talbot—something that we thought was viable for the future to show our heritage, but which has now been turned into social housing, sadly.

Mae'n drist clywed eich bod yn teimlo na allwch wneud rhyw lawer. O ran y ffaith fod Cadw wedi penderfynu na ddylid ei restru, mae hyn yn adlewyrchu'r problemau sydd gennym, yn enwedig o ran y dreftadaeth adeiledig ddiwydiannol, ledled Cymru. Fy ail gwestiwn yw i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosesau ymgynghori a gynhaliodd Cadw gydag Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid o ran yr agwedd honno, yn enwedig pan fo llawer ohonom ni wedi bod yn feirniadol, yn fy ardal i, o ddymchwel y tollty ym Mhort Talbot—rhywbeth yr oeddem ni o'r farn ei fod yn hyfyw ar gyfer y dyfodol i ddangos ein treftadaeth, ond sydd bellach wedi ei droi'n dai cymdeithasol, yn anffodus.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>The process around our historic environment strategy and the heritage Bill are very important, as I said earlier, and we have a lot of work to do to shape the future agenda. However, part of that agenda will be better protection for our built heritage in Wales and an opportunity for local lists, where local people can state which buildings they value. Therefore, there is much positive work that can be done so that we get to a better position, and I look forward to ensuring that Members play a full role in taking that forward.</p>	<p>Mae'r broses o amgylch ein strategaeth amgylchedd hanesyddol a'r Bil treftadaeth yn bwysig iawn, fel y dywedais yn gynharach, ac mae gennym lawer o waith i'w wneud i lunio agenda'r dyfodol. Fodd bynnag, rhan o'r agenda honno fydd diogelu ein treftadaeth adeiledig yng Nghymru yn well, a chyfle ar gyfer rhestrau lleol, lle y gall pobl leol ddweud pa adeiladau maen nhw'n eu gwerthfawrogi. Felly, mae llawer o waith cadarnhaol y gellir ei wneud er mwyn i ni gyrraedd sefyllfa well, ac rwy'n edrych ymlaen at sicrhau bod yr Aelodau yn cymryd rhan lawn wrth fwrw ymlaen â hynny.</p>
14:22	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Weinidog, rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol o'r cynlluniau ar gyfer gwaith Brymbo, sef safle hanesyddol Wilkinson, a'r difrod a achoswyd gaeaf diwethaf gan yr eira trwm. Mae'r adroddiad ar y gwaith brys y mae ei angen rŵan wedi cael ei dderbyn gan Cadw, felly a wnewch chi sicrhau bod Cadw yn cymryd penderfyniad digon buan er mwyn gweld a yw'n bosibl gwneud y gwaith, neu ran o'r gwaith, cyn diwedd y gaeaf hwn?</p>	<p>Minister, I know that you are aware of the plans for the Brymbo works, which is the historic Wilkinson site, and the damage that was caused last winter by the heavy snow. The report on the urgent works that are required now has been received by Cadw, so will you ensure that Cadw takes a decision early enough in order to see whether it is possible to carry out the work, or part of the work, before the end of this winter?</p>
14:23	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Certainly, I will make sure that Cadw deals with these matters in a timely, effective and efficient way, which is the way in which it normally deals with its work. Obviously, as the Minister, I will make sure that that is the case in this particular instance. I know that the Brymbo iron works are very much valued by local groups and local people, and I look forward to getting along to Brymbo before too long to see for myself what is in place there in north Wales.</p>	<p>Yn sicr, byddaf yn gwneud yn siŵr bod Cadw yn ymdrin â'r materion hyn mewn ffordd brydlon, effeithiol ac effeithlon, sef y ffordd y mae'n ymdrin â'i waith fel rheol. Yn amlwg, fel y Gweinidog, byddaf yn gwneud yn siŵr bod hynny'n wir yn yr achos penodol hwn. Gwn fod gwaith haearn Brymbo yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan grwpiau lleol a phobl leol, ac rwy'n edrych ymlaen at fynd draw i Frymbo cyn bo hir i weld drosof fy hun yr hyn sydd yn digwydd yng ngogledd Cymru.</p>
	<b>Deddfwriaeth Mynediad a Hamdden Awyr Agored</b>	<b>Access and Outdoor Recreation Legislation</b>
14:23	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam nad oedd enwau aelodau'r panel cyn ymgynghori a aeth i'r gweithdai ar yr adolygiad arfaethedig o ddeddfwriaeth mynediad a hamdden awyr agored ar gael i'r cyhoedd? OAQ(4)0064(CS)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on why the names of the members of the pre-consultation panel attending the workshops regarding the proposed review of access and outdoor recreation legislation were not in the public domain? OAQ(4)0064(CS)</i></p>
14:24	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>There was no pre-consultation panel.</p>	<p>Nid oedd unrhyw banel cyn-ymgyngori.</p>
14:24	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Well, that explains it, then. [Laughter.]</p> <p>Therefore, Minister, have there been any discussions with any bodies or any people regarding this proposed revision? It is my understanding that there have been workshops and there has been pre-consultation. You may not be calling it a panel, but whatever this group of people is, it is a hidden and unknown group of people. Why is it not in the public domain?</p>	<p>Wel, mae hynny'n esbonio'r cwbl felly. [Chwerthin.]</p> <p>Felly, Weinidog, a fu unrhyw drafodaethau ag unrhyw gyrrff neu unrhyw bobl ynglŷn â'r adolygiad arfaethedig hwn? Rwyf ar ddeall y cynhaliwyd gweithdai a chyn-ymgyngoriad. Efallai nad ydych yn ei alw'n banel, ond beth bynnag yw'r grŵp hwn o bobl, mae'n grŵp cudd ac anhysbys o bobl. Pam nad yw'n eiddo i'r cyhoedd?</p>



14:24	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> There is no hidden and unknown group of people. There have been workshops, and people have attended those workshops. We disseminated information widely that these workshops were taking place and that people were able to go along if they wished to do so. Nobody was turned away. There seems to be something of a developing conspiracy theory, because the Member asked the other week what was intended in our active travel Bill in terms of these access issues. The answer, of course, was 'absolutely nothing'. We have a process in place that I hope Members are aware of in terms of the Green Paper due to be issued towards the end of this year.	Nid oes unrhyw grŵp cudd ac anhysbys o bobl. Cynhaliwyd gweithdai, ac mae pobl wedi mynychu'r gweithdai hynny. Hysbysebwyd yn eang gennym fod y gweithdai hyn yn cael eu cynnal a bod pobl yn cael mynychu os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny. Ni chafodd unrhyw un ei wrthod. Mae'n ymddangos bod rhyw syniad o gynllwyn yn datblygu, gan fod yr Aelod wedi gofyn ychydig wythnosau yn ôl am yr hyn a fwrriadwyd yn ein Bil teithio llesol o ran y materion mynediad hyn. Yr ateb, wrth gwrs, oedd 'dim byd o gwbl'. Mae gennym broses ar waith yr wyf yn gobeithio bod yr Aelodau'n ymwybodol ohoni o ran y Papur Gwyrdd a fydd yn cael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn hon.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:25	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call David Davies to ask question 3. Sorry; David Rees. [Laughter.]	Galwaf ar David Davies i ofyn cwestiwn 3. Mae'n ddrwg gennyf, David Rees. [Chwerthin.]	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Rhandiroedd</b>	<b>Allotments</b>	
14:25	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>3. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella argaeledd rhandiroedd ledled Cymru? OAQ(4)0063(CS)</i>	<i>3. What progress has been made in enhancing the availability of allotments across Wales? OAQ(4)0063(CS)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:25	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> At present, the supply of allotments does not appear to meet apparent demand. We have had useful discussions with stakeholders about the potential to modernise allotment legislation with the aim of increasing provision, and I intend to publish our proposals for public consultation later this year.	Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad yw'r cyflenwad o randiroedd yn bodloni'r galw amlwg. Rydym ni wedi cael trafodaethau defnyddiol gyda rhanddeiliaid am y posibilrwydd o foderneiddio deddfwriaeth rhandiroedd gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth, ac rwy'n bwriadu cyhoeddi ein cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach eleni.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:26	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. On May 15, you told the Communities, Equality and Local Government Committee that the environment Bill would respond to the great demand that exists for allotments. However, at this point in time, what guidance has the Welsh Government given to local authorities to increase capacity in order to satisfy that demand, particularly in relation to what is known as 'guerilla gardening'?	Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Ar 15 Mai, dywedasoch wrth y Pwyllgor Cymunedau, Llywodraeth Leol a Chydraddoldeb y byddai'r Bil amgylchedd yn ymateb i'r galw mawr sy'n bodoli am randiroedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, pa ganllawiau mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi i awdurdodau lleol i gynyddu capasiti er mwyn bodloni'r galw hwnnw, yn enwedig o ran yr hyn a elwir yn 'arddio guerilla'?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:26 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No guidance has been issued to date, as we are currently in the process of reviewing our legislation relating to allotments, as part of the wider review of access and recreation. Any legislation on allotments would probably now be part of that access and recreation Bill, following changes to ministerial portfolios. However, as I said earlier, the Green Paper for issue in December will give ample opportunity for the putting forward of various views. There is pressure on local authorities to provide land for allotments, which are very much valued by local communities. I look forward to a process that will allow us to have a more realistic picture of unmet demand and how we could ensure better supply. That would relate to other issues around community growing, and I am sure it would incorporate aspects around guerilla gardening.
- Ni chyflwynwyd unrhyw ganllawiau hyd yn hyn, gan ein bod wrthi'n adolygu ein deddfwriaeth yn ymwneud â rhandiroedd ar hyn o bryd, yn rhan o'r adolygiad ehangach o fynediad a hamdden. Yn ôl pob tebyg, byddai unrhyw ddeddfwriaeth ar randiroedd yn rhan o'r Bil mynediad a hamdden hwnnw bellach, yn dilyn newidiadau i bortffolios gweinidogol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, bydd y Papur Gwyrdd sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr yn rhoi digon o gyfle i gynig gwahanol safbwyntiau. Mae pwysau ar awdurdodau lleol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau lleol. Edrychaf ymlaen at broses a fydd yn ein galluogi i gael darlun mwy realistig o'r galw sydd heb ei fodloni a sut y gallwn sicrhau gwell cyflenwad. Byddai hynny'n ymwneud â materion eraill sy'n gysylltiedig â thyfu cymunedol, ac rwy'n siŵr y byddai'n cynnwys agweddau ar arddio guerilla.
- 14:27 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am interested to know, Minister, how the review of access and outdoor recreation legislation, which will look to increase the amount of land available for allotments and community gardening, will fit in with the environment Bill White Paper?
- Hoffwn wybod, Weinidog, sut y bydd yr adolygiad o ddeddfwriaeth mynediad a hamdden awyr agored, a fydd yn ceisio cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd a garddio cymunedol, yn cyd-fynd â Phapur Gwyn y Bil amgylchedd?
- 14:27 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is very important that various Welsh Government Bills relate to each other, and that we have an overview across Ministers and departments to make sure that we draw out the common themes and complementarities. I have already met with Alun Davies on what we might take forward on access and recreation and the environment Bill. Those discussions at ministerial and official levels will continue.
- Mae'n bwysig iawn bod gwahanol Ffiliau Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'i gilydd, a bod gennym drosolwg ar draws Gweinidogion ac adrannau i wneud yn siŵr ein bod yn nodi'r themâu a'r agweddau ategol cyffredin. Rwyf eisoes wedi cyfarfod ag Alun Davies i drafod yr hyn y gallm fwrw ymlaen ag ef o ran mynediad a hamdden a'r Bil amgylchedd. Bydd y trafodaethau hynny ar lefel gweinidogol a swyddogol yn parhau.
- 14:28 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for environment made clear in his statement last week on food that health and wellbeing were a fundamental part of that policy review. What plans does the Government have to increase the number of allotments in cities, in terms of their importance in increasing the amount of locally produced food as well as excellent exercise opportunities?
- Gwnaeth Gweinidog yr amgylchedd hi'n eglur yn ei ddatganiad yr wythnos diwethaf ar fwyd bod iechyd a lles yn rhan hanfodol o'r adolygiad polisi hwnnw. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gynyddu nifer y rhandiroedd mewn dinasoedd, o ran eu pwysigrwydd ar gyfer cynyddu cyfanswm y bwyd a gynhyrchir yn lleol yn ogystal â bod yn gyfleoedd ymarfer corff gwych?
- 14:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That will be a very important part of the consultation process and debate that we will have on allotment provision, because allotments and other community growing schemes are very important for health and wellbeing, and there are many links with mental health charities, for example. So, we need to understand the wide-ranging benefits of ample and adequate allotment provision.
- Bydd hynny'n rhan bwysig iawn o'r broses ymgynghori a'r ddadl y byddwn yn ei chael ar ddarparu rhandiroedd, gan fod rhandiroedd a chynlluniau tyfu cymunedol eraill yn bwysig iawn i iechyd a lles, a cheir llawer o gysylltiadau gydag elusennau iechyd meddwl, er enghraifft. Felly, mae angen i ni ddeall manteision eang darpariaeth helaeth a phriodol o randiroedd.

14:29

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been more than three years now, Minister, since I took part in the Sustainability Committee inquiry into the provision of allotments in Wales; I should declare an interest as an allotment holder as well. While there have been some developments for many would-be gardeners, progress has been frustratingly slow. People can be on the waiting list for an allotment for up to five years in the Vale of Glamorgan. In Chepstow, the wait is six years. An average family can save up to £1,500 a year from a well-tended plot, so given the financial situation that most families are in, more needs to be done. The question is the availability of land. What are you doing to help, support, encourage, persuade and cajole local authorities to make more land available to meet the demand for allotments? After all, the law already says that they have to make that provision.

Mae wedi bod yn fwy na thair blynedd bellach, Weinidog, ers i mi gymryd rhan yn ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r ddarpariaeth o randiroedd yng Nghymru; dylwn ddatgan buddiant fel deiliad rhandir hefyd. Er y bu rhai datblygiadau i lawer o ddarpar arddwyr, mae cynnydd wedi bod yn rhwystredig o araf. Gall pobl fod ar y rhestr aros am randir am hyd at bum mlynedd ym Mro Morgannwg. Chwe blynedd yw'r amser aros yng Nghas-gwent. Gall teulu cyffredin arbed hyd at £1,500 y flwyddyn o gael llain y gofelir amdano'n dda, felly o ystyried y sefyllfa ariannol y mae'r rhan fwyaf o deuluoedd ynddi, mae angen gwneud mwy. Y tir sydd ar gael yw'r cwestiwn. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu, cefnogi, annog, darbwyllo a chymell awdurdodau lleol i sicrhau bod mwy o dir ar gael i fodloni'r galw am randiroedd? Wedi'r cyfan, mae'r gyfraith eisoes yn dweud bod yn rhaid iddyn nhw wneud y ddarpariaeth honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

An important aspect of the Green Paper, and what follows, will be to have a better fit between demand and supply. We will be working to make sure that we have a more informed and intelligent assessment of demand, and there can, obviously, be legislative requirements in terms of meeting that demand. However, I very much recognise the importance of this agenda; a lot is happening around food, the cost of food and the provision of food, whether it is community developments and food banks or food co-ops.

Un o agweddau pwysig y Papur Gwyrdd, a'r hyn a fydd yn ei ddilyn, fydd sicrhau bod gwell cyfatebiaeth rhwng y galw a'r cyflenwad. Byddwn yn gweithio i wneud yn siŵr ein bod yn cael asesiad mwy cytbwys a deallus o'r galw ac, yn amlwg, efallai y bydd gofynion deddfwriaethol o ran bodloni'r galw hwnnw. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr agenda hon; mae llawer yn digwydd o amgylch bwyd, cost bwyd a'r ddarpariaeth o fwyd, boed yn ddatblygiadau cymunedol a banciau bwyd neu'n siopau bwyd cydweithredol.

The Member mentioned Chepstow. At the Royal Welsh Show, I met a farmer from Chepstow who was making some of his farmland available for community growing. So, there are interesting things happening in Wales, and I hope that that will come out through the process that we will follow.

Soniodd yr Aelod am Gas-gwent. Yn Sioe Frenhinol Cymru, cwrddais â ffermwr o Gas-gwent a oedd yn sicrhau bod rhywfaint o dir ei fferm ar gael ar gyfer tyfu cymunedol. Felly, mae pethau diddorol yn digwydd yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n dod i'r amlwg drwy'r broses y byddwn yn eu dilyn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Pysgota

## Angling

14:30

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i bysgota fel chwaraeon?*  
OAQ(4)0054(CS)

*4. Will the Minister make statement on Welsh Government support for angling as a sport?*  
OAQ(4)0054(CS)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Support for sport in Wales is provided across Welsh Government departments. Funding is channelled through Sport Wales. In 2013, Sport Wales is providing £50,000 to the Federation of Welsh Anglers.

Darperir cymorth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Mae cyllid yn cael ei sianelu trwy Chwaraeon Cymru. Yn 2013, mae Chwaraeon Cymru yn darparu £50,000 i Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that response, Minister. You will appreciate that angling contributes about £150 million per year to the Welsh economy and that it is an extremely important sport from an economic point of view. We have already had some questions regarding the access issues to Welsh inland waterways, and I certainly think that there is scope to improve access for people other than anglers to Welsh inland waterways. However, there have been many concerns raised by people in the angling community regarding the potential adverse impact of that on their fishing rights et cetera. What assurances can you give to the angling community that you will listen to its concerns in bringing forward any proposed changes that may emerge, and what work are you doing to look at how you can expand the economic return that angling brings to Wales as a sport?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna, Weinidog. Byddwch yn sylweddoli bod pysgota yn cyfrannu tua £150 miliwn y flwyddyn at economi Cymru a'i bod yn gamp eithriadol o bwysig o safbwynt economaidd. Rydym eisoes wedi cael rhywfaint o gwestiynau ynghylch materion mynediad at ddyfrffyrdd mewndirol Cymru, ac rwy'n sicr yn credu bod lle i wella mynediad i bobl ar wahân i bysgotwyr at ddyfrffyrdd mewndirol Cymru. Fodd bynnag, codwyd llawer o bryderon gan bobl yn y gymuned bysgota ynghylch effaith andwyol posibl hynny ar eu hawliau pysgota ac ati. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r gymuned bysgota y byddwch yn gwrandao ar ei phryderon wrth gyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig a allai ddod i'r amlwg, a pha waith ydych chi'n ei wneud i ystyried sut y gallwch ehangu'r enillion economaidd y mae pysgota yn eu cynnig i Gymru fel camp?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I agree with Darren Millar in terms of the importance of angling in Wales. It is very important and it is also growing. It is good to see that the number of clubs, and their membership, is very strong. It is also very important in terms of tourism and the economy. So, I very much agree with the Member regarding his views on those matters. I also welcome the Member's recognition that it is perfectly possible to have different uses of our inland waters. That happens at the moment and it should happen to a greater extent. In terms of reassurance, as the Member requested, I can offer the reassurance that we will have a wide-ranging process, starting with the Green Paper in December, which will allow the expression of views. We have already seen that through the workshops; all Members will probably have received much correspondence following those workshops. There will be due process and ample opportunity to make sure that we get it right.

Yn gyntaf, rwy'n cytuno â Darren Millar o ran pwysigrwydd pysgota yng Nghymru. Mae'n bwysig iawn ac mae hefyd yn tyfu. Mae'n dda gweld bod nifer y clybiau, a'u haelodaeth, yn gryf iawn. Mae hefyd yn bwysig iawn o ran twristiaeth a'r economi. Felly, rwy'n cytuno'n llwyr â'r Aelod o ran ei farn ar y materion hynny. Rwyf hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth yr Aelod ei bod yn gwbl bosibl cael gwahanol ddefnydd o'n dyfroedd mewndirol. Mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd a dylai ddigwydd yn fwy helaeth. O ran sicrwydd, fel y gofynnodd yr Aelod, gallaf gynnig y sicrwydd y bydd gennym broses eang ei gwmpas, gan ddechrau gyda'r Papur Gwyrdd ym mis Rhagfyr, a fydd yn caniatáu i safbwyntiau gael eu mynegi. Rydym eisoes wedi gweld hynny drwy'r gweithdai; mae'n debyg y bydd pob Aelod wedi derbyn llawer o ohebiaeth yn dilyn y gweithdai hynny. Bydd trefn briodol a digon o gyfle i wneud yn siŵr ein bod yn cael pethau'n iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Next, the unmistakable David Rees. [Laughter.]

Nesaf, y digamsyniol David Rees. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Dirprwy Lywydd. Minister, I support the comments made by Darren Millar in relation to angling and the important part it plays in the economy. I have also been contacted by many anglers in my area expressing concern about the Green Paper that is being released on the access to inland waterways. They believe that the controls are not there on access to ensure that the fishing season is not disrupted. One day lost by a fisherman, because of perhaps one canoeist going down the river, can be quite expensive. Will you meet with angling clubs to discuss those concerns? What action is the Welsh Government taking to protect the environment at the same time, because the fish spawning period is another issue that can be damaged as a consequence of this? You are quite right that sharing of access is good, but it can also be done voluntarily through contracts and agreements, so will you look at that aspect as well?

Diolch, Dirprwy Lywydd. Weinidog, rwy'n cefnogi'r sylwadau a wnaed gan Darren Millar o ran pysgota a'r rhan bwysig y mae'n ei chwarae yn yr economi. Mae llawer o bysgotwyr yn fy ardal i wedi cysylltu â mi hefyd yn mynegi pryder am y Papur Gwyrdd sy'n cael ei gyhoeddi ar y mynediad at ddyfrffyrdd mewndirol. Maen nhw o'r farn nad yw'r mesurau rheoli ar gael o ran mynediad i sicrhau nad yw'r tymor pysgota yn cael ei amharu. Gall un diwrnod a gollir gan bysgotwr, oherwydd bod un canŵ yn mynd i lawr yr afon efallai, fod yn eithaf drud. A wnewch chi gyfarfod â chlybiau pysgota i drafod y pryderon hynny? Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn yr amgylchedd ar yr un pryd, gan fod cyfnod silio pysgod yn fater arall a allai gael ei niweidio o ganlyniad i hyn? Rydych chi yn llygad eich lle bod rhannu mynediad yn beth da, ond gellir hefyd ei wneud yn wirfoddol trwy gontractau a chytundebau, felly a wnewch chi ystyried yr agwedd honno hefyd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:34 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We do, of course, have voluntary schemes in place in some parts of Wales now, but it is certainly nowhere near as extensive as it might be; in fact, we provide Splash funding to encourage and facilitate those schemes. So, the voluntary approach is one that we very much value and promote, but we are not getting the level of use of our inland waters that we should get, and if we could get it right, it would be very good for all of those different groups that want to make use of our waters. That would have economic benefits and tourism benefits all round. There are important gains to be made here and it should not be impossible to reconcile competing differences, although I do not think that any of us would underestimate the strength of feeling on all sides.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gennym, wrth gwrs, gynlluniau gwirfoddol ar waith mewn rhai rhannau o Gymru nawr, ond mae'n sicr nad yw'n agos at fod mor helaeth ag y gallai fod; a dweud y gwir, rydym yn darparu cyllid Sblash i annog a hwyluso'r cynlluniau hynny. Felly, mae'r dull gwirfoddol yn un yr ydym ni'n sicr yn ei werthfawrogi a'i hyrwyddo, ond nid ydym yn cael y lefel o ddefnydd o'n dyfroedd mewndirol y dylem ni ei gael, a phe galleim ei wneud yn iawn, byddai'n dda iawn i bob un o'r gwahanol grwpiau sydd eisiau defnyddio ein dyfroedd. Byddai hynny'n dod â manteision economaidd a manteision i dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae enillion pwysig i'w gwneud yma, ac ni ddylai fod yn amhosibl bodloni gwahaniaethau sy'n cystadlu, er nad wyf yn credu y byddai unrhyw un ohonom yn tanwerthfawrogi cryfder y teimladau ar bob ochr.

14:34 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Llyn Padarn yn nyffryn Peris yn fy etholaeth i yn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Yn anffodus, o dan oruchwyliaeth asiantaethau'r Llywodraeth, mae ansawdd y dŵr wedi dirywio dros y blynyddoedd. Mae niferoedd y torgoch—y pysgodyn prin hwnnw—wedi gostwng yn ddramatig, ac, yn dilyn yr algae gwyrdd yn y llyn rai blynyddoedd yn ôl, mae pysgota ar Afon Seiont wedi dirywio'n eithriadol, fel ei bod yn anodd iawn dal unrhyw bysgodyn yno. A wnewch chi sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio â'r gymdeithas bysgota leol i adfer y sefyllfa hon, er budd y pysgotwyr lleol, ac er budd yr economi?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Llyn Padarn in the Peris valley in my constituency is a site of special scientific interest. Unfortunately, under the stewardship of Government agencies, the quality of the water has declined over the years. The numbers of Arctic char—that rare fish—have declined dramatically, and as a result of the green algae that was in the lake a few years ago, fishing on the River Seiont has declined significantly, so that it is very difficult to catch any fish there. Will you ensure that Natural Resources Wales collaborates with the local angling society in order to rectify this situation, for the benefit of local anglers as well as for the economy?

14:35 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am familiar with the issues around lake Padarn, following the Member's questions and correspondence to me in my previous ministerial role. I am happy, therefore, to liaise with Alun Davies now regarding the environmental issues, and to ask Natural Resources Wales to look at the angling interests, and to liaise with those who are involved.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n gyfarwydd â'r materion yn ymwneud â Llyn Padarn, yn dilyn cwestiynau'r Aelod a gohebiaeth i mi yn fy swyddogaeth flaenorol fel Gweinidog. Rwy'n hapus, felly, i gysylltu ag Alun Davies nawr am y materion amgylcheddol, ac i ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ystyried y buddiannau pysgota, ac i gysylltu â'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r mater.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

## Natural Resources Wales

14:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â mynediad agored i dir a dyfrffyrdd? OAQ(4)0065(CS)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

5. What discussions has the Minister had with Natural Resources Wales regarding open access to land and waterways? OAQ(4)0065(CS)

14:36 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Natural Resources Wales is Welsh Government's statutory adviser, and is a key stakeholder in access and outdoor recreation. We have engaged with NRW staff during our preparations for the review of access legislation, and NRW has also participated in, and helped to facilitate, our recent workshops.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru yw ymgynghorydd statudol Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhanddeiliad allweddol o ran mynediad a hamdden awyr agored. Rydym wedi ymgysylltu ag aelodau CNC yn ystod ein paratodau ar gyfer yr adolygiad o ddeddfwriaeth mynediad, ac mae CNC hefyd wedi cymryd rhan yn ein gweithdai diweddar, ac wedi helpu i'w hwyluso.

14:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, since this Labour Government came to power, in 2011, there has been no single designation of additional land for open access in the Welsh Government's estate, when it was either managed directly by the Welsh Government, or since the creation of Natural Resources Wales. It has been confirmed by Natural Resources Wales that changes to open access land have not been made since 2005, alongside the Countryside and Rights of Way Act 2000. Given that history, what are you now doing to look at the Welsh Government's own land estate, to see how it can improve access there?

Weinidog, ers i'r Llywodraeth Lafur hon ddod i rym, yn 2011, ni neilltuwyd unrhyw ddarn o dir ychwanegol ar gyfer mynediad agored yn ystad Llywodraeth Cymru pan roedd, naill ai'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu ers creu Cyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhawyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru na wnaed newidiadau i dir mynediad agored ers 2005, ochr yn ochr â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. O gofio'r hanes hwnnw, beth ydych chi'n ei wneud nawr i edrych ar ystad tir Llywodraeth Cymru ei hun, i weld sut y gall wella mynediad yno?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is of course provision for review in terms of the Countryside and Rights of Way Act 2000, and that process will be followed in Wales. We will look at access issues in the round, across the length and breadth of Wales, which includes the Welsh Government estate.

Ceir darpariaeth, wrth gwrs, ar gyfer adolygu o ran Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a bydd y broses honno'n cael ei dilyn yng Nghymru. Byddwn yn ystyried materion mynediad yn gyffredinol, ym mhob cwr o Gymru, sy'n cynnwys ystad Llywodraeth Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mewn ateb cynharach, Weinidog, dywedoch nad oedd neb wedi cael ei wrthod o safbwynt mynychu rhai o'r sesiynau ymgynghori sydd wedi bod hyd yma. Fodd bynnag, gwn am etholwyr sydd wedi gorfod creu stŵr aruthrol er mwyn cael mynychu rhai o'r cyfarfodydd hyn. Mae gan Lywodraeth Cymru record anffodus o ran ymwneud â budd-ddeiliaid. Rydym yn cofio am y parthau cadwraeth morol, wrth gwrs, ac rydym yn gwybod i lle y mae'r rheiny wedi mynd. A allwch ein sicrhau ni, felly, fod y Llywodraeth wedi dysgu gwersi, ac na fyddwn yn gweld yr un camgymeriadau yn cael eu hailadrodd?

In an earlier reply, Minister, you said that nobody had been refused the right to attend consultation events that have taken place. However, I know of constituents who have had to create quite a stir in order to attend some of these meetings. The Welsh Government has an unfortunate record when it comes to dealing with stakeholders. We recall the marine conservation zones, of course, and we know what happened to those. Can you give us an assurance, therefore, that the Government has learned lessons and that we will not see the same mistakes being repeated?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

From what the Member says, the individuals did attend the meetings, and were able to take part, which is positive. We are always looking to improve our consultation exercises, and our reaching out to different communities and interests in Wales. That is crucial for Welsh Government, and, I know, for every Assembly Member. Therefore, I can only say to the Member that, as we go through this process, which will take place over a period of time, we will be very keen to be as open and as accessible as possible.

O'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud, roedd yr unigolion yn bresennol yn y cyfarfodydd, ac yn gallu cymryd rhan, sy'n gadarnhaol. Rydym bob amser yn ceisio gwella ein hymarferion ymgynghori, a'n dull o estyn allan i wahanol gymunedau a buddiannau yng Nghymru. Mae hynny'n hanfodol i Lywodraeth Cymru, ac, rwy'n gwybod, i bob Aelod o'r Cynulliad. Felly, gallaf ond dweud wrth yr Aelod, wrth i ni fynd drwy'r broses hon, a fydd yn digwydd dros gyfnod o amser, y byddwn yn awyddus iawn i fod mor agored ac mor hygyrch â phosibl.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Brycheiniog a Sir Faesyfed

## Brecon and Radnorshire

14:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cyfleusterau chwaraeon ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0066(CS)*

*6. Will the Minister make a statement on the development of sporting facilities in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0066(CS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sports facilities in Brecon and Radnorshire are currently provided by a range of organisations from the public, private and voluntary sectors. Welsh Government and Sport Wales work in partnership to support development in Wales.

Darperir cyfleusterau chwaraeon ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed gan amrywiaeth o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi datblygiad yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- What support can the Welsh Government offer Powys County Council in its ambition to build a new, sustainable leisure centre in Brecon, alongside new all-weather multi-use pitches and tennis courts, adjacent to its plans to rebuild the high school and the further education college?
- Pa gymorth all Llywodraeth Cymru ei gynnig i Gyngor Sir Powys yn ei uchelgais i adeiladu canolfan gynaliadwy newydd yn Aberhonddu, ochr yn ochr â chaeau a chyrtiau tennis aml-ddefnydd pob tywydd newydd, ochr yn ochr â'i gynlluniau i ailadeiladu'r ysgol uwchradd a'r coleg addysg bellach?
- 14:39 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- My officials, and, indeed, Sport Wales, would be very happy to have discussions, or to continue discussions, with Powys County Council. It is a time of great change and pressure in terms of leisure provision, for financial reasons and others. There is a variety of models around that seek to find new and better ways forward. I would be very happy for my officials in Sport Wales to discuss possibilities with Powys County Council.
- Mae fy swyddogion i, ac, yn wir, Chwaraeon Cymru, yn hapus iawn i gael trafodaethau, neu i barhau â thrafodaethau gyda Chyngor Sir Powys. Mae'n gyfnod o newid mawr a phwysau o ran darpariaeth hamdden, am resymau ariannol ac eraill. Ceir amrywiaeth o fodolau yn gysylltiedig â hynny sy'n ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd a gwell ymlaen. Byddwn yn hapus iawn i'm swyddogion yn Chwaraeon Cymru drafod posibiliadau gyda Chyngor Sir Powys.
- 14:40 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The coalition Government in Westminster is investing £17 million over the next two years in four national parks in England to develop and improve facilities for cycling, which I understand the Minister likes very much. What discussions has the Minister had with the Brecon Beacons National Park Authority with regard to improving facilities for cyclists in Brecon and Radnorshire?
- Mae Llywodraeth y glymblaid yn San Steffan yn buddsoddi £17 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf mewn pedwar parc cenedlaethol yn Lloegr i ddatblygu a gwella cyfleusterau ar gyfer beicio, yr wyf yn deall y mae'r Gweinidog yn ei hoffi'n fawr iawn. Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ran gwella cyfleusterau i feicwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed?
- 14:40 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have discussed these matters with the national parks in terms of good policy around promoting cycling and walking, links with bus services and other transport matters within the national parks and around those parks. We will be discussing the Active Travel (Wales) Bill later today and we will have a general effort in the promotion of cycling around the legislation. So, we will want to work right across Wales with a range of partners to take forward cycling provision. The national parks, I am sure, will be keen to play a part in that.
- Rwyf wedi trafod y materion hyn gyda'r parciau cenedlaethol o ran polisi da yn ymwneud â hyrwyddo beicio a cherdded, cysylltiadau â gwasanaethau bws a materion cludiant eraill yn y parciau cenedlaethol ac o amgylch y parciau hynny. Byddwn yn trafod Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ddiweddarach heddiw, a bydd gennym ymdrech gyffredinol i hyrwyddo beicio o gwmpas y ddeddfwriaeth. Felly, byddwn yn awyddus i weithio ledled Cymru gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu'r ddarpariaeth feicio. Bydd y parciau cenedlaethol, rwy'n siŵr, yn awyddus i chwarae rhan yn hynny.
- 14:41 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- One outdoor sport that is even more popular than cycling in Brecon and Radnorshire, and throughout Wales, is angling, Minister. At the moment in Brecon and Radnorshire, as in other parts of Wales, anglers and canoeists are encouraged to come together to work on a voluntary basis for access agreements, which are not just good for the sports, but have to take into account the environmental condition of the rivers as well. Do you not think it best, Minister, to continue with the policy under the previous Government, and as recommended by the Sustainability Committee in the previous Assembly, to see these access agreements done voluntarily throughout Wales? Would your time not be best spent now ensuring that that happens, rather than pursuing a possible legislative framework?
- Un gamp awyr agored sydd hyd yn oed yn fwy poblogaidd na beicio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, a ledled Cymru, yw pysgota, Weiniog. Ar hyn o bryd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, fel mewn rhannau eraill o Gymru, mae pysgotwyr a chanŵ-wyr yn cael eu hannog i ddod at ei gilydd i weithio ar sail wirfoddol ar gyfer cytundebau mynediad, sydd nid yn unig yn dda i'r campau, ond y mae'n rhaid iddynt gymryd cyflwr amgylcheddol yr afonydd i ystyriaeth hefyd. Onid ydych chi'n meddwl mai'r peth gorau, Weiniog, fyddai parhau â'r polisi dan y Llywodraeth flaenorol, ac fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn y Cynulliad blaenorol, i weld y cytundebau mynediad hyn yn cael eu gwneud yn wirfoddol ledled Cymru? Oni fyddai eich amser yn cael ei dreulio ora bellach yn sicrhau bod hynny'n digwydd, yn hytrach na dilyn fframwaith deddfwriaethol posibl?

14:42

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will be going through a process, as I have described already today to Members, and which Members will be aware of, which will allow the expression of a wide variety of views. Already in the workshops, we have facilitated and encouraged discussion around uses of inland water, including the anglers and the canoeists. My understanding of the Sustainability Committee's recommendations was that that voluntary approach is a very valid and important approach and that it should be facilitated by funding. Our Splash funding does that. There should be consideration of legislative options as well if it is not possible to make required progress by the voluntary route.

Byddwn yn mynd trwy broses, fel rwyf wedi ei disgrifio eisoes heddiw i'r Aelodau, ac y bydd yr Aelodau'n ymwybodol ohoni, a fydd yn caniatáu i amrywiaeth eang o safbwyntiau gael eu mynegi. Eisoes yn y gweithdai, rydym ni wedi hwyluso ac annog trafodaeth ynghylch defnyddiau o ddŵr mewndirol, gan gynnwys y pysgotwyr a'r canŵ-wyr. Fy nealltwriaeth i o argymhellion y Pwyllgor Cynaliadwyedd oedd bod y dull gwirfoddol hwnnw'n ddull dilyn a phwysig iawn ac y dylai gael ei hwyluso gan gyllid. Mae ein cyllid Sblash yn gwneud hynny. Dylid ystyried dewisiadau deddfwriaethol hefyd os nad yw'n bosibl gwneud y cynnydd gofynnol drwy'r llwybr gwirfoddol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Beicio**

**Cycling**

14:42

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu beicio yng Nghymru? OAQ(4)0057(CS)*

*7. What is the Welsh Government doing to promote cycling in Wales? OAQ(4)0057(CS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government promotes cycling for travel, recreation and sport. The Active Travel (Wales) Bill aims to make walking and cycling the most natural way to travel short distances. We will shortly consult on a new active travel plan, which will include measures to further promote cycling in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo beicio ar gyfer teithio, hamdden a chwaraeon. Nod Bil Teithio Llesol (Cymru) yw gwneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf naturiol i deithio pellteroedd byr. Cyn bo hir, byddwn yn ymgynghori ar gynllun teithio llesol newydd, a fydd yn cynnwys mesurau i hyrwyddo beicio yng Nghymru ymhellach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I look forward to the debate on this later on. Two weeks ago, Wales hosted some of the Tour of Britain, with one stage passing through a number of communities in my constituency. The Cynon Valley is home to some of the best cycle trails in Wales, where people can take in the beautiful scenery, as well as being a great way of improving the fitness of people of all ages. We know that events like the Tour of Britain, the Tour de France and last year's Olympic Games all increase the popularity of cycling. However, it can be difficult to encourage people to carry on with the sport. What else can we do to ensure that sport remains a constant to encourage healthy lifestyles?

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar hyn ymhellach ymlaen. Bythefnos yn ôl, cynhaliwyd rhan o'r Tour of Britain yng Nghymru, a daeth un cam o'r ras drwy nifer o gymunedau yn fy etholaeth i. Mae Cwm Cynon yn gartref i rai o'r llwybrau beicio gorau yng Nghymru, lle gall pobl fwynhau'r golygfeydd godidog, yn ogystal â bod yn ffordd wych o wella ffitrwydd pobl o bob oed. Rydym yn gwybod bod digwyddiadau fel y Tour of Britain, y Tour de France a Gemau Olympaidd y llynedd i gyd yn cynyddu poblogrwydd beicio. Fodd bynnag, gall fod yn anodd annog pobl i barhau â'r gamp. Beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod y gamp honno'n parhau i fod yn ffordd gyson o annog ffyrdd iach o fyw?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

**John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is a big effort to be undertaken. It is a continuing effort by Welsh Government, Sport Wales, sports governing bodies, local authorities and a range of partners, to ensure that we get Wales more active and enjoying sport to a greater extent. I was very pleased to present one of the prizes near Caerphilly castle at the end of the Welsh stage of the Tour of Britain and the turnout of people there was very impressive indeed. There was a lot of passion and a lot of interest in cycling in Wales. We need to understand that and promote it further. Interchangeability between sports is very important. We need to link up sports, sports governing bodies and sports clubs better, so that if people are, for whatever reason, dropping out of one sport, they can perhaps be directed to another, so that they remain active.

Mae ymdrech fawr i'w gwneud. Mae'n ymdrech barhaus gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu chwaraeon, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid, i sicrhau ein bod yn cael Cymru i fod yn fwy egniol ac i fwynhau mwy ar chwaraeon. Roeddwn i'n falch iawn o gyflwyno un o'r gwobrau ger castell Caerffili ar ddiwedd cam Cymru y Tour of Britain ac roedd nifer y bobl a oedd yno yn drawiadol iawn yn wir. Roedd llawer o angerdd a llawer o ddiddordeb mewn beicio yng Nghymru. Mae angen i ni ddeall hynny a'i hyrwyddo ymhellach. Mae gallu newid rhwng campau yn bwysig iawn. Mae angen i ni gysylltu campau, cyrff llywodraethu chwaraeon a chlybiau chwaraeon yn well, felly os bydd pobl, am ba bynnag reswm, yn rhoi'r gorau i un gamp, byddant yn gallu cael eu cyfeirio at un arall efallai, fel eu bod yn cadw'n egniol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



- 14:45 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you mentioned in your earlier answer the proposed active travel plan. The walking and cycling action plan is coming to an end. Have you evaluated the key successes of that plan, and, what are they? How do you intend to carry on with any successes that there have been under the new regime of the Active Travel (Wales) Bill and the plan, which you have already mentioned?
- Weinidog, soniasoch yn eich ateb cynharach am y cynllun teithio llesol arfaethedig. Mae'r cynllun gweithredu ar gerdded a beicio yn dod i ben. A ydych chi wedi gwerthuso llwyddiannau allweddol y cynllun hwnnw, a, beth ydyn nhw? Sut ydych chi'n bwriadu parhau unrhyw lwyddiannau a fu dan drefn newydd Bil Teithio Llesol (Cymru) a'r cynllun, yr ydych chi wedi sôn amdanynt eisoes?
- 14:45 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We have had substantial progress in terms of walking and cycling in Wales and a variety of factors has helped that. The Wales coast path is a very recent example. Cycling has shown an increase in recent years. Having said that, we are not in the position that we would like to be in. We would like to see many more people cycling and walking in Wales. That is why we are taking forward the legislation that the Assembly will consider today, and that is why we will have our new action plan in place very soon.
- Rydym ni wedi cael cynnydd sylweddol o ran cerdded a beicio yng Nghymru, ac mae amrywiaeth o ffactorau wedi helpu hynny. Mae llwybr arfordir Cymru yn enghraifft ddiweddar iawn. Bu cynnydd o ran beicio yn y blynyddoedd diweddar. Wedi dweud hynny, nid ydym ni yn y sefyllfa yr hoffem fod ynddi. Hoffem weld llawer mwy o bobl yn cerdded a beicio yng Nghymru. Dyna pam rydym ni'n bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth y bydd y Cynulliad yn ei hystyried heddiw, a dyna pam y bydd ein cynllun gweithredu newydd ar waith yn fuan iawn.
- 14:46 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I would like to thank you for visiting Twmbarlwm last week and for discussing the future of the tump with the Twmbarlwm Society. Obviously, we want to promote cycling, but we want it done in the right places. You saw for yourself at Twmbarlwm that the effects of off-road motorcycling are very damaging to the local environment and are eroding the ancient monument away. Are you able to support the efforts of the society to close the unclassified and disused road that they are using to get access to the tump?
- Weinidog, hoffwn ddiolch i chi am ymweld â Thwmbarlwm yr wythnos diwethaf ac am drafod dyfodol y twmp gyda Chymdeithas Twmbarlwm. Yn amlwg, rydym ni eisiau hyrwyddo beicio, ond rydym ni am iddo gael ei wneud yn y mannau cywir. Gwelsoch drosoch eich hunan yn Nhwmbarlwm bod effeithiau beicio modur oddi ar y ffordd yn niweidiol iawn i'r amgylchedd lleol ac yn erydu'r heneb hynafol i ffwrdd. A allwch chi gefnogi ymdrechion y gymdeithas i gau'r ffordd ddi-ddosbarth a segur y maen nhw'n ei defnyddio i gael mynediad at y twmp?
- 14:46 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would be very pleased to ask my officials to look at those issues in conjunction with other interested parties. I very much enjoyed my visit to Twmbarlwm; it was great to see the passion and enthusiasm of local people to make sure that access is preserved and facilitated and that more people, community groups and schools enjoy that wonderful environment, which is very familiar to me. Often on new year's day, I walk up to Twmbarlwm and along the ridge. It is a wonderful environment and I fully understand why local people value it so much. I would be happy to facilitate those discussions and progress.
- Byddwn yn falch iawn o ofyn i'm swyddogion ystyried y materion hynny ar y cyd â phartion eraill â buddiant. Mwynheais fy ymweliad â Thwmbarlwm yn fawr iawn; roedd yn wych gweld angerdd a brwdfrydedd pobl leol i wneud yn siŵr bod mynediad yn cael ei gadw a'i hwyluso a bod mwy o bobl, grwpiau cymunedol ac ysgolion yn mwynhau'r amgylchedd gwych, sy'n gyfarwydd iawn i mi. Yn aml, ar ddydd calan, byddaf yn cerdded i fyny i Dwbarlwm ac ar hyd y grib. Mae'n amgylchedd hyfryd ac rwy'n deall yn llwyr pam mae pobl leol yn ei werthfawrogi cymaint. Byddwn yn hapus i hwyluso'r trafodaethau hynny a'r cynnydd hwnnw.
- May I also say that it is important, in terms of off-road motorcycling, that we have legitimate venues for people to undertake that activity? That very much helps the police in terms of their policing activity. I think that the new development at Ebbw Vale will be very promising in that regard, in due course.
- A gaf i ddweud hefyd ei bod yn bwysig, o ran beicio modur oddi ar y ffordd, bod gennym leoliadau cyfreithlon i bobl gymryd rhan yn y gweithgaredd hwnnw? Mae hynny'n helpu'r heddlu yn fawr o ran eu gweithgarwch plismona. Rwy'n credu y bydd y datblygiad newydd yng Nglyn Ebwy yn addawol iawn yn hynny o beth, maes o law.

## Treftadaeth Grefyddol

## Religious Heritage

14:47	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> 8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd ynghylch ein treftadaeth grefyddol? OAQ(4)0055(CS)	8. Will the Minister make a statement on action he is taking relating to our religious heritage? OAQ(4)0055(CS)	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:47	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Wales's religious heritage is very important to us. Cadw safeguards it through listing and, where possible, through grants. Cadw is developing new guidance for the care and conservation of places of worship. The heritage Bill will enhance and improve existing protection.	Mae treftadaeth grefyddol Cymru yn bwysig iawn i ni. Mae Cadw yn ei diogelu trwy restru a, phan fo'n bosibl, drwy grantiau. Mae Cadw yn datblygu canllawiau newydd ar gyfer gofal a chadwraeth manau addoli. Bydd y Bil treftadaeth yn gwella'r diogelu presennol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:48	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. May I draw your attention to the Cistercian Way, which, at 650 miles, is the longest footpath in Wales? It links many religious sites around Wales—most of them former Cistercian abbeys, of which only one is left at Caldey island. A number of local community councils and councils are doing work to try to promote that particular footpath. What work are you doing to assist with that and to help reinforce this as a potential draw for people who are interested in that sort of thing and in terms of people who wish to use it to take exercise?	Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. A gaf i dynnu eich sylw at y Ffordd Sistersaidd, sef, gan ei fod yn 650 milltir o hyd, y llwybr troed hiraf yng Nghymru? Mae'n cysylltu llawer o safleoedd crefyddol ledled Cymru—y rhan fwyaf ohonynt yn gyn-abatai Sistersaidd, a dim ond un ohonynt sydd ar ôl, ar ynys Bŷr. Mae nifer o gynghorau cymuned a chynghorau lleol yn gwneud gwaith i geisio hyrwyddo'r llwybr troed penodol hwnnw. Pa waith ydych chi'n ei wneud i helpu gyda hynny ac i helpu i atgyfnerthu hyn fel atyniad posibl i bobl sydd â diddordeb yn y math yna o beth ac o ran pobl sy'n dymuno ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer corff?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:48	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> This is an important aspect of our tourism strategy in Wales, which is the responsibility of my colleague Edwina Hart. I think that it is well recognised that there is a pilgrimage and religious aspect to those efforts. So, I am very willing to work with colleagues and, indeed, to make sure that my officials look at how we can encourage and facilitate walking on that route.	Mae hon yn agwedd bwysig ar ein strategaeth twristiaeth yng Nghymru, sef cyfrifoldeb fy nghydweithiwr, Edwina Hart. Rwy'n meddwl ei fod yn cael ei gydnabod yn helaeth bod agweddau yn ymwneud â pherierindod a chrefydd ar yr ymdrechion hynny. Felly, rwy'n barod iawn i weithio gyda chydweithwyr ac, yn wir, i wneud yn siŵr bod fy swyddogion yn ystyried sut y gallwn annog a hwyluso cerdded ar y llwybr hwnnw.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:49	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. One of my constituents who has been very active in doing work on this in the Laleston area is very keen to put ideas to you about this. Would you be willing to meet her and me to discuss her ideas about how your department could assist in the promotion of this walk?	Diolch yn fawr am yr ateb yna, Weinidog. Mae un o'm hetholwyr sydd wedi bod yn weithgar iawn yn gwneud gwaith ar hyn yn yr ardal Trelales yn awyddus iawn i gynnig syniadau i chi am hyn. A fydddech chi'n barod i gwrdd â hi a minnau i drafod ei syniadau ynglŷn â sut y gallai eich adran gynorthwyo i hyrwyddo'r daith gerdded hon?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:49	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> If the Member were to write to me with that suggestion, I would be very happy to look at it along with officials.	Pe byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf â'r awgrym hwnnw, byddwn yn barod iawn i'w ystyried ar y cyd â swyddogion.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:49	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, may I draw your attention to the Skenfrith Cope? It is a very rare survivor of our fifteenth century religious heritage, which has now been restored and is wonderfully on display in St Bridget's church in Skenfrith. May I ask, Minister, as there must be many more examples of our religious and social heritage in churches throughout Wales, could you outline how these are being catalogued, and how they can be used effectively to promote religious tourism in Wales?	Weinidog, a gaf i dynnu eich sylw at Gopa Ynysgynwraidd? Mae'n oroeswr prin iawn o'n treftadaeth grefyddol o'r pymthegfed ganrif, sydd bellach wedi ei adfer, ac, yn rhyfeddol, yn cael ei arddangos yn Eglwys Sant Bridget yn Ynysgynwraidd. A gaf fi ofyn, Weinidog, gan fod yn rhaid bod llawer mwy o enghreifftiau o'n treftadaeth grefyddol a chymdeithasol mewn eglwysi ledled Cymru, a allech chi amlinellu sut mae'r rhain yn cael eu catalogio, a sut y gellir eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo twristiaeth grefyddol yng Nghymru?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:50	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>As I said in answer to Peter Black, I think that the importance of religious tourism in Wales is understood by the Welsh Government and its partner organisations and is an important part of our tourism strategy. Therefore, I would be very happy to receive any information from Members in terms of sites and objects in their constituencies that we can ensure are properly valued and feature strongly in those strategies.</p>	<p>Fel y dywedais wrth ateb Peter Black, credaf fod Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner yn deall pwysigrwydd twristiaeth grefyddol yng Nghymru ac mae'n rhan bwysig o'n strategaeth dwristiaeth. Felly, byddwn yn hapus iawn i dderbyn unrhyw wybodaeth gan Aelodau o ran safleoedd a gwrthrychau yn eu hetholaethau y gallwn sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n iawn ac yn rhan amlwg o'r strategaethau hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:50	<p><b>Rhun ap Iorwerth</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae llawer o gapeli yng Nghymru yn cael eu defnyddio erbyn hyn fel canolfannau cymunedol yn ogystal â fel addoldai, efo Capel Moreia yn Llangefni a'r datblygiad yno yn un enghraifft dda o hynny. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog drwy'r Bil treftadaeth i sicrhau dyfodol adeiladau crefyddol hanesyddol fel hyn drwy gymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio fwy?</p>	<p>A number of chapels in Wales are now being used as community centres as well as being used as places of worship, such as Capel Moreia in Llangefni, and the development there is a good example of that. What plans does the Minister have through the heritage Bill to secure the future of historic religious buildings of this kind by taking steps to ensure that they are used more?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think that it is going to be a vital part of our heritage Bill and our wider heritage strategy to find alternative uses for buildings. Community use is particularly valuable. Therefore, that will be a strong feature, and I hope that we can have many more imaginative and effective alternative uses as we take policy forward.</p>	<p>Rwy'n meddwl y bydd dod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer adeiladau yn mynd yn rhan hanfodol o'n Bil treftadaeth a'n strategaeth treftadaeth ehangach. Mae defnydd cymunedol yn arbennig o werthfawr. Felly, bydd honno'n nodwedd gref, ac rwy'n gobeithio y gallwn gael sawl defnydd amgen a fydd yn dangos dychymyg ac a fydd yn effeithiol wrth i ni ddatblygu'r polisi.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Pwll Nofio Rhyngwladol Abertawe</b>		<b>Swansea International Swimming Pool</b>	
14:51	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o israddio'r pwll nofio rhyngwladol yn Abertawe? OAQ(4)0059(CS)</i></p>	<p><i>9. Will the Minister make a statement on the potential downgrading of the international swimming pool in Swansea? OAQ(4)0059(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae British Swimming a Nofio Cymru yn parhau eu trafodaethau am statws pwll cenedlaethol Cymru fel canolfan hyfforddi dwys yn y dyfodol. British Swimming, fel corff llywodraethu nofio Prydain Fawr, a fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol.</p>	<p>British Swimming and Swim Wales are continuing discussions about the future status of the Wales national pool as an intensive training centre. The final decision rests with British Swimming as the governing body for Great British swimming.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:51	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae wedi creu cryn gonsŷrn yn yr ardal bod nifer o'r sêr mwyaf sydd wedi ennill medalau yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd, fel Ellie Simmonds, wedi symud i hyfforddi yn Loughborough erbyn hyn. Y consŷrn yw bod statws y pwll nawr yn mynd i fynd i lawr. Sut ydym ni felly yn mynd i ennyn pobl ifanc, yn enwedig, i gymryd rhan mewn chwaraeon os yw statws ein pwll rhyngwladol yn mynd i gael ei israddio yn y fath fodd? Rwy'n deall nad eich penderfyniad chi yw hwn, ond a fedrwnch gael trafodaethau gyda'r cyrff hyn i sicrhau na fydd Abertawe yn cael ei israddio ar gyfer hyfforddiant?</p>	<p>Thank you, Minister, for that response. It has created some concern in the area that many of the major stars who were successful in winning medals in the Olympic and Paralympic Games, such as Ellie Simmonds, have moved now to train in Loughborough. The concern is that the status of the pool will now decline. How are we then going to encourage young people particularly to participate in sport if the status of our international pool is to be downgraded in such a way? I understand that it is not your decision, but could you have discussions with these bodies to ensure that Swansea is not downgraded as a training centre?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:52	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I have been involved in discussions and my officials are closely involved through Sport Wales, as well as in their own capacity regarding UK Sport and the British governing body. We fully understand these issues, and I must say that I fully understand the Member's concern. I hope very much that we will get to a satisfactory solution that safeguards the interests of swimming in Swansea and in Wales as a whole.</p>	<p>Rwyf wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ac mae fy swyddogion yn ymwneud yn agos drwy Chwaraeon Cymru, yn ogystal ag yn eu swyddogaethau eu hunain o ran UK Sport a chorff llywodraethu Prydain. Rydym yn deall y materion hyn yn llwyr, ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn deall pryder yr Aelod yn llwyr. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn yn dod o hyd i ateb boddhaol a fydd yn diogelu buddiannau nofio yn Abertawe ac yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.</p>
14:53	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, the Swansea pool was, as you heard, used as a training facility for the London Olympics. Why has the Welsh Government not secured Olympic legacy funding to ensure that the pool not only retains its international status, but meets the future aspirations of Wales's young swimmers?</p>	<p>Weinidog, defnyddiwyd pwll Abertawe, fel y clywsoch, fel cyfleuster hyfforddi ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain. Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid etifeddiaeth Olympaidd i sicrhau bod y pwll nid yn unig yn cadw ei statws rhyngwladol, ond hefyd yn bodloni dyheadau nofwyr ifanc Cymru yn y dyfodol?</p>
14:53	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Welsh Government is keen to access funding from a variety of sources to take forward sport and physical activity in Wales. I can assure the Member that we would not be in the position of not accessing available funding. We make every effort and will continue to do so, but we have to be realistic in terms of the role that we can play and where decision making lies in these matters.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael mynediad at gyllid o amrywiaeth o ffynonellau i ddatblygu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Gallaf sicrhau'r Aelod na fyddem yn y sefyllfa o beidio â chael mynediad at gyllid sydd ar gael. Rydym yn gwneud pob ymdrech a byddwn yn parhau i wneud hynny, ond mae'n rhaid i ni fod yn realistig o ran y swyddogaeth y gallwn ei chyflawni a phwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am y materion hyn.</p>
	<b>Parciau Cenedlaethol Cymru</b>	<b>The National Parks of Wales</b>
14:53	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0056(CS)</i></p>	<p><i>10. Will the Minister outline his priorities for Wales' National Parks? OAQ(4)0056(CS)</i></p>
14:53	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>My priorities for Wales's national parks are set out in our draft policy statement for protected landscapes in Wales, upon which we recently consulted.</p>	<p>Nodir fy mlaenoriaethau ar gyfer parciau cenedlaethol Cymru yn ein datganiad polisi drafft ar gyfer tirweddau gwarchoddedig yng Nghymru, yr ymgynghorwyd arno gennym yn ddiweddar.</p>
14:54	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I would like to thank the Minister very much for that reply. Given the central role that national parks play for families and, indeed, businesses within their boundaries, I wonder whether you share my concern at claims that the Brecon Beacons National Park has recently brought in a new system whereby it withholds access online to any comments with regard to planning applications. These are available on inspection and by appointment at the park's headquarters. I would suggest that this is evidence of a difficult culture and one that needs to be looked at quite carefully. Also, would you agree that there is an importance around transparency and accountability in terms of the engagement that the parks have with their communities not just in planning matters, but across the piece?</p>	<p>Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr ateb yna. O ystyried y swyddogaeth ganolog y mae parciau cenedlaethol yn ei chyflawni ar gyfer teuluoedd ac, yn wir, busnesau o fewn eu ffiniau, tybed a ydych yn rhannu fy mhryder i am honiadau bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyflwyno system newydd yn ddiweddar lle mae'n gwrthod rhoi mynediad ar-lein i unrhyw sylwadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio. Mae'r rhain ar gael i'w harolygu a thrwy apwyntiad ym mhencadlys y parc. Byddwn yn awgrymu bod hyn yn dystiolaeth o ddiwylliant anodd ac un y mae angen ei ystyried yn eithaf gofalus. Hefyd, a fydddech chi'n cytuno bod pwysigrwydd o ran tryloywder ac atebolrwydd o ran yr ymgysylltiad sydd gan y parciau gyda'u cymunedau nid yn unig mewn materion cynllunio, ond yn gyffredinol?</p>

- 14:55 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would absolutely agree that it is crucial that the national parks engage as effectively as possible with the communities within the park and more widely. They must be open and transparent, which I think is a general requirement for bodies across Wales, particularly those in receipt of public funds. Therefore, I am happy to agree with the Member on that. My colleague Carl Sargeant has planning responsibilities, and I am sure that he will have heard what you have to say on the planning function. I will certainly make sure, in my discussions with the national parks, that governance issues are addressed in terms of the matters that the Member raises.
- Byddwn yn cytuno'n llwyr ei bod yn hanfodol bod y parciau cenedlaethol yn ymgysylltu mor effeithiol â phosibl gyda'r cymunedau o fewn y parc ac yn ehangach. Rhaid iddynt fod yn agored ac yn dryloyw sydd, rwy'n credu, yn ofyniad cyffredinol i gyrrff ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus. Felly, rwy'n hapus i gytuno gyda'r Aelod am hynny. Mae gan fy nghydweithiwr, Carl Sargeant, gyfrifoldebau cynllunio, ac rwy'n siŵr y bydd wedi clywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud am y swyddogaeth gynllunio. Byddaf yn sicr yn gwneud yn siŵr, yn fy nhrafodaethau gyda'r parciau cenedlaethol, bod materion llywodraethu yn cael eu hystyried o ran y materion y mae'r Aelod yn eu codi.
- 14:55 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you mentioned the words 'governance', 'transparency' and 'openness' in reference to the national parks. Do you think that it would be a good idea for us to have a proportion of directly elected members on each national park authority, so that the ordinary people who live in those parks might have the opportunity to influence what goes on there, just as we do with our local county councils?
- Weinidog, crybwyllwyd y geiriau 'llywodraethu', 'tryloywder' a 'bod yn agored' gennych wrth gyfeirio at y parciau cenedlaethol. A ydych chi'n meddwl y byddai'n syniad da i ni i gael cyfran o aelodau sydd wedi eu hethol yn uniongyrchol ar bob awdurdod parc cenedlaethol, fel y gallai'r bobl gyffredin sy'n byw yn y parciau hynny gael y cyfle i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yno, yn union fel yr ydym ni'n ei wneud gyda'n cynghorau sir lleol?
- 14:56 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- These are matters that we have discussed on a number of occasions in this Chamber. I think that the issues are probably well understood by Members. We never close our minds to possible developments in the national parks that would improve democracy and transparency, but we are not at this stage convinced that direct elections would lead to the progress that the Member seems to think that they would.
- Mae'r rhain yn faterion yr ydym ni wedi eu trafod ar sawl achlysur yn y Siambr hon. Rwy'n credu bod yr Aelodau'n deall y materion hyn yn dda yn ôl pob tebyg. Nid ydym byth yn cau ein meddyliau i ddatblygiadau posibl yn y parciau cenedlaethol a fyddai'n gwella democratiaeth a thryloywder, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi ar hyn o bryd y byddai etholiadau uniongyrchol yn arwain at y cynnydd y mae'n ymddangos bod yr Aelod yn meddwl y byddent.
- 14:56 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y parciau cenedlaethol, a ydyw parhau i fod yn awdurdodau cynllunio yn rhan o'ch gweledigaeth chi ar gyfer y parciau cenedlaethol yng Nghymru?
- As Minister with responsibility for the national parks, may I ask whether continuing to be planning authorities is part of your vision for the national parks in Wales?
- 14:56 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member will know that work is being taken forward at the moment in terms of the planning Bill, and I am taking forward work with regard to the national parks and their general role and functions. So, there are many discussions to be had as far as the future is concerned. I am sure that Members will play a full role in terms of making their views known as to what the best course of action is.
- Bydd yr Aelod yn gwybod bod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran y Bil cynllunio, ac rwyf yn bwrw ymlaen â gwaith o ran y parciau cenedlaethol a'u swyddogaeth a'u gweithredoedd cyffredinol. Felly, mae llawer o drafodaethau i'w cynnal wrth ystyried y dyfodol. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau yn chwarae rhan lawn o ran mynegi eu barn ynglŷn â'r ffordd orau o weithredu.

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## National Library of Wales

- 14:57 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda rheolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru?*  
OAQ(4)0061(CS)
- 11. What recent discussions has the Minister had with the management of the National Library of Wales?*  
OAQ(4)0061(CS)

14:57	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn dilyn fy ymweliad â'r llyfrgell yn ystod yr haf, rwyf wedi cael trafodaethau rheolaidd â'm swyddogion yn is-adran CyMAL. Rwy'n edrych ymlaen at fy nghyfarfod cyntaf â'r Athro Aled Gruffydd Jones, y llyfrgellydd cenedlaethol newydd, a Syr Deian Hopkin, llywydd y llyfrgell, ar 7 Hydref.</p>	<p>Following my visit to the library in the summer, I have had regular discussions with my officials at CyMAL division. I look forward to my first meeting with Professor Aled Gruffydd Jones, the new national librarian, and Sir Deian Hopkin, the library's president, on 7 October.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:58	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, fe glywon ni'r Prif Weinidog y prynhawn yma yn annog cyflogwyr i dalu cyflog byw i'w gweithwyr. A oeddech chi'n ymwybodol bod yn agos at 25% o weithwyr y llyfrgell genedlaethol nad ydynt yn ennill cyflog byw? Maen nhw'n ennill llai na'r cyflog byw. Yn eich trafodaethau chi, felly, ar eich cyllideb, a fyddwch chi'n dadlau dros gyllid ychwanegol i'r cyrff cyhoeddus yr ydych chi'n gyfrifol amdanynt fel y gallant fod mewn sefyllfa, fel y llyfrgell genedlaethol, i dalu cyflog byw i'w gweithwyr?</p>	<p>Minister, we heard the First Minister this afternoon encouraging employers to pay a living wage to their employees. Were you aware that nearly 25% of staff at the national library do not earn a living wage? They earn less than a living wage. In your discussions on your budget, will you argue in favour of additional funding for the public bodies that you are responsible for so that they can be in a position, like the national library, to pay a living wage to their staff?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:58	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>My view is that bodies that fall within my responsibilities should think long and hard as to what being a progressive employer means at the current time. Obviously, issues around the living wage and terms and conditions are uppermost in the minds of staff and management, I hope. I am willing to have discussions with the national library on these matters.</p>	<p>Fy marn i yw y dylai cyrff sy'n rhan o'm cyfrifoldebau ystyried yn ofalus iawn yr hyn y mae bod yn gyflogwr blaengar yn ei olygu ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae materion yn ymwneud â'r cyflog byw a thelerau ac amodau yn flaenllaw ym meddyliau aelodau staff a rheolwyr, rwy'n gobeithio. Rwyf yn barod i gael trafodaethau gyda'r llyfrgell genedlaethol ar y materion hyn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Plant a Phobl Ifanc sydd wedi'u Hallgáu'n Gymdeithasol</b></p>		<p><b>Socially Excluded Children and Young People</b></p>	
14:59	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>12. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymestyn gweithgarwch chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol? OAQ(4)0062(CS)</i></p>	<p><i>12. What is the Welsh Government doing to extend sport and leisure activity to socially excluded children and young people? OAQ(4)0062(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:59	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Our investment through Sport Wales is supporting the provision of sport and leisure opportunities for all children and young people, wherever they live or whatever their circumstances. In addition, specific initiatives aim to further social inclusion.</p>	<p>Mae ein buddsoddiad drwy Chwaraeon Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleoedd chwaraeon a hamdden i bob plentyn ac unigolyn ifanc, lle bynnag y mae'n byw neu beth bynnag ei amgylchiadau. Hefyd, ceir mentrau penodol sydd â'r nod o gynyddu cynhwysiant cymdeithasol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:59	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Socially excluded children, as we were discussing in last week's debate, are often least likely to achieve academically in school, leading to feelings of isolation and despair. The Prince's Trust supports at-risk young people to engage in sport and leisure to restore confidence and self-worth. What are you doing, and are you working closely with the Minister for Education and Skills to ensure that this provision is available for all, from all backgrounds?</p>	<p>Yn aml, plant sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol, fel yr oeddem yn ei drafod yn nadl yr wythnos diwethaf, yw'r lleiaf tebygol o gyflawni yn academiaidd yn yr ysgol, gan arwain at deimladau o unigrwydd ac anobaith. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden i adennill hyder a hunanwerth. Beth ydych chi'n ei wneud, ac a ydych chi'n gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael i bawb, o bob cefndir?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

15:00	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I work very closely with all my ministerial colleagues in taking forward my responsibilities and in making appropriate links, and that very much includes the Minister for education. There are many links in terms of community development, regeneration, education and sport in Wales, but I am sure that there is always more that we can do, and we can always strengthen our efforts. However, I am very pleased to see, when I travel around Wales, the very good work going on right across the country.</p>	<p>Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy holl gyd-Weinidogion i gyflawni fy nghyfrifoldebau a gwneud cysylltiadau priodol, ac mae hynny'n sicr yn cynnwys y Gweinidog addysg. Ceir llawer o gysylltiadau o ran datblygu cymunedol, adfywio, addysg a chwaraeon yng Nghymru, ond rwy'n siŵr bod mwy y gallwn ni ei wneud bob amser, a gallwn gryfhau ein hymdrechion bob amser. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn o weld, pan fyddaf yn teithio o gwmpas Cymru, y gwaith da iawn sy'n cael ei wneud ym mhob cwr o'r wlad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Menywod mewn Chwaraeon</b>		<b>Women in Sport</b>	
15:00	<p><b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godi proffil menywod mewn chwaraeon? OAQ(4)0058(CS)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on increasing the profile of women in sport? OAQ(4)0058(CS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The success of our elite athletes, Jade Jones, Non Stanford and Becky James, has increased the profile of women in sport, as have our women's national football and netball teams. We continue to work with Sport Wales to give women's sport the spotlight it needs and deserves.</p>	<p>Mae llwyddiant ein hathletwyr elit, Jade Jones, Non Stanford a Becky James, wedi cynyddu proffil menywod ym myd chwaraeon, ac felly hefyd ein timau pêl-droed a pêl-rwyd menywod cenedlaethol. Rydym yn parhau i weithio gyda Chwaraeon Cymru i roi'r sylw i chwaraeon merched sydd ei angen arnynt ac maen nhw'n ei haeddu.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You mentioned women's football and, of course, we recently hosted the UEFA women's under-19 tournament in west Wales, and you and I, with Keith Davies, went along to show our support. How will you build on the success of that high-profile tournament to ensure that the new momentum that is building up behind women's football increases awareness and leads to further investment in the sport?</p>	<p>Soniasoch am bêl-droed menywod ac, wrth gwrs, cynhaliwyd cystadleuaeth menywod dan 19 UEFA yng ngorllewin Cymru yn ddiweddar, ac fe aethoch chi a minnau, gyda Keith Davies, yno i ddangos ein cefnogaeth. Sut y byddwch chi'n adeiladu ar lwyddiant y gystadleuaeth uchel ei phroffil honno i sicrhau bod y momentwm newydd sy'n datblygu y tu ôl i bêl-droed menywod yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn arwain at fuddsoddiad pellach yn y gamp?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I was very pleased to be in west Wales to witness our women footballers in action. I know that women's football, and, indeed, girls' football, is increasingly popular in Wales. It is really heartening to see that growing participation. We are working to further develop women's football with Sport Wales, with the FAW—which has a very welcome new strategy on this issue—and with the Welsh Football Trust. We are committed to tackling the perceptions that some women and girls have about sport through the Sport Wales campaign, What Moves You?, and also, more specifically, we will take forward with those partners activity to increase participation in women's football.</p>	<p>Roeddwn i'n falch iawn o fod yng ngorllewin Cymru i weld ein chwaraewyr pêl-droed benywaidd yn chwarae. Gwn fod pêl-droed menywod, ac, yn wir, pêl-droed merched, yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru. Mae'n wirioneddol galonogol gweld y nifer sy'n cymryd rhan yn tyfu. Rydym yn gweithio i ddatblygu pêl-droed menywod ymhellach gyda Chwaraeon Cymru, gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru—sydd â strategaeth newydd yr ydym yn ei chroesawu'n fawr ar y mater hwn—a chydag Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Rydym ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r tybiaethau sydd gan rai menywod a merched am chwaraeon trwy'r ymgyrch Chwaraeon Cymru, Sut Mae'ch Symud Chi?, a hefyd, yn fwy penodol, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithgarwch i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn pêl-droed menywod gyda'r partneriaid hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

15:02 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Business Statement and Announcement**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. The Business Committee has agreed to schedule a motion, following this business statement, to elect a Member to a committee. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig, yn dilyn y datganiad busnes hwn, i ethol Aelod i bwyllgor. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:02 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister will be well aware of the current position with regard to Caerphilly County Borough Council. Can she make a statement on the lessons learned in progressing this matter, and can she confirm a broad timescale within which the issue is likely to be resolved?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa bresennol o ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. A all hi wneud datganiad ar y gwersi a ddysgwyd wrth fwrw ymlaen â'r mater hwn, ac a all hi gadarnhau amserlen fras ar gyfer datrys y mater hwn?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I cannot give you a timescale. Obviously, discussions are ongoing between my officials, Caerphilly council and the Auditor General for Wales.

Ni allaf roi amserlen i chi. Yn amlwg, mae trafodaethau yn parhau rhwng fy swyddogion i, cyngor Caerffili ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:02 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have two requests for a statement. One is with regard to the report that was out last week on the cardiac unit in Swansea. We had an opportunity as Assembly Members to meet with the chief executive, but I was wondering whether we could have a response from the Minister for health, especially with regard to the fact that the report proposes a new cardiac surgery unit, and, obviously, this would require money from the Welsh Government. Therefore, I was wondering whether we could have a statement on that.

Weinidog, mae gennyf ddau gais am ddatganiad. Mae un yn ymwneud â'r adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf ar uned y galon yn Abertawe. Cawsom gyfle fel Aelodau Cynulliad i gwrdd â'r prif weithredwr, ond roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael ymateb gan y Gweinidog iechyd, yn enwedig o ystyried y ffaith fod yr adroddiad yn cynnig uned newydd ar gyfer llawdriniaeth y galon, ac, yn amlwg, byddai hyn yn gofyn am arian gan Lywodraeth Cymru. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On the second statement that I would like to ask for, you may be aware that Cwmni Clydach Development Trust, in my area, has seen the receivers called in. It says on the website that the Welsh Government funds it via Communities First, the sports council and the local regeneration fund. I was wondering whether we could have a statement from the Government on this particular issue, given that, clearly, Welsh Government and public money has been spent, and we want to make sure that the public purse does not lose out should anything go drastically wrong with this particular trust.

O ran yr ail ddatganiad yr hoffwn ofyn i chi amdano, efallai y byddwch yn ymwybodol bod y derbynwyr wedi eu galw i mewn i Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach yn fy ardal i. Mae'n dweud ar y wefan bod Llywodraeth Cymru yn ei hariannu trwy Gymunedau yn Gyntaf, y cyngor chwaraeon a'r gronfa adfywio lleol. Roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan y Llywodraeth ar y mater penodol hwn, o ystyried, yn amlwg, bod arian Llywodraeth Cymru a chyhoeddus wedi cael ei wario, a'n bod ni eisiau gwneud yn siŵr nad yw'r pwrs cyhoeddus yn colli arian pe byddai rhywbeth yn mynd yn ddirifol o'i le gyda'r ymddiriedolaeth benodol hon.

15:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Bethan Jenkins, for those two requests. In relation to cardiac services in Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, the Minister is aware of the findings of the independent review panel at Morriston Hospital and is very pleased that the health board has commissioned the external review to show that it wants to tackle these issues once and for all. I know that the unit has provided excellent care to many patients since it opened in 1997 and that it continues to do so. The Minister is looking at that closely.

Diolch i chi, Bethan Jenkins, am y ddau gais yna. O ran gwasanaethau'r galon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae'r Gweinidog yn ymwybodol o ganfyddiadau'r panel adolygu annibynnol yn Ysbyty Treforys ac mae'n falch iawn bod y bwrdd iechyd wedi comisiynu'r adolygiad allanol i ddangos ei fod eisiau mynd i'r afael â'r materion hyn unwaith ac am byth. Rwy'n gwybod bod yr uned wedi darparu gofal rhagorol i lawer o gleifion ers iddi agor ym 1997 a'i bod yn parhau i wneud hynny. Mae'r Gweinidog yn edrych ar hynny'n ofalus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



In relation to your second request, I will speak to the Minister responsible, because he is not in the Chamber, to see whether he can bring a statement forward.

O ran eich ail gais, byddaf yn siarad â'r Gweinidog sy'n gyfrifol, gan nad yw yn y Siambr, i weld a all gyflwyno datganiad.

15:04 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know that, earlier this week, the Government announced that it was going to bring forward the mortgage guarantee scheme for the UK, which can affect both England and Wales. We are in a situation whereby we do not have a similar scheme in place for Wales, and, when I raised this with you last week, you said the Minister would make a statement on this. As things have now changed, could the Minister make that statement, and will he indicate whether he will be taking advantage of that scheme in Wales as well, so that we can have a scheme in place for first-time buyers here to take advantage of?

Weinidog, byddwch yn gwybod, yn gynharach yr wythnos hon, i'r Llywodraeth gyhoeddi ei bod yn mynd i gyflwyno'r cynllun gwarantu morgaeisi ar gyfer y DU, sy'n gallu effeithio ar Gymru a Lloegr. Rydym ni mewn sefyllfa lle nad oes gennym gynllun tebyg ar waith ar gyfer Cymru, a phan godais i hyn gyda chi yr wythnos diwethaf, dywedasoch y byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad ar hyn. Gan fod pethau wedi newid erbyn hyn, a all y Gweinidog wneud y datganiad hwnnw, ac a wnaiff ef nodi pa un a fydd yn manteisio ar y cynllun hwnnw yng Nghymru hefyd, fel y gallwn gael cynllun ar waith ar gyfer prynwyr tro cyntaf yma i fanteisio arno?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is still the Minister's intention to launch Help to Buy later this year.

Mae'r Gweinidog yn dal i fwriadu lansio Cymorth i Brynu yn ddiweddarach eleni.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask for a debate in Government time on fire and rescue services in Wales. In my constituency, Cwmbran fire station is currently threatened by the loss of its retained crew as part of the South Wales Fire and Rescue Service's fire cover review. I am also aware that Blaina fire station faces a similar fate, and that several other fire stations across Wales are threatened with closure, so I believe that there would be great merit in having that kind of debate here. Also, Minister, last week I asked about a debate on the lobbying Bill, as did Simon Thomas. Are you able to provide any update on Government plans to bring forward such a debate, which I think would be very much welcomed in this Chamber?

Hoffwn ofyn am ddatl yn amser y Llywodraeth ar wasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Yn fy etholaeth i, mae gorsaf dân Cwmbrân dan fgythyad o golli ei chriw cadw ar hyn o bryd yn rhan o adolygiad gwasanaethau tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod gorsaf dân Blaenau yn wynebu tynged debyg, a bod nifer o orsafoedd tân eraill ledled Cymru dan fgythyad o gau, felly rwy'n credu y byddai o fudd mawr cael y math yna o ddatl yma. Hefyd, Weinidog, gofynnais yr wythnos diwethaf am ddatl ar y Bil lobio, fel y gwnaeth Simon Thomas. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth i gyflwyno datl o'r fath, yr wyf yn credu y byddai croeso mawr iddi yn y Siambr hon?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:06 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to your first question, I would be very happy to bring a statement to the Chamber on the fire and rescue authorities. Obviously, there is a great deal of work going on around FRAs at the present time, and we have a new adviser to the Welsh Government. I will be happy to do that.

O ran eich cwestiwn cyntaf, byddwn yn hapus iawn i gyflwyno datganiad i'r Siambr ar yr awdurdodau tân ac achub. Yn amlwg, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud yng nghyswllt Awdurdodau Tân ac Achub ar hyn o bryd, ac mae gennym ymgynghorydd newydd i Lywodraeth Cymru. Byddaf yn hapus i wneud hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

In relation to the lobbying Bill, I mentioned that we would be monitoring the Bill closely. There are some amendments coming forward proposed by the UK Government, and we are going to watch very carefully how that is received by the third sector, but we do not think at the current time that a debate is needed.

O ran y Bil lobio, soniais y byddem yn monitro'r Bil yn ofalus. Mae rhai newidiadau yn cael eu cyflwyno a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU, ac rydym ni'n mynd i edrych yn ofalus iawn ar sut groeso y bydd hynny'n ei gael gan y trydydd sector, ond nid ydym yn credu bod angen datl ar hyn o bryd.

- 15:06 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a single statement on north Wales rail services. I believe last week you indicated that the Minister for transport will be making a statement in the context of the Saltney-Wrexham redoubling, and concern raised there that funding for north Wales may have been moved to south Wales projects. We know that Network Rail has said that it was ready to go ahead in October following Welsh Government approval. However, further concern has now been raised after an adviser to the Welsh Government stated in a public lecture last week that the Welsh Government was considering moving 40-year-old high-speed trains, following electrification in south Wales, to an hourly Cardiff to Holyhead service, which would displace existing services in north Wales to Birmingham if the line is not redoubled, and could jeopardise electrification. I would welcome any statement being extended to include those concerns.
- Galwaf am un datganiad ar wasanaethau rheilffyrdd gogledd Cymru. Rwy'n credu i chi nodi yr wythnos diwethaf y bydd y Gweinidog trafniadaeth yn gwneud datganiad yng nghyd-destun ailddyblu Saltney-Wreccsam, a'r pryderon a godwyd yno y bydd cyllid ar gyfer gogledd Cymru wedi cael ei symud i brosiectau yn ne Cymru. Rydym yn gwybod bod Network Rail wedi dweud ei fod yn barod i gychwyn ym mis Hydref yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, codwyd pryder pellach erbyn hyn ar ôl i gynghorydd i Lywodraeth Cymru nodi mewn darlith gyhoeddus yr wythnos diwethaf bod Llywodraeth Cymru yn ystyried symud trenau cyflymder uchel 40 mlwydd oed, ar ôl trydaneiddio yn ne Cymru, i wasanaeth bob awr o Gaerdydd i Gaergybi, a fyddai'n disodli gwasanaethau presennol rhwng gogledd Cymru a Birmingham os nad yw'r llinell yn cael ei hailddyblu, ac a allai beryglu trydaneiddio. Byddwn yn croesawu unrhyw ddatganiad yn cael ei ymestyn i gynnwys y pryderon hynny.
- 15:07 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am not quite sure about the evidence for funding being moved from north Wales to south Wales. What the Minister said was that she was reviewing the scheme in light of several issues around funding and other concerns raised. The Minister will update Members on that issue in due course. She also announced last week that there is going to be a north Wales ministerial board looking at rail, which I will be chairing on her behalf.
- Nid wyf yn hollol siŵr am y dystiolaeth o gyllid yn cael ei symud o ogledd Cymru i dde Cymru. Yr hyn a ddywedodd y Gweinidog oedd ei bod yn adolygu'r cynllun yng ngoleuni nifer o faterion yn ymwneud â chyllid a phryderon eraill a godwyd. Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y mater hwnnw maes o law. Cyhoeddodd yr wythnos diwethaf hefyd y bydd bwrdd gweinidogol gogledd Cymru yn ystyried y rheilffyrdd, y byddaf i'n ei gadeirio ar ei rhan.
- 15:08 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, could you please make a statement or give time for a debate on the decision by Pembrokeshire County Council to allow senior officers to opt out of the pension scheme, which will allow them to avoid tax? In my opinion, the Wales Audit Office must rule whether that is illegal or not, but, in any case, it is immoral that the senior tax collector of a local authority is allowed to dodge tax in his own authority—the person who will authorise the collection of tax and tax arrears in turn trying his best not to pay his due in tax.
- Weinidog, a allech chi wneud datganiad neu neilltuo amser ar gyfer dadl ar y penderfyniad gan Gyngor Sir Penfro i ganiatáu uwch swyddogion i optio allan o'r cynllun pensiwn, a fydd yn eu galluogi i osgoi treth? Yn fy marn i, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddyfarnu a yw hynny'n anghyfreithlon ai peidio, ond, mewn unrhyw achos, mae'n anfoesol bod uwch gasglwr trethi awdurdod lleol yn cael ei ganiatáu i osgoi treth yn ei awdurdod ei hun —y sawl a fydd yn awdurdodi casglu treth ac ôl-ddyledion treth yn ceisio ei orau i beidio â thalu'r dreth sy'n ddyledus ganddo.
- 15:08 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is a matter for the auditor general and his appointed auditor. I have spoken to the auditor general and I understand that there is a conflict of legal views, and the appointed auditor is considering issuing a public interest report, which would be done within the next few weeks.
- Mae hwn yn fater i'r archwilydd cyffredinol a'i archwilydd penodedig. Rwyf wedi siarad â'r archwilydd cyffredinol ac rwy'n deall bod safbwyntiau cyfreithiol yn gwrthdaro, ac mae'r archwilydd penodedig yn ystyried cyhoeddi adroddiad lles y cyhoedd, a fyddai'n cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf.
- 15:09 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Hundreds of my constituents who are social housing tenants are already in arrears because of the bedroom tax. Noting that the main opposition in London is promising to repeal that tax, may I request a ministerial statement on action that this Government could take now, which would be to issue guidance to local government to order a no- evictions policy here in Wales? That would be, first, because it is the right thing to do, and, secondly, because it would save the taxpayer money, because of the high price of rehousing social housing tenants.
- Mae gan gannoedd o'm hetholwyr sy'n denantiaid tai cymdeithasol ôl-ddyledion eisoes oherwydd y dreth ystafell wely. Gan nodi bod y brif wrthblaid yn Llundain yn addo diddymu'r dreth honno, a gaf fi ofyn am ddatganiad gweinidogol ar gamau y gallai'r Llywodraeth hon eu cymryd nawr, sef cyflwyno canllawiau i lywodraeth leol i orchymyn polisi dim troi allan yma yng Nghymru? Byddai hynny, yn gyntaf, am mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac, yn ail, gan y byddai'n arbed arian i'r trethdalwr, oherwydd pris uchel ailgartrefu tenantiaid tai cymdeithasol.

- 15:09 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- You are quite right—there would be a very high cost, not just a financial cost, but also in terms of the quality of life of people in relation to eviction and then rehousing. It is something that we are looking at very closely, but there is a revenue cost to this as well.
- Rydych chi yn llygad eich lle—byddai cost uchel iawn, nid dim ond cost ariannol, ond hefyd o ran ansawdd bywyd pobl yn sgil cael eu troi allan, ac yna eu hail-gartrefu. Mae'n rhywbeth yr ydym ni'n ei ystyried yn ofalus iawn, ond ceir cost referniw i hyn hefyd.
- 15:10 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Will the Minister timetable time for a debate on public conveniences and the Government's expectations for the provision of such services? A lack of public toilets can have a devastating impact on older people and young families and has implications for health as well as tourism, yet, despite that, Powys County Council has embarked on a wholesale closure of public conveniences around the county, which is causing a great deal of distress. Such a debate could highlight the importance of these facilities and what the Government's expectations are of local authorities to ensure that there is an adequate network of public conveniences for people to use.
- A wnaiff y Gweinidog drefnu amser ar gyfer dadl ar dai bach cyhoeddus a disgwyliadau'r Llywodraeth ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath? Gall diffyg tai bach cyhoeddus gael effaith ddifrifol ar bobl hŷn a theuluoedd ifanc ac mae ganddo oblygiadau o ran iechyd yn ogystal â thwristiaeth, ac eto, er gwaethaf hynny, mae Cyngor Sir Powys wedi dechrau cau tai bach cyhoeddus drwyddi draw ledled y sir, sy'n achosi llawer iawn o bryder. Gallai dadl o'r fath amlygu pwysigrwydd y cyfleusterau hyn a beth yw disgwyliadau'r Llywodraeth gan awdurdodau lleol i sicrhau bod rhwydwaith digonol o dai bach cyhoeddus i bobl eu defnyddio.
- 15:10 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- You raise a very important point and it is something that is of interest to a great many people. We can certainly look to bringing forward a statement in due course.
- Rydych chi'n codi pwynt pwysig iawn, ac mae'n rhywbeth sydd o ddiddordeb i lawer iawn o bobl. Gallwn ystyried cyflwyno datganiad maes o law yn sicr.

## Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor

Cynnig NDM5314 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Simon Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

## Motion to Elect a Member to a Committee

Motion NDM5314 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3, elects Simon Thomas (Plaid Cymru) as a member of the Finance Committee.

- 15:11 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*
- I move the motion. Cynigiad y cynnig.
- 15:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.
- Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, derbynniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
- Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Datganiad: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Doe, cafodd Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd Aelodau'r Cynulliad wybod amdano mewn datganiad ysgrifenedig. Pleser yw cyflwyno'r Bil er mwyn i'r Aelodau ei ystyried heddiw.

Mae wedi'i gydnabod yn eang fod y byrddau iechyd ar hyn o bryd yn gweithio o fewn fframwaith deddfwriaethol sy'n rhoi pwysau afresymol arnynt. Mae'r rhain yn sefydliadau cymhleth iawn sy'n delio â miliynau a miliynau o bunnoedd ac o dan y drefn bresennol mae pwysau arnynt i fantoli eu llyfrau bob blwyddyn. Un o anfantaision eraill y ddyletswydd ariannol flynyddol statudol yw ei bod yn annog gwneud penderfyniadau yn y tymor byr, penderfyniadau nad ydynt o reidrwydd o fudd i'r NHS yn y tymor hir. Rwy'n gwybod bod y safbwynt hwn wedi cael ei fynegi'n barod mewn argymhellion ffurfiol gan nifer o bwylgorau'r Cynulliad a chyrrff eraill. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i grynhoi nifer o enghreifftiau allweddol ar ddechrau'r datganiad hwn a sôn amdanynt mewn trefn gronolegol.

I do not need to go very far back in time in order to do that, because there have been a series of such reports within the last year or so. A key recommendation for this change was made by the Wales Audit Office in its 'Health Finances 2012-13 and beyond' report published in July 2012. It stated that:

'The resource accounting regime of the NHS has a short-term focus on breaking even within each financial year. This potentially makes it difficult for NHS bodies to create funds to invest in transformation and change in order to deliver savings in future years...the Welsh Government should assess the current requirement for health boards to break-even each and every year, and develop options that would enable NHS bodies to invest in new ways of working where these are likely to deliver savings in the future and enable them to break-even over a longer period.'

The Bill before the Assembly today responds directly to this recommendation.

The Health and Social Care Committee of the Assembly, following scrutiny of the draft budget proposals for 2013-14, wrote in October last year to the Finance Committee noting its particular concern given the requirement for local health boards to break even year on year while local health board service reconfiguration plans and Welsh Government plans are being developed on a five-year and three-year basis respectively.

## Statement: Introduction of the National Health Service Finance (Wales) Bill

Yesterday, the National Health Service Finance (Wales) Bill, together with an explanatory memorandum, was laid before the National Assembly for Wales and notified to Assembly Members in a written statement. I am pleased to introduce the Bill for Members' consideration today.

It has been widely acknowledged that the health boards at present work within a legislative framework that places unreasonable demands upon them. These are highly complex, multi-million pound organisations and under the current system there is pressure upon them to balance their books every year. A further disadvantage of the annual statutory financial study is that it encourages decision making in the short term, which may not necessarily be in the best interests of the NHS in the long term. I know that this view has already been expressed in formal recommendations made by a number of Assembly Committees and other bodies. I thought that it would be helpful to summarise a number of key examples at the beginning of this statement and to take them in chronological order.

Nid oes angen imi fynd yn bell iawn yn ôl mewn amser er mwyn gwneud hynny, oherwydd bu cyfres o adroddiadau o'r fath o fewn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Gwnaethpwyd un o'r argymhellion allweddol o blaid y newid hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad 'Cyllid Iechyd 2012-13 a thu hwnt' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012. Mae'n dweud:

'Mae cyfundrefn cyfrifyddu adnoddau'r GIG yn canolbwyntio yn y byrdymor ar fantoli'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hyn o bosibl yn ei gwneud yn anodd i gyrrff y GIG greu cronfeydd i fuddsoddi mewn gwaith trawsffurfio a newid er mwyn cyflawni arbedion mewn blynyddoedd i ddod... dylai Llywodraeth Cymru asesu'r gofyniad presennol i fyrddau iechyd fantoli'r gyllideb bob blwyddyn, a datblygu opsiynau a fyddai'n galluogi cyrrff y GIG i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio lle mae'r rhain yn debygol o gyflawni arbedion yn y dyfodol a'u galluogi i fantoli'r gyllideb dros gyfnod hwy.'

Mae'r Bil gerbron y Cynulliad heddiw'n ymateb yn uniongyrchol i'r argymhelliad hwn.

Ym mis Hydref y llynedd ysgrifennodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad at y Pwyllgor Cyllid, ar ôl craffu ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14, yn nodi ei bryder arbennig o ystyried y gofyniad i fyrddau iechyd lleol fantoli eu cyllideb o flwyddyn i flwyddyn tra bo cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau byrddau iechyd lleol a chynlluniau Llywodraeth Cymru'n cael eu datblygu ar sail pum mlynedd a thair blynedd yn y drefn honno.

This Bill addresses this concern also by providing continuity and better alignment with planning and financial cycles. When the Finance Committee itself reported on the Welsh Government's draft budget motion for 2013-14 in November of last year, it recommended a need to address

'the case for additional flexibility for Local Health Boards to manage their funding across financial years'.

Finally, the Public Accounts Committee, when it published its 'Health Finances' report in February of this year, recommended that:

'the Welsh Government considers forthcoming legislative opportunities to address the inflexibility of Health Board finances across financial years.'

This Bill responds directly to all these recommendations. It removes the significant challenge that local health boards face within the current annual financial regime, which encourages short-term decision making around the financial year end and prevents a more sustainable approach to developing service provision.

Having outlined the case for the Bill, it is very important for me to be clear about what the Bill does not do. While it will provide local health boards with greater financial flexibility, it does not, of itself, provide any extra money. My department will still need to ensure that sufficient resources are available each year to cover all planned expenditure, including cover for any flexibility that this Bill will bring. This financial flexibility is, therefore, anything but open-ended, and will need to be managed within this constraint. It establishes what the Auditor General for Wales has described as managed flexibility, not open-ended flexibility. The resources available will set the extent of that financial flexibility over a three-year rolling period.

At LHB level, therefore, the change is one of timing, and not the totality of the resource requirements needed to match expenditure over the three years. The Bill will not allow LHBs to use the three-year duty as a means simply to defer decisions on resourcing to the second or third years. Financial disciplines will apply to LHBs from year 1, as part of the Welsh Government's commitment to ensuring that there is rigour in the practical application of this Bill. It will, therefore, be underpinned by a robust integrated planning framework that is better aligned to the new legal financial duty and will help to ensure that the resources of local health boards are managed effectively.

Mae'r Bil hwn hefyd yn ymdrin â'r pryder hwn drwy ddarparu parhad a gwell alinio â meysydd cynllunio a meysydd ariannol. Pan adroddodd y Pwyllgor Cyllid ei hun ar gynnis cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 ym mis Tachwedd y llynedd, roedd yn argymhell bod angen rhoi sylw i

'yr achos dros hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol reoli'u cyllid ar draws blynyddoedd ariannol'.

Yn olaf, dyma oedd argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pan gyhoeddwyd ei adroddiad 'Cyllid Iechyd' ym mis Chwefror eleni:

'bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol i fynd i'r afael ag anhyblygrwydd trefniadau ariannol Byrddau Iechyd dros flynyddoedd ariannol.'

Mae'r Bil hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r holl argymhellion hyn. Mae'n cael gwared ar yr her sylweddol y mae byrddau iechyd lleol yn ei hwynebu o fewn y gyfundrefn ariannol flynyddol sydd ohoni, sy'n annog gwneud penderfyniadau tymor byr o gwmpas diwedd y flwyddyn ariannol ac yn atal dull mwy cynaliadwy o ddatblygu'r gwasanaeth a ddarperir.

Wedi amlinellu'r achos o blaid y Bil, mae'n bwysig iawn imi fod yn glir am yr hyn nad yw'r Bil yn ei wneud. Er y bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd ariannol i fyrddau iechyd lleol, nid yw, ynddo'i hun, yn darparu dim arian ychwanegol. Bydd yn rhaid i'm hadran i barhau i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael bob blwyddyn ar gyfer yr holl wariant a gynlluniwyd, gan gynnwys cyflenwi ar gyfer unrhyw hyblygrwydd y bydd y Bil hwn yn ei darparu. Nid yw'r hyblygrwydd ariannol hwn, felly, yn rhywbeth penagored, a bydd angen ei reoli o fewn y cyfyngiad hwnnw. Mae'n sefydlu'r hyn y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i ddisgrifio fel hyblygrwydd wedi'i reoli, nid hyblygrwydd penagored. Bydd yr adnoddau sydd ar gael yn pennu hyd a lled yr hyblygrwydd ariannol hwnnw dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Ar lefel byrddau iechyd lleol, felly, newid o ran amseru yw hwn, ac nid o ran cyfanswm yr adnoddau sydd eu hangen i gyfateb i wariant dros y tair blynedd. Ni fydd y Bil yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol ddefnyddio'r ddyletswydd tair blynedd fel ffordd o ohirio penderfyniadau ar adnoddau tan yr ail neu'r drydedd flwyddyn. Bydd disgyblaethau ariannol yn berthnasol i fyrddau iechyd lleol o flwyddyn 1, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Bil hwn yn cael ei roi ar waith yn drylwyr. Bydd, felly, yn seiliedig ar fframwaith cynllunio integredig cadarn sy'n cyd-fynd yn well â'r ddyletswydd gyfreithiol ariannol newydd a bydd yn helpu i sicrhau bod adnoddau byrddau iechyd lleol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

It is my intention that the new planning framework, and the plans that support it, will see a greater role for the Welsh Government in scrutinising, reviewing and approving the plans of local health boards at regular intervals. This new planning framework will replace the current annual arrangement with one based on integrated medium-term plans, including balanced medium-term financial plans. I will set out the detail of the new planning framework requirements when I write to local health boards at the end of this month.

Within this clearer and disciplined framework, I want the Bill to deliver the real benefits that others, including local health boards, have identified. These include better integrated service, workforce and financial planning through aligning the timing of resource requirements with the service change and service transfer timescales. The Bill will set out the ability to focus on a longer planning horizon, rather than always being focused on the next 12 months. It will provide LHBs with an ability to invest to save through planned overspends in one year generating savings in years 2 and 3, thereby helping local health boards to reduce the risk of investment decisions. It will also produce better alignment between the planning and financial cycles, which will help to provide sustainable services and financial sustainability where planning implementation is longer than the current annual financial cycle.

I was very grateful to the Presiding Officer and the Business Committee in July of this year when agreement was given to the use of the fast-track procedure for this Bill, because it provides a possibility that, provided that LHBs are able to demonstrate that they have robust and credible three-year plans in place, they will be able to take advantage of the new flexibility at the earliest possible opportunity. It is my hope that all LHBs will be in a position to realise the benefits of this Bill from the start of the next financial year.

To summarise, Dirprwy Lywydd, the National Health Service Finance (Wales) Bill introduces a small, simple, but effective change to enable local health boards to manage their resources more sensibly and sustainably, with improved longer-term decision making that will bring benefits to the provision of NHS services. I look forward to working with Members across the Chamber during the progress of the Bill through the National Assembly. Diolch yn fawr.

15:20

**Paul Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

May I first of all thank the Minister for his statement this afternoon? I am pleased that he is bringing forward a Bill to try to provide LHBs with more financial flexibility in the future. I want to make it clear from the outset that we, on this side of the Chamber, want to support this Bill and we will work constructively with the Welsh Government on this proposed piece of legislation to ensure that LHBs have the right degree of financial flexibility as they go forward.

Fy mwriad yw y bydd y fframwaith cynllunio newydd, a'r cynlluniau sy'n ei gefnogi, yn rhoi mwy o rôl i Lywodraeth Cymru o ran craffu ar gynlluniau byrddau iechyd lleol, eu hadolygu a'u cymeradwyo'n rheolaidd. Bydd y fframwaith cynllunio newydd hwn yn disodli'r trefniant blynyddol presennol ag un yn seiliedig ar gynlluniau integredig tymor canolig, gan gynnwys cynlluniau ariannol cytbwys tymor canolig. Byddaf yn nodi manylion gofynion y fframwaith cynllunio newydd pan ysgrifennaf at fyrddau iechyd lleol ddiwedd y mis hwn.

O fewn y fframwaith disgybledig cliriach hwn, hoffwn i'r Bil ddarparu'r manteision gwirioneddol y mae erail, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu a chynllunio ariannol mwy integredig drwy sicrhau bod amseru'r gofynion o ran adnoddau'n cyd-fynd ag amserlenni newid gwasanaethau a throsglwyddo gwasanaethau. Bydd y Bil yn amlinellu'r gallu i ganolbwyntio ar orwel cynllunio hwy, yn hytrach na chanolbwyntio ar y 12 mis nesaf o hyd. Bydd yn rhoi cyfle i'r byrddau iechyd lleol fuddsoddi i arbed drwy orwario bwriadol mewn un flwyddyn i greu arbedion ym mlynnyddoedd 2 a 3, a thrwy hynny'n helpu byrddau iechyd lleol i leihau risg penderfyniadau buddsoddi. Bydd hefyd yn sicrhau bod cylchoedd cynllunio a chylchoedd ariannol yn cyd-fynd yn well, a fydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chynaliadwyedd ariannol lle mae gweithredu cynllunio'n broses hwy na'r cylch ariannol blynyddol presennol.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn i'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes ym mis Gorffennaf eleni pan roddwyd caniatâd i ddefnyddio'r weithdrefn garlam ar gyfer y Bil hwn, oherwydd mae'n ei gwneud yn bosibl, a bwrw bod byrddau iechyd lleol yn gallu dangos bod ganddynt gynlluniau tair blynedd cadarn a chredadwy ar waith, iddynt allu manteisio ar yr hyblygrwydd newydd cyn gynted â phosibl. Fy ngobaith i yw y bydd pob bwrdd iechyd lleol mewn sefyllfa i wireddu manteision y Bil hwn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

I grynhoi, Ddirprwy Lywydd, mae Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn cyflwyno newid bach, syml, ond effeithiol i alluogi byrddau iechyd lleol i reoli eu hadnoddau mewn ffordd fwy synhwyrol a chynaliadwy, gan wneud gwell penderfyniadau tymor hwy a fydd o fudd wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG. Edrychaf ymlaen at gydweithio ag Aelodau ar draws y Siambr wrth i'r Bil symud drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Diolch yn fawr.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Rwyf yn falch ei fod yn cyflwyno Bil i geisio rhoi mwy o hyblygrwydd ariannol i fyrddau iechyd lleol yn y dyfodol. Rwyf am ei gwneud yn glir o'r dechrau ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, am gefnogi'r Bil hwn ac y byddwn yn cydweithio'n adeiladol â Llywodraeth Cymru ar y darn arfaethedig hwn o ddeddfwriaeth i sicrhau bod gan fyrddau iechyd lleol hyblygrwydd ariannol priodol wrth iddynt symud ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

However, I do have some concerns with the proposed Bill in its current format. There are some issues that I would like the Minister to address through this legislative process. First, I accept and welcome that the Bill seeks to provide local health boards with a three-year accounting period to organise their finances. However, this three-year period is a rolling period, which effectively means that health boards will only be provided with greater flexibility in the first two years of this Bill being passed, that is in 2014-15 and 2015-16. Following that, each financial year will have to ensure that its budget is actually married up with the previous two years' expenditure—effectively not providing any flexibility as LHBs go forward, because they will be constrained by the previous years' spending. In other words, this rolling period will only allow flexibility in the first two years and therefore all this Bill could achieve in its current format is to push financial pressures on by two years. Therefore, does the Minister agree with me that the Bill, as it is currently designed, will cause a problem for local health boards following the second year of this Bill being introduced? If so, would he consider bringing forward Government amendments in order to try to address this particular issue?

One way of addressing this inflexibility is to introduce tolerance limits each year, which, I believe, would provide the necessary flexibility and, at the same time, provide local health boards with a structure within which to plan their finances. As we know from the Wales Audit Office report into health finances, there is a net funding gap of £212 million as of April this year, a figure that I understand has recently been revised to just under £200 million. Given this funding gap that faces health boards in Wales, I would ask the Minister to consider a tolerance limit equivalent to this figure, which equates to around 3.5% of the total health budget. Will the Minister confirm whether this is something that the Welsh Government would consider looking at?

There is also the issue of what the Welsh Government will be doing to support local health boards' finances in this financial year, given that the Minister committed to reviewing NHS finances earlier this year. Given the challenges facing NHS finances this year, will the Minister tell us, if this Bill receives Royal Assent before the next financial year, whether this financial year can be taken into consideration as a result of this new legislation? I would have thought that this is crucial, given that LHBs are clearly struggling to identify sufficient savings in this financial year. We need to provide flexibility now, which is why the Government wants to push the Bill through as quickly as possible. What is the point of pushing this legislation through quickly if it does not have an impact on this financial year?

Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon am y Bil arfaethedig ar ei ffurf bresennol. Mae rhai materion yr hoffwn i'r Gweinidog roi sylw iddynt drwy'r broses ddeddfwriaethol hon. Yn gyntaf, rwyf yn derbyn ac yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn ceisio rhoi cyfnod cyfrifo tair blynedd i fyrddau iechyd lleol i drefnu eu harian. Fodd bynnag, cyfnod treigl yw'r cyfnod tair blynedd hwn, sydd i bob pwrpas yn golygu mai dim ond yn nwy flynedd gyntaf pasio'r Bil hwn y bydd byrddau iechyd yn cael mwy o hyblygrwydd, hynny yw yn 2014-15 a 2015-16. Wedi hynny, bydd yn rhaid i bob blwyddyn ariannol sicrhau bod ei chyllideb mewn gwirionedd yn cyd-fynd â gwariant y ddwy flynedd flaenorol—ac nid yw hynny i bob diben yn rhoi dim hyblygrwydd i fyrddau iechyd lleol wrth iddynt symud ymlaen, oherwydd bydd gwariant y blynyddoedd blaenorol yn cyfyngu arnynt. Mewn geiriau eraill, dim ond yn y ddwy flynedd gyntaf y bydd y cyfnod treigl hwn yn caniatáu hyblygrwydd, felly y cwbl y gallai'r Bil hwn ei wneud yn ei ffurf bresennol yw gwthio'r pwysau ariannol ymlaen ddwy flynedd. Felly, a yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y bydd y Bil, ar ei ffurf bresennol, yn achosi problem i fyrddau iechyd lleol ar ôl yr ail flwyddyn wedi i'r Bil hwn gael ei gyflwyno? Os felly, a fyddai'n ystyried cyflwyno gwelliannau gan y Llywodraeth er mwyn ceisio ymdrin â'r mater penodol hwn?

Un ffordd o ymdrin â'r anhyblygrwydd hwn yw cyflwyno terfynau goddefgarwch bob blwyddyn; credaf y byddai hynny'n rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol ac, ar yr un pryd, yn rhoi strwythur i fyrddau iechyd lleol i gynllunio eu cyllid. Fel y gwyddom o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru am gyllid iechyd, mae bwlch cyllido net o £212 miliwn o fis Ebrill eleni, ffigur yr wyf ar ddeall ei fod wedi'i addasu'n ddiweddar i ychydig o dan £200 miliwn. Ac ystyried y bwlch cyllido hwn sy'n wynebu byrddau iechyd yng Nghymru, gofynnaf i'r Gweinidog ystyried terfyn goddefgarwch i gyfateb i'r ffigur hwn, sy'n gyfystyr â thua 3.5% o gyfanswm y gyllideb iechyd. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a yw hyn yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried edrych arno?

Hefyd, rhaid ystyried yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi cyllid byrddau iechyd lleol yn y flwyddyn ariannol hon, ac ystyried bod y Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu cyllid y GIG yn gynharach eleni. Ac ystyried yr heriau sy'n wynebu cyllid y GIG eleni, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym, os caiff y Bil hwn Gydsyniad Brenhinol cyn y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd modd ystyried y flwyddyn ariannol hon yn sgil y ddeddfwriaeth newydd? Onid yw hynny'n hanfodol, o gofio bod byrddau iechyd lleol yn amlwg yn ei chael yn anodd dod o hyd i arbedion digonol yn y flwyddyn ariannol hon? Mae angen inni ddarparu hyblygrwydd nawr, a dyna pam y mae'r Llywodraeth am wthio'r Bil drwodd cyn gynted â phosibl. Beth yw diben gwthio'r ddeddfwriaeth hon drwodd yn gyflym os nad yw'n effeithio ar y flwyddyn ariannol hon?

Finally, Dirprwy Lywydd, I would like to ask the Minister about the possibility of giving local health boards borrowing powers. Given their substantial budgets—and he highlights in his statement today that they are multi-million pound organisations—it may be appropriate that they are given the ability to borrow to finance capital projects. At the moment, any substantial capital project has to be financed from current budgets. Therefore, giving LHBs the ability to borrow could help to alleviate their financial pressures. In the circumstances, will the Minister tell us what consideration the Welsh Government has given to this particular proposal? Surely, if local authorities have the ability to borrow, why not LHBs? It is clear from the Wales Audit Office report that there is a backlog maintenance of £395 million on the NHS estate. Therefore, what consideration has the Minister given to that backlog and how he might be able to address it through this Bill?

In closing, I once again thank the Minister for his statement. I reassure him that we, on this side of the Chamber, will be looking to work constructively with the Government on this legislation. It is important that we get this Bill right to ensure that local health boards in Wales have the flexibility that they need.

15:25

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the constructive nature of his contribution, both in his opening remarks and as he concluded. I look forward to working with him as consideration of the Bill moves into its more detailed stages. He began by noting the three-year rolling nature of the flexibility that the Bill provides. I do not completely concur with his view that this simply provides two years' worth of flexibility, following a realignment of the annual arrangement that we currently have, because it is a rolling programme in which the third year of a cycle that began in 2014-15 would be the second year of a cycle that began in 2015 and the third year of a cycle that began a year after that. Therefore, there will be the ability to make amendments on the rolling basis as one year moves forward into the next. Therefore, the Bill provides a greater level of flexibility already than maybe he suggested at the beginning. However, I heard very much what he said about tolerance limits. NHS trusts already have such a facility. I am grateful to the Member for having raised this in discussion with my officials in the preparation of the Bill. We will certainly look at the issue of tolerance limits as the Bill proceeds. There are some issues that we will need to think through in doing that, but it is definitely an idea that I am keen that we look at.

Will the Bill be on the statute book in time to affect this financial year? Almost certainly not. Even with the fast-track procedure, I do not think that that would be possible. Even if it were possible, I am not certain that it would be desirable. LHBs are operating in this financial year, under a set of statutory obligations. Whether in a retrospective way you could undo the current regime, and right at the end of a period introduce a new one without the planning that is necessary to allow for the three-year flexibility to be effective, I am not convinced.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ofyn i'r Gweinidog am bosibilrwydd rhoi pwerau benthyca i fyrddau iechyd lleol. Ac ystyried eu cyllidebau sylweddol—ac mae'n tynnu sylw yn ei ddatganiad heddiw at y ffaith eu bod yn sefydliadau gwerth miliynau o bunnoedd—efallai y byddai'n briodol iddynt gael y gallu i fenthyca er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf. Ar hyn o bryd, rhaid ariannu unrhyw brosiect cyfalaf sylweddol o gyllidebau presennol. Felly, gallai rhoi'r gallu i fyrddau iechyd lleol fenthyca helpu i leddfu'r pwysau ariannol sydd arnynt. O dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r cynnig arbennig hwn? Wedi'r cyfan, os yw awdurdodau lleol yn gallu benthyca, pam na all y byrddau iechyd lleol? Mae'n amlwg o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru bod ôl-groniad gwaith cynnal a chadw gwerth £395 miliwn yn ystad y GIG. Felly, pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r ôl-groniad hwn a sut y gallai ymdrin â hynny drwy'r Bil hwn?

I gloi, diolch unwaith eto i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Gallaf ei sicrhau ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn gobeithio cydweithio'n adeiladol â'r Llywodraeth ar y ddeddfwriaeth hon. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y Bil hwn yn iawn er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yng Nghymru'n cael yr hyblygrwydd sydd ei angen arnynt.

Diolch i'r Aelod am natur adeiladol ei gyfraniad, yn ei sylwadau agoriadol ac wrth gloi. Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio ag ef wrth inni ddechrau ystyried y Bil yn fwy manwl. Dechreuodd drwy nodi natur dreigl dair blynedd yr hyblygrwydd y mae'r Bil yn ei ddarparu. Nid wyf yn cytuno'n llwyr â'i farn mai dim ond gwerth dwy flynedd o hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi, ar ôl ad-drefnu'r trefniant blynyddol sydd gennym ar hyn o bryd, oherwydd mae'n rhaglen dreigl lle byddai trydedd flwyddyn cylch sy'n dechrau yn 2014-15 yn ail flwyddyn cylch sy'n dechrau yn 2015 ac yn drydedd flwyddyn cylch sy'n dechrau flwyddyn ar ôl hynny. Felly, bydd cyfle i wneud newidiadau ar sail dreigl wrth i un flwyddyn symud ymlaen i'r nesaf. Felly, mae'r Bil eisoes yn rhoi mwy o hyblygrwydd nag a awgrymodd ef ar y dechrau, efallai. Fodd bynnag, clywais yn glir yr hyn a ddywedodd am derfynau goddefgarwch. Mae cyfleuster o'r fath eisoes ar gael i ymddiriedolaethau'r GIG. Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am godi hyn wrth drafod â'm swyddogion wrth baratoi'r Bil. Byddwn yn sicrhau yn edrych ar fater terfynau goddefgarwch wrth i'r Bil fynd rhagddo. Bydd angen inni feddwl am rai materion wrth wneud hynny, ond mae'n bendant yn syniad yr wyf yn awyddus inni edrych arno.

A fydd y Bil ar y llyfr statud mewn pryd i effeithio ar y flwyddyn ariannol hon? Mae bron yn sicrhau na fydd. Hyd yn oed â'r weithdrefn garlam, nid wyf yn credu y byddai hynny'n bosibl. Hyd yn oed pe bai'n bosibl, nid wyf yn siŵr y byddai'n ddymunol. Mae byrddau iechyd lleol yn gweithredu yn y flwyddyn ariannol hon, o dan gyfres o rwymedigaethau statudol. Nid wyf wedi fy argyhoeddi y gallech, ar sail ôl-weithredol, ddadwneud y drefn bresennol, a chyflwyno un newydd ar ddiwedd cyfnod heb wneud y gwaith cynllunio sydd ei angen i ganiatáu i'r hyblygrwydd tair blynedd fod yn effeithiol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



As regards LHB borrowing powers, there is a significant difference between LHBs and local authorities. Local authorities raise revenue, and LHBs, by and large, do not. If you are going to borrow, you have to be able to provide a revenue stream to pay back that borrowing.

I would like to make this point: I spent quite a lot of the summer with people coming to me with interesting ideas that could be added into the financial flexibility Bill, which as you can see is only one and a half pages long. I have resisted all of those suggestions because I am very aware of the fact that we came as a Government to the Business Committee asking for the fast-track procedure on the basis that the normal Stage 1 consideration of this Bill had already been, in effect, carried out by a number of committee inquiries that had looked at this narrow issue. I have felt that it was not consistent with the case that we made for a fast-track procedure to start adding into this Bill issues that had not had that prior investigation through Assembly committees. If those ideas emerge during the process of the Bill, that may be a different matter, but up until now I have felt it important to stick to the undertaking that we gave at the beginning that this was a one-purpose Bill and, therefore, suitable for fast-track procedures.

O ran pwerau benthyca'r byrddau iechyd lleol, mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn codi refeniw, ac nid yw byrddau iechyd lleol, at ei gilydd, yn gwneud hynny. Er mwyn benthyca, rhaid ichi allu darparu ffrwd refeniw i ad-dalu'r benthyciad hwnnw.

Hoffwn wneud y pwynt hwn: treuliais gryn dipyn o'r haf yn siarad â phobl a ddaeth ataf â syniadau diddorol y gellid eu hychwanegu at y Bil hyblygrwydd ariannol; gallwch weld mai dim ond tudalen a hanner ydyw. Rwyf wedi gwrthsefyll pob un o'r awgrymiadau hynny oherwydd rwyf yn ymwybodol iawn o'r ffaith ein bod fel Llywodraeth wedi dod at y Pwyllgor Busnes i ofyn am y weithdrefn garlam ar y sail bod ystyriaeth Cyfnod 1 arferol y Bil hwn eisoes wedi'i chynnal, i bob pwrpas, drwy nifer o ymchwiliadau pwyllgor a edrychodd ar y mater cyfyngedig hwn. Roeddwn o'r farn na fyddai dechrau ychwanegu materion at y Bil hwn, heb ymchwilio iddynt ymlaen llaw felly drwy bwyllgorau'r Cynulliad, yn gyson â'r achos a gyflwynasom dros y weithdrefn garlam. Os daw'r syniadau hynny i'r amlwg yn ystod proses y Bil, gallai hynny fod yn fater gwahanol, ond hyd yma rwyf wedi teimlo ei bod yn bwysig cadw at yr ymrwymiad a roesom ar y dechrau fod hwn yn Fil un-pwrpas ac, felly, yn addas ar gyfer gweithdrefnau carlam.

15:29

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am gyflwyno'r Bil i ni heddiw. Rwy'n gallu gweld rhai manteision amlwg i gyflwyno Bil o'r fath, ac rwyf wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi crybwyll y manteision a allai ddeillio o ddeddfwriaeth o'r math yma, er ein bod ni fel pwyllgor heb fynd i mewn i'r mater hwn mewn manylder o unrhyw fath. Rydym yn gwybod bod problemau gan fyrddau iechyd i fantoli'u llyfrau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac rydym wedi gweld adroddiad y swyddfa archwilio yn dweud bob mesurau lu yn cael eu cymryd gan fyrddau iechyd i falansio ar ddiwedd y blynnyddoedd ariannol, gan gynnwys gohirio triniaethau i gleifion yn y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn.

Felly, rwy'n sicr yn gweld y manteision i fyrddau iechyd i gael y sicrwydd cyllidebol dros y tair blynedd. Rydw i'n gweld manteision hefyd i'r Gweinidog wrth beidio gorfod achub yn flynyddol y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, a'r embaras gwleidyddol sy'n deillio ambell waith o wneud hynny. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi eto o'r manteision i'r Cynulliad hwn o fod yn rhoi'r hyblygrwydd ariannol ychwanegol i'r Gweinidog ac i'r byrddau iechyd y byddai deddfwriaeth o'r math yma yn ei ganiatáu. Yr wythnos nesaf, bydd y gyllideb yn cael ei chyflwyno i ni, ac mae'n siŵr y bydd y gyllideb hon yn edrych yn weddol o debyg i'r cyllidebau iechyd rydym wedi craffu arnynt yn y gorffennol. Bydd un 'budget line' yno a fydd dros £5 biliwn, ond heb unrhyw fanylion er mwyn i ni fel Cynulliad fedru craffu ar y gyllideb yn fanwl. Rydych chi, fel Llywodraeth, yn gobeithio y byddwn ni, fel Cynulliad, yn pasio deddfwriaeth i gymeradwyo llinell a fyddai o bosib hyd at £15 biliwn dros dair blynedd, eto heb fanylion a heb hyd yn oed dorri lawr pa gyfraniad fyddai'n mynd i bob bwrdd iechyd yn unigol.

Thank you, Minister, for presenting the Bill to us today. I can see some obvious benefits in bringing forward such a Bill, and I have been a member of the Health and Social Care Committee, which has mentioned some of the benefits that could emerge from such legislation, although we as a health committee have not looked at the issue in any great detail. We know that health boards face problems in balancing their books at the end of every financial year, and we have seen the report of the audit office stating that a number of steps are taken by health boards to balance their books at the end of financial years, including deferring patient treatments at that time of year.

Therefore, I certainly see the benefits for the health boards in having that financial security over three years. I also see benefits for the Minister, in not having to annually bail out most of the health boards, with the political embarrassment that can, on occasion, emerge from doing that. However, I have yet to be convinced of the benefits for this Assembly in providing the additional financial flexibility both to the Minister and to the health boards that such legislation would allow. Next week, we will see the budget presented to us, and I am sure that it will look quite similar to the health budgets that we have scrutinised in the past. There will be one budget line that will be over £5 billion without there being any detail for us as an Assembly to be able to scrutinise it in any depth. You, as a Government, are hoping that we, as an Assembly, will pass legislation that would approve a budget line that could be as much as £15 billion over a period of three years, again without providing any detail or any breakdown of what contribution would go to individual health boards.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Yn y gorffennol, rydych chi, fel Gweinidog, wedi bod yn weddol ddirmygus o'r syniad o roi rôl ychwanegol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad i graffu yn gyhoeddus ar reolaeth ariannol y byrddau iechyd. O'ch datganiad chi heddiw, nid ydych yn cynnig unrhyw waith craffu cyhoeddus ychwanegol o gyllideb tair blynedd, ac rydych yn gofyn i ni ymddiried yn llwyr ym mhrosesau craffu mewnol eich Llywodraeth chi, ac ym mhrosesau hunan-graffu y byrddau iechyd. Felly, y cwestiwn rwy'n gorffod ei ofyn i chi, Weinidog, yw ar sail pa dystiolaeth rydych yn hyderus y bydd y byrddau iechyd yn gwneud gwell job o gadw at gyllideb tair blynedd na'u methiant presennol nhw i allu cadw at gyllideb flynyddol. Rwy'n meddwl mai £92 miliwn oedd yr arian ychwanegol yr oedd yn rhaid i'ch adran chi ei ffeindio y llynedd er mwyn rhoi arian ychwanegol i fyrddau iechyd. Gallai'r Gweinidog iechyd yn 2017 felly fod yn wynebu 'bail-out' o dros £300 miliwn. Ar ba sail, felly, yr ydych chi'n hyderus y bydd y byrddau iechyd yn bihafio mewn ffordd sy'n wahanol i'r ffordd y maent wedi bihafio ynddi yn y gorffennol o gael yr hyblygrwydd ariannol ychwanegol hyn?

Felly, fel rwy'n dweud, nid wyf wedi fy mherswadio eto fod y ddeddfwriaeth hon yn caniatáu y 'checks and balances' ychwanegol sydd eu hangen o roi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd. Rwy'n gobeithio, yn ystod y broses graffu, y byddwch yn dod â thystiolaeth i'r pwyllgor, ac yn dod â syniadau ynglŷn â sut y gellid rhoi strwythur craffu cyhoeddus mewn lle sy'n gallu cyd-rhedeg â'r hyblygrwydd deddfwriaethol ychwanegol rydych yn ei gyflwyno heddiw.

In the past, you, as a Minister, have been quite insulting about the idea of giving an additional role to the Finance Committee at the Assembly in scrutinising publicly the financial control of the health boards. In your statement today, you provide for no additional public scrutiny of a three-year budget, and you are asking us to trust entirely in the internal scrutiny processes of your Government and in the self-scrutiny of the health boards. So, the question that I have to ask you, Minister, is on the basis of what evidence are you confident that the health boards will do a better job of sticking to a three-year budget, given their current failure to adhere to an annual budget. I think that £92 million was the amount of additional funding that your department had to find last year in order to bail out health boards. The Minister for health in 2017 could be facing a bail out of over £300 million. On what basis, therefore, can you be confident that the health boards will conduct themselves in a way that is different to their conduct in the past with this additional flexibility being given to them?

So, as I say, I am yet to be persuaded that this legislation allows the additional checks and balances that are required in order to provide greater flexibility to health boards. I do hope, during the scrutiny process, that you will bring evidence to the committee and provide ideas on how a public scrutiny structure could be put in place that could actually go alongside the additional legislative flexibility that you are introducing today.

15:34

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn i Elin Jones am y sylwadau hynny. Rwy'n edrych ymlaen at y broses o flaen y Cynulliad i roi y wybodaeth y mae hi wedi siarad amdani heddiw. Mae dadl yn y Cynulliad am awr yr wythnos nesaf; rwyf wedi cytuno i fynd i'r Pwyllgor Cyllid am sesiwn cyn i'r pwyllgor drafod Cyfnod 2 o'r broses; ac, wrth gwrs, bydd y Bil yn dod yn ôl i lawr y Cynulliad ar ôl hynny.

I look forward to being able to discuss at greater length the issues that the Member raised in her contribution; they are important points. At this point, I would simply say this to her: the Bill does not rely on a simple set of confidence in local health boards. It has far more checks and balances in it than that. The process of devising integrated medium-term plans, and medium-term financial plans, will involve a cycle of checks and balances, involving the Welsh Government. It will be an open process, in which Assembly Members and committees, being able to see local health boards' plans over a three-year period, will be able to gain a greater insight into the way that they intend to operate their finances, their service planning, and their workforce planning, and how those things integrate together into a single medium-term plan, than they are able to do now. We will be involved in supporting LHBs in drawing up their plans, challenging them, approving them, monitoring them, and, if necessary, involving them in an escalation and intervention procedure if things do not go as they should.

I thank Elin Jones for those comments. I look forward to the Assembly process of providing her with the information that she mentioned. There is an hour-long debate in the Assembly next week; I have agreed to appear before the Finance Committee before the committee discusses Stage 2 of this process; and, of course, the Bill will return to the floor of the Assembly after that.

Edrychaf ymlaen at allu trafod yn fanylach y materion a gododd yr Aelod yn ei chyfraniad; maent yn bwytiau pwysig. Ar hyn o bryd, dyma'r hyn y byddwn yn ei ddweud wrthi: nid yw'r Bil yn dibynnu ar ddim ond hyder mewn byrddau iechyd lleol. Mae'n golygu llawer mwy o bwysio a gwrthbwysio na hynny. Bydd y broses o lunio cynlluniau tymor canolig integredig, a chynlluniau ariannol tymor canolig, yn cynnwys cylch o bwysio a gwrthbwysio, a bydd Llywodraeth Cymru'n rhan o hynny. Bydd yn broses agored, lle gall Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad weld cynlluniau byrddau iechyd lleol dros gyfnod o dair blynedd, er mwyn cael gwell darlun o'r ffordd y maent yn bwriadu defnyddio eu cyllid, cynllunio eu gwasanaethau, a chynllunio eu gweithlu, a sut y mae'r pethau hynny'n dod ynghyd mewn un cynllun tymor canolig, nag sydd ganddynt yn awr. Byddwn yn cynorthwyo byrddau iechyd lleol i lunio eu cynlluniau, yn eu herio, yn eu cymeradwyo, yn eu monitro, ac, os oes angen, yn eu cynnwys mewn trefn gyfeirio ac ymyrryd os na fydd pethau'n mynd fel y dylent.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Therefore, it is not simply a matter of a Bill that is based on some confidence that local health boards will be left to themselves to devise these plans. It will be a much more rigorous process than that, and one that will be very open to Assembly Members to see and to challenge as they feel necessary.

Felly, nid yw'n fater o Fil sy'n seiliedig ar ryw gymaint o hyder y caiff byrddau iechyd lleol eu gadael i lunio'r cynlluniau hyn drostynt eu hunain. Bydd yn broses lawer mwy trylwyr na hynny, ac yn un a fydd yn agored iawn i Aelodau'r Cynulliad ei gweld a'i herio yn ôl yr angen.

15:36

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Along with Paul Davies, may I also say that we are happy to support this Bill? I think that the principles are absolutely right, and we need to give that greater flexibility to the health boards in terms of how they plan their finances over a longer period. The constant cycle of end-of-year bail-outs to date has been completely unsustainable, therefore it makes sense for the system to be altered. It will, hopefully, allow health boards an opportunity to plan for the longer term, rather than being forced to make sharp, unplanned cuts at the end of each year, cuts that affect patient care and safety.

However, my main concern with three-year budgets is that the Welsh Government, and health boards, will prove to be irresponsible and will allow a debt to build up over a period of time. Health boards will only receive allocations annually, and any deficits will have to be funded on that basis. As this is a rolling three-year budget period, this could mean that debts could become unsustainable over that period and that services that people rely on will be cancelled because there will be no money left. That is what has happened in the past, and I am not convinced yet that the leopard has changed its spots for the future.

So, I think that it is important that we have a transparent warning system in place, where we are able to monitor the accounts of local health boards, making sure that they are on track. We cannot have a situation where the health service comes to a crippling halt because we have not put that monitoring in place, and not to do so would be irresponsible.

I have a number of questions, Minister, in relation to this issue. In a sense, although we have looked at this in committee several times, it is possibly a problem that we do not have a Stage 1, because I think that it would benefit from being able to ask these questions. I therefore very much welcome your commitment to come to the Finance Committee on 23 October, I believe, to do so.

Yn yr un modd â Paul Davies, a gaf finau ddweud ein bod yn hapus i gefnogi'r Bil hwn? Rwyf yn credu bod yr egwyddorion yn hollol gywir, ac mae angen inni roi'r hyblygrwydd ychwanegol hwnnw i'r byrddau iechyd o ran sut y maent yn cynllunio eu cyllid dros gyfnod hwy. Mae'r cylch cyson hyd yma o'u hachub ar ddiwedd y flwyddyn wedi bod yn gwbl anghynladwy, felly mae'n gwneud synnwyr newid y system. Bydd hyn, gobeithio, yn rhoi cyfle i fyrddau iechyd gynllunio ar gyfer y tymor hwy, yn hytrach na chael eu gorfodi i wneud toriadau llym, heb eu cynllunio ar ddiwedd pob blwyddyn—toriadau sy'n effeithio ar ofal a diogelwch cleifion.

Fodd bynnag, fy mhryder pennaf am gyllidebau tair blynedd yw y bydd Llywodraeth Cymru, a'r byrddau iechyd, yn anghyfrifol ac y byddant yn caniatáu i ddyled gronni dros gyfnod. Dim ond yn flynyddol y bydd y byrddau iechyd yn derbyn dyraniadau, a bydd yn rhaid iddynt ariannu unrhyw ddiffygion ar y sail honno. Gan mai cyfnod cyllideb tair blynedd treigl yw hwn, gallai hyn olygu y gallai dyledion fod yn anghynaliadwy dros y cyfnod hwnnw ac y bydd gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt yn cael eu diddymu gan na fydd dim arian ar ôl. Dyna sydd wedi digwydd yn y gorffennol, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi eto fod y llewpard wedi newid ei smotiau at y dyfodol.

Felly, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig fod gennym system rybuddio dryloyw ar waith, lle gallwn fonitro cyfrifon byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn. Ni allwn fod mewn sefyllfa lle mae'r gwasanaeth iechyd yn dod i stop llwyr am nad yw'r monitro hwnnw ar waith gennym; byddai'n anghyfrifol peidio â gwneud hynny.

Mae gennyf nifer o gwestiynau, Weinidog, am y mater hwn. Ar un ystyr, er ein bod wedi edrych ar hyn yn y pwyllgor lawer gwaith, efallai fod hon yn broblem nad yw'n codi yng Nghyfnod 1, oherwydd credaf y byddai o fudd gallu gofyn y cwestiynau hyn. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr eich ymrwymiad i ddod i'r Pwyllgor Cyllid ar 23 Hydref, rwyf yn meddwl, i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In paragraph 103 of the explanatory memorandum, the Government states that, currently, where decisions are taken at year end, this can stop activity on service, and can impact on the service delivery to NHS patients. As far as I am aware, that is the first official acknowledgement that operations and other procedures have been cancelled because of budget pressures. Can we have an assurance, Minister, that, under this new regime, we are not going to go through that process again? I have several constituents, for example, who have come to me after dropping off NHS waiting lists and being told that that was because they did not reply to a letter that was sent to them. I can understand one or two, but when it starts getting to five or six, and more, you begin to wonder whether the letter has been sent, and whether this is a mechanism to make the management of those lists easier at the end of the year. However, it is certainly the case that patients should not suffer because of year-end pressures.

My next question relates to the deficits themselves. As I have said, effectively, the Government has a one-year budget and provides the money to the health boards on a one-year basis. Therefore, given that the health boards are going to be allowed to build up deficits over a period, how are those deficits funded in each year? Are they going to be borrowing money from the next year, and will the Government be putting in place measures whereby they can take money out to do that? Clearly, they have to pay the bills in that year—this is not just an accounting method; this is real money that has to go through accountants' hands. How does the fact that we will have a three-year rolling period fit in with the fact that the health boards still have to meet annual targets? Are you proposing to review that as well?

There is a strong imperative, in my view, in terms of the guidance that you give to health boards, that the planning they put in place should involve social services. I know that you will be saying to health boards that they should be doing that, but I really think that you need to put it much more strongly. If health boards are putting in place a three-year plan, social services should be intrinsically involved in putting that together so that we can get the best in terms of integration and making sure that joint working produces those services.

I have just a few more questions, Deputy Presiding Officer. What is the capacity within the national health service to manage this? Do the health boards have enough accountants to work on this basis, or will they have to recruit more? What early warning signs will we, and you, be looking at to decide when you might have to intervene? Finally, will health boards be required to publish their performance against plans—not just in their annual reports, but in a far more transparent and open process? I hope that you are able to answer all of those questions; I will no doubt be able to raise them again on 23 October if you cannot.

Ym mharagraff 103 y memorandwm esboniadol, mae'r Llywodraeth yn datgan y gall y drefn bresennol, lle gwneir penderfyniadau ar ddiwedd blwyddyn, atal gweithgarwch gwasanaethau, ac y gall effeithio ar ddarparu gwasanaethau i gleifion y GIG. Hyd y gwn i, dyna'r gydnabyddiaeth swyddogol gyntaf fod llawdriniaethau a gweithdrefnau eraill wedi eu canslo oherwydd pwysau ar y gyllideb. A gawn ni sicrywdd, Weinidog, na fyddwn yn mynd drwy'r broses honno eto o dan y drefn newydd? Mae nifer o'm hetholwyr, er enghraifft, wedi dod ataf ar ôl cael eu tynnu oddi ar restrau aros y GIG a chael gwybod bod hynny am na wnaethant ymateb i lythyr a anfonwyd atynt. Gallaf ddeall un neu ddau, ond pan fydd yn dechrau troi'n bump neu'n chwech, a mwy, mae rhywun yn dechrau meddwl tybed a gafodd y llythyr ei anfon, ac ai ffordd yw hon o'i gwneud yn haws rheoli'r rhestrau hynny ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ni ddylai cleifion, yn bendant, ddioddef oherwydd pwysau diwedd blwyddyn.

Mae fy nghwestiwn nesaf yn ymwneud â'r diffygion eu hunain. Fel yr wyf wedi'i ddweud, i bob pwrpas, mae gan y Llywodraeth gyllideb un flwyddyn ac mae'n rhoi arian i'r byrddau iechyd ar sail un flwyddyn. Felly, o gofio bod y byrddau iechyd yn mynd i gael yr hawl i Gronni Diffygion dros gyfnod, sut y caiff y diffygion hynny eu hariannu ym mhob blwyddyn? A ydynt yn mynd i gael benthycu arian o'r flwyddyn nesaf, ac a fydd y Llywodraeth yn rhoi mesurau ar waith i'w galluogi i dynnu arian allan i wneud hynny? Yn amlwg, rhaid iddynt dalu'r biliau yn y flwyddyn honno—nid dim ond dull o gyfrifysu yw hwn; mae hwn yn arian go iawn sy'n gorfod mynd drwy ddwylo cyfrifwyr. Sut y mae'r ffaith y bydd gennym gyfnod treigl tair blynedd yn cyd-fynd â'r ffaith fod yn rhaid i'r byrddau iechyd ddal i gyrraedd targedau blynyddol? A ydych yn bwriadu adolygu hynny hefyd?

Mae rheidrydd cryf, yn fy marn i, o ran y canllawiau yr ydych yn eu rhoi i'r byrddau iechyd, i'r cynlluniau y maent yn eu rhoi ar waith gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol. Gwn y byddwch yn dweud wrth fyrddau iechyd y dylent fod yn gwneud hynny, ond rwyf o'r farn fod angen ichi fynegi hynny'n gryfach o lawer. Os yw byrddau iechyd yn rhoi cynllun tair blynedd ar waith, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn rhan annatod o'r gwaith o lunio'r cynllun hwnnw, fel y gallwn gael y gorau o ran integreiddio a gwneud yn siŵr bod cydweithio'n esgor ar y gwasanaethau hynny.

Mae gennyf ryw ychydig yn rhagor o gwestiynau, Ddirprwy Lywydd. A oes gan y gwasanaeth iechyd gwladol y gallu i reoli hyn? A oes gan y byrddau iechyd ddigon o gyfrifwyr i weithio ar y sail hon, ynteu a fydd yn rhaid iddynt recriwtio mwy? Pa rybuddion cynnar y byddwn ni, a chi, yn edrych arnynt er mwyn penderfynu pryd y gallai fod yn rhaid ichi ymyrryd? Yn olaf, a fydd gofyn i fyrddau iechyd gyhoeddi eu perfformiad yn erbyn cynlluniau—nid yn unig yn eu hadroddiadau blynyddol, ond mewn proses lawer mwy tryloyw ac agored? Rwyf yn gobeithio y gallwch ateb pob un o'r cwestiynau hynny; rwyf yn siŵr y bydd modd imi eu gofyn eto ar 23 Hydref os na allwch.

I thank Peter Black for his contribution. He summed up very well in the beginning the purpose of the Bill, which is to allow better decision making in the NHS and to allow for decision making that is focused on the longer term rather than always on the short term. I am absolutely determined, however, that the Bill will not be used to allow debt to build up in the way in which he pointed to. I have been absolutely determined about that from the very beginning.

How will that happen? Peter wants to know about checks and balances in the system, so let me explain it in this way: if a health board came forward with a plan that said, 'We want to spend a bit more in the first year than is in our budget because we know that, if we do that, it will release money in years 2 and 3, and, over the three years, the budget will be in balance', in order for us to allow that to happen, there would have to be resource cover in that first year from within the health department's budget. There is no funny money involved in it; it is real money, as you said, and it would have to be found to cover it. Therefore, we can allow flexibility only up to the extent that the health department has that flexibility in the first place. Therefore, there is a very clear limit on how much flexibility we can allow.

As for how we would decide whether to allow it, health boards will have to produce their medium-term plans. They are being asked to produce their medium-term plans for the next three years, coming in about now. They will be subject to a scrutiny process that will involve Welsh Government officials, some challenge from outside Wales and a significant amount of peer review in which we will get health boards to challenge one another about the quality of their plans. If a health board came forward with a three-year plan that I did not feel stood up to scrutiny, I simply would not allow it the flexibility in that first year to spend the extra money that it said it wanted to spend. Therefore, there is a determination here that, while we want to allow the flexibility—and I think that the system will mature, people will get better at it and some of the checks can be pulled back a bit—in the beginning, it will be a very carefully managed level of flexibility to ensure that the issues that he identified do not arise.

At the end of the year, some activity is artificially postponed because it is the end of the year. It is not cancelled, but postponed in a way that it would not be in any other month. That is exactly the sort of better decision making that we want to see. There is no policy in the Welsh NHS of sending letters out to people at the end of the year in order to try to reduce the number of operations; there is a very proper check routinely of people who have been waiting to make sure that the treatment is still needed and wanted by them.

Diolch i Peter Black am ei gyfraniad. Dechreuodd â chrynodeb da iawn o ddiwedd y Bil, sef caniatáu gwneud penderfyniadau'n well yn y GIG a chaniatáu gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y tymor hwy yn hytrach nag ar y tymor byr bob amser. Rwyf yn hollol benderfynol, fodd bynnag, na chaiff y Bil ei ddefnyddio i ganiatáu i ddyledion gronni yn y ffordd y soniodd ef. Rwyf wedi bod yn hollol benderfynol am hynny o'r cychwyn cyntaf.

Sut y bydd hynny'n digwydd? Mae Peter am gael gwybod am bwyso a gwrthbwyso yn y system, felly gadewch imi ei egluro fel hyn: pe bai bwrdd iechyd yn cyflwyno cynllun yn dweud, 'Hoffem wario ychydig mwy yn y flwyddyn gyntaf nag sydd yn ein cyllideb oherwydd rydym yn gwybod, pe baem yn gwneud hynny, y byddai'n rhyddhau arian ym mlynedd 2 a 3, ac y byddai'r gyllideb yn gytbwys dros y tair blynedd', er mwyn inni ganiatáu i hynny ddigwydd, byddai'n rhaid bod digon o adnoddau yn y flwyddyn gyntaf honno yng nghyllideb yr adran iechyd. Nid arian chwarae mo hwn; mae'n arian go iawn, fel y dywedasoch, a byddai'n rhaid dod o hyd i ddigon ohono. Felly, gallwn ganiatáu hyblygrwydd cyhyd ag y bo'r hyblygrwydd hwnnw gan yr adran iechyd yn y lle cyntaf. Felly, mae terfyn clir iawn ar faint o hyblygrwydd y gallwn ei ganiatáu.

O ran sut y byddem yn penderfynu a ddylid caniatáu hynny, bydd yn rhaid i fyrddau iechyd lunio eu cynlluniau tymor canolig. Gofynnir iddynt lunio eu cynlluniau tymor canolig ar gyfer y tair blynedd nesaf, gan ddechrau oddeutu nawr. Byddant yn destun proses graffu a fydd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, rhywfaint o herio o'r tu allan i Gymru a llawer o adolygu gan gymheiriaid lle bydd byrddau iechyd yn herio ei gilydd am ansawdd eu cynlluniau. Pe bai bwrdd iechyd yn cyflwyno cynllun tair blynedd nad oeddwn yn teimlo ei fod yn bodloni'r broses graffu, ni fyddwn yn caniatáu'r hyblygrwydd iddo yn y flwyddyn gyntaf honno i wario'r arian ychwanegol y byddai'n dweud yr hoffai ei wario. Felly, rydym yn benderfynol yma, er yr hoffem ganiatáu'r hyblygrwydd—ac rwyf yn credu y bydd y system yn aeddfedu, y bydd pobl yn dod i'w deall yn well ac y bydd modd llacio rhywfaint ar rai o'r gwiriadau—ar y dechrau, bydd lefel yr hyblygrwydd wedi'i rheoli'n ofalus iawn er mwyn sicrhau nad yw'r materion y tynnodd sylw atynt yn codi.

Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff rhywfaint o weithgarwch ei ohirio'n artiffisial am ei bod yn ddiwedd blwyddyn. Nid yw'n cael ei ganslo, ond caiff ei ohirio mewn ffordd na fyddai mewn unrhyw fis arall. Dyna'n union y math o benderfyniadau gwell yr hoffem eu gweld. Nid oes gan y GIG yng Nghymru bolisi o anfon llythyrau at bobl ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn ceisio lleihau nifer y llawdriniaethau; maent yn holi'n rheolaidd, ac yn briodol iawn, fel mater o drefn i wneud yn siŵr bod angen ac eisiau'r driniaeth ar bobl o hyd.

With regard to planning involving social services, I agree with that very much. The planning framework that we will publish this month will make it clear that social services, but other stakeholders too—third sector organisations and neighbouring health boards for example—all need to be fully involved in the preparation of the three-year plan and we will make sure that that happens.

As for early warning signs and the publishing of information more than annually, I draw your attention to what the auditor general said in his health finances report, which was published earlier in the summer. He said that the health department in Wales now has a strengthened monthly monitoring system, it has a good means of ensuring detailed and timely reporting of NHS bodies' in-year financial position, that the department now has an NHS-wide picture that allows it to react swiftly as necessary, that there is greater consistency between reporting of NHS bodies, and that there is now a robust monthly reporting process. That is what the auditor general says. He says that there is more that we can do—of course there is more that we can do—but a great deal has been achieved to give us the sort of information that gives me confidence, and, I hope, other Members too, that we will be able to manage the Bill in a way that delivers its benefits and minimises its risks.

15:45

**Jenny Rathbone** [Bywgraffiad Biography](#)

My health board, Cardiff and Vale University Local Health Board, has understood and will grasp the opportunities of investing to save. I heard of many examples of it when I went to the annual general meeting last week—it is a pity that the leader of the opposition, whose region covers Cardiff and the Vale, was not able to be there as well. Diverting binge drinkers in the city centre on Friday and Saturday nights away from the emergency department by setting up a clinic at the Ebenezer chapel has made a difference to the quality of the emergency service that is offered to other people who need emergency services. It is something that is being copied across the UK. How will you ensure that all health boards use the opportunities provided by this three-year financing to tackle the task of reshaping the NHS to improve services, particularly for those beset by naysayers who start shroud waving when any changes are proposed? What mechanisms will you have in place to ensure that all health boards are engaged in this?

O ran cynllunio'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, rwyf yn cytuno â hynny'n fawr iawn. Bydd y fframwaith cynllunio y byddwn yn ei gyhoeddi y mis hwn yn ei gwneud yn glir bod angen i'r gwasanaethau cymdeithasol, ond rhanddeiliaid eraill hefyd—mudiadau'r trydydd sector a byrddau iechyd cyfagos, er enghraifft—i gyd gymryd rhan yn llawn yn y gwaith o barato'r cynllun tair blynedd a byddwn yn gwneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.

O ran rhybuddion cynnar a chyhoeddi gwybodaeth fwy nag unwaith y flwyddyn, tynnaf eich sylw at yr hyn a ddywedodd yr archwilydd cyffredinol yn ei adroddiad ar gyllid iechyd, a gyhoeddwyd yn gynharach yn yr haf. Dywedodd fod yr adran iechyd yng Nghymru erbyn hyn wedi sefydlu system gryfach ar gyfer monitro misol, bod ganddi ffordd dda o sicrhau adroddiadau manwl ac amserol ar sefyllfa ariannol cyrff y GIG yn ystod y flwyddyn, bod gan yr adran bellach ddarlun ar draws y GIG sy'n ei galluogi i ymateb yn gyflym yn ôl yr angen, bod mwy o gysondeb rhwng adroddiadau cyrff y GIG, a bod proses gadarn o adroddiadau misol bellach ar waith. Dyna y mae'r archwilydd cyffredinol yn ei ddweud. Mae'n dweud y gallwn wneud mwy—wrth gwrs y gallwn wneud mwy—ond mae llawer iawn wedi ei gyflawni i roi'r math o wybodaeth sy'n rhoi hyder i mi, ac, rwyf yn gobeithio, i Aelodau eraill hefyd, y gallwn reoli'r Bil mewn ffordd sy'n darparu'r manteision ac yn lleihau'r risgiau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae fy mwrdd iechyd i, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, wedi deall y cyfleoedd i fuddsoddi i arbed, a bydd yn manteisio arnynt. Clywais am lawer o enghreifftiau o hynny pan euthum i'r cyfarfod cyffredinol blyneddol yr wythnos diwethaf—mae'n drueni nad oedd arweinydd yr wrthblaid, y mae ei ardal yn cynnwys Caerdydd a'r Fro, yn gallu bod yno hefyd. Mae dargyfeirio pobl sy'n goryfed mewn pyllau yng nghanol y ddinas ar nos Wener a nos Sadwrn oddi wrth yr adran achosion brys, drwy sefydlu clinig yng nghapel Ebenezer, wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd y gwasanaeth brys sy'n cael ei gynnig i bobl eraill y mae angen y gwasanaethau brys arnynt. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei efelychu ledled y DU. Sut y byddwch yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn defnyddio'r cyfleoedd y mae'r cyllido tair blynedd yn eu darparu i ymdrin â'r dasg o ail-lunio'r GIG i wella gwasanaethau, yn enwedig i'r rheini sy'n eu cael eu hunain yng nghanol sinigiaid sy'n dechrau codi bwganod pan gaiff unrhyw newidiadau eu cynnig? Pa fecanweithiau a fydd ar waith gennych i sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn ymgysylltu â hyn?

15:47

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for those observations. The Bill has been welcomed by local health boards in Wales. She is quite right to say that Cardiff and Vale is probably the best example that we currently have of an LHB with a three-year plan that shows how, by making changes in the first year, it is able to reach a balanced position over the three-year horizon. Some of the things that it needs to do in the first year are difficult; they have required some real conversations with trade unions and others. It is very good that local Assembly Members are supportive of their LHBs when they have those difficult decisions to make. I agree completely with the Member that there is little point in us here agreeing in general that LHBs should be able to make decisions over a three-year horizon that allow them to plan their services better, and to always object to that whenever any particular example comes to the surface.

Diolch i Jenny Rathbone am y sylwadau hynny. Mae byrddau iechyd lleol Cymru wedi croesawu'r Bil. Mae'n hollol iawn ei bod yn debygol mai Caerdydd a'r Fro yw'r enghraifft orau sydd gennym ar hyn o bryd o fwrdd iechyd lleol â chynllun tair blynedd sy'n dangos sut y gall, drwy wneud newidiadau yn y flwyddyn gyntaf, gyrraedd sefyllfa gytbwys dros y gorwel tair blynedd. Mae rhai o'r pethau y mae angen iddo'u gwneud yn y flwyddyn gyntaf yn anodd; mae wedi gorfod cynnal sgysiaid gwirioneddol ag undebau llafur ac eraill. Mae'n dda iawn bod Aelodau Cynulliad lleol yn cefnogi eu byrddau iechyd lleol pan fydd yn rhaid iddynt wneud y penderfyniadau anodd hynny. Cytunaf yn llwyr â'r Aelod nad oes llawer o ddiben inni gytuno'n gyffredinol yma y dylai byrddau iechyd lleol allu gwneud penderfyniadau dros orwel o dair blynedd sy'n eu galluogi i gynllunio eu gwasanaethau'n well, a gwrthwynebu hynny bob tro y daw enghraifft benodol i'r amlwg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:48

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Members can see, we are over time, but given the importance of the statement in introducing the Bill, I am keen to call three other Members. However, we have a busy schedule this afternoon. You have one minute each, and I will guillotine you after one minute if you are still speaking.

Fel y gall yr Aelodau weld, mae ein hamser ar ben, ond oherwydd pwysigrwydd y datganiad wrth gyflwyno'r Bil, rwyf yn awyddus i alw tri Aelod arall. Fodd bynnag, mae gennym amserlen brysur y prynhawn yma. Mae gennych un funud yr un, a byddwch yn cael y gilotin ar ôl un funud os ydych yn dal i siarad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:48

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I support what the Minister has put forward—I believe that a three-year budget will bring benefit. Every year, the last three months come close to breaking even, and the first three months of each financial year we go into massive overspend, to project your overspends. I have three questions for the Minister. Will he ensure that health boards produce robust and achievable plans, and will he be prepared to turn down some plans if they are not robust and achievable? Otherwise, at the end of three years, we will have the one-year problem multiplied by three. Secondly, and perhaps most importantly, will he make sure that health boards that underspend during one year are not penalised, and that those that overspend benefit in subsequent years? Thirdly, will health boards be able to carry balances forward if they underspend?

Rwyf yn cefnogi'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i gyflwyno—credaf y bydd cyllideb dair blynedd yn dda o beth. Bob blwyddyn, mae'r tri mis olaf yn dod yn agos at fantoli'r gyllideb, ac yn nhri mis cyntaf pob blwyddyn ariannol rydym yn mynd i mewn i orwariant enfawr, i ragfynegi eich gorwariant chi. Mae gennyf dri chwestiwn i'r Gweinidog. A fydd yn sicrhau bod byrddau iechyd yn llunio cynlluniau cadarn a chyraeddadwy, ac a fydd yn fodlon gwrthod rhai cynlluniau os nad ydynt yn gadarn ac yn gyraeddadwy? Fel arall, ar ddiwedd y tair blynedd, bydd gennym broblem un flwyddyn wedi'i lluosio â thri. Yn ail, ac efallai yn bwysicaf oll, a wnaiff yn siŵr nad yw byrddau iechyd sy'n tanwario mewn un flwyddyn yn cael eu cosbi, a'r rhai sy'n gorwario'n elwa yn y blynyddoedd dilynol? Yn drydydd, a fydd byrddau iechyd yn gallu dwyn y gweddill ymlaen os ydynt yn tanwario?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:49

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. The answer to the first question is 'yes'. I very much want all LHBs to be in a position to take advantage of the Bill. I very much hope that they will all come forward with medium-term plans that allow me to provide them with the flexibility that they say they need. However, if I am not confident that their plans stand up to examination, that flexibility will not be afforded to them. Secondly, the Member is right to say that, while some LHBs may want to spend a bit more in year 1 in order to recoup the money in years 2 and 3, it does not necessarily have to be that way. You could spend a bit less in year one in order to have money to do something that you are planning to do in years two or three. In that way, balances can be carried forward.

Diolch am y cwestiynau hynny. Yr ateb i'r cwestiwn cyntaf yw 'byddaf'. Rwyf yn awyddus iawn i bob bwrdd iechyd lleol fod mewn sefyllfa i fanteisio ar y Bil. Gobeithiaf yn fawr y byddant i gyd yn cyflwyno cynlluniau tymor canolog sy'n caniatáu imi roi iddynt yr hyblygrwydd y maent yn dweud bod ei angen arnynt. Fodd bynnag, os nad wyf yn ffyddiog bod eu cynlluniau'n gallu bodloni archwiliad, ni chaiff yr hyblygrwydd hwnnw ei roi iddynt. Yn ail, mae'r Aelod yn gywir wrth ddweud, er ei bod yn bosibl y bydd rhai byrddau iechyd lleol am wario ychydig yn fwy ym mlwyddyn 1 er mwyn adennill yr arian ym mlynnyddoedd 2 a 3, nad oes yn rhaid i bethau fod felly. Gallech wario ychydig yn llai yn y flwyddyn gyntaf er mwyn cael arian i wneud rhywbeth yr ydych yn bwriadu ei wneud ym mlwyddyn dau neu dri. Yn y ffordd honno, gellir dwyn y gweddill ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:50	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I agree with you, Minister, that we need to put an end to the culture that we have had in health boards of expecting a bailout on an annual basis. Certainly, that has been the case with some of the health boards. Can you confirm that you will put an end to that practice in the future, as a result of this Bill? In the current financial year, given the large spending pressures that have been identified, the very little time to close the gap and the practice that we saw in the last financial year of cancelling operations, can you assure us that the work that you have done over the summer with the Minister for Finance will deliver the resources that are necessary for services to continue to be delivered to a high quality, so that patients do not lose out?	Rwyf yn cytuno â chi, Weinidog, bod angen inni roi terfyn ar y diwylliant sydd wedi bod yn y byrddau iechyd o ddisgryl cael eu hachub yn flynyddol. Yn sicr, mae hynny wedi bod yn wir yn rhai o'r byrddau iechyd. A allwch gadarnhau y byddwch yn rhoi terfyn ar yr arfer hwnnw yn y dyfodol, o ganlyniad i'r Bil hwn? Yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac ystyried y pwysau gwariant mawr sydd wedi eu nodi, yr ychydig iawn o amser sydd i gau'r bwlch a'r arfer a welsom yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o ganslo llawdriniaethau, a allwch ein sicrhau y bydd y gwaith yr ydych wedi'i wneud dros yr haf gyda'r Gweinidog Cyllid yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau at safon uchel, fel na fydd cleifion ar eu colled?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	I have one final question—	Mae gennyf un cwestiwn olaf—	
15:51	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> You have ten seconds.	Mae gennych ddeg eiliad.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:51	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The NHS Confederation has described the previous arrangements as being an attempt to land a jumbo jet on a postage stamp. Bearing in mind that we have a rolling three-year programme in the future—	Mae Cydffederasiwn y GIG wedi disgrifio'r trefniadau blaenorol fel ymgais i lanio jumbo-jet ar stamp. O gofio bod gennym raglen dreigl dair blynedd yn y dyfodol—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:51	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Conclude.	Gorffennwch.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:51	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> will you be able to ensure that the tolerance is sufficiently flexible, perhaps more flexible—	a fyddwch yn gallu sicrhau bod y goddefgarwch yn ddigon hyblyg, efallai yn fwy hyblyg—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:51	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you.	Diolch yn fawr.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:51	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I thank the Member for his opening remarks and for the constructive way in which he has engaged in some of the thinking that has led to the production of the Bill in front of the Assembly today. Of course, the Bill is not about spending in the current year. Indeed, it is not about spending, per se, at all. It is about better decision-making within the resource available to LHBs. I note his support for Paul Davies's mentioning of tolerance levels. I will continue to discuss that idea with both him and Paul Davies as the Bill proceeds.	Diolch i'r Aelod am ei sylwadau agoriadol ac am y ffordd adeiladol y mae wedi ymgysylltu â rhai o'r syniadau sydd wedi arwain at greu'r Bil sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Wrth gwrs, nid gwariant yn y flwyddyn gyfredol yw testun y Bil. Yn wir, nid yw'n ymwneud â gwariant, fel y cyfryw, o gwbl. Mae'n ymwneud â gwneud penderfyniadau'n well â'r adnoddau sydd ar gael i'r byrddau iechyd lleol. Nodaf ei gefnogaeth i'r lefelau goddefgarwch y soniodd Paul Davies amdanynt. Byddaf yn parhau i drafod y syniad hwnnw gydag ef a Paul Davies wrth i'r Bil fynd rhagddo.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>



15:52

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement today Minister. I am very pleased to see this piece of work make some progress. My questions relate to some of the wider consequences of the Bill. With regard to procurement collaboration, what impact will this Bill have on the ability of the NHS to act collaboratively in future in terms of procurement, particularly when collaborating with organisations outside of the NHS that might have different financial planning regimes? With regard to hypothecated funding, would this Bill have impact on that within the NHS, particularly with regard to mental health? Finally, NHS spending plans have to be backed up with robust workforce plans. What impact do you expect this to have on workforce planning within the NHS? Do you expect health boards to take a longer-term view of this and will that give greater certainty for NHS staff?

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog. Rwyf yn falch iawn o weld y darn hwn o waith yn symud yn ei flaen. Mae fy nghwestiynau'n ymwneud â rhai o ganlyniadau ehangach y Bil. O ran cydweithio ar gaffael, pa effaith y bydd y Bil hwn yn ei chael ar allu'r GIG i weithredu ar y cyd yn y dyfodol o ran caffael, yn enwedig wrth gydweithio â sefydliadau y tu allan i'r GIG a allai fod â chyfundrefnau cynllunio ariannol gwahanol? O ran arian wedi'i neilltuo, a fyddai'r Bil hwn yn effeithio ar hynny o fewn y GIG, yn enwedig o ran iechyd meddwl? Yn olaf, rhaid sicrhau bod cynlluniau gweithlu cadarn i ategu cynlluniau gwariant y GIG. Pa effaith ydych chi'n disgwyl y bydd hyn yn ei chael ar gynllunio'r gweithlu yn y GIG? A ydych yn disgwyl i fyrddau iechyd gymryd golwg fwy hirdymor ar hyn ac a fydd hynny'n rhoi mwy o sicrwydd i staff y GIG?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:53

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for those questions. The NHS already has a good record in Wales on the procurement agenda, but this Bill will allow for greater flexibility and, therefore, collaboration opportunities that have not been there up until now. It has no bearing on hypothecation decisions per se. I confirm, as she has, that mental health spending remains a hypothecated matter within LHB boundaries.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiynau hynny. Mae gan y GIG eisoes hanes da yng Nghymru o ran caffael, ond bydd y Bil hwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac, felly, gyfleoedd i gydweithio nad ydynt wedi bod ar gael hyd yma. Nid yw'n effeithio o gwbl ar benderfyniadau neilltuo fel y cyfryw. Rwyf yn cadarnhau, fel y gwnaeth hi, fod gwariant ar iechyd meddwl yn dal i fod yn fater wedi'i neilltuo o fewn ffiniau'r byrddau iechyd lleol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 15:53.*

*Peter Black took the Chair at 15:53.*

15:53

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Her final point may be the most important one of all. The future of the NHS in Wales will depend on a remodelled workforce. Changing from where we are today to where we need to be is not something that you can achieve in a single year. A three-year planning horizon with financial flexibility to back that up will, I think, allow for a far more fruitful approach to workforce planning. That is one of the real benefits that I think we will see from this Bill.

Efallai mai ei phwynt olaf oedd y pwysicaf oll. Bydd dyfodol y GIG yng Nghymru yn dibynnu ar weithlu wedi'i ailfodelu. Nid yw newid o'r man lle'r ydym heddiw i'r man lle mae angen inni fod yn rhywbeth y gallwch ei gyflawni mewn blwyddyn. Bydd gorwel cynllunio tair blynedd â hyblygrwydd ariannol i ategu hynny, yn fy marn i, yn golygu y bydd modd cynllunio'r gweithlu mewn ffordd fwy ffrwythlon o lawer. Dyna yw un o'r manteision gwirioneddol y credaf y byddwn yn eu gweld yn sgil y Bil hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:54

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Datganiad: Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol: Gweithio Rhanbarthol

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

On 18 June, my predecessor, Leighton Andrews, announced that Robert Hill had concluded his review. The primary aim of that review was to look at the effectiveness of the current education delivery system, at school and local authority level, and to consider what should be undertaken at school, local authority, regional and national level. On completion of the review, we commenced a 12-week formal consultation on all of the options contained within the report, which closed on 13 September. Due to the long-standing concerns around the performance of local authorities and consortia, I immediately asked officials to provide an analysis in relation to two of the options put forward by Hill. The remaining options are still being analysed and I will make a further statement on those in due course. The two options that I am focusing on today are option 5:2, which is:

'Local authorities to stop providing school improvement services'

and option 5:3, which is:

'Fund regional consortia directly by top-slicing Revenue Support Grant subject to: all consortia covering a standard set of key functions; consortia obtaining Ministerial consent for their organisational structures, annual business plans, outcome targets and appointment of their director; consortia governance being vested in a board of local authority leaders, a Ministerial appointee, an education improvement expert and three head teachers (one primary, one secondary and one special school); attending a twice-yearly stocktake with the Minister for Education and Skills; moving as quickly as practicable to a core staffing model, supplemented by buying in a range of school improvement expertise.'

In coming to these conclusions Robert Hill set out the evidence and rationale in his report:

'no shared understanding on the scope of activity that regional consortia should be undertaking; weak organisational structures in some consortia resulting in a lack of capacity to deliver key functions. This includes a lack of executive leadership, central capacity and overall performance management in those consortia using 'hubs' to deliver their school improvement service; inconsistencies in how the four consortia are applying the four-level categorisation of performance to schools in their area, meaning that there is no common vocabulary being used across Wales; insufficient urgency and action regarding the schools that are most in need of support.'

There is also

## Statement: The Review of the Future Delivery of Education Services in Wales: Regional Working

Ar 18 Mehefin, cyhoeddodd fy rhagflaenydd, Leighton Andrews, fod Robert Hill wedi cwblhau ei adolygiad. Prif nod yr adolygiad hwnnw oedd edrych ar effeithiolrwydd y system sy'n darparu addysg ar hyn o bryd, ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol, ac ystyried yr hyn y dylid ei wneud mewn ysgolion, mewn awdurdodau lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, dechreuodd ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos ar yr holl opsiynau yn yr adroddiad; daeth i ben ar 13 Medi. Oherwydd y pryderon hirsefydlog ynglŷn â pherfformiad awdurdodau lleol a chonsortia, gofynnais ar unwaith i'r swyddogion ddadansoddi dau o'r opsiynau a gyflwynodd Hill. Mae gweddill yr opsiynau'n dal i gael eu dadansoddi, a gwnaf ddatganiad pellach am hynny maes o law. Y ddau ddewis yr wyf yn canolbwyntio arnynt heddiw yw dewis 5:2, sef:

'Dylai'r awdurdodau lleol roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion'

a dewis 5:3, sef:

'Ariannu'r consortia rhanbarthol yn uniongyrchol drwy frigidorri'r Grant Cynnal Refeniw ar yr amodau a ganlyn: bod pob consortiwm yn cyflawni set safonol o swyddogaethau allweddol; bod y Gweinidog yn rhoi sêl ei fendith ar strwythur trefniadaethol y consortia, eu cynlluniau busnes, eu targedau ar gyfer deilliannau a'r cyfarwyddwr a benodir ganddynt; bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n cael eu rhoi yn nwylo bwrdd sy'n cynnwys arweinwyr awdurdod lleol, rhywun a benodir gan y Gweinidog, arbenigwr gwella addysg a thri phennaeth (un cynradd, un uwchradd ac un ysgol arbennig); mynd i gyfarfod archwilio ddwywaith y flwyddyn gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau; symud mor gyflym ag sy'n ymarferol at fodel staffio craidd, gan ategu hynny drwy brynu ystod o arbenigedd gwella ysgolion o'r tu allan.'

Wrth ddod i'r casgliadau hyn, nododd Robert Hill y dystiolaeth a'r rhesymeg yn ei adroddiad:

'dim cyd-ddealltwriaeth o gwmpas y gweithgarwch y dylai'r consortia rhanbarthol fod yn ymwneud ag ef; strwythurau trefniadaethol gwan mewn rhai consortia'n golygu bod diffyg gallu i gyflawni'r prif swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys diffyg arweinyddiaeth weithredol, gallu canolog a rheolaeth perfformiad cyffredinol yn y consortia hynny sy'n defnyddio 'bothau' i ddarparu eu gwasanaeth gwella ysgolion; anghysonderau yn y ffordd y mae'r pedwar consortiwm yn pennu pedair lefel y categorïau perfformiad mewn ysgolion yn eu hardal, sy'n golygu nad oes geirfa gyffredin yn cael ei defnyddio drwy Gymru; diffyg ymdeimlad o frys a diffyg gweithredu gyda golwg ar yr ysgolion y mae angen cymorth arnynt fwyaf.'

Mae yna hefyd

'a lack of a coherent strategy and delivery chain in all but one of the consortia for supporting the roll-out of the literacy and numeracy framework;'

and

'insufficient focus on implementing proven interventions such as recognised coaching programmes for improving teaching and learning.'

The important issue that I want to stress here is that the local authorities have been responsible for the establishment and development of the regional consortia operating model and performance, and hence the issues identified in the Hill review.

We have had a vigorous response to these options from the Welsh Local Government Association on behalf of the 22 local authorities, from each consortium on behalf of their constituent local authorities, along with individual responses from 13 local authorities, diocesan authorities, trade unions and a small number of other partners, such as headteachers and governors.

There is, within these responses, overwhelming support for regional working and the need for a consistent approach within and between consortia. There is a mixed response to the option of a top-slice, with the vast majority of local government against it.

Since taking up post as Minister for Education and Skills, I have become increasingly concerned with the performance of local authorities. Since September 2010, 21 local authorities have been inspected. Of these, six have been judged as requiring special measures—Blaenau Gwent, Merthyr, Monmouthshire, Torfaen, Pembrokeshire and Anglesey. Independent recovery boards have been put in place for five of these, to provide support and challenge to the authorities as they address inspection recommendations.

I therefore fully welcome the Robert Hill report and the range of positive responses to the two options. Evidence from Hill, Estyn and an independent consultancy report of consortia readiness for regional working confirms that each consortium is at a different stage of its development. Pace in some areas has been slow, and there has been a lack of consistency and some duplication in the services being delivered across Wales.

I am simply not prepared to wait any longer for local government to get its act together. Decisive action needs to be taken now in order to support our schools and young people. In light of the Hill report, the evidence and consultation responses, I am strongly minded to fully accept and endorse Hill's two options.

'diffyg strategaeth gydlynol a chadwyn gyflenwi ym mhob consortiwm ar wahân i un ar gyfer lledaenu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol;'

a

'dim digon o ganolbwyntio ar roi ymyriadau sydd wedi'u profi ar waith megis rhaglenni coetsio cydnabyddedig i wella addysgu a dysgu.'

Y mater pwysig yr wyf am ei bwysleisio yma yw mai'r awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am sefydlu a datblygu'r model gweithredu a pherfformiad consortia rhanbarthol, ac felly am y materion a nodwyd yn adolygiad Hill.

Rydym wedi cael ymateb brwd i'r dewisiadau hyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran y 22 awdurdod lleol, gan bob un consortiwm ar ran eu hawdurdodau lleol cyfansoddol, ynghyd ag ymatebion unigol gan 13 o awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, undebau llafur a nifer bach o bartneriaid eraill, megis penaethiaid a llywodraethwyr.

O fewn yr ymatebion hyn, ceir cefnogaeth aruthrol i weithio rhanbarthol a'r angen am ymagwedd gyson o fewn consortia a rhyngddynt. Ceir ymateb cymysg i'r opsiwn o frigidorri, ac mae'r mwyafrif helaeth o lywodraeth leol yn ei erbyn.

Ers dechrau fy swydd fel Gweinidog Addysg a Sgiliau, rwyf wedi dod yn fwyfwy pryderus am berfformiad awdurdodau lleol. Ers mis Medi 2010, mae 21 o awdurdodau lleol wedi cael eu harolygu. O'r rhain, barnwyd bod angen mesurau arbennig ar chwech—Blaenau Gwent, Merthyr, Sir Fynwy, Torfaen, Sir Benfro ac Ynys Môn. Mae byrddau adfer annibynnol wedi eu rhoi ar waith ar gyfer pump o'r rhain, i roi cefnogaeth a her i'r awdurdodau wrth iddynt ymdrin ag argymhellion yr arolygiad.

Felly, rwyf yn croesawu'n llwyr adroddiad Robert Hill a'r ystod o ymatebion cadarnhaol i'r ddau ddewis. Mae tystiolaeth gan Hill, Estyn ac adroddiad ymgynghori annibynnol ar barodrwydd consortia ar gyfer gweithio rhanbarthol yn cadarnhau bod pob consortiwm ar gam gwahanol yn ei ddatblygiad. Mae pethau wedi bod yn araf mewn rhai ardaloedd, a bu diffyg cysondeb a rhywfaint o ddyblygu o ran cyflwyno'r gwasanaethau ledled Cymru.

Nid wyf yn fodlon aros yn hwy i lywodraeth leol roi trefn ar bethau. Mae angen cymryd camau pendant yn awr i gefnogi ein hysgolion a'n pobl ifanc. Yng ngoleuni adroddiad Hill, y dystiolaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rwyf yn gryf o blaid derbyn dau ddewis Hill a'u cymeradwyo'n llawn.

I have made it absolutely clear to local government that I am minded that local authorities will retain their statutory responsibility for education; to put in place a national model for regional working; and to fund the national model for school improvement via a transfer of money from the revenue support grant in 2014-15, in other words, next April. An initial model has been drafted, and I am committed to the further co-construction of that model with local authorities, headteachers and experts in the field of school improvement. We have also started the consultative process of any potential transfer from the 2014-15 settlement.

Rwyf wedi dweud yn gwbl glir wrth lywodraeth leol fy mod o'r farn y dylai awdurdodau lleol gadw eu cyfrifoldeb statudol dros addysg; y byddaf yn sefydlu model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol; ac yn ariannu'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion drwy drosglwyddo arian o'r grant cynnal refeniw yn 2014-15, mewn geiriau eraill, fis Ebrill nesaf. Mae model cychwynnol wedi ei ddrafftio, ac rwyf wedi ymrwymo i gyd-adeiladu'r model hwnnw ymhellach gydag awdurdodau lleol, penaethiaid ac arbenigwyr ym maes gwella ysgolion. Rydym hefyd wedi dechrau ar broses ymgynghorol ar gyfer unrhyw drosglwyddiad posibl o setliad 2014-15.

16:00

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today, which I welcome. I am very pleased to see some movement happening on the Robert Hill review. You will be aware, of course, that the Welsh Conservatives were broadly supportive of that review and felt that there was an awful lot of positive things within it.

Going from your statement today, I just have some questions that I want to ask, but I would like to start off with a general query. In November 2012, the then Minister described progress with regional consortia as, to put it mildly, patchy and now here we are, in October 2013, and you are talking about a national model of regional consortia. Can you assure us that, in fact, regional consortia have upped their game and that the national model of funding them and controlling them will work? We talk of regional consortia having the heads of all of the local authorities sitting on them and, of course, it is a great many of those local authorities that are failing in terms of education services so far. I am also very concerned and would like to have an answer from you as to when we might expect the rest of the Government's response to the recommendations of the Hill review because, at present, we are in limbo on that.

In terms of specific questions, I wonder if you might be able to give us a little bit more information about the governance and scrutiny of this national model of consortia and how it will work. One of the points of the Hill review is that we struggle to find a pool of leaders whom we can use to lead any of these initiatives forward to a successful conclusion. I wonder if you might be able to tell us what you are able to do to improve, enhance and develop that pool of leaders.

Schools are at the heart of many local areas, Minister, as you will know. How will you ensure that a national model of consortia understands that and will reflect that? How will you be able to retain local input, local accountability and fair and equitable treatment of local provision, especially for special needs, Welsh-language provision and school collaborations?

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw; rwyf yn ei groesawu. Rwyf yn falch iawn o weld rhywfaint o symud o ran adolygiad Robert Hill. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod Ceidwadwyr Cymru o blaid yr adolygiad hwnnw ar y cyfan ac yn teimlo bod llawer iawn o bethau cadarnhaol ynddo.

Mae gennyf rai cwestiynau yr hoffwn eu gofyn yn sgil eich datganiad heddiw, ond hoffwn ddechrau ag ymholiad cyffredinol. Ym mis Tachwedd 2012, dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod cynnydd o ran consortia rhanbarthol yn dameidiog, a dweud y lleiaf, a dyma ni yn awr, ym mis Hydref 2013, a chithau'n sôn am fodel cenedlaethol o gonsortia rhanbarthol. A allwch ein sicrhau bod y consortia rhanbarthol, mewn gwirionedd, wedi gwella, ac y bydd y model cenedlaethol o'u cyllido a'u rheoli yn gweithio? Rydym yn sôn am gonsortia rhanbarthol y bydd penaethiaid pob un o'r awdurdodau lleol yn aelodau ohonynt ac, wrth gwrs, mae llawer iawn o'r awdurdodau lleol hynny'n methu o ran gwasanaethau addysg hyd yma. Rwyf hefyd yn bryderus iawn, a hoffwn gael ateb gennych, ynghylch pryd y gallwn ddisgwyl gweddill ymateb y Llywodraeth i argymhellion adolygiad Hill oherwydd, ar hyn o bryd, rydym yn sefyll yn stond yn hynny o beth.

O ran cwestiynau penodol, tybed a allwch roi ychydig yn fwy o wybodaeth inni am drefn lywodraethu a chraffu'r model cenedlaethol hwn o gonsortia a sut y bydd yn gweithio? Un o bwyntiau adolygiad Hill yw ein bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i gronfa o arweinwyr y gallwn eu defnyddio i arwain unrhyw un o'r mentrau hyn tuag at ddiwedd glo llwyddiannus. Tybed a allech ddweud wrthym beth y gallwch ei wneud i wella a datblygu'r gronfa honno o arweinwyr?

Mae ysgolion wrth galon llawer o ardaloedd lleol, Weinidog, fel y gwyddoch. Sut y byddwch yn sicrhau bod model cenedlaethol o gonsortia yn deall hynny ac y bydd yn adlewyrchu hynny? Sut y byddwch yn gallu cadw mewnbwn lleol, atebolrwydd lleol a thriniaeth deg a chyfiawn i ddarpariaeth leol, yn enwedig ar gyfer anghenion arbennig, darpariaeth Gymraeg a chydweithredu rhwng ysgolion?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have a question on the geographical footprint in which consortia currently operate. Do you see that changing at all under the national consortia? If you look at the review into public services delivery, you will see that some of those footprints are incredibly large and, again, the Hill review and subsequent reports have picked up that there are areas, particularly in the south-west and the south-east, where they are struggling to manage what are very large areas.

On option 5.2, you talked about local authorities stopping providing school improvement services. Will this be letting local authorities off the hook, because they are supposed to be improving services, and who are you going to have to replace that in terms of the individuals on the ground? It would be pointless if you had the same person who filled that role in one organisation simply transferring to another organisation and being equally incompetent in the second organisation. I wonder, if the regional consortia are now in charge of school improvement services, how you might see welfare services tying into that, because those services are still provided on a regional or local basis, and welfare services are key to getting a school improvement project working.

I have got a couple of other questions, but I think that I will end with a final comment on funding. I would be interested to know, when you take away that money from the revenue support grant, what effect you think that that will have on local education authorities, because I can bet your bottom dollar that they are using the money that they should be spending on this area to shore up some other services, and therefore I would like to know whether you think that we will see a collapse.

Finally, I think that education just needs some consistency rather than endless reviews and reiterations of slightly different policies. I hope that, by going forward with this, you will actually see an end to that chopping and changing, and that we can get some consistency so that we can measure and get real accountability going through. Thank you.

Mae gennyf gwestiwn am ôl troed daearyddol y consortia ar hyn o bryd. A ydych yn gweld hynny'n newid o gwbl o dan y consortia cenedlaethol? Os edrychwch ar yr adolygiad o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, fe welwch fod rhai o'r olion traed hynny'n anhygoel o fawr ac, unwaith eto, mae adolygiad Hill ac adroddiadau dilynol wedi nodi bod rhai ardaloedd, yn enwedig yn y de-orllewin a'r de-ddwyrain, lle maent yn ei chael yn anodd rheoli'r ardaloedd mawr iawn hyn.

O ran dewis 5.2, soniasoch am awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. A fydd hyn yn rhoi dihangfa i awdurdodau lleol, oherwydd nhw ddylai fod yn gwella gwasanaethau, a phwy fydd yn cymryd eu lle yn hynny o beth o ran unigolion ar lawr gwlad? Ni fyddai diben trosglwyddo'r unigolyn a oedd yn cyflawni'r swyddogaeth honno mewn un sefydliad i sefydliad arall, a'r unigolyn hwnnw yr un mor ddi-glem yn yr ail sefydliad. Os mai'r consortia rhanbarthol sydd bellach yn gyfrifol am wasanaethau gwella ysgolion, tybed sut y credwch y gallai gwasanaethau lles fod yn rhan o hynny, oherwydd mae'r gwasanaethau hynny'n dal i gael eu darparu ar sail ranbarthol neu leol, ac mae gwasanaethau lles yn allweddol er mwyn i brosiectau gwella ysgolion weithio?

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau eraill, ond rwyf yn meddwl fy mod am gloi ag un sylw olaf am gyllid. Byddai gennyf ddiddordeb cael gwybod, ar ôl ichi gael gwared â'r arian hwnnw o'r grant cynnal refeniw, pa effaith y credwch y caiff hynny ar awdurdodau addysg lleol, oherwydd gallwch fentro eu bod yn defnyddio'r arian y dylent fod yn ei wario ar hyn i gynnal gwasanaethau eraill, ac felly hoffwn wybod a ydych yn credu y byddwn yn gweld cwmp yn digwydd.

Yn olaf, credaf mai'r hyn sydd ei angen ar addysg yw rhywfaint o gysondeb, yn hytrach nag adolygiadau diddiwedd ac ailadrodd polisiâu sydd ychydig yn wahanol i'w gilydd. Rwyf yn gobeithio, drwy symud ymlaen â hyn, y byddwch yn gweld diwedd i'r holl newidiadau hynny, ac y gallwn gael rhywfaint o gysondeb fel y gallwn fesur a chael atebolrwydd go iawn at y dyfodol. Diolch yn fawr.

16:05

## Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Angela Burns for her overall support for the thrust of the Hill review, which I share. As she has said, the review has pointed out to us the patchy nature of progress when it comes to the school improvement agenda. Her questions are very apposite and I intend to answer them as quickly and correctly as I can. Your first question was whether the regional consortia have the capacity to operate, to work and to be effective. If Hill is to be believed, and if practically every partner concerned, and every educational expert involved in the debate thus far, is to be given any credibility, the answer has to be 'yes'. My fear is that, at the moment, local authorities, with the partial exception of one of the regional consortia, have not allowed them to get to grips with the school improvement agenda and have not allowed those regional consortia to effectively operate in the way that they should.

Diolch i Angela Burns am ei chefnogaeth gyffredinol i fyrdrwn adolygiad Hill; rwyf yn rhannu'r gefnogaeth honno. Fel y mae wedi'i ddweud, mae'r adolygiad wedi tynnu ein sylw at natur dameidiog y cynnydd o ran yr agenda gwella ysgolion. Mae ei chwestiynau'n briodol iawn ac rwyf yn bwriadu eu hateb mor gyflym a chywir ag y gallaf. Eich cwestiwn cyntaf oedd a oes gan y consortia rhanbarthol y gallu i weithredu, i weithio ac i fod yn effeithiol. Os credwn Hill, ac os credwn bron bob arbenigwr addysgol a fu'n rhan o'r ddadl hyd yma, rhaid inni ddweud 'oes'. Mae arnaf ofn, ar hyn o bryd, nad yw awdurdodau lleol, ac eithrio'n rhannol un o'r consortia rhanbarthol, wedi caniatáu iddynt fynd i'r afael â'r agenda gwella ysgolion ac nad ydynt wedi caniatáu i'r consortia rhanbarthol hynny weithredu'n effeithiol fel y dylent.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of the response to the rest of the Hill review, Angela Burns will be aware that Hill has made a raft of recommendations that we need to consider carefully. I do not propose to hang about, but neither do I propose to put a date today on exactly when the response time will be. It will be as rapid as can be managed while balancing that with rigour, of course.

Schools will remain at the heart of all of this. It is what the school improvement agenda is all about. Local accountability as to what is going on, of course, within our family of schools, remains as it was. What we are talking about here is a relatively narrow and discrete parcel of work being sent to a regional level, and having the capacity at that regional level to deliver where it might not exist at a local level. That does not remove any of the machinery of local accountability that local authorities and LEAs should operate. That carries on as it always has done. We are not talking about any kind of system like the academy or free school system, for instance, where local accountability simply disappears. I remind Angela Burns that her party, across the border in England, is actively engaged in the destruction of local accountability in the school system within England. We are not talking about anything like that here.

On the footprints of the consortia, I believe that they should stay pretty much the way that they are. I am sensitive to worries about the footprint, particularly of mid and west Wales, perhaps, which seems very large. I would say that the overall burden of work, if you like, in terms of budgets, numbers of schools, numbers of pupils and so on, is roughly the same for each of the four consortia. However, I would be open to an evolutionary way of working, if you like, in terms of particular areas having particular characteristics. North Wales and mid and west Wales obviously have geographical challenges that might involve some tweaking in terms of how the consortium is managed overall. However, the footprint, I believe, is valid and sound.

The educational welfare service has been addressed in work that we have completed previously, and I would refer Angela Burns to the work of Ken Reid and to my predecessor's response to Ken's good work on that, along with the rapid progress that we have made, for instance, in terms of the attendance agenda within Wales. On safeguarding this money, essentially, and making sure that it is spent on what it says on the tin—school improvement—if there is a suspicion in Angela Burns's mind that other agendas have been active in some local authorities across Wales, I would be extremely disappointed if there were any substance to her suspicion. All I can say is that this money, from April 2014, will be spent on school improvement and nothing else. We will deliver on this agenda using a national model and we will lift standards across schools, and do so with a sense of urgency and focus.

O ran yr ymateb i weddill adolygiad Hill, bydd Angela Burns yn ymwybodol bod Hill wedi gwneud cyfres o argymhellion y mae angen inni eu hystyried yn ofalus. Nid wyf yn bwriadu tin-droi, ond nid wyf ychwaith yn bwriadu pennu dyddiad heddiw ar gyfer ymateb i'r argymhellion hynny. Gwneir hynny mor gyflym â phosibl, gan sicrhau ar yr un pryd y gwneir hynny'n drwyadl, wrth gwrs.

Bydd ysgolion yn parhau i fod wrth wraidd hyn i gyd. Dyna holl ddiiben yr agenda gwella ysgolion. Mae'r atebolrwydd lleol o ran yr hyn sy'n digwydd, wrth gwrs, o fewn ein teulu o ysgolion, yn aros yr un peth. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yma yw anfon darn cymharol gyfyngedig a phenodol iawn o waith i lefel ranbarthol, a sicrhau gallu ar y lefel ranbarthol honno i gyflawni nad yw o reidrwydd yn bodoli ar lefel leol. Nid yw hynny'n cael gwared ar ddim o'r atebolrwydd lleol a ddylai fod ar waith gan awdurdodau lleol ac AALLau. Mae hynny'n parhau fel y bu erioed. Nid ydym yn sôn am systemau fel yr ysgolion academi neu'r ysgolion rhydd, er enghraifft, lle mae atebolrwydd lleol yn diflannu. Hoffwn atgoffa Angela Burns fod ei phlaid, dros y ffin yn Lloegr, yn mynd ati'n weithredol i ddinistrio atebolrwydd lleol yn system yr ysgolion yn Lloegr. Nid ydym yn sôn am ddim byd felly yma.

O ran olion traed y consortia, rwyf yn credu y dylent aros fwy neu lai fel y maent. Rwyf yn sensitif i bryderon am yr ôl troed, yn enwedig yn y canolbarth a'r gorllewin, efallai, sy'n ymddangos yn fawr iawn. Byddwn yn dweud bod baich cyffredinol y gwaith, os mynnwch chi, o ran y cyllidebau, nifer yr ysgolion, nifer y disgyblion ac yn y blaen, tua'r un fath ym mhob un o'r pedwar consortiwm. Fodd bynnag, byddwn yn agored i ffordd esblygol o weithio, os mynnwch chi, o ran y nodweddion penodol sydd gan ardaloedd penodol. Yn amlwg, mae'r gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin yn wynebu heriau daearyddol a allai olygu rhywfaint o addasu o ran y ffordd y caiff y consortiwm ei reoli'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r ôl troed, yn fy marn i, yn ddilys ac yn gadarn.

Mae'r gwasanaeth lles addysgol wedi cael sylw mewn gwaith yr ydym wedi'i gwblhau o'r blaen, a byddwn yn cyfeirio Angela Burns at waith Ken Reid ac at ymateb fy rhagflaenydd i waith da Ken ar hynny, ynghyd â'r camau breision yr ydym wedi eu cymryd, er enghraifft, o ran yr agenda bresenoldeb yng Nghymru. O ran diogelu'r arian hwn, yn y bôn, a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei wario ar yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun—gwella ysgolion—os yw Angela Burns yn amau bod agendâu eraill wedi bod ar waith mewn rhai awdurdodau lleol ledled Cymru, byddwn yn hynod siomedig pe bai unrhyw sail i'w hamheun. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw y bydd yr arian hwn, o fis Ebrill 2014 ymlaen, yn cael ei wario ar wella ysgolion a dim byd arall. Byddwn yn cyflawni'r agenda hon gan ddefnyddio model cenedlaethol a byddwn yn codi safonau ar draws ysgolion, ac yn gwneud hynny ag ymdeimlad o frys ac o ffocws.

On her final point, on consistency, I believe that I am striving to achieve precisely that. For some time now, the Welsh Government has been entirely consistent about the standards agenda, about literacy and numeracy, and about closing the gap between the least well-off pupils and the rest, as being our central priorities, and we have not deviated from those priorities. School improvement is central to that agenda. It all hangs on school improvement, and we all accept that and understand it, I think, right across this Chamber and throughout the educational community beyond it. What I am attempting to do here is to deliver a consistent approach.

O ran ei phwynt olaf, ynglŷn â chysondeb, rwyf yn credu fy mod yn ymgyrraedd at yr union beth hwnnw. Ers peth amser bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl gyson mai'r agenda safonau, llythrennedd a rhifedd, a chau'r bwllch rhwng y disgyblion lleiaf cefnog a'r gweddill yw ein blaenoriaethau canolog, ac nid ydym wedi gwyrto oddi wrth y blaenoriaethau hynny. Mae gwella ysgolion yn ganolog i'r agenda honno. Mae'r cyfan yn dibynnu ar wella ysgolion, a chredaf ein bod i gyd yn derbyn hynny ac yn deall hynny ar draws y Siambr hon a ledled y gymuned addysgol y tu hwnt iddi. Yr hyn yr wyf yn ceisio ei wneud yma yw darparu dull cyson.

16:11

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac a gaf i, yn gyntaf oll, gytuno â'r hyn y mae newydd ei ddweud am atebolrwydd lleol, ac, i ryw raddau, cydymdeimlo ag ef yn y dasg anodd o roi atebolrwydd lleol ac amcanion cenedlaethol yn y dafol a gweithio mas y pwysau sydd rhyngddynt? Rwy'n cydnabod bod honno'n dasg anodd.

Wedi dweud hynny, rhaid dweud fy mod braidd yn siomedig yn ymateb y Gweinidog heddiw. Mae 44 o argymhellion yn adroddiad Hill, rwy'n meddwl, a dau yn unig sydd wedi cael eu cynnig heddiw i'w gweithredu. Nid oes modd gweithredu'r ddau hyn yn llwyr oni bai bod nifer o argymhellion eraill yn cael eu gweithredu gyda nhw. Dyna pam nid wyf yn gallu croesawu, yn syml iawn, yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud heddiw. Unig ganlyniad gweithredu'r ddau y mae wedi eu crybwyll heddiw fydd cryfhau'r consortia i ryw raddau, ond yn y ffordd yr oeddent yn cael eu beirniadu gan y Gweinidog blaenorol am beidio â bod yn gyflawn ac yn gyson ar draws Cymru. Rwy'n meddwl bod perygl o waethygu'r broblem oni bai bod nifer o'r argymhellion a'r camau eraill sy'n cael eu hadrodd yn adroddiad Hill hefyd yn cael eu gweithredu.

Felly, gofynnaf i'r Gweinidog nifer o gwestiynau sydd yn cyd-fynd â hynny. Yn gyntaf oll, mae'n sôn am gymryd yr arian oddi ar yr awdurdodau lleol a'i roi i'r consortia. A yw hynny'n cynnwys yr arian penodol ar gyfer addysg anghenion arbennig ac addysg yn yr iaith Gymraeg? Wrth edrych ar y consortia hyn, a fydd y Gweinidog yn gallu dweud a fydd angen ei gymeradwyaeth ef ar gyfer y strwythur, y cynllun busnes, y targedau, a phenodi prif bennaethiaid y consortia, fel sydd wedi cael ei argymhell yn adroddiad Hill?

A all y Gweinidog ddweud wrthym heddiw sut y bydd y consortia yn cael eu rheoli? A fydd cynrychiolaeth gan broffesiwn yr athrawon ar y consortia eu hunain? Beth, yn wir, a fydd patrwm staffio'r consortia? A fydd ef, fel Gweinidog, o dro i dro yn cadeirio cyfarfodydd o'r holl gonsortia er mwyn eu dal i gyfrif ac i gadw eu trwynau ar y maen? A fydd yn gallu dweud rhywbeth heddiw ynglŷn â rhannu data craidd, dehongli'r data a sicrhau cysondeb rhwng y data sy'n cael ei ddal gan yr ysgolion a'r consortia, gyda chysondeb cenedlaethol y tu ôl i hynny? A yw'n bwriadu cymryd unrhyw bwerau ychwanegol wrth gefn i ymyrryd os nad yw hyn yn gweithio?

May I thank the Minister for his statement today and may I, first of all, agree with him on what he has just said about local accountability, and, to a certain extent, sympathise with him regarding the difficult task of providing local accountability and national objectives and getting the balance right between those two things? I acknowledge that that is a very difficult task.

Having said that, I have to say that I am a little disappointed by the Minister's response today. I think that there are 44 recommendations in the Hill report and only two have been proposed for implementation today. I do not think that these two can be fully implemented unless many of the other recommendations are also implemented simultaneously. That is why I cannot welcome what the Minister has said today. The only consequence of implementing the two recommendations that he has mentioned will be to strengthen the consortia to a certain extent, but along the lines for which they were criticised by the previous Minister, for not being holistic and not being consistent across Wales. I think that there is a risk of exacerbating the problem unless many of the other recommendations proposed in the Hill report are also implemented.

Therefore, I will ask the Minister a number of questions that emerge from that. First of all, he mentions removing funding for the local authorities and providing it to the consortia. Does that include the specific funding for special needs education and Welsh-medium education? In looking at these consortia, will the Minister be able to say whether his approval will be required for the structure, the business plan, the targets and the appointment of the chief officers of the consortia, as has been recommended in Hill?

Can the Minister tell us today how the consortia will be managed? Will there be representation from the teaching profession on the consortia themselves? What form will the staffing pattern for the consortia take? Will he, as Minister, from time to time, chair meetings of all the consortia in order to hold them to account and to ensure that their noses are to the grindstone? Will he be able to say anything today about sharing core data, analysing data and ensuring consistency of the data held by schools and the consortia, with national consistency backing all that? Does he intend to take any additional powers in order to intervene if this does not work?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Hoffwn hefyd ofyn iddo yn benodol am argymhelliad yn adroddiad Hill nad yw'n ymwneud yn benodol â'r consortia, ond mae'n un pwysig, sef y dylai fod gweithdrefn tracio safonol i bob disgybl ar ôl y cyfnod sylfaenol. Rydym ni ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi gweld enghreifftiau yng Nghymru o dracio o'r math hwn a gweld pa mor llwyddiannus y mae'n gallu bod. Byddwn yn dymuno gweld bod y weithdrefn genedlaethol hon yn rhywbeth y mae'r consortia'n ei wneud ar lefel genedlaethol, ac yn gweithredu'n safonol ac yn gyson ar draws Cymru.

I would suggest to the Minister that the two recommendations that he is accepting today are, in themselves, okay but insufficient, as they will not deliver the changes that I am sure he wants to see, and which the previous Minister wanted to see, with the support of all parties in this place, if he does not take on board these associated recommendations in the Robert Hill report, which I have just outlined. It is not just me saying that—I believe that Hill says that as well, in terms of checks, balances and ministerial accountability for what the consortia are doing. I am afraid, Minister, that if you do not do this, then it can tip down all it likes on 5 November, but there will not be a damper squib than what you have done today, because there is no evidence that this is actually going to succeed. What Robert Hill did with regard to consortia only was put together a package of measures; what you have done now is cherry-pick two things that you think the WLGA will accept, and you have not driven through the winds of change that the previous Minister talked about. We are left with a bit of a draught; I hope that draught comes from a door that is still open to further reform.

I would also like to ask him specifically about the recommendation in the Hill report that does not refer specifically to the consortia, but it is important nonetheless, and that is that there should be a standard tracking system for every pupil after the foundation phase. We, as a Children and Young People committee, have seen examples in Wales of such tracking and how successful it can be. I would want to see a national system in place and that should be implemented by the consortia at a national level, and implemented in a standardised, consistent way across Wales.

Byddwn yn awgrymu wrth y Gweinidog fod y ddau argymhelliad y mae'n eu derbyn heddiw, ynddynt eu hunain, yn iawn ond yn annigonol, gan na fyddant yn cyflawni'r newidiadau yr wyf yn siŵr ei fod am eu gweld, ac yr oedd y Gweinidog blaenorol am eu gweld, gyda chefnogaeth pob plaid yn y lle hwn, os na fydd yn ystyried yr argymhellion cysylltiedig yn adroddiad Robert Hill, yr wyf newydd eu hamlinellu. Nid dim ond fi sy'n dweud hynny—credaf fod Hill yn dweud hynny hefyd, o ran pwysu a gwrthbwysu ac atebolrwydd gweinidogol am yr hyn y mae'r consortia'n ei wneud. Mae arnaf ofn, Weinidog, os na wnewch hyn, y gall fwrw glaw drwy'r dydd ar 5 Tachwedd, ond na fydd yr un fatsien wlypach na'r hyn yr ydych wedi ei wneud heddiw, gan nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn mewn gwirionedd yn mynd i lwyddo. Yr hyn a wnaeth Robert Hill o ran consortia yn unig oedd llunio pecyn o fesurau; yr hyn yr ydych chi wedi'i wneud yn awr yw dewis a dethol dau beth y credwch y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n eu derbyn, ac nid ydych wedi gwneud y newidiadau ysgubol y soniodd y Gweinidog blaenorol amdanynt. Dim ond mân newidiadau a gawsom; rwyf yn gobeithio ei bod yn dal i fod yn bosibl gwneud newidiadau pellach.



Simon Thomas seems to fundamentally misunderstand the purpose and content of my statement here this afternoon. He says that I have taken two recommendations from the Hill report and that worries him a great deal; I would remind him that the consultation on Hill closed on just 13 September, and we have our democratic way of doing things within this devolved government, which involves those consultation responses having to be given due weight, studied, and so on. What I have done here is to take these two key recommendations as something that we would fast-track through a normal process, prioritise and drive through. The reason, I will reiterate, is this: school improvement lies at the heart of our education agenda. Hill has very clearly—and all partners are agreed on this point—pointed to the regional level as being absolutely critical when it comes to the success of school improvement, and, if we do not have an operational regional level, there will be local authorities that simply do not have the capacity to cope. Local authorities have, for three years now, been attempting to deliver a regional level of school improvement work, and in all cases bar the partial exception of south-east Wales they have failed. I could hang around and wait for the entire consultation process and response process around Hill to mature, and come back to this Chamber with the results of that, and I would not, in a procedural sense, have done anything incorrect. However, if I do that, my fear is that we will lose another academic cohort, another financial year will have gone by next April, and, essentially, we would have lost at least 12 months in terms of ensuring that the regional consortia are operational.

We do pretty much have a working model in terms of what is happening in the south-east Wales consortium. I would refer Simon Thomas—I think that this would answer almost all of the other points that he raised—to the description of the south-east Wales model and the national plan, which I have shared with local authorities for discussion, and which I can send to Simon Thomas. That pretty much uses as a blueprint the managerial and accountability structures of the south-east Wales regional consortium as a model for the other regions in Wales to adopt. We will need—Angela Burns has made this point—to have sensitivity to some local circumstances in terms, for instance, of rurality and so on. Absolutely, yes, we will need to do that, but we have pretty much a working model for all local authorities. Given the will, and the sense of urgency and commitment that they all keep stating that they share with me, they will have no trouble, in my view, given that I will assist them by protecting the money that pays for all this to happen, in emulating the south east in terms of setting up the school improvement machinery. This is the critical point I need to make in response to the thrust of Simon's argument here this afternoon: implementing these two recommendations on a fast track is about constructing a piece of machinery to drive forward the school improvement agenda, which has long been agreed and long been understood by all the partners engaged in the debate. What has been missing for the last three years is a lever to pull.

Mae'n ymddangos bod Simon Thomas wedi camddeall pwrpas a chynnwys sylfaenol fy natganiad yma y prynhawn yma. Mae'n dweud fy mod wedi cymryd dau argymhelliad o adroddiad Hill a bod hynny'n ei boeni'n fawr; hoffwn ei atgoffa mai dim ond ar 13 Medi y daeth yr ymgynghoriad ar Hill i ben, a bod gennym ein ffordd ddemocrataidd o wneud pethau yn y llywodraeth ddatganoledig hon, sy'n cynnwys pwysu a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn briodol, eu hastudio, ac yn y blaen. Yr hyn yr wyf wedi ei wneud yma yw cymryd y ddau argymhelliad allweddol hyn fel rhywbeth y byddem yn eu rhoi ar lwybr carlam drwy broses arferol, yn eu blaenoriaethu ac yn bwrw ymlaen â hwy. A dyma pam, unwaith eto: mae gwella ysgolion wrth wraidd ein hagenda addysg. Mae Hill wedi nodi'n glir iawn—ac mae'r holl bartneriaid yn cytuno ar y pwynt hwn—fod y lefel ranbarthol yn hollol hanfodol i lwyddiant gwella ysgolion, ac, os nad oes gennym lefel ranbarthol weithredol, y bydd rhai awdurdodau lleol yn methu ag ymdopi. Ers tair blynedd bellach, mae awdurdodau lleol yn ceisio cyflawni gwaith gwella ysgolion ar lefel ranbarthol, ac ym mhob achos ar wahân i eithriad rhannol y de-ddwyrain, maent wedi methu. Gallwn din-droi ac aros i'r broses ymgynghori gyfan a'r broses o ymateb i Hill aeddfedu, a dod yn ôl i'r Siambr hon â chanlyniadau hynny, ac ni fyddwn, o safbwynt gweithdrefnol, wedi gwneud dim byd o'i le. Fodd bynnag, os gwnaf hynny, mae arnaf ofn y byddwn yn colli carfan academiaidd arall, y bydd blwyddyn ariannol arall wedi mynd erbyn mis Ebrill nesaf, ac, yn y bôn, y byddwn wedi colli o leiaf 12 mis o ran sicrhau bod y consortia rhanbarthol ar waith.

Mae gennym fodel sydd fwy neu lai'n gweithio o ran yr hyn sy'n digwydd yng nghonsortium y de-ddwyrain. Byddwn yn cyfeirio Simon Thomas—rwyf yn meddwl y byddai hyn yn ateb bron bob un o'r pwyntiau eraill a gododd—at y disgrifiad o fodel y de-ddwyrain a'r cynllun cenedlaethol, yr wyf wedi'i rannu ag awdurdodau lleol i'w drafod, ac y gallaf ei anfon at Simon Thomas. Mae'n defnyddio, fwy neu lai, strwythurau rheoli ac atebolrwydd consortium rhanbarthol y de-ddwyrain fel glasbrint ar gyfer model i'r rhanbarthau eraill yng Nghymru ei fabwysiadu. Bydd angen bod yn sensitif—ac mae Angela Burns wedi gwneud y pwynt hwn—er enghraifft i rai amgylchiadau lleol, o ran natur wledig ac yn y blaen. Wrth gwrs, bydd angen inni wneud hynny, ond mae gennym fodel a fydd yn gweithio i raddau helaeth ar gyfer pob awdurdod lleol. Ac ystyried yr ewyllys, a'r ymdeimlad o frys ac ymrwymiad y maent i gyd yn dweud o hyd eu bod yn eu rhannu â mi, ni fydd yn anodd iddynt, yn fy marn i, ac ystyried y byddaf yn eu cynorthwyo drwy warchod yr arian sy'n talu i hyn i gyd ddigwydd, efelychu'r de-ddwyrain o ran sefydlu'r gyfundrefn gwella ysgolion. Dyma'r pwynt allweddol y mae angen imi ei wneud i ymateb i fyrdwn dadl Simon yma y prynhawn yma: diben gweithredu'r ddau argymhelliad hyn ar lwybr carlam yw llunio ffordd o symud yr agenda gwella ysgolion yn ei blaen; mae'r holl bartneriaid sy'n rhan o'r ddadl yn cytuno ar hyn, ac yn ei ddeall, ers amser maith. Yr unig beth sydd wedi bod ar goll dros y tair blynedd diwethaf yw lifer i'w dynnu.

This has only really grown up in the last three years within one particular region of Wales. That is not acceptable, and not even in that region of Wales has the machinery become fully formed; it is not delivering quite as it should. In other words, what I am talking about here is not ignoring the rest of Hill, not slowing down the rest of Hill, not side stepping it or any of that stuff. All the other recommendations within Hill need to be taken as a package, as Simon Thomas has said. He is absolutely right: you cannot cherry-pick two recommendations and hope that that will work. That is not what I am doing. What I am doing here is saying that we must do this particular thing as rapidly as we possibly can, otherwise everything else falls by the wayside.

Dim ond dros y tair blynedd diwethaf y mae hyn wedi tyfu mewn gwirionedd mewn un rhanbarth penodol yng Nghymru. Nid yw hynny'n dderbyniol, ac nid yw wedi'i ffurfio'n llawn hyd yn oed yn y rhan honno o Gymru; nid yw'n cyflawni cystal ag y dylai. Mewn geiriau eraill, nid wyf yn sôn am anwybyddu gweddill Hill yma, nac am arafu gweddill Hill, na'i ochrgamu na dim byd felly. Mae angen cymryd holl argymhellion eraill Hill fel pecyn, fel y dywedodd Simon Thomas. Mae'n hollol gywir: ni allwch ddewis a dethol dau argymhelliad a gobeithio y bydd hynny'n gweithio. Nid dyna yr wyf yn ei wneud. Yr hyn yr wyf yn ei wneud yma yw dweud bod yn rhaid inni wneud peth penodol hwn mor gyflym ag y gallwn; fel arall, bydd popeth arall yn methu.

16:20

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn rhannu rhai o'r pryderon mae Simon Thomas wedi sôn amdanynt y prynhawn yma. Rwy'n derbyn bod yr ymgynghoriad ond wedi darfod rhyw dair wythnos yn ôl a'ch bod yn teimlo bod yn rhaid symud ymlaen efo rhai o'r materion hyn, ond byddai'n help i ni gyd yn y gwrthbleidiau os byddech yn dweud, heb roi amserlen benodol, pryd rydych yn gobeithio gwneud rhyw fath o benderfyniad ynglŷn â'r holl argymhellion o fewn yr adolygiad.

Rydych yn dweud eich bod yn fodlon rhannu'r cynllun cenedlaethol a rhyw fath o adolygiad ar sut mae'r consortiwm yn y de ddwyrain yn gweithredu. A fyddech yn fodlon gwneud hynny, achos yr hyn nad yw'n amlwg o fewn y datganiad hwn heddiw yw a yw'r model llywodraethu o ran y consortia—y model cenedlaethol—yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd eisoes yn y de ddwyrain? Mae gennyf rai pryderon ynglŷn â'r consortia mwy yn y canolbarth a'r gorllewin ac yn y gogledd. Rydych yn sôn bod angen cael tri phennaeth yn gynrychiolwyr, un o ysgol gynradd, un o ysgol uwchradd, ac un o ysgol arbennig, ond, o fewn consortiwm y gogledd, mae 370 o ysgolion. Sut bydd y penaethiaid hynny'n cael eu dewis ar draws chwe chyngor?

Hefyd, o ran y bwrdd rheoli, rydych yn dweud eich bod yn gofyn i arweinwyr cynghorau neu aelodau cabinet dros addysg o fewn cynghorau i fod yn gyfrifol o fewn y bwrdd. A ydych yn rhoi rhyw fath o gyfrifoldeb arnynt i adrodd yn ôl i'r cynghorau unigol? Y broblem a welais pan oeddwn yn gyfrifol yn Wrecsam oedd bod sefyllfaoedd yn codi lle nad oedd y cyngor, i ryw raddau, yn derbyn atebolrwydd, gan nad oedd eu cynrychiolwyr ar y consortiwm yn adrodd yn ôl.

Hefyd, o ran data, roedd consortiwm y gogledd yn trafod am ryw 18 mis i gael yr un gyfundrefn data ar draws y chwe awdurdod, ac roedd gofynion ariannol ar y cynghorau. A ydych yn dweud y bydd un system data ar draws Cymru ac y bydd pob consortiwm yn casglu'r un data ac yn dehongli'r data hynny yn yr un modd?

I share some of the concerns that Simon Thomas has mentioned this afternoon. I accept that the consultation finished only three weeks ago and that you feel that we need to move forward with some of these issues, but it would be helpful for all of us in the opposition parties if you were to say, without giving a specific timetable, when you hope to make some kind of decision on all of the recommendations in the review.

You say that you are willing to share the national plan and some kind of review of how the consortium in south-east Wales operates. Would you be willing to do that, because what it is not clear in the statement today is whether the governance model for the consortia—the national model—reflects what is already happening in the south-east? I have some concerns about the larger consortia in mid and west Wales and in the north. You say that we need to have three heads as representatives, one from a primary school, one from a secondary school, and one from a special school, but, in the north Wales consortium, there are 370 schools. How will those heads be chosen from across six councils?

Also, in terms of the management board, you say that you are asking council leaders or cabinet members for education within councils to be responsible within the board. Are you giving them any responsibility to report back to their individual councils? The problem I saw when I was responsible in Wrexham was that situations arose where the council, to a certain extent, did not accept accountability, because their representatives on the consortium did not report back.

Also, in terms of data, the north Wales consortium discussed for about 18 months having one data regime across the six authorities, and there were financial requirements of the councils. Are you saying that there will be one data system across Wales and that every consortium will collect the same data and interpret those data in the same way?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I orffen, rydych yn dweud bod y drefn ariannol newydd i fod yn weithredol o fis Ebrill ymlaen. A fydd y drefn o lywodraethu o fewn y consortia ar y patrwm cenedlaethol hwn yn weithredol o fis Ebrill? Un o'r pethau sy'n achosi pryder i ni yw eich bod, fel Llywodraeth, yn trafod strwythurau yn aml, ond mae rhai o'r problemau sydd wedi'u datgan o fewn adroddiad ISOS yn dangos nad strwythurau'n unig yw'r broblem, ond y capasiti o fewn y gyfundrefn yng Nghymru a'r ffaith bod cyfrifoldeb ar y consortia, yn y lle cyntaf, i gydnabod y bobl sydd orau i wella'n ysgolion ond hefyd i edrych ar gapasiti ac arfer da. Ar hyn o bryd nid oes llawer o drafod, yn bendant o fewn y consortia, o ran sut maent yn mynd i ddenu'r capasiti hwnnw a datblygu'r capasiti o fewn ardaloedd unigol. Rwy'n gofyn ichi, felly: pryd fyddwch yn barod i adrodd yn llawn ar holl argymhellion Hill?

To finish, you say that the new funding system should be operational from April onwards. Will the governance system within the consortia on this national pattern also be operational from April? One of the things that concerns us is that you, as a Government, talk a lot about structures, but some of the problems revealed in the ISOS report show that it is not only the structures that are a problem, but the capacity within the system in Wales and the fact that there is a responsibility on the consortia, in the first place, to recognise the people who are best placed to improve our schools, but also to look at capacity and best practice. At present, there is not much discussion, certainly within the consortia, about how they are going to attract that capacity and develop the capacity within the individual areas. I ask you, therefore: when will you be ready to report fully on all of the recommendations made by Hill?

16:24

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not going to give a date today on which I am going to report back on the rest of the Hill review. I will keep Members informed, and I can assure them of as rapid a pace of progress as is humanly possible on the Hill review. If I were to announce that I was going to do it next weekend, I am sure that Members would complain that I was not giving due weight to the consultation responses. We have to do these things properly and openly.

In terms of the national plan, I have no problem sharing it; I have pretty much described it in my statement this afternoon. It is about the structure of who is sitting on this regional consortium, who they relate to, what their job description is and so on and so forth. I will happily share a copy of the document; after all, it has been up and operational in south-east Wales for some considerable time. Essentially, the plan describes the way in which the south-east Wales consortium should work and, in the main, does work. So, all of that stuff is freely available.

In terms of school improvement, I get the feeling from Aled Roberts and, from some of the comments that he has made this afternoon, from Simon Thomas, that there is some confusion in the minds of opposition spokespersons about exactly what we are talking about in terms of these two recommendations and what will transpire from implementing them. I am talking here about really quite a narrow area of activity. It is the regional capacity to deliver on school improvement services—that is what we are talking about here. This is something that local authorities have been spending about £20 million a year on for the past three years and that, frankly, in most parts of Wales, has not been delivered at all.

Nid wyf am roi dyddiad heddiw ar gyfer pryd yr wyf yn mynd i adrodd yn ôl am weddill adolygiad Hill. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, a gallaf eu sicrhau y byddwn yn symud ymlaen mor gyflym ag y gallwn ar adolygiad Hill. Pe bawn yn cyhoeddi fy mod yn mynd i'w wneud y penwythnos nesaf, rwyf yn siŵr y byddai'r Aelodau'n cwyno nad oeddwn yn rhoi sylw dyledus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhaid inni wneud y pethau hyn yn briodol ac yn agored.

O ran y cynllun cenedlaethol, nid yw'n broblem imi ei rannu; rwyf wedi'i ddisgrifio fwy neu lai yn fy natganiad y prynhawn yma. Mae'n ymwneud â phwy sy'n eistedd ar y consortiwm rhanbarthol hwn, pwy y maent yn ymwneud â hwy, beth yw disgrifiad eu swydd ac yn y blaen. Byddaf yn falch o rannu copi o'r ddogfen; wedi'r cyfan, mae wedi bod yn weithredol yn y de-ddwyrain ers peth amser. Yn y bôn, mae'r cynllun yn disgrifio sut y dylai consortiwm y de-ddwyrain weithio ac, at ei gilydd, sut y mae'n gweithio. Felly, mae'r holl bethau hynny eisoes ar gael.

O ran gwella ysgolion, rwyf yn synhwyro gan Aled Roberts a Simon Thomas hefyd, o rai o'r sylwadau y mae wedi'u gwneud y prynhawn yma, fod rhywfaint o ddryswch ym meddyliau llefarwyr y gwrthbleidiau ynghylch beth yn union yr ydym yn sôn amdano o ran y ddau argymhelliad hyn a beth fydd yn digwydd yn sgil eu gweithredu. Rwyf yn sôn yma am faes eithaf cul o weithgarwch mewn gwirionedd. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yma yw'r gallu rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Mae hyn yn rhywbeth y mae awdurdodau lleol wedi bod yn gwario tuag £20 miliwn y flwyddyn arno dros y tair blynedd diwethaf, ac a dweud y gwir, yn y rhan fwyaf o Gymru, nid yw wedi ei gyflawni o gwbl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

What I am talking about here is structural, Aled—it is mechanistic, if you like. I accept that that is not the whole of any kind of argument, but it is an essential part of it. We must have the structure and the mechanism. In fact, this structure and mechanism, and this aspect of the education agenda—school improvement services—should have been operating in this way for some considerable time. That is what will be up and running in April. The money, the mechanism, the structure and the people will be in place, along with the expert guidance and the relationship between local authorities and the consortia and between the consortia and me. That structure, which was long promised, is now overdue. I have called time on the wait for that structure to be put in place. We have to have that capacity in place by next spring, because Aled is absolutely right—we do not have, within many of our local authorities, the capacity to be able to deal with the challenges that are being faced by schools. With every school term that ticks by, we are letting down another group of young people, when we are agreed on what the answers should be and what the priorities ought to be. Not a single local authority has come to me and said that this regional co-working is a bad idea. They have all bought into it, but the unfortunate truth of the matter is that it has been rhetoric alone that has emerged from most of the local authorities in that regard. Well, the rhetoric is done with now, and we have to have the commitment and delivery on the promises that have been made—not to me, but to our school community out there on the ground.

Aled is quite right when he talks with some frustration about what is happening in his local consortium area. I think that the phrase that he used was that there is not much happening. He is absolutely right. The time for talking around these issues, for game playing on the part of some local authorities, and for lip service having been paid to the school improvement agenda on the part of some local authorities, is done.

16:29

### **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the most important sentence in the Minister's statement is that he is not prepared to wait any longer for local government to get its act together. He almost makes me look patient. [Laughter.] I urge him to press ahead with a top-slice of the revenue support grant. I urge him to deliver that national model. I urge him to put a bomb under those consortia that are still failing to deliver consistency and support at pace for their young people.

Sôn yr wyf am faterion strwythurol yma, Aled—mae'n fecanistig, os hoffwch. Rwyf yn derbyn nad dyma yw'r cyfan o unrhyw fath o ddadl, ond mae'n rhan hanfodol ohoni. Mae'n rhaid wrth y strwythur a'r mecanwaith. Yn wir, dylai'r strwythur a'r mecanwaith dan sylw, a'r agwedd hon ar yr agenda addysg—gwasanaethau gwella ysgolion—fod wedi bod yn gweithredu fel hyn ers tro byd. Dyna beth fydd yn weithredol ym mis Ebrill. Bydd yr arian, y mecanwaith, y strwythur a'r bobl yn eu lle, ynghyd â'r arweiniad arbenigol a'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r consortia a rhwng y consortia a mi. Mae'n hen bryd inni gael y strwythur hwnnw; mae wedi ei addo ers peth amser. Rwyf wedi dod â'r aros i'r strwythur hwnnw gael ei roi ar waith i ben. Rhaid inni sicrhau bod y gallu hwnnw ar waith erbyn y gwanwyn nesaf, oherwydd mae Aled yn llygad ei le—nid yw'r gallu gennym, mewn llawer o'n hawdurdodau lleol, i ymdrin â'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu. Gyda phob tymor ysgol sy'n mynd heibio, rydym yn gwneud cam â grŵp arall o bobl ifanc, a ninnau'n cytuno ynghylch yr atebion a'r blaenoriaethau. Nid oes yr un awdurdod lleol wedi dod ataf a dweud bod y cydweithio rhanbarthol hwn yn syniad gwael. Maent i gyd o'i blaid, ond y gwir anffodus amdani yw mai rhethreg yn unig sydd wedi dod allan o'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn hynny o beth. Wel, mae'r rhethreg ar ben nawr, a rhaid inni sicrhau ymrwymiad a chyflawni'r addewidion sydd wedi eu gwneud—nid i mi, ond i gymuned ein hysgolion ar lawr gwlad.

Mae Aled yn llygad ei le wrth siarad â chrym rwystredigaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ardal ei gonsortium lleol ef. Credaf mai'r hyn a ddywedodd oedd nad oes rhyw lawer yn digwydd. Mae yn llygad ei le. Mae'r amser i siarad am y materion hyn, i chwarae gemau ar ran rhai awdurdodau lleol, ac i esgus cefnogi'r agenda gwella ysgolion ar ran rhai awdurdodau lleol, ar ben.

Rwyf yn credu mai'r frawddeg bwysicaf yn natganiad y Gweinidog yw nad yw'n fodlon aros yn hwy i lywodraeth leol roi trefn ar bethau. Mae'n gwneud i mi edrych yn amyneddgar, bron. [Chwerthin.] Rwyf yn ei annog i fwrw ymlaen â brigdorri'r grant cynnal refeniw. Rwyf yn ei annog i ddarparu'r model cenedlaethol hwnnw. Rwyf yn ei annog i roi bom o dan y consortia hynny sy'n dal i fethu â darparu cysondeb a chefnogaeth ar fyrder i'w pobl ifanc.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, my esteemed colleague and predecessor Leighton Andrews is renowned for his patience and for his caring attitude to those who may want to obstruct this agenda. He is absolutely right. What needs most of all to be shared? In this place, within committees and through the media, whatever it is, it is perfectly legitimate that we should all spend time picking through the detail of the mechanisms and structures of these things, making sure that the lines of accountability are fair and democratic, and that, above all, the systems work. Leighton goes to the very heart of the matter when he says that the thing that should be beyond debate at this stage, given the undertakings that all partners have made repeatedly on this agenda, and given that it has been agreed over and over again, is that we need a sense of urgency on delivery at the regional level of school improvement services to solve the capacity problem that many of our local authorities have been facing. There has been no-one who has stood up in any kind of forum that I have heard of and disagreed with that basic principle. What Leighton identifies in his comments is absolutely true. We need the sense of urgency to be shared and we need the commitment to be sincere through local authority leaders, through portfolio members within local authorities, and any gaming of the system between local authorities or within them has to stop for the benefit of our young people, for our teachers, our schools, our parents and our governors. The clock is ticking. The finish line is next April. I am absolutely determined that we will have operational school improvement machinery to drive forward by April next year.

Wrth gwrs, mae fy nghyd-weithiwr a'm rhagflaenydd uchel ei barch Leighton Andrews yn enwog am ei amynedd ac am ei agwedd ofalgar tuag at y rheini a allai fod am rwystro'r agenda hon. Mae yn llygad ei le. Beth sydd angen ei rannu fwyaf oll? Yn y lle hwn, mewn pwyllgorau a thrwy'r cyfryngau, beth bynnag y bo, mae'n hollol briodol inni i gyd dreulio amser yn mynd drwy fanylion mecanweithiau a strwythurau'r pethau hyn, i sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn deg ac yn ddemocrataidd, ac, yn anad dim, bod y systemau'n gweithio. Mae Leighton yn mynd at wraidd y mater pan ddywed mai'r peth a ddylai fod y tu hwnt i ddadlau ar hyn o bryd, ac ystyried yr ymrwymadau y mae'r holl bartneriaid wedi'u gwneud dro ar ôl tro ar yr agenda hon, ac o ystyried y cytunwyd arni dro ar ôl tro, yw bod angen ymdeimlad o frys o ran cyflenwi gwasanaethau gwella ysgolion ar lefel ranbarthol i ddatrys y broblem o ran capasiti y mae llawer o'n hawdurdodau lleol wedi bod yn ei hwynebu. Nid wyf wedi clywed am neb yn sefyll mewn unrhyw fath o fforwm ac yn anghytuno â'r egwyddor sylfaenol honno. Mae'r hyn y mae Leighton yn ei nodi yn ei sylwadau'n hollol wir. Mae angen rhannu'r ymdeimlad o frys ac mae angen i'r ymrwymiad fod yn ddiwyll drwy arweinwyr awdurdodau lleol, drwy aelodau portffolio o fewn awdurdodau lleol, a rhaid i unrhyw chwarae gemau â'r system rhwng awdurdodau lleol neu oddi mewn iddynt ddod i ben er lles ein pobl ifanc, ein hathrawon, ein hysgolion, ein rhieni a'n llywodraethwyr. Mae'r cloc yn tician. Mis Ebrill nesaf yw'r llinell derfyn. Rwyf yn hollol benderfynol y byddwn yn gallu bwrw ymlaen â system gwella ysgolion weithredol erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf.

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have three questions and one comment for the Minister. The first question is this: has the Minister seen any correlation between Estyn's opinion of local authorities and the school banding that was produced last year? My comment is to congratulate the Minister on avoiding a school strike in Wales like the one that they have in England.

My second question is this: how will we ensure that school improvement takes place unless we can ensure that class sizes stay at least at the same level and that we do not see a reduction in the number of teachers in schools?

Thirdly, we keep on talking about lots of things, but really school improvement is about what is happening in schools, what children are achieving and the results that they are getting and the ability of children to achieve to the best of their ability.

Mae gennyf dri chwestiwn ac un sylw i'r Gweinidog. Dyma'r cwestiwn cyntaf: a yw'r Gweinidog wedi gweld unrhyw gydbertynas rhwng barn Estyn am awdurdodau lleol a'r drefn bandio ysgolion a gynhyrchwyd y llynedd? Diben fy sylw yw llongyfarch y Gweinidog am osgoi streic yn ysgolion Cymru fel yr un sy'n digwydd yn Lloegr.

Dyma fy ail gwestiwn: sut y gallwn sicrhau bod ysgolion yn gwella oni allwn sicrhau bod maint dosbarthiadau yn aros o leiaf ar yr un lefel ac nad ydym yn gweld gostyngiad yn nifer yr athrawon mewn ysgolion?

Yn drydydd, rydym yn siarad am lawer o bethau, ond mae gwella ysgolion mewn gwirionedd yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion, yr hyn y mae plant yn ei gyflawni a'r canlyniadau y maent yn eu cael a gallu'r plant i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

**Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for those points. In terms of class sizes and numbers of teachers, I would remind Mike of our commitment to a 1% year-on-year uplift in school spending right across the board, which has been delivered and will continue to be delivered throughout this Assembly term. In other words, our schools are not facing cuts. They are not facing the financial difficulties that many schools are facing in England, because some schools are having to pay for the extra money being doled out across the border to free schools and academies across. Some schools are being treated with kid gloves by my counterpart, Michael Gove, and others are being pushed aside in the rush to fragment community education in England. None of that is happening here. We are maintaining our commitment to community-based comprehensive education.

In terms of the teachers' strike, I cannot claim any credit for any great diplomatic coup in terms of the teachers' unions taking a different attitude in Wales compared with over the border in England, but I can assure Mike that the simple premise on which I approached the discussions was one of respect. Simply, I was prepared to speak to the teachers' unions and to show respect for the profession. I cannot point to any other great stroke of genius on my part other than that. I would be happy to give Michael Gove lessons in diplomacy at any point. Pupils in schools across Wales have today, this afternoon—oh no, they have gone home now, but they might be in after-school clubs at the moment—had a full school day, and I am very pleased about that outcome. The UK Minister for education cannot say the same thing today.

Diolch i Mike Hedges am y pwyntiau hynny. O ran maint dosbarthiadau a nifer yr athrawon, byddwn yn atgoffa Mike o'n hymrwymiad i gynnydd 1% flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn gwariant ysgolion yn gyffredinol; mae hynny wedi ei ddarparu a bydd yn parhau i gael ei ddarparu drwy gydol tymor y Cynulliad hwn. Mewn geiriau eraill, nid yw ein hysgolion yn wynebu toriadau. Nid ydynt yn wynebu'r anawsterau ariannol y mae llawer o ysgolion yn eu hwynebu yn Lloegr, oherwydd mae rhai ysgolion yn gorfod talu am yr arian ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu dros y ffin i ysgolion rhydd ac academiâu. Mae rhai ysgolion yn cael eu trin yn ofalus gan fy swyddog cyfatebol, Michael Gove, ac mae eraill yn cael eu gwthio o'r neilltu yn y rhuthr i ddarnio addysg gymunedol yn Lloegr. Nid oes dim o hynny'n digwydd yma. Rydym yn cadw at ein hymrwymiad i addysg gyfun yn y gymuned.

O ran streic yr athrawon, ni allaf hawlio dim clod am unrhyw gamp ddiplomyddol fawr o ran y gwahaniaeth rhwng agwedd undebau'r athrawon yng Nghymru a thros y ffin yn Lloegr, ond gallaf sicrhau Mike fy mod wedi cychwyn y trafodaethau ar sail parch. Yn syml, roeddwn yn barod i siarad ag undebau'r athrawon ac i ddangos parch at y proffesiwn. Ni allaf gyfeirio at unrhyw fflach fawr arall o athrylith ar fy rhan heblaw hynny. Byddwn yn hapus i roi gwersi diplomyddiaeth i Michael Gove unrhyw bryd. Mae disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru heddiw, y prynhawn yma—o na, maent wedi mynd ahref yn awr, ond efallai eu bod mewn clybiau ar ôl ysgol ar hyn o bryd—wedi cael diwrnod ysgol llawn, ac rwyf yn falch iawn am y canlyniad hwnnw. Ni all Gweinidog addysg y DU ddweud yr un peth heddiw.

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I am afraid that we still have quite a long time at school today.

Diolch, Weinidog. Mae arnaf ofn bod gennym ni gryn dipyn o amser ar ôl yn yr ysgol heddiw.

**Datganiad: Lansio'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid****Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

The Welsh Government has a long-standing commitment to maximise the opportunities for all children and young people in Wales. This includes supporting their progression through education and training and into employment, enabling them to fulfil their potential. We recognise that economic and personal circumstances present some groups of young people with huge challenges to progression and we are passionate about tackling such barriers for those who need support the most.

**Statement: Launch of the Youth Engagement and Progression Implementation Plan**

Mae Llywodraeth Cymru wedi hen ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd i holl blant a phobl ifanc Cymru. Mae hynny'n cynnwys cefnogi eu hynt drwy addysg a hyfforddiant ac i mewn i gyflogaeth, a'u galluogi i wireddu eu potensial. Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau economaidd a phersonol yn her fawr i rai grwpiau o bobl ifanc o ran symud ymlaen ac rydym yn teimlo'n angerddol ynghylch trechu rhwystrau o'r fath i'r rhai y mae angen cymorth fwyaf arnynt.

We identified in our programme for government that increasing the levels of youth engagement and employment is a priority for Wales, and our aim is to help all young people make a positive progression beyond compulsory education at 16. The recently published tackling poverty plan clearly gives a commitment to reduce the number of young people who are not in education, employment or training. The cost of not addressing this issue is not just economic, but it impacts on levels of unemployment, underemployment, crime, wellbeing, substance misuse and premature death. Although the latest statistics show that Wales's NEET figure for the 16 to 18 year-old group has decreased by 2 percentage points between 2011 and 2012, we cannot be complacent. Our challenge is to achieve a sustained reduction to reach 9% and below by 2017. The target for 19 to 24-year-olds, given the relative exposure of this group to wider economic and labour market conditions, is an even more challenging one, and latest statistics for this group show a slight decrease in the proportion in employment and a subsequent increase in the proportion who are NEET.

Despite recent promising results, I believe that there are still too many young people who are disengaged from education and training. Pre-school, primary and secondary experiences, and of course the family and home environment, have a significant impact on the behaviour and attainment of young people. Increased investment in early years, and support through Flying Start and Families First, is targeted to address these key issues through early intervention. We must do more to ensure that support is tailored and co-ordinated around the need of the individual. Specifically, I want to ensure that the wide array of provision that does exist is co-ordinated, builds resilience, and ultimately leads a young person to develop the skills that will help them move forward into employment.

We have set out our requirements for schools in the 'Improving Schools' plan, which was published last year, and more recently the work to improve early years through 'Building a Brighter Future: Early Years and Childcare Plan'. Building on this approach, I am pleased to publish today an implementation plan for youth engagement and progression, setting out clearly our expectations on the delivery chain in Wales at a local, regional and national level. The plan has been developed working closely with local authorities and building on examples of good practice across Wales. The implementation plan gives local authorities a key strategic leadership role, in their local area, working closely with Careers Wales, wider youth services, schools, providers and other partners to develop plans for implementation of the youth engagement and progression framework.

Nodwyd yn ein rhaglen lywodraethu bod cynyddu lefelau ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc yn flaenoriaeth i Gymru, a'n nod yw helpu pob person ifanc i symud yn gadarnhaol y tu hwnt i addysg orfodol yn 16 oed. Mae'r cynllun trechu tlodi a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ymrwymo'n glir i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Nid dim ond cost economaidd sydd i beidio â mynd i'r afael â'r mater hwn; mae'n effeithio ar lefelau diweithdra, tangyflogaeth, trosedd, lles, camddefnyddio sylweddau a marwolaethau cynamserol. Er bod yr ystadegau diweddaraf yn dangos bod ffigur NEET Cymru ar gyfer y grŵp 16 i 18 oed wedi gostwng 2 bwynt canran rhwng 2011 a 2012, ni allwn fod yn hunanfodlon. Yr her i ni yw sicrhau gostyngiad parhaus er mwyn cyrraedd 9% ac yn is na hynny erbyn 2017. Mae'r targed ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 mlwydd oed, ac ystyried cysylltiad cymharol y grŵp hwn ag amodau ehangach yr economi a'r farchnad lafur, yn un hyd yn oed yn fwy heriol, ac mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer y grŵp hwn yn dangos ychydig o ostyngiad yn y gyfran sydd mewn cyflogaeth a chynnydd felly yn y gyfran nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Er gwaethaf canlyniadau addawol yn ddiweddar, credaf fod gormod o bobl ifanc wedi ymddieithrio o addysg a hyfforddiant o hyd. Mae profiadau ysgol feithrin, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ac wrth gwrs y teulu ac amgylchedd y cartref, yn cael cryn dipyn o effaith ar ymddygiad a chyrhaeddiad pobl ifanc. Mae mwy o fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, a chymorth drwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn drwy ymyrraeth gynnar. Rhaid inni wneud mwy i sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra a'i gydlynu o amgylch anghenion yr unigolyn. Yn benodol, hoffwn sicrhau bod yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sydd yn bodoli'n cael ei gydlynu, yn adeiladu gwydnwch, ac yn y pen draw'n golygu y gall pobl ifanc ddatblygu'r sgiliau a fydd yn eu helpu i symud ymlaen i gyflogaeth.

Rydym wedi nodi ein gofynion ar gyfer ysgolion yn y cynllun 'Gwella Ysgolion', a gyhoeddwyd y llynedd, ac yn fwy diweddar yn y gwaith i wella'r blynyddoedd cynnar drwy 'Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'. Gan adeiladu ar yr ymagwedd hon, rwyf yn falch o gyhoeddi heddiw gynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltiad a datblygiad ieuencid, sy'n nodi'n glir ein disgwyliadau o ran y gadwyn gyflenwi yng Nghymru ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Datblygwyd y cynllun drwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac adeiladu ar enghreifftiau o arfer da ledled Cymru. Mae'r cynllun gweithredu'n rhoi swyddogaeth arweiniol strategol allweddol i awdurdodau lleol, yn eu hardal leol, gan gydweithio'n agos â Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuencid ehangach, ysgolion, darparwyr a phartneriaid eraill i ddatblygu cynlluniau i weithredu'r fframwaith ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc.

The framework is based around the six component elements of a system proven to be effective at increasing youth engagement and progression. The components are: identifying young people most at risk of disengagement; better brokerage and co-ordination of support; stronger tracking and transitions of young people through the system; ensuring provision meets the needs of young people; strengthening employability skills and opportunities for employment; and greater accountability for better outcomes for young people.

There are two new offers for young people through the framework that are designed to improve their experience. The first is the offer of an identified lead worker, based within a relevant organisation, who can provide continuity of support and contact. This offer will be made to the most at-risk young people to help ensure that support is delivered in a joined up and co-ordinated way. By listening to a young person, a lead worker will help ensure needs are being met and that duplication, overlap and confusion are avoided. I am not talking about creating a new organisation or recruiting a new army of people to take on this role. It is about a better, more co-ordinated ways that organisations can work together to improve the support that already exists through local careers advisers, youth workers, learning coaches and third sector organisations.

The second offer is the development of a proactive and positive youth guarantee. This will help to ensure that every young person has access to a suitable place in learning post-16. The youth guarantee process will highlight gaps in provision and help providers to become responsive to the needs of young people as well as employers. I will look to local authorities to provide strategic leadership and to work with key national partners to ensure that this opportunity is available to all young people when they complete year 11. The youth guarantee will be supported by the common application process now being developed and piloted by Careers Wales.

Achieving genuine system reform will take time. That is why we have identified a two-year implementation phase for the youth engagement and progression framework. Through the framework, I believe we are bringing critical elements of effective NEET reduction together in one place, with a clear timetable for implementation. By defining clear roles and responsibilities, I want to see the implementation of the whole framework across all areas and believe that in so doing we will start to make a sustained difference to young people's lives, opening up the opportunities that they deserve.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar chwe elfen system sydd wedi bod yn effeithiol o ran cynyddu ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc. Y cydrannau yw: adnabod y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio; brocera a chydlynu cymorth yn well; olrhain pobl ifanc drwy'r system yn well, yn enwedig mewn cyfnodau pontio; sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc; cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfluoedd ar gyfer cyflogaeth; a mwy o atebolrwydd dros well canlyniadau i bobl ifanc.

Mae dau gynnig newydd i bobl ifanc drwy'r fframwaith sydd wedi'u cynllunio i wella eu profiad. Mae'r cyntaf yn cynnig gweithiwr arweiniol, mewn sefydliad perthnasol, a all ddarparu parhad o ran cefnogaeth a chyswllt. Caiff y cynnig hwn ei wneud i'r bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf i helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydlynol, wedi'i chyd-drefnu. Drwy wrando ar bobl ifanc, bydd gweithwyr arweiniol yn helpu i sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni a bod dyblygu, gorgyffwrdd a dryswch yn cael eu hosgoi. Nid wyf yn sôn am greu sefydliad newydd nac am recriwtio byddin newydd o bobl i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mae'n fater o ddod o hyd i ffyrdd gwell, mwy cydlynol i sefydliadau gydweithio â'i gilydd i wella'r cymorth sydd eisoes ar gael drwy gynghorwyr gyrfaoedd lleol, gweithwyr ieuencid, hyfforddwyr dysgu a sefydliadau'r trydydd sector.

Yr ail gynnig yw datblygu gwarant ieuencid ragweithiol a chadarnhaol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael lle addas mewn dysgu ôl-16. Bydd proses y warant ieuencid yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth ac yn helpu darparwyr i ymateb i anghenion pobl ifanc yn ogystal â chyflogwyr. Byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu arweinyddiaeth strategol a chydweithio â phartneriaid cenedlaethol allweddol i sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i bob person ifanc ar ôl gorffen blwyddyn 11. Caiff y warant ieuencid ei hategu gan y broses ymgeisio gyffredin sydd wrthi'n cael ei datblygu a'i threialu gan Gyrfa Cymru.

Bydd angen amser er mwyn diwygio'r system mewn gwirionedd. Dyna pam yr ydym wedi nodi cyfnod gweithredu dwy flynedd ar gyfer y fframwaith ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc. Drwy'r fframwaith, credaf ein bod yn dod ag elfennau hanfodol o'r broses o leihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn effeithiol at ei gilydd mewn un lle, gydag amserlen glir ar gyfer gweithredu. Drwy ddiffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau'n glir, hoffwn weld gweithredu'r fframwaith cyfan ar draws pob maes a chredaf y byddwn, drwy wneud hynny, yn dechrau gwneud gwahaniaeth parhaus i fywyddau pobl ifanc, ac yn cynnig iddynt y cyfleoedd y maent yn eu haeddu.



I would like to thank the Deputy Minister for bringing forward this statement and this very interesting document. I have skim-read it, so forgive me if I ask you questions to which the answers are buried deeply within, but I simply have not had the time since yesterday to have a close look at it. However, it is the sort of plan that I would look to be able to support in the round, because we need to have something to tackle this extremely difficult area of our educational and employment system. There are sobering statistics: we have more young people not in education, employment or training than England. However, what I really appreciate in here is the emphasis that you have put on provision leading to a clear progression forward, because there are an awful lot of examples of good bits of provision but then simply nothing happens.

In the light of the previous statement by the Minister for Education and Skills, I have to ask you one very simple question: do you really think that local authorities are up for it? We are talking about taking away from them some responsibility for training and educating young people because we do not feel that they are stepping up to the mark. We are talking about national and regional consortia, but here you are saying that they are going to be the prime deliverer of this framework. Therefore, I would be very keen to hear your views on that.

I would also be very interested to understand what guidance you will be giving local authorities and their alternative curriculum services as to how they will engage with the current providers that are out there. I have slight concerns because, with regard to the Jobs Growth Wales scheme, for example, my understanding is that there is now a new provider, it is someone who is not based in Wales, and people have lost their jobs and that, slowly and surely, the provision of that is being centralised. As you and I both know, out there in Wales, we have some outstanding youth workers and very small provision, but then we have so many young people out there who are very different. What works for one does not work for another. I would be very keen to ensure that the youth guarantee does not end up being a system where the local councils simply say, 'We're going to put everything through one provider', and that is it, one size fits all, and we end up losing some of those excellent smaller providers out there that really pick up young people, especially after school hours and at weekends, when the run-of-the-mill providers are not around.

The tendering process will be a key area, so a few comments on that would be interesting. I would also like, very briefly, to understand how this will all be funded. I know that an awful lot of the youth provision out there goes out for fundraising and that providers go out to try to win contracts. Such is the world that everyone wants to fund something that is new, exciting and sexy, but a lot of the provision out there is very stable, very coherent and very well-proven, and those providers have the most difficult job of all in trying to get funding. So, I would like to see how the brokerage element of it that you talk about in your statement will be consistently carried forward.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r datganiad hwn a'r ddogfen ddiddorol iawn hon. Rwyf wedi ei darllen yn gyflym, felly maddeuwch imi os wyf yn gofyn cwestiynau y mae'r atebion iddynt wedi'u claddu'n ddwfn ynddi, ond nid wyf wedi cael amser ers ddoe i edrych yn fanwl arni. Fodd bynnag, dyma'r math o gynllun y byddwn yn gobeithio gallu ei gefnogi at ei gilydd, oherwydd mae arnom angen rhywbeth i ymdrin â'r rhan anodd iawn hon o'n system addysg a chyflogaeth. Mae'r ystadegau'n sboreiddiol: mae gennym fwy o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant nag yn Lloegr. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf yn ei werthfawrogi mewn difrif yma yw'r pwyslais yr ydych wedi'i roi ar ddarpariaeth sy'n arwain at ddilyniant clir ymlaen, oherwydd mae llawer iawn o enghreifftiau o ddarnau da o ddarpariaeth, ond yna nid oes dim byd yn digwydd.

Yng ngoleuni'r datganiad blaenorol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, rhaid imi ofyn un cwestiwn syml iawn ichi: a ydych yn wir yn meddwl bod awdurdodau lleol yn barod amdani? Rydym yn sôn am gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am hyfforddi ac addysgu pobl ifanc oddi arnynt gan nad ydym yn teimlo eu bod yn cyrraedd y nod. Rydym yn sôn am gonsortia cenedlaethol a rhanbarthol, ond yma rydych yn dweud mai hwy fydd prif gyflenwyr y fframwaith hwn. Felly, byddwn yn awyddus iawn i glywed eich barn am hynny.

Byddai gennyf hefyd ddiddordeb mawr cael deall pa ganllawiau y byddwch yn eu rhoi i awdurdodau lleol a'u gwasanaethau cwricwlwm amgen ynglŷn â sut y byddant yn ymgysylltu â'r darparwyr presennol. Mae gennyf rywfaint o bryderon oherwydd, o ran cynllun Twf Swyddi Cymru, er enghraifft, rwyf ar ddeall bod ganddynt ddarparwr newydd erbyn hyn, nad yw wedi ei leoli yng Nghymru, a bod pobl wedi colli eu swyddi a bod y ddarpariaeth honno, yn araf ond yn sicr, yn cael ei chanoli. Fel yr ydych chi a minnau'n gwybod, mae gennym weithwyr ieuencid rhagorol yng Nghymru a darpariaeth fach iawn, ond yna mae gennym gynifer o bobl ifanc sydd mor wahanol. Ni fydd rhywbeth sy'n gweithio i un yn gweithio i un arall. Byddwn yn awyddus iawn i sicrhau na fydd y warant ieuencid yn y pen draw yn system lle mae'r cyngorau lleol yn dweud, 'Rydym yn mynd i roi popeth drwy un darparwr', a dyna ni, un ateb sy'n addas i bawb, ac rydym yn colli rhai o'r darparwyr bach gwych sydd wirioneddol yn codi bobl ifanc, yn enwedig ar ôl oriau ysgol ac ar benwythnosau, pan nad yw'r darparwyr arferol o gwmpas.

Bydd y broses dendro'n faes allweddol, felly byddai ychydig o sylwadau am hynny'n ddiddorol. Hoffwn hefyd, yn fyr iawn, ddeall sut y caiff hyn oll ei ariannu. Gwn fod llawer iawn o'r ddarpariaeth ieuencid yn mynd allan i godi arian a bod darparwyr yn mynd allan i geisio ennill contractau. Yn y byd heddiw, mae ar bawb eisiau ariannu rhywbeth sy'n newydd, yn gyffrous ac yn rhywiol, ond mae llawer o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn sefydlog iawn, yn gydlynol iawn ac wedi'i phrofi, a'r darparwyr hynny sy'n ei chael fwyaf anodd ceisio cael cyllid. Felly, hoffwn weld sut y bydd yr elfen froceriaeth y buoch yn siarad amdani yn eich datganiad yn cael ei dwyn ymlaen yn gyson.

I have a couple of very quick questions. What are you doing to look at the children and young people that we lose at 14? Once we have lost them at 14, all of this great work that you have going in here, Deputy Minister, will struggle to bring them back in at 16 and 18. What provision might there be to ensure that people with learning difficulties or special educational needs do not get left out of this drive forward? On cross-border work with Careers Wales, there are real issues about getting Careers Wales to engage with companies that are literally just over the border, but which could offer good jobs and training opportunities for our young people. What are we going to do about that?

Finally, do you think that there might be a case to start looking at how we might streamline, or stream in a more cohesive way, vocational education post-16? If you are talking about progression into employment, you can go to a college and have one kind of experience that might be very good at building your self-esteem, for example, but it may not necessarily get you a job. Companies sometimes look at 'vocational' as one lump and think, 'Oh well, that is all they do', and, of course, it is not all they do; some of our best and brightest come up through vocational education.

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau cyflym iawn. Beth ydych chi'n ei wneud o ran edrych ar y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn eu colli'n 14? Ar ôl inni eu colli'n 14, bydd yr holl waith da sydd gennych yma, Ddirprwy Weinidog, yn ei chael yn anodd dod â hwy'n ôl i mewn yn 16 ac yn 18. Pa ddarpariaeth y gallai fod i sicrhau nad yw pobl ag anawsterau dysgu neu anghenion addysgol arbennig yn cael eu heithrio o'r ymgyrch hon? Ar waith trawsffiniol gyda Gyrfa Cymru, mae materion gwirioneddol yn ymwneud â sicrhau bod Gyrfa Cymru'n ymgysylltu â chwmnïau sydd yn llythrennol ond ychydig dros y ffin, ond a allai gynnig swyddi da a chyfleoedd hyfforddi i'n pobl ifanc. Beth ydym ni'n mynd i'w wneud am hynny?

Yn olaf, a ydych yn credu y gallai fod achos dros ddechrau edrych ar sut y gallwn symleiddio, neu ffrydio mewn ffordd fwy cydlynol, addysg alwedigaethol ôl-16? Os ydych yn sôn am symud ymlaen i gyflogaeth, gallwch fynd i goleg a chael un math o brofiad a allai fod yn dda iawn o ran meithrin eich hunan-barch, er enghraifft, ond efallai na fydd o reidrwydd yn cael swydd ichi. Mae cwmnïau weithiau'n edrych ar 'galwedigaethol' fel un lwmp ac yn meddwl, 'O wel, dyna'r cyfan y maent yn ei wneud', ac, wrth gwrs, nid dyna'r cyfan y maent yn ei wneud; mae rhai o'n pobl orau a'r mwyaf displair yn dod drwy addysg alwedigaethol.

16:46

### **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Angela Burns. I thank you first and foremost for the warm welcome that you have given to this implementation plan. In preparation for today, I went back and had a look at contributions from Members across the Chamber in this process. I hope that, within the implementation plan, we have been able to address some of the concerns that you have raised over the previous months, including catering for special educational needs, the brokerage issues and the role of the family, and so forth.

First of all, I would like to take on the funding issue. This is not about funding—this is about better delivery. We know that there is funding in the system that is already delivering provision for young people through our work-based learning programmes, the European social fund, Communities First, Families First, local 14-19 partnerships and the youth service, as well as through third sector organisations. We know that many local authorities are already carrying out good work in this field. The issue is about making sure that this provision is targeted correctly, that it does not duplicate and that it supports young people to progress. Work in terms of mapping, for example, is already being done; it does not require additional resources, so the mapping provision is already being carried out by many local authorities. There is also potential for collaboration between local authorities and the careers service over the employment and progression co-ordinator. So, there is potential for savings here.

Diolch, Angela Burns. Diolch yn gyntaf ac yn bennaf am y croeso cynnes a roesoch i'r cynllun gweithredu hwn. Wrth baratoi at heddiw, euthum yn ôl i edrych ar gyfraniadau gan Aelodau ar draws y Siambr yn y broses hon. Rwyf yn gobeithio, o fewn y cynllun gweithredu, ein bod wedi gallu rhoi sylw i rai o'r pryderon a godwyd gennych yn ystod y misoedd a aeth heibio, gan gynnwys darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig, materion broceriaeth a swyddogaeth y teulu, ac yn y blaen.

Yn gyntaf oll, hoffwn sôn am gyllid. Nid yw hyn yn ymwneud â chyllid—mae hyn yn ymwneud â darparu'n well. Rydym yn gwybod bod arian yn y system sydd eisoes yn cyflenwi darpariaeth i pobl ifanc drwy ein rhaglenni dysgu yn y gwaith, cronfa gymdeithasol Ewrop, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, partneriaethau 14-19 lleol a'r gwasanaeth ieuencid, yn ogystal â thrwy sefydliadau yn y trydydd sector. Rydym yn gwybod bod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn gwneud gwaith da yn y maes hwn. Mae'n fater o sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei thargedu'n gywir, nad yw'n dyblygu gwaith arall a'i bod yn cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen. Mae gwaith mapio, er enghraifft, eisoes yn cael ei wneud; nid oes angen adnoddau ychwanegol, felly mae'r ddarpariaeth fapio eisoes yn cael ei chyflawni gan nifer o awdurdodau lleol. Mae potensial hefyd ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth gyrfaoedd ynglŷn â'r cydlynedd cyflogaeth a dilyniant. Felly, mae'n bosibl gwneud arbedion yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is very important, when we talk about costs and finance, to recognise that doing nothing is simply not an option. The University of York produced a very interesting document back in 2010 that identified that the cost of doing nothing was £2 billion to our economy. So, we have to act. In terms of interventions, it is a lot cheaper and easier to intervene at 16 than it is at 30, so we have to ensure that the focus is as early as possible. You mentioned, and you were right to do so, the potential to intervene at the age of 14. Local authorities, working with their schools, should be able to use data that relates to attendance, attainment and behaviour—the three critical indicators of whether a young person will become NEET—to identify early on, so that by the time someone begins key stage 4, they are already able to identify those who are at risk of being NEET.

In terms of progression through a system, your point was absolutely right. When we look at life, we often find that people are most likely to fall down at the transition points. What we need to do is ensure that the journey through education and into work is as seamless as possible. This is precisely what the framework is designed around. I do believe that local authorities are up for it. I have good faith in local authorities to deliver this, based largely on those eight local authorities that have been working with the Welsh Government in preparation for this. I can identify some local authorities; I will not save anyone's blushes today—I think that Wrexham, Swansea and Blaenau Gwent have some very strong examples of areas of this implementation plan that are already in place. For example, there is the Swansea guarantee, which is effectively what we are basing the youth guarantee on.

You mentioned data, 16 to 18-year-olds, Careers Wales, the whole cohorts, how we can hold local authorities to account and how we can check whether the system is working. From April of next year, Careers Wales will be able to publish all destination data for 16 to 18-year-olds, including those in further education and work-based learning. This will be able to give us the best possible tracking method and we will be able to judge the success of interventions.

In terms of brokerage and providers, the brokerage will be the responsibility of the lead worker and we would expect that lead worker to be able to identify the needs of the young person and then ensure that the support required is provided. So, it would be for them to take responsibility for that young person's needs and ensure that that at-risk person is able to be removed from that at-risk register at the appropriate age.

You also mentioned vocational learning. Since being appointed to this position, three themes have settled in my mind about what my job is. One is engagement; engagement between business and Government, between schools and higher education, and between higher education and further education, so that we build our skills base in Wales. The other is alignment; better alignment of our qualifications with the world of work. Also, I am keen to ensure that we see more opportunities through apprenticeships and Jobs Growth Wales, and that we see more traineeships, to ensure that those who need that help right at the start of their career are given it.

Mae'n bwysig iawn cydnabod, pan fyddwn yn sôn am gostau a chyllid, nad yw'n opsiwn gwneud dim. Cynhyrchodd Prifysgol Efrog ddogfen ddi-ddorol iawn yn ôl yn 2010 yn nodi bod gwneud dim byd yn costio £2 biliwn i'n heconomi. Felly, rhaid inni weithredu. O ran ymyriadau, mae'n llawer rhatach ac yn haws ymyrryd yn 16 oed nag yn 30, felly rhaid inni sicrhau ein bod yn rhoi sylw i hyn mor gynnar â phosibl. Dywedasoeh, yn ddigon teg, y byddai'n bosibl ymyrryd yn 14 oed. Dylai awdurdodau lleol, gan weithio gyda'u hysgolion, allu defnyddio data sy'n ymwneud â phresenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad—y tri dangosydd hollbwysig o safbwynt a fydd person ifanc yn dod yn NEET—i'w hadnabod yn gynnar, er mwyn sicrhau y gallant eisoes, erbyn i bobl ifanc ddechrau cyfnod allweddol 4, adnabod y rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET.

O ran symud drwy system, roeddech yn llygad eich lle. Pan fyddwn yn edrych ar fywyd, byddwn yn gweld yn aml mai ar adegau pontio y mae pobl fwyaf tebygol o gwmpo. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw sicrhau bod y daith drwy addysg ac i mewn i waith mor ddi-dor â phosibl. Dyma'n union y mae'r fframwaith wedi ei gynllunio o'i gwmpas. Rwyf yn credu bod awdurdodau lleol yn barod amdani. Mae gennyf ffydd y gall awdurdodau lleol gyflawni hyn, yn seiliedig i raddau helaeth ar yr wyth awdurdod lleol hynny sydd wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i baratoi at hyn. Gallaf enwi rhai awdurdodau lleol; nid wyf am beidio ag enwi neb heddiw—credaf fod gan Wrecsam, Abertawe a Blaenau Gwent rai enghreifftiau cryf iawn o rai o feysydd yn y cynllun gweithredu hwn sydd eisoes ar waith. Er enghraifft, ceir gwarant Abertawe, sef i bob pwrpas yr hyn yr ydym yn seilio'r warant ieuencid arno.

Soniasoch am ddata, pobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed, Gyrfa Cymru, y carfannau cyfan, sut y gallwn ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif a sut y gallwn wirio a yw'r system yn gweithio. O fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen, bydd Gyrfa Cymru'n gallu cyhoeddi'r holl ddata am gyrchfannau pobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed, gan gynnwys y rhai mewn addysg bellach a'r rhai sy'n dysgu yn y gwaith. Gall hyn roi'r dull olrhain gorau posibl inni a byddwn yn gallu barnu llwyddiant ymyriadau.

O ran broceriaeth a darparwyr, cyfrifoldeb y gweithwyr arweiniol fydd y froceriaeth, a byddem yn disgwyl i'r gweithwyr arweiniol hynny allu nodi anghenion y person ifanc ac yna sicrhau bod y cymorth sydd ei angen yn cael ei ddarparu. Felly, eu lle hwy fyddai cymryd cyfrifoldeb am anghenion y person ifanc dan sylw a sicrhau y gellir tynnu'r person sydd mewn perygl oddi ar gofrestr y rheini sydd mewn perygl ar yr oedran priodol.

Soniasoch hefyd am ddysgu galwedigaethol. Ers cael fy mhenodi i'r swydd hon, mae tair thema wedi setlo yn fy meddwl o ran beth yw fy swydd. Un yw ymgysylltu; ymgysylltu rhwng busnesau a'r Llywodraeth, rhwng ysgolion ac addysg uwch, a rhwng addysg uwch ac addysg bellach, er mwyn inni adeiladu ein cronfa sgiliau yng Nghymru. Y llall yw alinio; alinio ein cymwysterau'n well â byd gwaith. Hefyd, rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn gweld mwy o gyfleoedd drwy brentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru, a'n bod yn gweld mwy o hyfforddiaethau, i sicrhau bod y rhai y mae angen yr help hwnnw arnynt ar ddechrau eu gyrfa yn ei gael.

On cross-border issues with Careers Wales, I met with the chair of Careers Wales yesterday, and I wish that we had had this conversation before then. This is of course something that I can raise with Careers Wales. Under its new remit, I am pleased to say that it is very dynamic and I am sure that it would be keen to work on a cross-border basis.

Finally, I know that special educational needs is an area that you have raised queries about in the past. The brokerage element of the framework here will be important, working alongside special educational needs coordinators to overcome disengagement, whatever the needs of the young person are. We will be looking carefully at this issue as the framework develops, in particular at what additional training and accreditation may be required to further support the needs of those with additional learning needs. In addition, local authorities will need to develop appropriate data sharing and tracking arrangements that will include this cohort of people, pre and post-16, to ensure that services for young people are being appropriately delivered. Again, I would expect these to be particularly important elements that local authorities would put in place to help tailor an effective service for those disengaged young people who have additional learning needs.

I think that that is pretty much it. I am sorry if I missed any of your points.

16:54

## **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

I think that this is the first opportunity I have to formally, though it is very late, welcome the Deputy Minister to his new role. I look forward to working with him on some of the things that we have in common. I think that this is one of them. I certainly agree, and Plaid Cymru agrees, with what the Deputy Minister says as regards the cost of doing nothing in this regard. The lack of qualifications and the lack of economic activity among our young people is, we believe, a drag and a brake on our whole economy. We ignore this set of people because they tend to be disengaged, and society as a whole tends, therefore, to treat them in a different way. I think that it is sad and wrong that we do so, and I am pleased that there is a more comprehensive approach now from the Government to NEETs and youth unemployment. The levels in Wales are too high. There are structural reasons for that, there are global reasons for that, there are UK reasons for that and there are Welsh reasons for that, as well. It is about the way that we have structured our job market, and the way that we structure our transport links, our society and our attitudes to a certain extent—something that has been in our communities for too long.

The Deputy Minister said that one of his themes was engagement. This is something on which he will need to work overtime to get the engagement back up and running. Disengagement from the job market and from society is something that is a particular drag not just on the economy, as I said, but on society's development and cohesion.

O ran materion traws-ffiniol gyda Gyrfa Cymru, cyfarfûm â chadeirydd Gyrfa Cymru ddoe, ac roeddwn yn gresynu na chawsom y sgwrs hon cyn hynny. Mae hyn wrth gwrs yn rhywbeth y gallaf ei godi gyda Gyrfa Cymru. O dan eu cylch gwaith newydd, rwyf yn falch o ddweud eu bod yn ddeinamig iawn ac rwyf yn siŵr y byddent yn awyddus i weithio ar sail drawsffiniol.

Yn olaf, rwyf yn gwybod bod anghenion addysgol arbennig yn faes yr ydych wedi holi amdano yn y gorffennol. Bydd elfen froceriaeth y fframwaith yn bwysig yma, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â chydlynwyr anghenion addysgol arbennig i oresgyn ymddieithrio, beth bynnag fo anghenion y person ifanc. Byddwn yn edrych yn ofalus ar y mater hwn wrth i'r fframwaith ddatblygu, yn enwedig ar ba hyfforddi ac achredu ychwanegol y bydd eu hangen i roi mwy o gefnogaeth i anghenion y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, bydd angen i awdurdodau lleol ddatblygu trefniadau priodol ar gyfer rhannu ac olrhain data a fydd yn cynnwys y garfan hon o bobl, cyn ac ôl-16, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau i bobl ifanc yn cael eu darparu'n briodol. Eto, byddwn yn disgwyl i'r rhain fod yn elfennau arbennig o bwysig y byddai awdurdodau lleol yn eu rhoi ar waith i helpu i deilwra gwasanaeth effeithiol i'r bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Credaf mai dyna'r cyfan. Mae'n ddrwg gennyf os methais unrhyw un o'ch pwyntiau.

Rwyf yn meddwl mai dyma'r cyfle cyntaf yr wyf wedi'i gael yn ffurfiol, er ei bod yn hwyr iawn, i groesawu'r Dirprwy Weinidog i'w swydd newydd. Edrychaf ymlaen at gydweithio ag ef ar rai o'r pethau sydd gennym yn gyffredin. Credaf fod hwn yn un ohonynt. Rwyf yn sicr yn cytuno, ac mae Plaid Cymru yn cytuno, â'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddweud o ran cost gwneud dim yn hyn o beth. Rydym o'r farn bod diffyg cymwysterau a diffyg gweithgarwch economaidd ymysg ein pobl ifanc yn arafu ein heconomi gyfan. Rydym yn anwybyddu'r set hon o bobl oherwydd eu bod yn tueddu i fod wedi ymddieithrio, a bod cymdeithas yn gyffredinol yn tueddu, felly, i'w trin mewn ffordd wahanol. Credaf ei bod yn drist ac yn anghywir ein bod yn gwneud hynny, ac rwyf yn falch bod ymagwedd fwy cynhwysfawr yn awr gan y Llywodraeth tuag at NEETs a diweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae'r lefelau yng Nghymru'n rhy uchel. Mae rhesymau strwythurol am hynny, mae rhesymau byd-eang am hynny, mae rhesymau'n ymwneud â'r DU am hynny, ac mae rhesymau'n ymwneud â Chymru am hynny hefyd. Mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydym wedi strwythuro ein marchnad swyddi, ac â'r ffordd yr ydym yn strwythuro ein cysylltiadau trafniadaeth, ein cymdeithas a'n hagweddau i raddau—rhywbeth sydd wedi bod yn ein cymunedau ers yn rhy hir.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai un o'i themâu oedd ymgysylltu. Bydd angen iddo weithio fel lladd nadroedd ar hyn i adfer yr ymgysylltu hwnnw. Mae ymddieithrio oddi wrth y farchnad swyddi ac oddi wrth gymdeithas yn rhywbeth sydd nid yn unig yn arafu'r economi, fel y dywedais, ond yn arafu datblygiad a chydlyniant cymdeithas.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Therefore, we welcome what the Government is saying today. In passing, I will say that apprenticeships have a very important role here. I will not ask today, because it was not a statement about apprenticeships, but I think that creating a new set of apprenticeships, as we have done with an agreement between my party and his party—over 5,500 posts—is a route out for many young people. Many young people whom I think the Deputy Minister has talked about today will need something between themselves and school, or the position that they are in and, say, an apprenticeship. I think what the Deputy Minister has talked about today is that route that can take them on to FE or apprenticeships, or even HE and beyond.

In the Deputy Minister's little black book in which he has been writing about what everyone has said about this issue over the last few months, he might find that Plaid Cymru has, in the past, called for the possibility of looking at compulsory education and training being extended to the age of 18. We have talked about a statutory guarantee for education and training for young people up to the age of 18 in different ways, whether it is through extending the school-leaving age, or by placing some statutory underpinning there. To that degree, what the Deputy Minister has said today about a youth guarantee is very welcome. I do not think that it is statutory; that is not my interpretation of the statement from the Deputy Minister. So, I need to ask how he will ensure that this is actually delivered, and how this guarantee is a genuine guarantee. If it does not have statutory underpinning, how will we ensure that that happens?

I would also like to ask him about the range of things that will be available under this youth guarantee. The statement talks very much in terms of learning and training; there are some of the NEET cohort who are simply too disengaged even for that. However, there may be a role and a place for them working within the third sector, or the voluntary sector, in some kind of—I will use this term very widely—community, or civil service role, which gives them confidence and a place, and a way for them to get into the youth guarantee, if the Deputy Minister understands me. We are dealing with a group of people who need very intensive work indeed.

Felly, rydym yn croesawu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddweud heddiw. Hoffwn ddweud bod gan brentisiaethau swyddogaeth bwysig iawn yma. Nid wyf am ofyn heddiw, oherwydd nid datganiad am brentisiaethau ydoedd, ond credaf fod creu set newydd o brentisiaethau, fel yr ydym wedi'i wneud gyda chytundeb rhwng fy mhlaid a'i blaid ef—dros 5,500 o swyddi—yn ffordd allan i lawer o bobl ifanc. Bydd ar lawer o'r bobl ifanc yr wyf yn meddwl bod y Dirprwy Weinidog wedi sôn amdanynt heddiw angen rhywbeth rhyngddynt eu hunain a'r ysgol, neu rhwng eu sefyllfa a phrentisiaeth, dyweder. Credaf mai'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi sôn amdano heddiw yw'r llwybr a all fynd â hwy ymlaen at addysg bellach neu brentisiaethau, neu hyd yn oed at addysg uwch a thu hwnt.

Yn llyfr bach du'r Dirprwy Weinidog lle mae wedi bod yn ysgrifennu am yr hyn y mae pawb wedi'i ddweud am y mater hwn dros y misoedd diwethaf, efallai y bydd yn gweld bod Plaid Cymru, yn y gorffennol, wedi galw am y posibilrwydd o edrych ar estyn addysg a hyfforddiant gorfodol i 18 oed. Rydym wedi sôn am warant statudol ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc hyd at 18 oed mewn gwahanol ffyrdd, boed hynny drwy estyn oedran gadael yr ysgol, neu drwy roi rhywfaint o sail statudol yn hynny o beth. I'r graddau hynny, mae'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddweud heddiw am warant ieuentid i'w groesawu'n fawr. Nid wyf yn credu ei bod yn statudol; nid dyna yw fy nehongliad o ddatganiad y Dirprwy Weinidog. Felly, mae angen imi ofyn sut y bydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd, a sut y mae'r warant hon yn warant ddilys. Os nad oes sail statudol iddi, sut y byddwn yn sicrhau bod hynny'n digwydd?

Hoffwn hefyd ofyn iddo am yr amrywiaeth o bethau a fydd ar gael dan y warant ieuentid hon. Mae'r datganiad yn sôn llawer am ddysgu a hyfforddiant; mae rhai o'r garfan NEET sydd wedi ymddieithrio gormod hyd yn oed i hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd swyddogaeth a lle iddynt weithio yn y trydydd sector, neu'r sector gwirfoddol, mewn rhyw fath o swyddogaeth gymunedol—defnyddiaf y term hwnnw'n eang iawn—neu wasanaeth sifil, sy'n rhoi hyder a lle iddynt, ac sy'n ffordd iddynt i fynd i mewn i'r warant ieuentid, os yw'r Dirprwy Weinidog yn fy neall. Rydym yn ymdrin â grŵp o bobl y mae angen gwaith dwys iawn arnynt.

To that end, the second of the proposals, which is for a lead worker, is to be welcomed. We need to see far better co-ordination in this sector. I do not want, in any sense, to denigrate the huge amount of work that is done by the myriad groups in this sector, but I cannot be the only Assembly Member who sometimes really does not understand what one group is doing, how it is different to another group and where the geographical boundaries of one ends and another takes over. There seems to be a huge number of groups active in this area, helping with NEETs—some of them not necessarily funded by Welsh Government money, but by lottery funding and alternative sources of funding. There is a little bit too much duplication, and there is certainly the possibility of people falling through the cracks within that. More is not necessarily better here. What we need is an absolutely streamlined, co-ordinated and clear approach, which I hope the idea of a lead worker will achieve. That will be somebody who can work on behalf of a young person, identify the best organisation for them and lead them along that path. I think that that will help address some of the difficulties that we have had.

The Deputy Minister has already talked about the financial aspect of this, so I will not ask him anymore about that, but to explain a bit more about how he is going to achieve this in structural terms, knowing the kind of marketplace that is out there and the competition between organisations to a certain extent, as well. Without the statutory guarantee, how will this guarantee be delivered in reality and how will he ensure that the structure is there to ensure that there is not duplication or that people do not fall through the cracks?

16:59 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Simon Thomas again for his warm welcome of the implementation plan and for his very kind words. Again, the cost of doing nothing is simply too much. It is not just economically wrong to betray the aspirations of young people; it is morally wrong, in my view. Young people put their hearts and souls into wanting to become successful adults; we should put our hearts and souls into ensuring that their pathway to adulthood and work is as smooth, seamless and safe as possible.

You are right that the NEETs figures, while there has been a fall of late, are still too high. In terms of engagement, you are right that engagement is critically important. I am pleased to tell you today that we are looking to develop a strategic project for employer engagement and the delivery of an enhanced careers and world of work programme. As a priority, we intend to seek significant European social fund support for this purpose. Therefore, we will be watching carefully how lead workers operate and how engagement and progression co-ordinators work. As I said to Angela Burns, I have confidence in local authorities being up for this and delivering on this framework. However, you rightly say that it is non-statutory. If necessary in the future, we could look at this issue. For now, I am content with the strength of the proposals that we have set down in this document and the collaborative approach that we have set out.

I'r perwyl hwnnw, mae'r ail o'r cynigion, sef sicrhau gweithiwr arweiniol, i'w groesawu. Mae angen inni weld llawer gwell cyd-drefnu yn y sector hwn. Nid wyf am fychanu, ar unrhyw ystyr, y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud gan y grwpiau lu yn y sector hwn, ond mae'n siŵr gennyf nad fi yw'r unig Aelod Cynulliad nad yw weithiau'n deall yr hyn y mae un grŵp yn ei wneud, sut y mae'n wahanol i grŵp arall a lle mae ffiniau daearyddol un yn dod i ben ac un arall yn cymryd drosodd. Mae'n ymddangos bod nifer fawr iawn o grwpiau'n gweithio yn y maes hwn, yn helpu gyda NEETs—rhai ohonynt na chânt eu hariannu o reidrydd gan arian Llywodraeth Cymru, ond drwy arian y loteri a ffynonellau cyllid eraill. Mae ychydig gormod o ddyblygu, ac yn sicr mae hynny'n golygu y gall pobl o bosibl syrthio drwy'r craciau. Nid yw mwy yn well o reidrydd yma. Yr hyn sydd ei angen arnom yw dull hollol syml, cydlynol a chlir, ac rwyf yn gobeithio y bydd syniad y gweithiwr arweiniol yn cyflawni hynny. Bydd y gweithiwr yn rhywun sy'n gallu gweithio ar ran pobl ifanc, dod o hyd i'r sefydliad gorau iddynt a'u tywys ar hyd y llwybr hwnnw. Credaf y bydd hynny'n helpu i ddatrys rhai o'r anawsterau yr ydym wedi'u cael.

Mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi sôn am yr agwedd ariannol ar hyn, felly ni ofynnaf ddim mwy iddo am hynny, heblaw am ofyn iddo egluro ychydig mwy am sut y mae'n mynd i gyflawni hyn o safbwynt strwythurol, o wybod pa fath o farchnad sydd ac am y gystadleuaeth rhwng sefydliadau i raddau, yn ogystal. Heb y warant statudol, sut y caiff y warant hon ei chyflenwi mewn gwirionedd a sut y bydd ef yn sicrhau bod strwythur ar waith i sicrhau nad oes dyblygu neu nad yw pobl yn syrthio drwy'r craciau?

Diolch i Simon Thomas unwaith eto am ei groeso cynnes i'r cynllun gweithredu ac am ei eiriau caredig iawn. Unwaith eto, mae gwneud dim yn costio gormod. Yn ogystal â bod yn anghywir o safbwynt economaidd, mae hefyd yn anghywir bradychu dyheadau pobl ifanc o safbwynt moesol, yn fy marn i. Mae pobl ifanc yn rhoi calon ac enaid i fod eisiau bod yn oedolion llwyddiannus; dylem ninnau roi calon ac enaid i sicrhau bod eu llwybr tuag at fod yn oedolion a thuag at waith mor llyfn, di-dor a diogel â phosibl.

Rydych yn gywir bod y ffigurau NEET, er y bu gostyngiad yn ddiweddar, yn dal yn rhy uchel. O ran ymgysylltu, rydych yn gywir bod ymgysylltu'n hanfodol bwysig. Rwyf yn falch o ddweud wrthyh heddiw ein bod yn bwriadu datblygu prosiect strategol i ymgysylltu â chyflogwyr ac i gyflenwi gwell rhaglen gyrfaoedd a byd gwaith. Un o'n blaenoriaethau fydd ceisio cymorth sylweddol gan gronfa gymdeithasol Ewrop at y diben hwn. Felly, byddwn yn gwyllo'n ofalus sut y mae gweithwyr arweiniol yn gweithredu a sut y mae cydlynwyr ymgysylltu a dilyniant yn gweithio. Fel y dywedais wrth Angela Burns, rwyf yn ffyddiog bod awdurdodau lleol yn barod amdani ac y gallant gyflenwi'r fframwaith hwn. Fodd bynnag, rydych yn gywir nad yw'n statudol. Os bydd angen, yn y dyfodol, gallem edrych ar hynny. Am y tro, rwyf yn fodlon â chryfder y cynigion yr ydym wedi'u gwneud yn y ddogfen hon ac â'r ymagwedd gydweithredol yr ydym wedi'i hamlinellu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Within your black book, you are absolutely right, I did see that you have, in the past, maintained a particular focus on those who are most disengaged, those who are hardest to reach, hardest to engage and, sometimes, hardest to find suitable work for. However, the whole point of the youth guarantee is that the guarantee is an offer, an acceptance and a commencement of a position that is suitable for that person, regardless of how disengaged they may be. Indeed, we are also looking at being able to encourage Careers Wales to go to those young people who go into employment at the age of 16, but do not have training with that employment—jobs without training—to encourage them to take up an element of work-based learning as well, to raise their skills base.

You are right that apprenticeships are enormously important, and I am pleased to be able to say that the enrolment for higher apprenticeships is going exceedingly well as a consequence of the budget agreement. In terms of completion rates, we are now up to 85%, which is the highest level of completion rates since we began compiling data in 2006-07. Traineeships are up to 63% completion rates and Jobs Growth Wales is now up to 77% progression. Therefore, we have the tools there and we have the structure in place to be able to support young people, regardless of whether they are work ready or not. We have those facilities in place.

In terms of falling through the gaps, this is where tracking and the lead worker are both critically important. With both pre-16 and 16 to 18, the tracking element is going to be absolutely vital. The Welsh Government will be taking a keen interest not just in the figures relating to those who are in work, training or education, but in the quantum considered unknowns—namely those who have dropped out and cannot be identified. We will be taking a very keen interest indeed in those. I think that that was pretty much it.

Yn eich llyfr du, rydych yn llygad eich lle, gwelais eich bod, yn y gorffennol, wedi canolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf, y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd, y rhai mwyaf anodd ymgysylltu â hwy ac, weithiau, y rhai mwyaf anodd dod o hyd i waith addas iddynt. Fodd bynnag, holl ddiben y warant ieuencid yw bod y warant yn gynnig, yn dderbyniad ac yn gychwyn swydd sy'n addas i'r unigolyn hwnnw, pa faint bynnag y bydd wedi ymddieithrio. Yn wir, rydym hefyd yn bwriadu annog Gyrfa Cymru i fynd at y bobl ifanc hynny sy'n dechrau cyflogaeth yn 16 oed, ond nad ydynt yn cael hyfforddiant gyda'r gyflogaeth honno—swyddi heb hyfforddiant—i'w hannog i fanteisio ar elfen dysgu yn y gwaith yn ogystal, er mwyn gwella eu sylfaen sgiliau.

Rydych yn gywir bod prentisiaethau'n hynod bwysig, ac rwyf yn falch o allu dweud bod cofrestru ar gyfer prentisiaethau uwch yn mynd yn eithriadol o dda yn sgil cytundeb y gyllideb. O ran cyfraddau cwblhau, rydym yn awr wedi cyrraedd 85%, sef y lefel uchaf o gyfraddau cwblhau ers inni ddechrau casglu data yn 2006-07. Mae cyfraddau cwblhau hyfforddeiaethau wedi cyrraedd 63% a dilyniant Twf Swyddi Cymru wedi cyrraedd 77%. Felly, mae'r offer ar gael inni ac mae'r strwythur yno i allu cefnogi pobl ifanc, p'un a ydynt yn barod at waith ai peidio. Mae'r cyfleusterau hynny yn eu lle.

O ran syrthio drwy'r bylchau, dyma lle mae olrhain a'r gweithiwr arweiniol ill dau'n hollbwysig. Yn y cyfnodau cyn-16 ac 16 i 18, bydd yr elfen olrhain yn hollol hanfodol. Bydd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb brwd nid yn unig yn y ffigurau sy'n ymwneud â'r rhai hynny sydd mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg, ond yn y rhai hynny yr ystyrir eu bod yn anhysbys—sef y rhai sydd wedi ymadael ac na ellir eu hadnabod. Bydd gennym ddiddordeb brwd iawn yn hynny. Rwyf yn meddwl mai dyna'r cyfan, fwy neu lai.

17:03

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I may not appear in your black book, Deputy Minister, because normally my colleague Eluned Parrott speaks on this issue. We warmly welcome both the statement this afternoon and the report, although I think, from my experience in Wrexham, where we had NEETs as a corporate priority, that there are some issues where perhaps the statement needs strengthening, with all due respect. I think that one of the lessons that we learned was that tracking, in most instances, as far as NEETs are concerned, could start effectively in year 7 or 8, and the problem was that, for far too long, tracking had started in year 11, just before the GCSEs, when people started worrying that the 16 to 18 figure would start appearing on some key performance indicators within local authorities. Given that the lead workers and the delivery model will be in place, hopefully, by December 2013, and rolled out from April 2014 forward, why, on the basis that there were data-sharing protocols in Wrexham and in Swansea, which are cited as best practice, will the national draft guidance for data-sharing arrangements not be available until July 2014?

Efallai nad wyf yn ymddangos yn eich llyfr du, Ddirprwy Weinidog, oherwydd fel arfer fy nghyd-Aelod Eluned Parrott fydd yn siarad ar y mater hwn. Rydym yn croesawu'n fawr y datganiad y prynhawn yma a'r adroddiad, er fy mod yn credu, o'm profiad yn Wrecsam, lle'r oedd NEETs yn flaenoriaeth gorfforaethol inni, y gallai fod angen cryfhau'r datganiad ar rai materion, gyda phob dyledus barch. Rwyf yn meddwl mai un o'r gwersi a ddysgwyd gennym oedd y gellir dechrau olrhain yn effeithiol, yn y rhan fwyaf o achosion, o safbwynt NEETs, ym mlwyddyn 7 neu 8, ac mai'r broblem oedd, ers yn rhy hir o lawer, fod olrhain yn dechrau ym mlwyddyn 11, yn union cyn TGAU, pan fyddai pobl yn dechrau poeni y byddai'r ffigur 16 i 18 yn dechrau ymddangos ar rai dangosyddion perfformiad allweddol mewn awdurdodau lleol. Ac ystyried y bydd y gweithiwr arweiniol a'r model cyflenwi yn eu lle, gobeithio, erbyn Rhagfyr 2013, ac yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2014 ymlaen, pam na fydd y canllawiau drafft cenedlaethol ar gyfer trefniadau rhannu data ar gael tan fis Gorffennaf 2014, o gofio bod protocolau rhannu data yn Wrecsam ac yn Abertawe, sy'n cael eu nodi fel arferion gorau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Another lesson that needs to be learned is that, with those more problematic cases that Simon Thomas referred to, we still hit a buffer as far as helping those individuals is concerned. In reality, our figures only started to improve from the rather shocking 9.2% that we had in 2008 to around 3% last year when the council itself and other public sector organisations took on some of those problem cases and put them on training schemes within the authority because the authority was more able to deal with some of those problematic issues than the private sector. The real thing that I would be concerned about—and it is not a criticism, but just an observation on the youth guarantee—is that I can never forget going to meet with a group of NEETs, probably going there for a bit of backslapping and self-congratulation as far as the NEETs were concerned, for what the council had been doing for them. I remember a group of them saying that they had been on four different schemes. In effect, they had just been into a revolving door. As long as those agencies were able to say that they had kept them off the dole for x amount of months, we were ticking a box and saying that the job was being done. In reality, what we should have been doing was not tracking whether they were on schemes but tracking the outcomes for those individuals. Unless we deal with that rather difficult scenario, as far as youth guarantee is concerned, we will probably be playing with the scheme. It is heartening news on apprenticeships, but I think that we need to take that youth guarantee seriously.

As a last point, I think that the Steps to Employment scheme from the Welsh Government is working very well. However, I have come across two or three instances recently where youngsters who have been on the Steps to Employment scheme and in receipt of benefit while on that scheme are okay on level 1 and level 2, but hit a barrier when they get to level 3. They are almost invariably returned to the unemployment register because employers will not take them on, in most instances, unless they have level 3. So, I think that the Government needs to look at whether it is feasible to extend this, in certain disciplines where there may be labour shortages, to the level 3 provision.

17:07

## **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Aled Roberts for his comments. He is right; I do have a black book with his colleague's entries in it.

Gwers arall y mae angen ei dysgu yw ein bod, yn yr achosion mwy problemus y cyfeiriodd Simon Thomas atynt, yn dal i daro byffer o ran helpu'r unigolion hynny. Mewn gwirionedd, ni ddechreuodd ein ffigurau wella o'r 9.2%, a oedd braidd yn frawychus, yn 2008 i tua 3% y llynedd hyd nes i'r cyngor ei hun a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb am rai o'r achosion hynny a oedd yn peri problem a'u rhoi ar gynlluniau hyfforddiant o fewn yr awdurdod gan fod yr awdurdod yn fwy abl i ymdrin â rhai o'r materion problemus hynny na'r sector preifat. Yr hyn y byddwn yn pryderu amdano mewn gwirionedd—ac nid beirniadaeth yw hyn, ond sylw am y warant ieuenticid—yw nad anghofiaf fyth fynd i gwrdd â grŵp o bobl ifanc NEET, yn ôl pob tebyg yn mynd yno am ychydig o ganmoliaeth a hunan-longyfarch o ran y NEETs, oherwydd yr hyn yr oedd y cyngor wedi bod yn ei wneud drostynt. Rwyf yn cofio grŵp ohonynt yn dweud eu bod wedi bod ar bedwar cynllun gwahanol. Mewn gwirionedd, roeddent wedi bod mewn drws troi. Cyhyd ag y gallai'r asiantaethau hynny ddweud eu bod wedi eu cadw oddi ar y clwt am hyn a hyn o fisoedd, roeddem yn rhoi tic mewn blwch ac yn dweud bod y gwaith yn cael ei wneud. Mewn gwirionedd, nid olrhain a oeddent ar gynlluniau y dylem fod wedi ei wneud; dylem fod wedi bod yn olrhain y canlyniadau i'r unigolion hynny. Oni fyddwn yn ymdrin â'r sefyllfa anodd honno, o ran y warant ieuenticid, dim ond chwarae â'r cynllun y byddwn yn ôl pob tebyg. Mae'n newyddion calonogol am brentisiaethau, ond rwyf yn meddwl bod angen inni gymryd y warant ieuenticid o ddifrif.

Yn olaf, rwyf yn credu bod y cynllun Camau at Waith gan Lywodraeth Cymru'n gweithio'n dda iawn. Fodd bynnag, rwyf wedi dod ar draws dau neu dri achos yn ddiweddar lle mae pobl ifanc sydd wedi bod ar y cynllun Camau at Waith ac yn derbyn budd-dal tra oeddent ar y cynllun hwnnw yn iawn ar lefel 1 a lefel 2, ond yn taro rhwystr wrth gyrraedd lefel 3. Cânt eu rhoi yn ôl bron yn ddiethriad ar y gofrestr diweithdra oherwydd ni fydd cyflogwyr yn eu derbyn, yn y rhan fwyaf o achosion, oni bai bod ganddynt lefel 3. Felly, credaf fod angen i'r Llywodraeth ystyried a yw'n ymarferol estyn hyn, mewn rhai disgyblaethau lle gall fod prinder llafur, i'r ddarpariaeth lefel 3.

Diolch i Aled Roberts am ei sylwadau. Mae'n gywir; mae gennyf lyfr du sy'n cynnwys cofnodion ei gyd-Aelod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



It is absolutely essential that we get the youth guarantee right. I have heard time and again, over many years, examples of young people being offered work, they take work, they drop out, they become more disengaged over time, and it is then more difficult to engage them in sustained work. What makes this different is that the youth guarantee has to be tailored—as I have already said—not just to the needs of a young person, but to their skills, aspirations and talents, to avoid this constant turnover of people in jobs. In addition, the tracking measurements will be constantly updated by Careers Wales and published, so that we will be able to identify where young people are coming in and out of jobs or education. Then, we will be able to identify the reasons why they are coming in and out of positions that they have not found suitable, have not enjoyed or have not wished to participate in. So, I am confident that the youth guarantee goes further in terms of the accountability of the lead workers in ensuring that the guarantee is delivered properly and in terms of measuring the outcomes.

The guarantee was put together on the back of widespread consultation with young people. We have held several real conversation events with young people who have had experience of being NEET, those who have been identified as being at risk of being NEET and, indeed, those who have not required any support because they have not been identified as being NEET but who can, nevertheless, contribute some insight into what Government needs to do to change policy.

In terms of the first wave of local authorities, we need to ensure that there is consistency in terms of the data that we are able to collect. It is also essential that data are available from all stakeholders and partners, so we have to ensure that the wave is delivered at the appropriate time, so that everybody can offer the appropriate data as and when required.

As for tracking NEETs, we can track earlier, as I have already said—well, not track; we can identify potential NEETs earlier in their education. It would be for schools and local authorities to use the three primary components of attainment, attendance and behaviour to identify them at the earliest possible age. However, I think that it is fair to say that, based on Knowledge and Analytical Services data being published today, the sharpest prediction of a NEET, or a potential NEET, comes at key stage 4. That is the critical point at which the data have to be available and used.

Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn sicrhau bod y warant ieuencid yn iawn. Rwyf wedi clywed dro ar ôl tro, dros flynyddoedd lawer, am enghreifftiau o bobl ifanc yn cael cynnig gwaith, yn derbyn y gwaith, yn rhoi'r gorau iddi, yn ymddieithrio mwy gydag amser, ac yna mae'n anos eu cynnwys mewn gwaith cyson. Yr hyn sy'n gwneud hyn yn wahanol yw bod yn rhaid teilwra'r warant ieuencid—fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud—nid yn unig at anghenion y bobl ifanc, ond at eu sgiliau, eu dyheadau a'u doniau, er mwyn osgoi'r trosiant cyson hwn o bobl mewn swyddi. Hefyd, caiff y mesuriadau olrhain eu diweddarau'n gyson gan Gyfrfa Cymru a'u cyhoeddi, fel y gallwn nodi lle mae pobl ifanc yn dod i mewn ac allan o swyddi neu addysg. Yna, byddwn yn gallu nodi'r rhesymau pam y maent yn dod i mewn ac allan o swyddi nad oeddent yn addas iddynt, nad ydynt wedi'u mwynhau neu nad oeddent yn dymuno cymryd rhan ynddynt. Felly, rwyf yn hyderus bod y warant ieuencid yn mynd yn bellach o ran atebolrwydd y gweithwyr arweiniol i sicrhau bod y warant yn cael ei chyflwyno'n briodol ac o ran mesur y canlyniadau.

Cafodd y warant ei rhoi at ei gilydd ar ôl ymgynghori'n eang â phobl ifanc. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau sgwrsio go iawn gyda phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod yn NEET, rhai sydd wedi cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET ac, yn wir, rhai na fu angen dim cymorth arnynt oherwydd nad ydynt wedi eu hadnabod fel NEET ond a all, serch hynny, roi rhywfaint o syniad i'r Llywodraeth o'r hyn y mae angen iddi ei wneud i newid y polisi.

O ran y don gyntaf o awdurdodau lleol, mae angen inni sicrhau cysondeb o ran y data y gallwn eu casglu. Mae hefyd yn hanfodol bod data ar gael gan yr holl randdeiliaid a phartneriaid, felly rhaid inni sicrhau bod y don yn cael ei chyflwyno ar yr adeg briodol, fel y gall pawb gynnig y data priodol yn ôl yr angen.

Yn yr un modd ag olrhain NEETs, gallwn olrhain yn gynharach, fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud—wel, nid olrhain; gallwn adnabod NEETs posibl yn gynharach yn eu haddysg. Mater i ysgolion ac awdurdodau lleol fyddai defnyddio tair elfen sylfaenol cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad i'w hadnabod mor ifanc â phosibl. Fodd bynnag, credaf ei bod yn deg dweud, yn seiliedig ar ddata Gwybodaeth a Gwasanaethau Dadansodol a gyhoeddir heddiw, fod y rhagfynegiad mwyaf craff o NEET, neu NEET posibl, yn dod yng nghyfnod allweddol 4. Dyna'r pwynt allweddol pan fydd yn rhaid i'r data fod ar gael a chael eu defnyddio.

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for the statement; there is a lot to welcome here. I certainly welcome the fact that you are promoting employability skills as the key building block of the new framework. However, I think that the skills that learners need do not just relate to the immediate task of finding jobs, because there can be issues of, for example, a lack of confidence or a lack of networks that can prevent a learner from moving on. I welcome the reference you make in your statement to building resilience, because that is a really important aspect of this. So, first of all, how can you guarantee that there will be a holistic, person-centred approach that enables learners to develop the soft skills that they need for adult life?

I also very much welcome the references to the lead worker role in the document. This is a big role for a lead worker, but I think that the big role here for them is in helping to raise aspirations among young people. Those young people have been let down in the past, so the lead workers have a lot to do. I am slightly concerned, however—perhaps you can reassure me—that the lead workers could be withdrawn after three months of post-16 education and training. This could lead to uncertainty in a young person's life. I just want to get some comments on this. Consistency is very important, because, as I said, these young people have been let down in the past. We therefore need to make sure that there is not disruption.

I very much welcome, too, the announcement that you have just made about the employer engagement. We know that many vacancies are still filled through informal ways, such as word of mouth and informal contacts outside the formal system. I would like to know what work is being done to find out about these vacancies, so that young people have access to them.

Like other colleagues here, I welcome the work being done by the third sector. I know that there are people in the third sector who are finding vacancies for people alongside the statutory agencies. These young people do not always trust the statutory agencies; they have had bad experiences and will not go back. So, I think that it is about bringing the third sector in to maximise the work.

Finally, the report quite rightly draws mixed international comparisons. I would like to know what lessons can be drawn from countries that have lower rates of disengaged young people.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad; mae llawer i'w groesawu yma. Rwyf yn sicr yn croesawu'r ffaith eich bod yn hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd fel bloc adeiladu allweddol y fframwaith newydd. Fodd bynnag, rwyf o'r farn nad yw'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr yn ymwneud â dim ond dod o hyd i swyddi, oherwydd gall fod problemau, er enghraifft, o ran diffyg hyder neu ddiffyg rhwydweithiau sy'n gallu atal dysgwyr rhag symud ymlaen. Croesawaf y cyfeiriad yn eich datganiad at adeiladu gwytnwch, oherwydd mae hynny'n agwedd bwysig iawn ar hyn. Felly, yn gyntaf oll, sut y gallwch roi sicrwydd y ceir dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddal sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau fel oedolion?

Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr iawn y cyfeiriadau at swyddogaeth y gweithiwr arweiniol yn y ddogfen. Mae hon yn swyddogaeth fawr iddynt yma yw helpu i godi dyheadau ymhlith pobl ifanc. Mae'r bobl ifanc hynny wedi cael cam yn y gorffennol, felly mae gan y gweithwyr arweiniol lawer i'w wneud. Rwyf yn poeni ychydig, fodd bynnag—efallai y gallwch dawelu fy meddwl—y gallai'r gweithwyr arweiniol gael eu tynnu'n ôl ar ôl tri mis o addysg a hyfforddiant ôl-16. Gallai hyn arwain at ansicrwydd ym mywyd person ifanc. Hoffwn glywed rhywfaint o sylwadau am hyn. Mae cysondeb yn bwysig iawn, oherwydd, fel y dywedais, mae'r bobl ifanc wedi cael cam yn y gorffennol. Mae angen inni felly wneud yn siŵr na cheir tarfu.

Croesawaf yn fawr iawn, hefyd, y cyhoeddiad yr ydych newydd ei wneud am ymgysylltu â chyflogwyr. Rydym yn gwybod bod llawer o swyddi gwag yn dal i gael eu llenwi drwy ddulliau anffurfiol, ar lafar neu drwy gysylltiadau anffurfiol y tu allan i'r system ffurfiol. Hoffwn wybod pa waith sy'n cael ei wneud i gael gwybod am y swyddi gwag hyn, er mwyn sicrhau eu bod ar gael i bobl ifanc.

Fel cyd-weithwyr eraill yma, croesawaf y gwaith y mae'r trydydd sector yn ei wneud. Rwyf yn gwybod bod pobl yn y trydydd sector sy'n dod o hyd i swyddi i bobl ochr yn ochr â'r asiantaethau statudol. Nid yw'r bobl ifanc hyn bob amser yn ymddiried yn yr asiantaethau statudol; maent wedi cael profiadau gwael ac nid ydynt am fynd yn ôl. Felly, rwyf yn meddwl bod hyn yn fater o ddod â'r trydydd sector i mewn i hybu'r gwaith hwn i'r eithaf.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn gwbl briodol yn llunio cymariaethau rhyngwladol cymysg. Hoffwn wybod pa wersi y gellir eu dysgu o wledydd lle ceir cyfraddau is o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio.

**Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Christine Chapman and pay tribute to her work, not just as an Assembly Member, but throughout her career, for standing up for children's rights and for trying to empower young people.

Diolch i Christine Chapman. Talaf deyrnged i'w gwaith, nid yn unig fel Aelod Cynulliad, ond drwy gydol ei gyrfa, am sefyll dros hawliau plant a cheisio grymuso pobl ifanc.

Christine Chapman spoke about the lead worker and how essential it is that the lead worker is not removed prematurely. I can confirm that the lead worker would not be withdrawn within three months of a person reaching the age of 16 and moving on. The lead worker would stay with a young person until such time as they are considered no longer to be at risk of becoming NEET. They would then withdraw after three months. Effectively, once a young person has found suitable employment, or an appropriate position in further education, and is considered no longer to be at risk of being NEET, three months after that, the lead worker would withdraw. In terms of brokerage, I think what you were referring to was essentially the softer skills. A lot of young people perhaps do not have those skills by the age of 16 that would equip them for the world of work. This is a crucial role again for the lead worker—to identify what support is required in terms of those softer skills, and to ensure that any offer is personalised and tailored to support that person. We are more than willing to learn from best examples, whether it be across the UK or anywhere in Europe or around the world, and we are keen to do so.

Soniodd Christine Chapman am y gweithiwr arweiniol a pha mor hanfodol yw hi nad yw'r gweithiwr arweiniol yn cael ei symud oddi wrth y person ifanc yn rhy gynnar. Gallaf gadarnhau na fydd y gweithiwr arweiniol yn cael ei dynnu'n ôl o fewn tri mis ar ôl i rywun gyrraedd 16 oed a symud ymlaen. Byddai'r gweithiwr arweiniol yn aros gyda'r person ifanc hyd nes nad ystyrid mwyach ei fod mewn perygl o fod yn NEET. Byddai wedyn yn tynnu'n ôl ar ôl tri mis. I bob pwrpas, unwaith y bydd person ifanc wedi cael gwaith addas, neu le priodol mewn addysg bellach, ac unwaith yr ystyrir nad yw mwyach mewn perygl o fod yn NEET, dri mis ar ôl hynny, byddai'r gweithiwr arweiniol yn tynnu'n ôl. O ran broceriaeth, rwyf yn meddwl mai'r hyn yr oeddech yn cyfeirio ato yn y bôn oedd y sgiliau meddalach. Mae llawer o bobl ifanc 16 oed nad oes ganddynt efallai'r sgiliau hynny a fyddai'n eu paratoi ar gyfer byd gwaith. Mae hon yn swyddogaeth allweddol arall i'r gweithiwr arweiniol—nodi pa gymorth sydd ei angen o ran y sgiliau meddalach hynny, a sicrhau bod unrhyw gynnig yn bersonol ac wedi'i deilwra i gefnogi'r unigolyn. Rydym yn fwy na pharod i ddsygu oddi wrth enghreifftiau gorau, boed hynny yn y DU neu yn unrhyw le yn Ewrop neu o gwmpas y byd, ac rydym yn awyddus i wneud hynny.

17:15

### **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#)

Deputy Minister, I accept the point that you make about identification and engagement being fundamentally important, and I agree that there is a lot of good work being done, but there is also a lot of poor work, and I have to tell you that I am not at all confident in the accuracy of the figures that are produced. I think that they are unreliable, and are a product, to some extent, of a lot of massaging of the things that go on. Some reference has already been made to that, but often there are people who are treading water, or are on courses that are unsuitable, and we have to start thinking about that group of people who want basic skills, but who will never suit the sorts of training schemes that we have from so many organisations, which are good at getting grants, but often not very good at dealing with the most difficult young people who come to them.

I am very pleased that you are, I think, coming on to an example of this occurring in my constituency, where a constituent of mine has worked in the trade for a big chunk of his life, and has kids coming off the street who want skills. They have been failed, and they are being given basic skills. But, of course, he cannot fit within the training system because the training system, the grants and so on are actually sewn up. We have to be far more imaginative about how we engage with people and get people to come on to these sorts of courses.

Ddirprwy Weinidog, rwyf yn derbyn y pwynt yr ydych yn ei wneud bod adnabod ac ymgysylltu yn sylfaenol bwysig, ac rwyf yn cytuno bod llawer o waith da yn cael ei wneud, ond mae llawer o waith gwael hefyd, a rhaid imi ddweud wrthyfch nad wyf yn hyderus o gwbl am gywirdeb y ffigurau sy'n cael eu cynhyrchu. Rwyf yn meddwl eu bod yn annibynadwy, ac yn gynnyrch, i raddau, llawer o dylino ar yr hyn sy'n digwydd. Cyfeiriwyd at hynny eisoes, ond yn aml mae pobl sy'n troedio dŵr, neu sydd ar gyrsiau sy'n anaddas, a rhaid inni ddechrau meddwl am y grŵp hwnnw o bobl y mae eisiau sgiliau sylfaenol arnynt, ond na fyddant byth yn addas ar gyfer y mathau o gynlluniau hyfforddi sydd gennym drwy gynifer o fudiadau, sy'n dda am gael grantiau, ond nad ydynt yn aml yn ymdrin cystal â'r bobl ifanc fwyaf anodd sy'n dod atynt.

Rwyf yn falch iawn eich bod, rwyf yn meddwl, yn dod at enghraifft o hyn yn fy etholaeth, lle mae un o'm hetholwyr wedi gweithio yn y maes am ran helaeth o'i fywyd, ac mae plant yn dod ato oddi ar y stryd ac eisiau sgiliau arnynt. Maent wedi cael cam, a dysgir sgiliau sylfaenol iddynt. Ond, wrth gwrs, ni all fod yn rhan o'r system hyfforddiant oherwydd mae'r system hyfforddi, y grantiau ac yn y blaen mewn gwirionedd yn gaeedig. Rhaid inni fod yn llawer mwy dychmygus am y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ac yn dwyn perswâd ar bobl i ymuno â'r mathau hyn o gyrsiau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We also have to be far more careful and far more accurate about the quality of some of the training that is going on. When someone can do a bricklaying course for a year and come out and not lay a proper line of bricks, that says that something is wrong. Often we have people providing training who do not really have the practical skills to enable those who are doing the course to go out on a job and to be of use to someone who is working in building or construction. So, there is a lot of good work and I think that the paper you presented is absolutely excellent, but we really have to get to the core of this, and not be mesmerised by some of the flannel that is coming from some of the organisations, claiming things that I think often do not stand up to severe scrutiny.

Rhaid inni hefyd fod yn llawer mwy gofalus ac yn llawer mwy manwl gywir am ansawdd peth o'r hyfforddiant sydd ar gael. Os gall rhywun wneud cwrs gosod brics am flwyddyn a dod allan heb allu gosod llinell o frics yn iawn, mae rhywbeth o'i le. Yn aml, mae pobl yn darparu hyfforddiant heb fod ganddynt mewn gwirionedd y sgiliau ymarferol i alluogi'r rhai sy'n dilyn y cwrs i fynd allan i weithio ac i fod yn ddefnyddiol i rywun sy'n gweithio ym maes adeiladu neu adeiladwaith. Felly, mae llawer o waith da a chredaf fod y papur a gyflwynwyd gennych yn hollol wych, ond rhaid inni fynd at waelod hyn, yn hytrach na chael ein hudo gan frolio rhai o'r sefydliadau, sy'n honni pethau nad ydynt yn aml yn gwrthsefyll craffu difrifol.

17:17

## **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mick Antoniw for his words and I look forward to learning more about the company he mentioned, RCT Skills. First of all, in terms of data, the Welsh Government prefers to use the statistical first release data in relation to NEETs because they are far more robust than other data sets. In terms of the quality of delivery, this is precisely why we need to ensure that national occupational standards are maintained—to ensure that there is a high standard of delivery and therefore skills in our economy. It is absolutely essential that we recognise that this framework is tailored around the needs of young people, and that it identifies the fact that young people fail not because they are not bright, but because they do not get that extra support when things get tough. When they fall down, this framework is designed to make sure that they are helped up, and helped to bring success and not struggle through life. Above all, it does offer, I believe, to deliver the promise of a generation.

Diolch i Mick Antoniw am ei eiriau, ac rwyf yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am y cwmni y soniodd amdano, RCT Skills. Yn gyntaf oll, o ran data, mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio data'r datganiad ystadegol cyntaf ar gyfer NEETs oherwydd maent yn llawer mwy cadarn na setiau data eraill. O ran ansawdd cyflenwi, dyma'n union pam mae angen inni sicrhau bod safonau galwedigaethol cenedlaethol yn cael eu cynnal—i sicrhau bod safon uchel o gyflenwi, ac felly sgiliau, yn ein heconomi. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn cydnabod bod y fframwaith hwn wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pobl ifanc, a'i fod yn nodi'r ffaith nad yw pobl ifanc yn methu oherwydd nad ydynt yn benig, ond oherwydd nad ydynt yn cael cymorth ychwanegol pan aiff pethau'n anodd. Pan fyddant yn syrthio i lawr, mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio i wneud yn siŵr eu bod yn cael cymorth i godi, a chymorth i lwyddo a pheidio â chael pethau'n anodd drwy gydol eu bywydau. Yn anad dim, yn fy marn i, mae'n cynnig gwireddu addewid cenedlaeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:19

## **Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardrethi Busnes**

### **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

This afternoon, I want to take the opportunity to update Members on a number of key issues and developments with regard to business rates. When I was given ministerial responsibility for this area, I decided to actively explore whether business rates can be a lever for economic growth, and we have seen some significant developments since that time. The business rates task and finish group has undertaken two reviews and is currently working on completing its third. In taking forward the recommendations of the group, we have influenced key partners such as the UK Government and the Silk commission, and successfully lobbied for the extension of small business rate relief and changes to empty property rates. We have launched new business rates schemes and agreed to provide start-up funding for business improvement districts.

Today, I am setting out further actions. I am announcing two additional schemes to assist business growth and setting out my response to the task and finish group report on business rates relief for charities and social enterprises.

## **Statement: Update on Business Rates Policy**

Y prynhawn yma, hoffwn fanteisio ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar nifer o faterion a datblygiadau allweddol o ran ardrethi busnes. Pan gefais gyfrifoldeb gweinidogol am y maes hwn, penderfynais fynd ati i archwilio a all ardrethi busnes fod yn sbardun ar gyfer twf economaidd, ac rydym wedi gweld rhai datblygiadau sylweddol ers hynny. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ardrethi busnes wedi cynnal dau adolygiad ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gwblhau ei drydydd. Wrth fwrw ymlaen ag argymhellion y grŵp, rydym wedi dylanwadu ar bartneriaid allweddol megis Llywodraeth y DU a chomisiwn Silk, ac wedi lobbio'n llwyddiannus ar gyfer ymestyn y rhyddhad ardrethi busnesau bach a newidiadau i ardrethi eiddo gwag. Rydym wedi lansio cynlluniau ardrethi busnes newydd ac wedi cytuno i ddarparu cyllid cychwyn busnes ar gyfer ardaloedd gwella busnes.

Heddiw, rwy'n pennu rhagor o gamau gweithredu. Rwy'n cyhoeddi dau gynllun ychwanegol i gynorthwyo twf busnes ac yn nodi fy ymateb i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ryddhad ardrethi busnes ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Last year, when I responded to the business rates review, I recognised the findings that, for many businesses, empty property rates are perceived as a burden and a barrier. The Minister for Finance and I pressed the UK Government for reform in this area. I am delighted to announce today a scheme to encourage construction and speculative development by extending the exemption period for certain new developments from empty property rates to 18 months. New developments completed from today and over the next three years will be able to apply to local authorities in Wales for this exemption. This is an exciting and encouraging scheme that sends a clear message that Wales is open for business.

I have written to local authorities today to ask them to offer a scheme that will seek to stimulate construction and support new development across the country. Given that this scheme will run for three years, we are asking local authorities to use their discretionary powers to issue the relief and have offered them a grant to reimburse their costs. Today, I am urging local authorities to move swiftly to implement this scheme, which has the potential to grow their local business rates base.

The task and finish group would have liked to have seen this scheme extended further in duration and an even longer exemption in assisted areas. However, the economic climate has meant that the funding for this scheme has had to be balanced against reducing expenditure and other support that the Welsh Government provides to businesses. I believe that our proposal for an 18-month exemption will offer a real incentive to developers.

A recurring issue raised by the task and finish group, by Members and by business is a need for a diverse and vibrant high street. Today, therefore, I am announcing a second scheme, called 'Open for Business', which will seek to contribute to that aim and make the playing field more level for new entrants. This scheme will bring long-term empty properties back into use by offering occupiers a one-year 50% discount on their business rates. This scheme will have many benefits. It will help owners and landlords to fill their properties. It will provide an incentive to business start-ups and will reduce the business rates of those start-ups. Vacant shops have been an issue for many of our communities. I want to see them come back into use for local benefit by business or by community groups. This scheme will support that. As with the new developments scheme, local authorities are being asked to administer this and I hope that they will make this available as soon as is practical. If Members would like details on this scheme, I am more than happy to arrange briefings by my officials to show how the scheme works.

Y llynedd, pan ymatebais i'r adolygiad ardrethi busnes, cydnabyddais y canfyddiadau fod llawer o fusnesau yn ystyried cyfraddau eiddo gwag yn faich ac yn rhwyr. Pwysodd y Gweinidog Cyllid a minnau ar Lywodraeth y DU am ddiwygio yn y maes hwn. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi cynllun heddiw i annog gwaith adeiladu a datblygiadau hapfasnachol trwy ymestyn y cyfnod eithrio rhag ardrethi eiddo gwag i 18 mis ar gyfer datblygiadau newydd penodol. Bydd datblygiadau newydd a gwblhawyd o heddiw a thros y tair blynedd nesaf yn gallu gwneud cais i awdurdodau lleol yng Nghymru am yr eithriad hwn. Mae hwn yn gynllun cyffrous a chalonogol sy'n anfon neges glir bod Cymru'n agored ar gyfer busnes.

Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol heddiw i ofyn iddynt gynnig cynllun a fydd yn ceisio ysgogi adeiladu a chefnogi datblygiadau newydd ledled y wlad. O ystyried y bydd y cynllun hwn ar waith am dair blynedd, rydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau dewisol i roi rhyddhad ac wedi cynnig grant iddynt i ad-dalu eu costau. Heddiw, rwy'n annog awdurdodau lleol i symud yn gyflym i weithredu'r cynllun hwn, sydd â'r potensial i ehangu eu sylfaen ardrethi busnes lleol.

Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi hoffi gweld y cynllun hwn yn cael ei gynnal am gyfnod hirach, yn ogystal ag ymestyn yr eithriad hyd yn oed yn hirach mewn ardaloedd a gynorthwyr. Fodd bynnag, oherwydd yr hinsawdd economaidd, bu raid dod o hyd i gydbwysedd rhwng y cyllid ar gyfer y cynllun hwn, a'r gostyngiad mewn lefelau gwariant a chymorth arall y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i fusnesau. Rwy'n credu y bydd ein cynnig ar gyfer eithriad 18 mis yn cynnig cymhelliant go iawn i ddatblygwyr.

Mater a godwyd dro ar ôl tro gan y grŵp gorchwyl a gorffen, gan Aelodau a chan fusnesau yw'r angen am stryd fawr amrywiol a bywiog. Heddiw, felly, rwy'n cyhoeddi ail gynllun, a elwir yn 'Agored i Fusnes', a fydd yn ceisio cyfrannu at y nod hwnnw a chynnig amgylchiadau tecach ar gyfer busnesau newydd. Bydd y cynllun hwn yn annog busnesau i ddefnyddio eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir, trwy gynnig gostyngiad o 50% iddynt ar eu hardrethi busnes am flwyddyn. Bydd gan y cynllun hwn lawer o fanteision. Bydd yn helpu perchnogion a landlordiaid i lenwi eu heiddo. Bydd yn darparu cymhelliant i fusnesau newydd ac yn lleihau eu hardrethi busnes. Mae siopau gwag wedi bod yn broblem i lawer o'n cymunedau. Rwyf am eu gweld yn cael eu defnyddio eto er budd lleol, gan fusnesau neu gan grwpiau cymunedol. Bydd y cynllun yn chefnogi hynny. Fel gyda'r cynllun datblygiadau newydd, gofynnir i awdurdodau lleol weinyddu hwn ac rwy'n gobeithio y byddant yn sicrhau ei fod ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os hoffai Aelodau gael manylion am y cynllun hwn, rwy'n fwy na pharod i drefnu sesiynau briffio gan fy swyddogion i ddangos sut mae'r cynllun yn gweithio.

Prior to the summer recess, I undertook a consultation on the task and finish group's report into business rates relief for charities and social enterprises. I made all the individual responses available on the Welsh Government website and I am sure that Members have taken the opportunity to see the variety of views that emerged. I have listened carefully and remain sensitive to the issues that have arisen and have taken views from Cabinet colleagues. Some of the specific recommendations raised by the task and finish group would need primary legislation. Those include the recommendations to reduce the mandatory relief available to charities. Therefore, I am keen to understand how the proposals of the task and finish group sit within a wider UK context. As such, I have written to the UK Government and the devolved administrations to initiate a discussion on the recommendations that concern relief levels for charities and social enterprises, as well as the wider issues of tax avoidance.

The Silk commission recommended the full devolution of business rates to Wales and we await the UK Government's response. Policy flexibility would be an important step in developing the right business rates model for Wales. The devolution of business rates in Northern Ireland and Scotland has already seen the development of distinct approaches, which I continue to monitor with interest. Many respondents to the consultation agreed that the sale of new goods in charity shops should be monitored effectively. I will be working with the Minister for local government to ensure that the existing regime, which places a responsibility on local authorities to monitor this, is undertaken.

Many responses also agreed that charities should play active roles as stakeholders in business improvement districts. Given the funding that the Minister for Housing and Regeneration and I announced for this approach, I would like to see charity shops participating in BIDs here in Wales, just as they have successfully done elsewhere, such as in Swindon and Edinburgh. I intend to monitor the issue of the sale of new goods over the next year and I am also urging charities to get involved in the discussions and applications for new business improvement districts in Wales.

There were also some recommendations concerning planning, such as a separate planning use class and zoning. I am sympathetic to the nature of these recommendations, but the planning system is concerned with land use rather than the characteristics of those who use the land. The principle of encouraging local involvement is the one that I support, and this is reflected in other approaches that I am taking, such as in relation to business improvement districts. I will be asking the Minister for Housing and Regeneration to keep the planning use class issue in mind, and I am grateful that current research commissioned by the Minister into the impact of supermarkets and other retail developments on the town centre will also consider charity shops.

Cyn toriad yr haf, cynhaliwyd ymgynghoriad ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar ryddhad ardrethi busnes ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol. Rhoddwyd yr holl ymatebion unigol ar wefan Llywodraeth Cymru ac rwy'n siŵr bod yr Aelodau wedi cymryd y cyfle i ddarllen yr amrywiaeth o safbwyntiau a ddaeth i'r amlwg. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ac yn parhau i fod yn sensitif i'r materion sydd wedi codi, ac wedi derbyn barn gan gydweithwyr yn y Cabinet. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer rhai o'r argymhellion penodol a godwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae'r rhain yn cynnwys yr argymhellion i leihau'r rhyddhad gorfodol sydd ar gael i elusennau. Felly, rwy'n awyddus i ddeall sut y mae cynigion y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyd-fynd â chyd-destun ehangach y DU. Rwyf felly wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i gychwyn trafodaeth ar yr argymhellion sy'n ymwneud â lefelau rhyddhad ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol, yn ogystal â materion ehangach o ran osgoi talu trethi.

Roedd comisiwn Silk yn argymhell y dylid datganoli ardrethi busnes yn llawn i Gymru ac rydym yn aros am ymateb Llywodraeth y DU. Byddai hyblygrwydd ym maes polisi yn gam pwysig o ran datblygu'r model ardrethi busnes cywir i Gymru. Mae ymdriniaethau gwahanol eisoes wedi datblygu yn sgil datganoli ardrethi busnes yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, ac rwy'n parhau i'w monitro gyda diddordeb. Roedd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno y dylid monitro gwerthiant nwyddau newydd mewn siopau elusen yn effeithiol. Byddaf yn gweithio gyda'r Gweinidog llywodraeth leol i sicrhau bod y drefn bresennol, sy'n gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i fonitro hyn, yn cael ei chynnal.

Cytunodd llawer o'r ymatebion hefyd y dylai elusennau chwarae rhan weithgar fel rhanddeiliaid mewn ardaloedd gwella busnes. O ystyried y cyllid a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Tai ac Adfywio a minnau ar gyfer yr ymdriniaeth hon, hoffwn weld siopau elusen yn cymryd rhan mewn Ardaloedd Gwella Busnes yma yng Nghymru, yn union fel y maent wedi'i wneud yn llwyddiannus mewn mannau eraill, megis yn Swindon a Chaeredin. Rwy'n bwriadu monitro gwerthiant nwyddau newydd dros y flwyddyn nesaf, ac rwyf hefyd yn annog elusennau i gymryd rhan yn y trafodaethau a'r ceisiadau am ardaloedd gwella busnes newydd yng Nghymru.

Cafwyd rhai argymhellion hefyd yn ymwneud â chynllunio, megis dosbarth defnydd ar wahân a chreu parthau. Rwy'n cydymdeimlo â natur yr argymhellion hyn, ond mae'r system gynllunio yn ymwneud â defnydd tir yn hytrach na nodweddion y rhai sy'n defnyddio'r tir. Mae'r egwyddor o annog cyfranogiad lleol yn un rwy'n ei chefnogi, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn camau eraill yr wyf yn eu cymryd, megis ardaloedd gwella busnes. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Tai ac Adfywio gadw'r mater dosbarth defnydd mewn golwg, ac rwy'n ddiolchgar y bydd ymchwil gyfredol a gomisiynwyd gan y Gweinidog i effaith archfarnadoedd a datblygiadau manwerthu eraill ar ganol y dref hefyd yn ystyried siopau elusen.

One issue that I know that Members are interested in is wider financing, given the task and finish group's recommendation that we obtain borrowing powers to mitigate any risk if business rates are devolved. I have also accepted the group's recommendation that finance options, such as tax increment financing, are monitored. As I previously informed Members, the Minister for Finance agreed to monitor this. In terms of tax increment financing, this is one option in a range of finance solutions, and we want the one that is right for Wales.

New models are also being explored, such as developing and implementing the local government borrowing initiative, an initiative that not only supports areas where the tax base, so to speak, is already strong, but areas where investment is critical to boost long-term growth potential. As I said earlier, we await the UK Government's response to the Silk commission, which will hopefully offer some long-awaited clarity in this area.

As I said in my introduction, my focus on business rates policy will not diminish. I am expecting the third and final report from the task and finish group in the coming weeks. This will focus on anomalies that businesses and Members have raised on rateable values and business rates in general. I will look to press the UK Government on these issues, where appropriate, to improve the business rates regime prior to the 2017 re-evaluation. I will also continue to examine some of the issues that the task and finish group has raised on business rates relief for charities and social enterprises.

Un mater y gwn fod gan yr Aelodau ddi-ddordeb ynddo yw cyllido ehangach, o ystyried argymhelliad y grŵp gorchwyl a gorffen ein bod yn cael pwerau benthyca i liniaru unrhyw risg pe byddai ardrethi busnes yn cael eu datganoli. Rwyf hefyd wedi derbyn argymhelliad y grŵp y dylid monitro opsiynau cyllid, megis cyllido trwy gynyddrannau treth. Fel y dywedais yn flaenorol wrth yr Aelodau, cytunodd y Gweinidog Cyllid i fonitro hyn. O ran cyllido trwy gynyddrannau treth, un o blith ystod o atebion yw hwn, ac rydym am gael yr un sy'n iawn i Gymru.

Mae modelau newydd yn cael eu harchwilio hefyd, megis datblygu a gweithredu'r fenter benthyca llywodraeth leol, menter sydd nid yn unig yn cefnogi ardaloedd lle mae'r sylfaen dreth, fel petai, eisoes yn gryf, ond hefyd feysydd lle mae buddsoddiad yn hanfodol i hybu'r potensial ar gyfer twf yn y tymor hir. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn aros am ymateb Llywodraeth y DU i gomisiwn Silk, a gobeithio y bydd hynny'n cynnig rhywfaint o eglurder hir-ddisgwyliedig yn y maes hwn.

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad, byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar bolisi ardrethi busnes. Rwy'n disgwyl y trydydd adroddiad, sef yr olaf, gan y grŵp gorchwyl a gorffen yn yr wythnosau nesaf. Bydd hwn yn canolbwyntio ar anghysondebau y mae busnesau ac Aelodau wedi'u codi ynglŷn â gwerthoedd ardrethol ac ardrethi busnes yn gyffredinol. Byddaf yn ceisio rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU ar y materion hyn, lle y bo'n briodol, i wella'r drefn ardrethi busnes cyn ailwerthusiad 2017. Byddaf hefyd yn parhau i archwilio rhai o'r materion a godwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen ynglŷn â rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer elusennau a mentrau cymdeithasol.

17:26

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for today's statement on business rates. My goodness, was there not a lot of monitoring and potential monitoring going on in that statement? However, it is a statement that has been long awaited by the charity retail sector. Minister, you are right to say that you said before the summer recess that you would seek to address many of the issues that have been of concern to businesses, the charity sector and Assembly Members in this Chamber.

First, I will concentrate on the first part of your statement, and your announcement of a scheme to encourage construction by extending the exemption period for certain new developments from empty property rates to 18 months, for three years. On the face of it, this certainly sounds helpful; I need to look more at the detail. Particularly helpful are your comments on the rate of reimbursement to local authorities. However, we know that this falls short of the task and finish group's recommendations, as you have admitted yourself, for a much longer lasting scheme and a more robust exemption, particularly in assisted areas. My first question to you would be: why has this aspect been watered down, and why are you looking at a shorter period for the initial stage of the scheme?

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw ar ardrethi busnes. Mawredd, onid oedd llawer o fonitro a monitro posibl yn y datganiad hwnnw? Fodd bynnag, mae'n ddatganiad y mae'r sector manwerthu elusennol wedi bod yn aros yn hir amdano. Weinidog, rydych yn iawn i ddweud eich bod wedi dweud cyn toriad yr haf y bydddech yn ceisio mynd i'r afael â llawer o'r materion sydd wedi bod o bryder i fusnesau, y sector elusennol ac Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon.

Yn gyntaf, byddaf yn canolbwyntio ar ran gyntaf eich datganiad, a'r cynllun a gyhoeddwyd gennych i annog gwaith adeiladu trwy ymestyn y cyfnod eithrio rhag ardrethi eiddo gwag ar gyfer datblygiadau newydd penodol i 18 mis, am dair blynedd. Ar yr wyneb, mae hyn yn sicr yn swnio o gymorth; mae angen i mi edrych yn fwy gofalus ar y manylion. Mae eich sylwadau ar y gyfradd ad-dalu i awdurdodau lleol yn arbennig o ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw hyn yn mynd cyn belled ag argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, fel yr ydych wedi cyfaddef eich hun, ar gyfer cynllun am gyfnod llawer hirach ac eithriad mwy cadarn, yn enwedig mewn ardaloedd a gynorthwyir. Fy nghwestiwn cyntaf i chi fyddai: pam fod yr agwedd hon wedi ei glastwreiddio, a pham yr ydych yn ystyried cyfnod byrrach ar gyfer cam cychwynol y cynllun?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On the matter of high streets, I am delighted that the ball that the Enterprise and Business Committee—as well as my group and other political groups—started rolling some months back has been picked up with some enthusiasm by the Welsh Government. You are now thinking of ways that our high streets—some of them ailing rather severely—can be improved. You are completely right to point out that vacant shops are a big issue for many communities. You only have to travel a very short distance from here, across some of the villages and towns that we have in south Wales, to see just how some of those town centres have deteriorated over recent times. I really hope that your Open for Business scheme and approach hits the spot there and makes the sort of improvements that you hope that it will.

I listened with interest to your policy of a 50% rate relief on empty properties. You are clearly focusing on that aspect of town centre problems. I ask the obvious question, which is: what happens after that first year of 50% relief ends? I would also be interested to know what process has led you to conclude that that is a better scheme than some of the others that you might have looked at. As you know, the Welsh Conservative group has looked at taking all small business under a rateable value of £12,000 out of business rates altogether. You have not spoken about that, but I would be interested to see how you have evaluated your policy compared to other potential assistance that you could have given to businesses. I think that we need to see a real outcome for that sort of expenditure if you are going to reduce business rates by 50%, certainly at the outset.

Turning to the issue of business rate relief for charities, which was the second part of your statement and by no means the least controversial part of it, I am sure that many Assembly Members in the Chamber this afternoon have been contacted about this over a number of weeks. My postbag on this is certainly bursting with concerns about some of the rumours as to what might happen to charities' rateable values following the last report of the task and finish group. I am pleased to hear—well, there were a fair number of words on that in what you said, Minister, but I am not entirely sure that you did commit to that much at this point. I would not use the phrase 'kicking it into the long grass', but, when you spoke about consulting with the UK Government, which, in some senses, is to be welcomed, I did wonder what would happen should the UK Government come back and say, 'We have no intention of changing this remit. We are quite happy with the way things are at the moment.' Would that mean that you would drop it? Could you please tell us what you mean by looking at things in a UK context? I think, in some ways, that is helpful, but I would like to know what would happen, as I said, if the UK Government really is not interested in this. Would you still be interested in pressing ahead with the recommendations of the task and finish group? I know that the charity sector thinks they would be extremely damaging to it.

O ran y stryd fawr, rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru wedi codi, â rhywfaint o frwdfrydedd, y bêl y dechreuodd y Pwyllgor Menter a Busnes—yn ogystal â fy ngrŵp gwleidyddol i a grwpiau gwleidyddol eraill—ei rholio rai misoedd yn ôl. Rydych yn awr yn meddwl am ffyrdd y gellir gwella ein strydoedd mawr—rhai ohonynt yn clafychu'n eithaf difrifol. Rydych yn gwbl gywir i nodi bod siopau gwag yn broblem fawr i lawer o gymunedau. 'Nid oes raid i chi deithio ymhell o fan hyn, trwy rai o'r pentrefi a'r trefi yn y de, i weld yn union faint y mae rhai o ganol y trefi hynny wedi dirywio yn ddiweddar. Rwyf wir yn gobethio y bydd eich cynllun Agored i Fusnes yn taro'r nod yno ac yn gwneud y math o welliannau yr ydych yn gobethio amdanynt.

Gwrandawais â diddordeb ar eich polisi o ryddhad ardrethi o 50% ar eiddo gwag. Rydych yn amlwg yn canolbwyntio ar yr agwedd honno ar broblemau canol trefi. Gofynnaf y cwestiwn amlwg, sef: beth sy'n digwydd ar ôl i'r flwyddyn gyntaf o ryddhad o 50% ddod i ben? Byddai gennyf ddiddordeb hefyd cael gwybod pa broses sydd wedi peri ichi ddod i'r casgliad bod hwnnw'n gynllun gwell na rhai o'r lleill y gallech fod wedi'u hystyried. Fel y gwyrddoch, mae'r grŵp Ceidwadwyr Cymreig wedi edrych ar dynnu pob busnes bach dan werth ardrethol o £12,000 o'r system ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Nid ydych wedi siarad am hynny, ond byddai gennyf ddiddordeb cael gweld sut yr ydych wedi gwerthuso eich polisi o'i gymharu â chymorth posibl arall y gallech fod wedi'i roi i fusnesau. Credaf fod angen inni weld canlyniad gwirioneddol ar gyfer y math hwnnw o wariant os ydych yn mynd i ostwng ardrethi busnes o 50%, yn sicr ar y cychwyn.

Gan droi at ryddhad ardrethi busnes ar gyfer elusennau, sef ail ran eich datganiad ac nid y rhan leiaf dadleuol yn sicr, rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau'r Cynulliad yn y Siambr y prynhawn yma wedi cael gohebiaeth ynghylch hyn dros nifer o wythnosau. Mae fy mag post i ar y pwnc hwn yn sicr yn orlawn gyda phryderon am rai o'r sibrydion ynghylch beth allai ddigwydd i werthoedd ardrethol elusennau yn dilyn adroddiad diwethaf y grŵp gorchwyl a gorffen. Rwy'n falch o glywed—wel, roedd nifer sylweddol o eiriau ar hynny yn eich cyflwyniad, Weinidog, ond nid wyf yn hollol siŵr eich bod yn ymrwymo i lawer ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn defnyddio'r ymadrodd 'ei gicio i'r glaswellt hir', ond, pan oeddech yn siarad am ymgynghori â Llywodraeth y DU, sy'n rhywbeth i'w groesawu mewn rhai ffyrdd, meddyliais beth fyddai'n digwydd pe byddai Llywodraeth y DU yn dod yn ôl a dweud, 'Nid oes gennym unrhyw fwriad i newid y cylch gwaith. Rydym yn eithaf hapus gyda'r ffordd y mae pethau ar hyn o bryd.' A fyddai hynny'n golygu y bydddech yn rhoi'r mater o'r neilltu? A wnewch chi ddweud wrthym beth yr ydych yn ei olygu wrth edrych ar bethau yng nghyd-destun y DU? Rwy'n meddwl fod hynny'n ddefnyddiol, mewn rhai ffyrdd, ond hoffwn wybod beth fyddai'n digwydd, fel y dywedais, pe na byddai gan Lywodraeth y DU ddiddordeb. A fydddech chi'n dal i fod â diddordeb mewn bwrw ymlaen ag argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen? Gwn fod y sector elusennol yn meddwl y byddent yn niweidiol iawn iddo.



You touched on the sale of new goods. This is an issue that has been around for a long time. Clearly, there does need to be some kind of guidance and some kind of monitoring, to use your word, of the amount of new goods that charity shops are allowed to sell. Clearly, it is not part of the deal for them to get the sort of reductions in their business rates that they have seen if they are crossing that line and breaking that rule. However, it is a very difficult thing to monitor and you have said that you intend to monitor it over the next year. Could you tell us how you intend to do that? At the end of that year, hopefully, when you come back to this Chamber and tell us what you have found, your data will be reliable and robust enough for you to move ahead and have a level playing field and the charity sector will get a deal from the Government that is fair, but also robust.

I am pleased that you have announced that there is going to be a third and final report from the task and finish group. From talking to some members of that group, I know that, up until now, they have considered that there is a lot more 'task' than 'finish'. Hopefully, they will see a light at the end of the tunnel. I look forward to hearing the aspects of that report that you consider important. However, I would be grateful if you could tell us a little more about how you intend to progress this, beyond just the monitoring that you are doing. I think that the Chamber would like to see much more clarity on some of these issues than we have seen in this response.

Fe wnaethoch sôn am werthu nwyddau newydd. Mae hwn yn fater sydd wedi bod o gwmpas ers amser hir. Yn amlwg, mae angen cael rhyw fath o ganllawiau a rhyw fath o fonitro, i ddefnyddio eich geiriau chi, ar faint o nwyddau newydd y caiff siopau elusen eu gwerthu. Yn amlwg, nid yw'n rhan o'r fargen iddynt gael y math o ostyngiadau yn eu hardrethi busnes y maent wedi'u gweld os ydynt yn croesi'r llinell honno ac yn torri'r rheol. Fodd bynnag, mae'n beth anodd iawn i'w fonitro ac rydych wedi dweud eich bod yn bwriadu ei fonitro dros y flwyddyn nesaf. A allech chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu gwneud hynny? Ar ddiwedd y flwyddyn, pan ddewch yn ôl i'r Siambr hon a dweud wrthym beth yr ydych wedi'i ganfod, gobeithio y bydd eich data'n ddigon dibynadwy a chadarn ichi allu symud ymlaen a sicrhau sefyllfa deg, ac y bydd y sector elusennol yn cael bargaen gan y Llywodraeth sy'n deg, ond hefyd yn gadarn.

Rwy'n falch eich bod wedi cyhoeddi y bydd trydydd adroddiad gan y grŵp gorchwyl a gorffen, sef yr olaf. O siarad â rhai aelodau o'r grŵp hwnnw, rwy'n gwybod eu bod o'r farn, tan nawr, y cafwyd llawer mwy o 'orchwyl' nag o 'gorffen'. Y gobaith yw y byddant yn gweld golau ar ddiwedd y twnnel. Edrychaf ymlaen at glywed yr agweddau ar yr adroddiad yr ydych yn eu hystyried yn bwysig. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud ychydig mwy wrthym am sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn, y tu hwnt i'r monitro yr ydych yn ei wneud. Rwy'n meddwl y byddai'r Siambr yn hoffi gweld llawer mwy o eglurder ar rai o'r materion hyn nag yr ydym wedi'i weld yn yr ymateb hwn.

17:33

## **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that there is sufficient clarity with regard to the two new schemes, and, as I have indicated to Members, I would be happy for a technical briefing on the two new schemes to be provided for Assembly Members. I think that it is very important that we have tackled the high street issue. Representations have been made across the Chamber to me about these particular issues. As I made quite clear in my speech, I am restricted by budgetary considerations, and we do have to recognise that the reason why I have these constraints has nothing to do with the way the Minister for Finance treats me, but has more to do with the way that the UK Government treats the Welsh Government in terms of the cuts that are coming down to us. I think that we have to make that point quite fairly and squarely at this stage.

In terms of the high street, I think it is very important, and I have had no end of discussions within this Chamber. I was looking at Janet Finch-Saunders when I was making my statement, and one of the issues that she has been consistently raising with me is what assistance we can give.

I also think that the issues around new development schemes are very important. It is something that the construction sector has indicated to us that we need to do. We very much hope that will kick-start in some areas. We will also be looking at how the scheme runs during the next 12 months or so. Then we must make decisions about whether we wish to continue that scheme. So, I think what I have tried to do is take a very open approach to all the issues that have been raised with me across the Chamber and by all interested parties.

Rwy'n meddwl bod y ddau gynllun newydd yn ddigon eglur, ac, fel rwyf wedi dweud wrth Aelodau, byddwn yn fodlon i sesiynau briffio technegol ar y ddau gynllun newydd gael eu darparu i Aelodau'r Cynulliad. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi mynd i'r afael â'r stryd fawr. Gwnaed sylwadau imi am y materion penodol hyn o bob ochr o'r Siambr. Fel y nodais yn gwbl glir yn fy araith, mae ystyriaethau cyllidebol yn cyfyngu arnaf. Mae'n rhaid inni gydnabod nad oes gan y rheswm dros y cyfyngiadau hyn ddim i'w wneud â'r ffordd y mae'r Gweinidog Cyllid yn fy nhrin, ond mae'n ymwneud mwy â'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn trin Llywodraeth Cymru o ran y toriadau a drosglwyddir inni. Credaf fod yn rhaid i ni wneud y pwynt hwnnw yn blwmp ac yn blaen ar hyn o bryd.

Rwy'n credu bod y stryd fawr yn bwysig iawn, ac rwyf wedi cael trafodaethau di-ri yn y Siambr. Roeddwn yn edrych ar Janet Finch-Saunders wrth wneud fy natganiad, ac un o'r materion y mae hi wedi bod yn ei godi'n gyson gyda mi yw pa gymorth y gallwn ei roi.

Rwyf hefyd yn credu bod y materion yn ymwneud â chynlluniau datblygiadau newydd yn bwysig iawn. Mae'n rhywbeth y mae'r sector adeiladu wedi awgrymu inni bod angen ei wneud. Rydym yn mawr obeithio y bydd yn rhoi hwb mewn rhai ardaloedd. Byddwn hefyd yn ystyried sut y mae'r cynllun yn rhedeg yn ystod y 12 mis nesaf. Yna bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym yn dymuno parhau â'r cynllun. Felly, rwy'n credu mai'r hyn yr wyf wedi ceisio'i wneud mabwysiadu agwedd agored iawn tuag at yr holl faterion a godwyd gyda mi ar draws y Siambr a chan yr holl bartïon â diddordeb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

To go into the charities issues, I am sure that we would all like absolute certainty on what is going to happen with the charities, but I have, obviously, been looking at some of the legal issues around the recommendations that came from the business task and finish group, and I have to look at these issues in the context of where responsibility for the main agenda lies in terms of legislation. Therefore, I have written to the UK Government and the devolved administrations. You make an interesting point: if the UK Government says that it is all right as it is, what do I do then? Well, we will wait and see what the UK Government has to say and we will wait to see what the devolved administrations say, because, when I talk to people within other administrations, they all say to me, 'You are a very brave person to start down this road of discussing charity shops.' I know that there is probably a wish to discuss it elsewhere, particularly in terms of some of the issues that have been raised by small businesses with me about how it might affect them on the high street. My only concern was to ensure that I was encouraging small businesses and the small retail sector on the high street to be on an even playing field.

That is why it is so important that I have had discussions with my colleague Lesley Griffiths about how we look at local government and how it monitors its responsibility for new goods sales, because that is one of the issues that is being raised with me all of the time. All the way through this process, I have tried to remain neutral on this charities review, even though I have been lobbied intensively, and I know that Members have been lobbied intensively too. So, I want to take this through in a very considered manner and I would be more than happy, when I have the responses from the UK Government and devolved administrations, to share those with Assembly Members and to update Members in six months' time, perhaps, on the success of the new schemes and how they are running.

Business rates is a massive agenda in terms of what we are discussing. I am pleased that we have opened up that agenda for discussion, and I am very pleased with how, across the Chamber, all parties have participated in the discussion. I think that some of the ideas that have come across the floor are now starting to become reflected in the implementation of the business task and finish group.

I ymdrin ag elusennau, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn hoffi sicrwydd absoliwt ynglŷn â'r hyn sy'n mynd i ddiwydd gyda'r elusennau, ond rwyf, yn amlwg, wedi bod yn edrych ar rai o'r materion cyfreithiol sydd ynghlwm ag argymhellion y grŵp gorffen a gorchwyl busnes, ac mae'n rhaid i mi edrych ar y materion hyn yng nghyd-destun pwy sy'n gyfrifol am y brif agenda o ran deddfwriaeth. Felly, rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Rydych yn gwneud pwynt diddorol: os bydd Llywodraeth y DU yn dweud bod pethau'n iawn fel ag y maent, beth rydw i'n ei wneud wedyn? Wel, byddwn yn aros i weld beth sydd gan Lywodraeth y DU i'w ddweud a byddwn yn aros i weld beth mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn ei ddweud. Pan fyddaf yn siarad â phobl mewn gweinyddiaethau eraill, maent i gyd yn dweud wrthyf, 'Rydych yn ddewr iawn i fynd ar drywydd trafod siopau elusen.' Gwn fod dymuniad i'w drafod mewn manau eraill yn ôl pob tebyg, yn enwedig o ran rhai o'r materion a godwyd gan fusnesau bach gyda mi ynglŷn â sut y gallai effeithio arnynt ar y stryd fawr. Fy unig bryder oedd sicrhau fy mod yn annog amgylchiadau teg ar gyfer busnesau bach a'r sector manwerthu bach ar y stryd fawr.

Dyna pam y mae mor bwysig fy mod wedi cael trafodaethau gyda'm cyd-Aelod Lesley Griffiths am sut yr ydym yn edrych ar lywodraeth leol a sut y mae'n monitro ei chyfrifoldeb ar gyfer gwerthiant newyddau newydd, gan mai dyna un o'r materion sy'n cael ei godi gyda mi drwy'r amser. Trwy'r holl broses hon, rwyf wedi ceisio aros yn niwtral o ran yr adolygiad elusennau hwn, er fy mod wedi cael fy llobio'n ddwys, a gwn fod Aelodau wedi cael eu llobio'n ddwys hefyd. Felly, rwyf am weithredu hyn mewn modd ystyriol iawn, a byddwn yn fwy na pharod, pan gaf ymateb gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, i'w rhannu gydag Aelodau'r Cynulliad ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ymhen chwe mis, efallai, ar lwyddiant y cynlluniau newydd a sut y maent yn cael eu cynnal.

Mae ardrethi busnes yn agenda enfawr o ran yr hyn yr ydym yn ei drafod. Rwy'n falch ein bod wedi agor yr agenda i'w thrafod, ac rwy'n falch iawn o'r modd y mae pob plaid, ar draws y Siambr, wedi cymryd rhan yn y drafodaeth. Credaf fod rhai o'r syniadau a glywyd ar draws y llawr yn awr yn dechrau cael eu hadlewyrchu yng ngweithrediad y grŵp gorffen a gorchwyl busnes.

17:36

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am y cyhoeddiad heddi. Yn sicr, mae ardrethi busnes wedi dod yn fater byw iawn i gwmnïau bach. Rwyf wedi clywed amryw o fusnesau yn dweud yn hollol glir oni bai am y cynllun rhyddhad ardrethi y byddent allan o fusnes. Dyna pam rydym ni ym Mhlaid Cymru o blaid ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i gynnwys rhagor o fusnesau bach, er ein bod yn deall, wrth gwrs, y byddai hynny â goblygiadau cyllidol iddo. Rhan o'r broblem yn ein trefi a'n pentrefi yw bod chwyddiant mewn costau rhentu adeiladau mewn trefi a bod llai o fusnes yn dod drwy'r drws.

I thank the Minister for the statement today. Certainly, business rates have become a very live issue for small companies. I have heard many businesses saying very clearly that if it was not for the business rate relief scheme, they would be out of business. That is why we in Plaid Cymru are in favour of extending the business rate relief scheme to include more small businesses, even though we understand, of course, that that would have budgetary implications. Part of the problem in our towns and villages is the inflation in rental costs in towns and that there is less business coming through the door.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu'r ddau gynllun newydd, gan obeithio y byddant yn effeithiol. Mae un yn rhoi rhyddhad ardrethi am 18 mis i adeiladau busnes newydd ac mae'r cynllun Agored i Fusnes yn cyfeirio at roi rhyddhad o 50% i fusnesau sy'n cymryd siop sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir. Beth yn union yw 'cyfnod hir' yn y cyd-destun hwnnw? Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi heddiw, rwy'n credu, cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. A yw cynllun Cymru'r un fath? A fydd unrhyw arian yn dod i Gymru drwy fformiwla Barnett o ganlyniad i'r cynllun newydd hwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, os ydych chi'n gwybod yr ateb i hynny?

Rwy'n nodi nad yw'r Gweinidog yn mynd ymlaen â'r bwriad i newid y drefn o ran siopau elusennol. Bydd hynny'n cael croeso cyffredinol, oherwydd nid oedd prawf mewn gwirionedd bod y siopau hyn yn atal busnesau eraill rhag dod at y stryd fawr, er y byddwn yn cydnabod hefyd fod gormodedd o siopau elusennol mewn un lle yn rhyw fath o adlewyrchiad o ddiffyg bywiogrwydd yn y sector busnes lleol. Fodd bynnag, mae'r mater o nwyddau newydd mewn siopau elusennol yn un gynhennus ac yn un sy'n cynhyrfu busnesau bach eraill. Mae gen i ddiddordeb mawr gwybod sut y byddwch yn mynd ati i fonitro'r mater hwnnw fel yr ydych yn ei ddatgan yn eich datganiad.

Felly, mae croeso cyffredinol i'r datganiad heddiw, ond byddwn ni, ym Mhlaid Cymru, yn dweud hyn: gorau po gyntaf y bydd holl fater ardrethi busnes yn cael ei ddatganoli'n llwyr i'r Llywodraeth yma. Byddwn yn osgoi'r nonsens hwn o orfod mynd i bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud rhywbeth neu'i gilydd, ac, fel arfer, yn aros misoedd ac yn dlywed dim byd. Felly, gadewch i ni fod yn glir: byddai trosglwyddo'r holl fater ardrethi busnes i Gymru yn gam ymlaen i greu economi mwy ffyniannus, sef yr hyn rydym i gyd yn disgwyl ac yn gobeithio amdano yma yng Nghymru.

I welcome the two new schemes, hoping that they will be effective. One gives rate relief for 18 months for new developments and the Open for Business scheme refers to giving relief of 50% to businesses that take a shop that has been empty in the long term. What does 'long term' mean in that context? The UK Government has announced today, I think, a business rate relief scheme for small businesses. Is the Welsh scheme the same? Will there be any money coming to Wales through the Barnett formula from the new scheme that has been announced by the UK Government? I do not know if you know the answer to that.

I note that the Minister is not to go on with the intention to change the system for charity shops. That will be welcomed generally, because there was not any proof really that those shops stopped other businesses from coming to the high street, even though we would also recognise that an excess of charity shops in one place would reflect a lack of vitality in the local business sector. However, the matter of new goods in charity shops is a controversial one and one that does incite discontent among small businesses. I would be very interested to hear how you will be monitoring that issue as you have stated in your statement.

Therefore, we give a general welcome to the statement today, but we, in Plaid Cymru, would say this: the sooner the better that the whole matter of business rates is devolved to this Government, so that we will be able to avoid this nonsense of having to press the UK Government to do something or other, and, usually, wait months and still hear nothing. So, let us be clear: transferring business rates to Wales would be a step forward towards creating a more prosperous economy, which is what we all hope and wish for in Wales.

17:39

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly concur with Alun Ffred's final point that life would be much easier if we had business rates devolved in the Welsh context, because we could look at schemes that are entirely appropriate for ourselves. When we see what the Scots and the Northern Irish have been able to do, we recognise that we would have the ability to do likewise.

I am not sure about the issues of any consequential that might arise from any announcements that have been made today. That is obviously a matter that my colleague, the Minister for Finance, will look into. However, even if there are consequential on everything, we will have to look very carefully in terms of the Welsh budget at how we would allocate any consequential into the block, because we have a lot of priorities.

In terms of the small business rate relief scheme in general, we were very pleased when that was extended, and I think it is very important that we recognised that it did have a beneficial effect on businesses. From that point of view, it was very useful. Of course, we are pressing for extensions on any of these particular areas.

Rwy'n sicr yn cytuno â phwynt olaf Alun Ffred y byddai bywyd yn llawer haws pe byddai ardrethi busnes yn cael eu datganoli yng nghyd-destun Cymru, oherwydd y gallem edrych ar gynlluniau sy'n gwbl briodol i ni ein hunain. Pan welwn yr hyn y mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi gallu ei wneud, rydym yn cydnabod y byddai gennym y gallu i wneud yr un peth.

Nid wyf yn siŵr am faterion unrhyw symiau canlyniadol a allai godi o unrhyw gyhoeddiadau sydd wedi'u gwneud heddiw. Mae hynny'n amlwg yn fater y bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyllid, yn ei ystyried. Fodd bynnag, hyd yn oed os oes symiau canlyniadol ar bopeth, bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus iawn o ran cyllideb Cymru ar sut y byddem yn dyrannu unrhyw symiau canlyniadol i mewn i'r bloc, gan fod gennym lawer o flaenoriaethau.

O ran y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn gyffredinol, roeddem yn falch iawn pan gafodd ei ymestyn, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gydnabod ei fod wedi cael effaith fuddiol ar fusnesau. O'r safbwynt hwnnw, roedd yn ddefnyddiol iawn. Wrth gwrs, rydym yn pwysu am estyniadau ar unrhyw un o'r meysydd penodol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of new goods, Alun Ffred, this is a difficult area, but it is an area that is raised with us consistently. I have had discussions with my colleague, the Minister for Local Government and Government Business, because it is a matter for local authorities to look at what is in these shops. People are concerned sometimes that they are trading in their shop and a charity might be selling fair-trade coffee in its shops. There are a lot of issues around this, so we are going to see what we can do and be far more proactive in starting to monitor these particular issues.

In terms of the schemes, as you are aware, we are mirroring some of the best that have come out of Ireland and Scotland and schemes that are starting in England. So, I am satisfied that the two schemes that we have introduced today will work, and we will continue to monitor what other schemes we can introduce in terms of business rates to continue to support growth within the economy.

O ran nwyddau newydd, Alun Ffred, mae hwn yn faes anodd, ond mae'n faes sy'n cael ei godi gyda ni yn gyson. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'm cydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, gan mai mater i awdurdodau lleol yw edrych ar yr hyn sydd yn y siopau hyn. Mae pobl yn pryderu weithiau eu bod yn masnachu yn eu siop ac y gallai elusen fod yn gwerthu coffi masnach deg yn ei siopau. Mae llawer o faterion yn ynghlwm â hyn, felly rydym yn mynd i weld beth y gallwn ei wneud a bod yn llawer mwy rhagweithiol wrth ddechrau monitro'r materion penodol hyn.

O ran y cynlluniau, fel y gwyddoch, rydym yn adlewyrchu rhai o'r goreuon o'r Iwerddon a'r Alban a chynlluniau sy'n cael eu cychwyn yn Lloegr. Felly, rwy'n fodlon y bydd y ddau gynllun yr ydym wedi'u cyflwyno heddiw yn gweithio, a byddwn yn parhau i fonitro pa gynlluniau eraill y gallwn eu cyflwyno o ran ardrethi busnes i barhau i gefnogi twf yn yr economi.

17:41

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Minister for her statement and I also thank Professor Morgan and his team for all of the reports that we have had so far. I very much look forward to the next, which I am sure will continue to give us plenty of opportunities to discuss the issue in the future.

I welcome the announcement on the funding for new developments. I note in your statement that you described them as 'certain new developments', and I wonder whether we could have a little more clarity on the kind of new developments you mean. I certainly would like to accept your offer of a technical briefing on how this would work in practice. I would be very interested to know what kind of guidance you will be giving to local authorities so that we can guarantee that this is delivered consistently across Wales and not delivered in an ad-hoc way. I note that it is going to be delivered via the local authorities' existing discretionary powers and obviously there is a danger there that, if the guidance is not clear enough, this will not be implemented across the piece in the same way.

Another issue on empty property rate relief, Minister—you will know that we have had a lengthy correspondence on the subject of empty properties—is the liability that means that people have to pay rates after a business has failed if the owner has closed the business before bankruptcy. Responsible business owners who choose to cease trading without leaving a trail of creditors behind them are at a disadvantage at the moment, and I note that that is an issue that we have still not addressed as yet. I wonder whether you have any proposals that will assist these people, because it is causing real hardship and preventing people—entrepreneurs—from starting again and making a clean breast of things.

I also want to welcome in principle the Open for Business scheme, again on the basis that we would like more detail. I would also like to understand a little more about the cost of these interventions and where that money is coming from.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad a hefyd i'r Athro Morgan a'i dîm am yr holl adroddiadau yr ydym wedi'u cael hyd yn hyn. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y nesaf, ac rwy'n siŵr y bydd yn parhau i roi digon o gyfleoedd i drafod y mater hwn yn y dyfodol.

Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad ynglŷn â'r cyllid arian ar gyfer datblygiadau newydd. Rwy'n nodi yn eich datganiad eich bod yn eu disgrifio fel 'datblygiadau newydd penodol', ac ys gwn i a allem gael disgrifiad ychydig yn fwy eglur o'r math o ddatblygiadau newydd yr ydych yn sôn amdanynt. Rwy'n sicr yn awyddus i dderbyn eich cynnig o sesiynau briffio technegol ar sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Byddai gennyf ddiddordeb mawr cael gwybod pa fath o arweiniad y byddwch yn ei roi i awdurdodau lleol fel y gallwn warantu bod hyn yn digwydd yn gyson ar draws Cymru, ac nid mewn modd ad hoc. Sylwaf y bwriedir ei gyflwyno drwy gyfrwng pwerau disgresiynol presennol yr awdurdodau lleol ac yn amlwg mae perygl na fydd yn cael ei weithredu yn yr un modd ym mhob man, os nad yw'r canllawiau'n ddigon clir.

Mater arall ynghylch rhyddhad ardrethi eiddo gwag, Weinidog—byddwch yn gwybod ein bod wedi cael gohebiaeth hir ynglŷn ag eiddo gwag—yw'r atebolrwydd sy'n golygu bod yn rhaid i bobl dalu ardrethi ar ôl i fusnes fethu os bydd y perchennog wedi cau'r busnes cyn y methdaliad. Mae perchnogion busnesau cyfrifol sy'n dewis rhoi'r gorau i fasnachu heb adael rhes o gredydwy'r o'u hól o dan anfantais ar hyn o bryd, a nodaf nad ydym wedi mynd i'r afael â'r mater hwnnw o hyd. Tybed a oes gennyh unrhyw gynigion a fydd yn cynorthwyo'r bobl hyn, gan ei fod yn achosi caledi go iawn ac yn atal pobl—entrepreneuriaid—rhag dechrau eto â llechen lân.

Rwyf hefyd yn awyddus i groesawu'r cynllun Agored i Fusnes mewn egwyddor, unwaith eto ar y sail y byddem yn hoffi cael mwy o fanylion. Hoffwn hefyd ddeall ychydig mwy am gost yr ymyriadau hyn ac o ble y mae'r arian yn dod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Towards the end of the statement, you talked about tax increment financing and, as you know, Minister, I am a very big fan of that particular policy area, and I really do welcome the idea that the Government is looking at how we can empower our local authorities to take the lead in developing and creating those vibrant high streets that we all want to see.

I now want to turn to the issue of the third sector, charities and social enterprises. With regard to encouraging charity retailers to engage with bids and other retail organisations, that is very welcome and it is something that I am sure the charity sector will take on board. It wants to be seen as an integral part of our high streets and an equal partner in our high streets as well. In terms of the monitoring of new goods, I do not think that there is any argument there. However, when we come to the business rate relief issue, while I welcome the fact that no introduction of changes has been announced today, I am frustrated that there is not greater clarity. It is ironic that, on the one hand today, you are aiming to encourage businesses to fill our empty shops and to regenerate our high streets, but, on the other, you are allowing to persist an atmosphere of uncertainty and concern in terms of the rate relief regime for charity shops, which we know has prevented a number of charities from doing exactly that, namely creating new jobs and filling our high streets with new shops. We have an 18% vacancy rate in Wales at the moment. I do not believe that we can say on the one hand that we want new shops, and on the other hand create an atmosphere where that is going to be less likely.

Over the weekend, we heard Tŷ Hafan say that it has shelved expansion plans. Other charities are on record as saying that they will not go ahead with new shops in Wales until the uncertainty is over. As far as I can see, that uncertainty is still not over. That is new shops in our high streets, new jobs for our economy, and new volunteering opportunities to help people back into work. It is new money for good causes, all on hold until we know what the decision is going to be. You say that you are consulting the UK Government and the devolved Governments on the balance between Wales's regime and their regimes for the future. I understand the reason why you are doing that, and I assume that this means that you recognise that acting unilaterally in this way damages Wales's ability to attract investment and jobs from charities and social enterprises. It could also potentially drive them out of Wales. My fundamental question, Minister, is this: why will you not end the uncertainty today? Why will you not state on the record that you will not slash the rate relief for charities in Wales unilaterally? That is something that is within your power to do right now if you wish to. Can you give them the clarity that they need to invest in Wales, and to push forward with their plans that are currently on the backburner?

Tuag at ddiwedd y datganiad, fe wnaethoch sôn am gyllid drwy gynyddrannau treth. Fel y gwyddoch, Weinidog, rwy'n gefnogwr mawr iawn o'r maes polisi penodol hwnnw, ac rwyf wir yn croesawu'r syniad bod y Llywodraeth yn ystyried sut y gallwn rymuso ein hawdurdodau lleol i gymryd yr awenau o ran datblygu a chreu'r strydoedd bywiog hynny yr ydym i gyd am eu gweld.

Rwyf yn awr am droi at fater y trydydd sector, elusennau a mentrau cymdeithasol. O ran annog manwerthwyr elusennol i ymgymryd â bidiau a sefydliadau manwerthu eraill, mae hynny i'w groesawu'n fawr, ac mae'n rhywbeth rwy'n siŵr y bydd y sector elusennol yn ei ystyried. Mae am gael ei weld fel rhan annatod o'n strydoedd mawr ac yn bartner cyfartal yn ein strydoedd mawr hefyd. O ran monitro nwyddau newydd, nid wyf yn credu bod unrhyw ddatl. Fodd bynnag, o safbwynt mater rhyddhad ardrethi busnes, er fy mod yn croesawu'r ffaith nad oes newidiadau wedi cael eu cyhoeddi heddiw, rwy'n rhwystredig nad yw'r sefyllfa'n fwy eglur. Mae'n eironig eich bod, ar y naill law heddiw, yn ceisio annog busnesau i lenwi ein siopau gwag ac i adfywio'n strydoedd mawr, ond, ar y llaw arall, yn caniatáu i awyryglch o ansicrwydd a phryder barhau o ran y gyfundrefn rhyddhad ardrethi ar gyfer siopau elusen, yr ydym yn gwybod ei fod wedi atal nifer o elusennau rhag gwneud yr union beth hwnnw, sef creu swyddi newydd a llenwi ein strydoedd mawr â siopau newydd. Mae gennym gyfradd eiddo gwag o 18% yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid wyf yn credu y gallwn ddweud ar y naill law ein bod am gael siopau newydd, ac ar y llaw arall yn creu awyryglch lle mae hyn yn mynd i fod yn llai tebygol.

Dros y penwythnos, clywsom Dŷ Hafan yn dweud ei fod wedi gohirio'i gynlluniau ehangu. Mae elusennau eraill wedi dweud ar goedd na fyddant yn mynd yn eu blaenau gyda siopau newydd yng Nghymru tan fydd yr ansicrwydd ar ben. Cyn belled ag y gallaf weld, nid yw'r ansicrwydd ar ben. Dyna siopau newydd yn ein stryd fawr, swyddi newydd ar gyfer ein heconomi, a chyfleoedd gwirfoddoli newydd i helpu pobl i ddychwelyd i waith. Mae'n arian newydd ar gyfer achosion da, i gyd wedi'u gohirio hyd nes y byddwn yn gwybod beth fydd y penderfyniad. Rydych yn dweud eich bod yn ymgynghori â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig ar y cydbwysedd rhwng cyfundrefn Cymru a'u cyfundrefnau hwythau ar gyfer y dyfodol. Rwy'n deall y rheswm pam eich bod yn gwneud hynny, ac rwy'n cymryd bod hyn yn golygu eich bod yn cydnabod bod gweithredu'n unochrog yn y ffordd hon yn niweidio gallu Cymru i ddenu buddsoddiad a swyddi trwy elusennau a mentrau cymdeithasol. Gallai hefyd o bosibl eu gyrru allan o Gymru. Fy nghwestiwn sylfaenol, Weinidog, yw hwn: pam na wnewch chi roi diwedd ar yr ansicrwydd heddiw? Pam na wnewch chi nodi ar y cofnod na fyddwch yn torri'r rhyddhad ardrethi ar gyfer elusennau yng Nghymru yn unochrog? Mae hynny'n rhywbeth sydd o fewn eich pŵer i'w wneud nawr os ydych yn dymuno. A allwch chi roi'r eglurder sydd ei angen arnynt i fuddsoddi yng Nghymru, ac i fwrw ymlaen â'u cynlluniau sydd ar hyn o bryd wedi'u gohirio?

Thank you. I welcome any investment in Wales in terms of jobs created, and the opportunity for individuals to participate in voluntary and charity work. However, I stand by my statement. If it will help the Member concerned on the charity shops agenda, as soon as I receive responses from the other devolved administrations, I will be more than happy to return to the Chamber with a decision about how I might be taking these matters forward.

On the tax increment financing, I am quite a fan of this area in terms of discussion, as the Finance Minister has been exploring these issues. It is one of the innovative finance solutions that we are looking at, because we need to look at innovative solutions. With that in mind, we have chosen to prioritise and develop the local government borrowing initiative at the moment. However, that is not to say that tax incremental financing has been discounted, but the critical question is whether TIF schemes provide robust value for money, and whether they offer better economic outturns than home-grown solutions for Wales, such as the local government borrowing initiative. At the moment, we have no example of TIFs being used in Wales, but there are elsewhere, so we are monitoring. I know that Nick Ramsay finds it frustrating that we are monitoring, but we are monitoring what is going on elsewhere. I would be more than happy when I return to the Chamber with the third report to cover this issue further.

Thank you for your support for the schemes. In terms of the new development schemes, the scope of the scheme is so that all unoccupied non-domestic property can benefit from the relief. The property must be comprised of qualifying new structures—that means new foundations and permanent walls. The scheme will also benefit properties that have substantial structural consideration. We will be publishing detailed guidance on the Welsh Government website that will explain all of this, and I very much hope that Members will take up the offer of a briefing in this regard.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:48.*

## **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of some of the wider issues regarding the empty property rates, I am still in dialogue with the Secretary of State for Business, Innovation and Skills and the Minister for Finance. I have also written to the Chief Secretary to the Treasury on this particular issue. I think that we are having some impact on the UK Government in terms of looking at these issues, but the decisions on devolution and around the Silk commission will help me in terms of what I do on the business rates agenda. Like you, I am concerned about how unpopular and what a burden some of these issues are on businesses.

Diolch yn fawr. Rwy'n croesawu unrhyw fuddsoddiad yng Nghymru o ran creu swyddi, a'r cyfle i unigolion gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol ac elusennol. Fodd bynnag, rwy'n cadw at fy natganiad. Os bydd yn helpu'r Aelod dan sylw ynghylch agenda'r siopau elusen, cyn gynted ag y derbynaf ymatebion gan y gweinyddiaethau datganoledig eraill, byddaf yn fwy na pharod i ddychwelyd i'r Siambwr â phenderfyniad am sut y byddaf yn gweithredu'r materion hyn.

Ynglŷn â chyllido drwy gynyddrannau treth, rwy'n eithaf cefnogwr i'r maes hwn o ran trafod, gan fod y Gweinidog Cyllid wedi bod yn ymchwilio i'r materion hyn. Mae'n un o'r atebion cyllid arloesol yr ydym yn edrych arno, oherwydd bod angen inni ystyried atebion arloesol. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi dewis blaenoriaethu a datblygu'r fenter benthycu llywodraeth leol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu ein bod wedi diystyru cyllido trwy gynyddrannau treth, ond y cwestiwn allweddol yw a yw cynlluniau o'r fath yn darparu gwerth cadarn am arian, ac a ydynt yn cynnig alldro economaidd gwell nag atebion cynhenid i Gymru, megis y fenter benthycu llywodraeth leol. Ar hyn o bryd, nid oes gennym enghraifft o gynllun cyllido trwy gynyddrannau treth yn cael eu defnyddio yng Nghymru, ond mae rhai i'w cael mewn mannau eraill, felly rydym yn monitro. Gwn fod Nick Ramsay'n teimlo'n rhwystredig ein bod yn monitro, ond rydym yn monitro'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill. Byddwn yn fwy na hapus pan fyddaf yn dychwelyd i'r Siambwr gyda'r trydydd adroddiad i ymdrin â'r mater hwn ymhellach.

Diolch ichi am gefnogi'r cynlluniau. O ran y cynlluniau datblygiadau newydd, mae cwmpas y cynllun yn caniatáu i bob eiddo annomestig gwag elwa o'r rhyddhad. Rhaid i'r eiddo gynnwys strwythurau cymwys newydd—mae hynny'n golygu sylfeini newydd a waliau parhaol. Bydd y cynllun hefyd o fudd i eiddo sydd ag ystyriaeth strwythurol sylweddol. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau manwl ar wefan Llywodraeth Cymru yn esbonio hyn i gyd, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr Aelodau'n manteisio ar y cynnig o sesiynau briffio yn hyn o beth.

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:48.*

O ran rhai o'r materion ehangach ynghylch ardrethi eiddo gwag, rwy'n dal yn trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Gweinidog Cyllid. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y mater penodol hwn. Rwy'n meddwl ein bod yn cael rhywfaint o effaith ar Lywodraeth y DU o ran edrych ar y materion hyn, ond bydd y penderfyniadau ar ddatganoli ac o amgylch comisiwn Silk yn fy helpu o ran yr hyn i'w wneud ar yr agenda ardrethi busnes. Fel chi, rwy'n poeni am ba mor amhoblogaidd yw rhai o'r materion hyn, a chymaint o faich ydynt ar fusnesau.

17:49

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I support the 50% rate relief on business rates for reoccupied properties. This would bring properties in many towns, cities and districts back into use. I have two questions for the Minister. First, will there be anything to stop shop-hopping, so that people do not move to the empty shop next door to get the rate relief, thus leaving the same number of empty shops in the street? Secondly, is anything going to be done to stop rents from increasing and therefore taking up the amount of money that people are getting in rate relief?

The last point that I want to talk about is charities and social enterprises. I reiterate my support for the traditional charity shop selling mainly donated goods and other traditional goods such as cards. The danger is that charity shops, which are, in many cases, indistinguishable from other shops on the high street, are getting rate relief and competing against other people selling, in many cases, exactly the same goods. Is there a way in which you can distinguish between those shops that sell 80%, 90% or 95% donated goods, which most of us think of as traditional charity shops, and those that are indistinguishable from other shops on the high street?

Rwy'n cefnogi'r rhyddhad o 50% ar ardrethi busnes ar gyfer eiddo a ailfeddianir. Byddai hyn yn sicrhau bod eiddo gwag mewn llawer o drefi, dinasoedd a rhanbarthau yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae gennyf ddau gwestiwn cyflym i'r Gweinidog. Yn gyntaf, a fydd unrhyw beth i atal pobl rhag symud i'r siop wag drws nesaf i gael y rhyddhad ardrethi, gan felly adael yr un nifer o siopau gwag yn y stryd? Yn ail, a oes bwriad i wneud unrhyw beth i atal rhenti rhag cynyddu a thrwy hynny gymryd y swm o arian y mae pobl yn ei gael mewn rhyddhad ardrethi?

Y pwynt olaf yr wyf am siarad amdano yw elusennau a mentrau cymdeithasol. Rwy'n ailadrodd fy nghefnogaeth i'r siop elusen draddodiadol sy'n gwerthu nwyddau a roddwyd iddi gan y cyhoedd yn bennaf, yn ogystal â nwyddau traddodiadol eraill fel cardiau. Y perygl yw bod siopau elusen, nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt â siopau eraill ar y stryd fawr mewn llawer o achosion, yn cael rhyddhad ardrethi ac yn cystadlu yn erbyn pobl eraill sy'n gwerthu, mewn llawer o achosion, yr un nwyddau'n union. A oes ffordd o wahaniaethu rhwng siopau sy'n gwerthu 80%, 90% neu 95% o nwyddau a roddwyd gan y cyhoedd, y mae'r rhan fwyaf ohonom yn meddwl amdanynt fel siopau elusen traddodiadol, a'r rhai nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt â siopau eraill ar y stryd fawr?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:50

**Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have to recognise that charity shops have become more professional over the years in terms of the fact that they want to undertake more work and that the role of charity shops has changed. There has to be recognition of that. I understand your point fully about new goods. I do not think that anybody in the Chamber disagrees that they have to be in the market for second-hand goods and a very limited number of new goods, because it would be unfair to allow them to compete with other retailers. We are exploring ways of tightening that.

In terms of rent increases, this is always one of the concerns that are expressed to me. I have responsibility for business rates in this area and it would be nice to say, 'Hang on a second, I'm going to stop all of this'. However, that is not necessarily possible for me.

In terms of shop-hopping, that has been an issue in the past, but I am not so certain whether it is now. We will have a look, in light of your point, to see whether there is anything further we can do. However, we had not considered that level of abuse within the scheme. It will have to be monitored very carefully.

Mae'n rhaid i ni gydnabod bod siopau elusen wedi dod yn fwy proffesiynol dros y blynyddoedd, yn yr ystyr eu bod yn awyddus i ymgymryd â mwy o waith a bod rôl siopau elusen wedi newid. Mae'n rhaid cydnabod hynny. Rwy'n deall eich pwynt yn llwyr ynglŷn â nwyddau newydd. Nid wyf yn credu bod neb yn y Siambwr yn anghytuno bod yn rhaid iddynt fod yn y farchnad ar gyfer nwyddau ail-law a nifer gyfyngedig iawn o nwyddau newydd, oherwydd y byddai'n annheg i'w galluogi i gystadlu â manwerthwyr eraill. Rydym yn archwilio ffyrdd o dynhau hynny.

O ran cynnydd rhent, mae hwn bob amser yn un o'r pryderon sy'n cael eu mynegi imi. Rwy'n gyfrifol am ardrethi busnes yn y maes hwn a byddai'n braf dweud, 'Arhoswch eiliad, rwy'n mynd i atal hyn i gyd'. Fodd bynnag, nid yw hynny o reidrwydd yn bosibl i mi.

O ran symud o un siop i'r llall, mae hynny wedi bod yn broblem yn y gorffennol, ond nid wyf mor sicr bellach. Byddwn yn cael golwg, yng ngoleuni eich pwynt, i weld a oes unrhyw beth ychwanegol y gallwn ei wneud. Fodd bynnag, nid oeddem wedi ystyried camddefnydd o'r cynllun ar y lefel honno. Bydd yn rhaid monitro hynny'n ofalus iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:51

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have to move quickly now. I have two more Members and just one minute, I am afraid.

Mae'n rhaid inni symud yn gyflym yn awr. Mae gennyf ddau Aelod arall a dim ond un funud, mae arnaf ofn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:51 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you have answered most of the questions I wanted to ask. The first additional point I would like to make is that we must not fall into the trap of believing that business rates are a solution to the problems of our town centres, because they are not. There are far broader problems. One of the biggest problems is the rents that are being charged on properties, which do not bear any relationship to profitability. The other one is the imbalance between town centres and retail parks. Those are longer problems that relate to the issue that you raised with regard to the devolution of this responsibility, so that we can start making practical decisions.

Weinidog, rydych wedi ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau rwyf am eu gofyn. Y pwynt ychwanegol cyntaf yr hoffwn ei wneud yw bod yn rhaid inni beidio â syrthio i'r fagl o gredu bod ardrethi busnes yn ateb i'r problemau canol ein trefi, oherwydd nad ydynt. Ceir problemau llawer ehangach. Un o'r problemau mwyaf yw'r rhenti sy'n cael eu codi ar eiddo, nad ydynt a wnelo dim â phroffidioldeb. Yr un arall yw'r anghydbwysedd rhwng canol trefi a pharciau manwerthu. Mae'r rhain yn broblemau hwy sy'n ymwneud â'r mater a godwyd gennych ynghylch datganoli'r cyfrifoldeb hwn, fel y gallwn ddechrau gwneud penderfyniadau ymarferol.

17:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I concur with the comments made by Mick Antoniw, with which I absolutely agree.

Rwy'n cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Mick Antoniw. Rwy'n cytuno'n llwyr ag ef.

17:52 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Regarding charity shop rate relief thresholds, you said that you were looking at the legal issues and discussing them with the other Governments, which indicates that you have not ruled out a change or reduction in thresholds, even if a shop is not breaching the new goods rule. Have you or have you not ruled that out? If you have not ruled it out yet, what impact assessment have you made on the impact on funding for things like medical research, palliative care, end-of-life care and specialist nurses?

O ran trothwyon rhyddhad ardrethi siop elusen, fe wnaethoch ddweud eich bod yn ystyried y materion cyfreithiol ac yn eu trafod â'r Llywodraethau eraill. Mae hyn yn dangos nad ydych wedi diystyru'r posibilrwydd o newid neu ostwng trothwyon, hyd yn oed os nad yw siop yn torri'r rheol nwyddau newydd. A ydych chi wedi diystyru hynny ai peidio? Os nad ydych wedi diystyru hynny eto, pa asesiad ydych chi wedi'i gynnal o'r effaith ar gyllid ar gyfer pethau fel ymchwil feddygol, gofal lliniarol, gofal diwedd oes a nyrsys arbenigol?

17:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In response to Eluned Parrott, I made it quite clear that I would come back to the Chamber when I had the responses from the UK Government and the devolved administrations, to give an indication of my direction of travel. I think that I made it absolutely clear what the current position is in my opening statement.

Mewn ymateb i Eluned Parrott, fe'i gwneuthum yn gwbl glir y byddwn yn dod yn ôl i'r Siambr ar ôl cael yr ymatebion gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, er mwyn rhoi syniad i ba gyfeiriad yr wyf yn bwriadu mynd. Rwy'n meddwl imi ei gwneud yn gwbl glir beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd yn fy natganiad agoriadol.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol

Cynnig NDM5250 Carwyn Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Legislative Consent Memorandum on the Intellectual Property Bill

Motion NDM5250 Carwyn Jones

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Intellectual Property Bill, relating to freedom of information, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I move the motion.

Cynigiad y cynnig.



I welcome this opportunity to explain the background to the legislative consent motion. I would also like to thank the Enterprise and Business Committee for its scrutiny of this issue, and I note that the committee has not raised any objections to the motion.

Clause 20 of the Westminster Intellectual Property Bill proposes to amend the Freedom of Information Act 2000 to introduce a new research exemption that will enable public authorities to withhold information in response to a request, where it relates to information obtained in the course of, or derived from, a programme of continuing research that is intended for future publication. That exemption was recommended by the House of Commons Justice Committee as part of its legislative review of the Freedom of Information Act. The new exemption will give research carried out in Wales, England and Northern Ireland the same protection as is currently in Scotland. It is true to say that the USA and the Republic of Ireland also have similar protection for pre-publication research.

I remind Members that the Assembly has legislative competence in the subject area of access to information. It is considered that the provisions fall within the legislative competence of the Assembly and, therefore, the Assembly's consent is required. The exemption is necessary and sensible, I would argue, in order to provide Welsh public authorities with the same protection for pre-publication research as other public bodies throughout the UK. Of course, if the provision did not apply to Wales, that could disadvantage our university sector, in particular. I therefore ask Members to approve the motion.

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Pwyllgor Menter a Busnes am ei waith craffu ar y mater hwn, ac rwy'n nodi nad yw'r pwyllgor wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

Mae cymal 20 o Fil Eiddo Deallusol San Steffan yn cynnig diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i gyflwyno eithriad ymchwil newydd a fydd yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i atal gwybodaeth mewn ymateb i gais, lle mae'n ymwneud â gwybodaeth a gafwyd yn ystod rhaglen o ymchwil barhaus, neu sy'n deillio o raglen o'r fath, ac y bwriadwyd ei chyhoeddi yn y dyfodol. Argymhellwyd yr eithriad gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin fel rhan o'i adolygiad deddfwriaethol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd yr eithriad newydd yn rhoi i ymchwil a wnaed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yr un amddiffyniad ag a geir ar hyn o bryd yn yr Alban. Mae'n wir dweud bod gan yr Unol Daleithiau a Gweriniaeth Iwerddon hefyd amddiffyniad tebyg ar gyfer ymchwil cyn ei gyhoeddi.

Atgoffaf yr Aelodau fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol ym maes mynediad at wybodaeth. Ystyrir bod y darpariaethau yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac, felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad. Mae'r eithriad yn angenrheidiol ac yn synhwyrol, byddwn yn dadlau, er mwyn darparu'r un amddiffyniad i awdurdodau cyhoeddus Cymru ag i gyrrff cyhoeddus eraill ledled y DU ar gyfer ymchwil nad yw wedi'i gyhoeddi eto. Wrth gwrs, pe na byddai'r ddarpariaeth yn berthnasol i Gymru, gallai hynny fod yn anfantais i'n sector prifysgolion, yn arbennig. Gofynnaf felly i Aelodau gymeradwyo'r cynnig.

17:54 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We did look at this at the committee. I just want to make a point of order regarding the agenda in front of us today. The letter from the Chair—me—to the First Minister, 'Points arising from Committee consideration', is not actually the letter that I sent to the First Minister; it is his response to me.

Edrychwyd ar hyn yn y pwyllgor. Rwyf eisiau gwneud pwynt o drefn ynghylch yr agenda o'n blaenau heddiw. Nid y llythyr gan y Cadeirydd—y fi—at Brif Weinidog Cymru, 'Materion yn codi o ystyriaeth y Pwyllgor', mewn gwirionedd yw'r llythyr a anfonais at y Prif Weinidog; ei ymateb i mi ydyw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, do you wish to reply? I see that you do not.

Brif Weinidog, a ydych am ymateb? Gwelaf nad ydych.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## **Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru)**

**Grŵp 1: Monitro, Gwerthuso ac Adrodd (Gwelliannau 1, 8A, 8, 13, 14, 15A, 15B, 15 ac 21)**

## **Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Active Travel (Wales) Bill**

**Group 1: Monitoring, Evaluating and Reporting (Amendments 1, 8A, 8, 13, 14, 15A, 15B, 15 and 21)**

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 1. I call on the Minister to move amendment 1 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 1. Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog i gynnig gwelliant 1 a siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:55

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I move amendment 1 in my name.

Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

I will speak to all of the amendments in this group together.

Byddaf yn siarad am bob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn gyda'i gilydd.

I am very pleased to bring this Bill to the Assembly for its Stage 3 consideration. Wales can be proud of this Bill. There is strong consensus in support, both within and outside the Chamber. I believe that, if approved today, the Bill will achieve a great deal in its primary aim of providing a network of walking and cycling routes. It is also important for sustainable development—our central organising principle.

Rwy'n falch iawn o ddod â'r Bil hwn gerbron y Cynulliad ar gyfer ei ystyriaeth Cyfnod 3. Gall Cymru fod yn falch o'r Bil hwn. Mae consensws cryf o'i blaid, o fewn a'r tu allan i'r Siambr. Rwy'n credu, os caiff ei gymeradwyo heddiw, y bydd y Bil yn cyflawni llawer iawn yn ei brif nod o ddarparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy—ein hegwyddor drefniadol ganolog.

The Bill has significant economic advantages, aiding business by reducing congestion and improving productivity, as people who walk or cycle to work are more punctual and less likely to take sick leave. The Bill has already brought Wales to the attention of cyclists all over the world and I am confident that this will bring extra business for our superb mountain bike facilities and our cycle tourism offer.

Mae gan y Bil fanteision economaidd sylweddol, gan helpu busnes trwy leihau tagfeydd a gwella cynhyrchiant, oherwydd bod pobl sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith yn fwy prydol ac yn llai tebygol o gymryd absenoldeb salwch. Mae'r Bil eisoes wedi dod â Chymru i sylw beicwyr ar draws y byd, ac rwy'n hyderus y bydd hyn yn dod â busnes ychwanegol i'n cyfleusterau beicio mynydd gwych a'n cynnig twristiaeth beicio.

It promotes social justice; a quarter of the people in Wales do not have access to a car. The rising costs of running and insuring a car are a significant barrier, particularly for young people. They need a safe and efficient network of walking and cycling routes that work intelligently with public transport to allow them to get to work or college. And, of course, it has great environmental benefits, reducing emissions and helping to combat climate change.

Mae'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol; nid oes car ar gael i chwarter pobl Cymru. Mae costau cynyddol rhedeg ac yswirio car yn rhwystr sylweddol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc. Mae angen rhwydwaith diogel ac effeithlon o lwybrau cerdded a beicio arnynt, a'r rheiny'n gweithio'n ddeallus gyda thrafnidiaeth gyhoeddus i'w galluogi i fynd i'r gwaith neu'r coleg. Ac, wrth gwrs, daw â manteision amgylcheddol mawr, gan leihau allyriadau a helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Dirprwy Lywydd, passing the Bill is a commitment to improving health and wellbeing. Wales faces major challenges of a lack of physical activity and increasing obesity. By building exercise into people's everyday activities, this Bill will play a major role in helping people to improve their physical and mental wellbeing. This is why monitoring and evaluating the success of the Bill is an important part of ensuring that what we are doing is making a difference to people in Wales. Simply passing a Bill will not improve the quality of life for people in Wales unless it leads to genuine measurable changes in how people travel.

Ddirprwy Lywydd, mae pasio'r Bil yn ymrwymiad i wella iechyd a lles. Mae Cymru'n wynebu heriau mawr o ran diffyg gweithgarwch corfforol a gordewdra cynyddol. Trwy wneud ymarfer corff yn rhan o weithgareddau bob dydd pobl, bydd y Bil hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at helpu pobl i wella eu lles corfforol a meddyliol. Dyna pam fod monitro a gwerthuso llwyddiant y Bil yn rhan bwysig o sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru. Ni fydd pasio Bil yn unig yn gwella ansawdd bywyd pobl yng Nghymru oni bai ei fod yn arwain at newidiadau mesuradwy gwirioneddol yn y ffordd y mae pobl yn teithio.

There were several amendments tabled at Stage 2 to introduce more reporting requirements into the Bill. None of these amendments quite worked for everyone, so I committed to looking at how to reflect this desire for more reporting and monitoring at Stage 3. The amendments that I have tabled introduce new reporting requirements. Amendment 14 will require local authorities to report on the costs that they have incurred in meeting the duty to make year-on-year improvements to our active travel infrastructure.

Cyflwynwyd nifer o welliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys mwy o ofynion adrodd yn y Bil. Nid oedd yr un o'r gwelliannau hyn yn gweithio'n iawn i bawb, felly rwyf wedi ymrwymo i ystyried sut i adlewyrchu'r awydd hwn am fwy o adrodd a monitro yng Nghyfnod 3. Mae'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno yn darparu gofynion adrodd newydd. Bydd gwelliant 14 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar y costau sy'n deillio o gyflawni'r ddyletswydd i wneud gwelliannau fwyddyn ar ôl blwyddyn i'n seilwaith teithio llesol.

Amendment 15 will require Welsh Ministers to publish regular reports on the levels of active travel in Wales, requiring us to show whether our actions are making a difference. Combined with amendment 18, which we will debate as part of group 3—promotion of walking and cycling—these amendments will create a rounded and thorough approach to monitoring, evaluating and reporting on the Bill. These reports will provide information on the activities that local authorities are undertaking. They will provide us with financial information to judge what is being put into delivery, and crucially, they will provide us with evidence about the impact that the Bill is having.

These reporting requirements will provide sufficient information to assess whether the Bill is genuinely helping more people to walk and cycle as part of their everyday lives. They will also provide relevant information that can be used to check our progress and demonstrate what needs to change if our approach is not working.

Dirprwy Lywydd, I appreciate the concerns that Eluned Parrott and Byron Davies have about monitoring the delivery of the Bill. I share the view that we need to be sure that our activities are making a real difference to the people of Wales. We have discussed this in committee, and I have given careful consideration to their views in developing these amendments. However, I am not able to support their amendments as they are drafted. The review of the maps set out in sections 3 and 4 combined with amendment 18 will already require local authorities to demonstrate their infrastructure improvements and promotional activities. These are activities that are within their control, and they should be held to account for delivery. Amendment 8A will require local authorities to duplicate these reports with no clear view as to how this information could be used to improve matters for walkers and cyclists.

I have no difficulties with the principles of amendments 15A and 15B, as these amendments would require the Welsh Government to take steps that I would expect to be taken in any case. We are currently investing £12 million a year into active travel in Wales. This investment is for both infrastructure and promotional activity, including the recent Wales: A Cycling Nation conference. I intend to make this an annual event to confirm our commitment to promoting active travel and sharing best practice. I am resisting amendments 15A and 15B because the drafting will not achieve the aims that the amendments are seeking. In particular, this would be the only reference in the Bill to active travel without reference to routes and/or facilities. 'Active travel' on its own does not have a specific legal meaning. Requiring the Welsh Ministers to collate information will not require publication of that information. We would publish that information in any case, but that would not be required by statute as drafted. The reference to 'statements and information' in amendment 15A should read 'statement and explanation'.

Bydd gwelliant 15 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar y lefelau teithio llesol yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol inni i ddangos a yw ein gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. Ynghyd â gwelliant 18, y byddwn yn ei drafod fel rhan o grŵp 3—hyrwyddo cerdded a beicio—bydd y gwelliannau hyn yn creu dull cyflawn a thrylwyr o fonitro, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar y Bil. Bydd yr adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth am weithgareddau'r awdurdodau lleol. Byddant yn rhoi gwybodaeth ariannol inni i farnu ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu, ac yn hanfodol, byddant yn darparu tystiolaeth inni am yr effaith y mae'r Bil yn ei chael.

Bydd y gofynion adrodd yn darparu digon o wybodaeth i asesu a yw'r Bil wir yn helpu mwy o bobl i gerdded a beicio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Byddant hefyd yn darparu gwybodaeth berthnasol y gellir ei defnyddio i gadarnhau'r hyn a gyflawnwyd a dangos yr hyn sydd angen ei newid os nad yw ein dull yn gweithio.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon sydd gan Eluned Parrott a Byron Davies ynglŷn â monitro gweithrediad y Bil. Rwy'n rhannu'r farn bod angen inni fod yn sicr bod ein gweithgareddau yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl Cymru. Rydym wedi trafod hyn yn y pwyllgor, ac rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'w barn wrth ddatblygu'r gwelliannau hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn gallu cefnogi eu gwelliannau fel y maent wedi eu drafftio. Bydd yr adolygiad o'r mapiau a nodir yn adrannau 3 a 4 ynghyd â gwelliant 18 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos eu gwelliannau i'r seilwaith a'u gweithgareddau hyrwyddo. Mae'r rhain yn weithgareddau sydd o fewn eu rheolaeth, a dylid eu dwyn i gyfrif am eu cyflwyno. Bydd gwelliant 8A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyblygu'r adroddiadau hyn heb unrhyw farn glir o ran sut y gellid defnyddio'r wybodaeth hon i wella pethau ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Nid oes gennyf unrhyw anawsterau gydag egwyddorion gwelliannau 15A a 15B, gan y byddai'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gymryd camau y byddwn yn disgwyl iddynt gael eu cymryd beth bynnag. Ar hyn o bryd rydym yn buddsoddi £12 miliwn y fwyddyn mewn teithio llesol yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad hwn ar gyfer seilwaith a gweithgarwch hyrwyddo, gan gynnwys y gynhadledd ddiweddar Cymru: Cenedl o Feicwyr. Rwy'n bwriadu gwneud hwn yn ddigwyddiad blynyddol i gadarnhau ein hymrwymiad i hyrwyddo teithio llesol a rhannu arfer gorau. Rwy'n gwrthwynebu newidiadau 15A a 15B gan na fydd y drafftio yn cyflawni'r amcanion y mae'r gwelliannau'n eu ceisio. Yn benodol, dyma fyddai'r unig gyfeiriad yn y Bil at deithio llesol heb gyfeirio at lwybrau a / neu gyfleusterau. Nid oes gan 'teithio llesol' ar ei ben ei hun ystyr cyfreithiol penodol. Ni fydd y gofyniad i Weinidogion Cymru gasglu gwybodaeth yn golygu ei bod yn ofynnol cyhoeddi'r wybodaeth honno. Byddem yn cyhoeddi'r wybodaeth beth bynnag, ond ni fyddai hynny'n ofynnol gan statud fel y'i drafftiiwyd. Dylai'r cyfeiriad at 'y datganiadau a'r wybodaeth' yng ngwelliant 15A ddarllen 'y datganiad a'r esboniad'.

Dirprwy Lywydd, these may seem to be insignificant technicalities of drafting, but I believe that we should be passing high-quality legislation in the Assembly. Our reputation as lawmakers is still being built, and we are building it with every Bill that we pass into law. The Active Travel (Wales) Bill has been noted across the globe and may set the template for active travel law in other parts of the UK. We fought hard to get these powers for our country and we must demonstrate the highest standards when we use them. I urge Members to support the amendments that I have tabled and oppose the other amendments.

Ddirprwy Lywydd, efallai y bydd y rhain yn ymddangos yn faterion drafftio technegol dibwys, ond rwy'n credu y dylem fod yn pasio deddfwriaeth o ansawdd uchel yn y Cynulliad. Mae ein henw da fel deddfwyr yn dal i gael ei adeiladu, ac rydym yn ei adeiladu gyda phob Bil yr ydym yn ei basio. Mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) wedi'i nodi ar draws y byd a gall osod y templed ar gyfer cyfraith teithio llesol mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym wedi ymladd yn galed i gael y pwerau hyn ar gyfer ein gwlad a rhaid inni gadw at y safonau uchaf wrth eu defnyddio. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno a gwrthod y gwelliannau eraill.

18:03

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Amendments 15A and 15B seek to improve the Government's amendment 15. That amendment seeks to introduce an obligation on Welsh Ministers to report annually to the Assembly on the nature and extent of active travel journeys made by walkers and cyclists. I have no doubt that the Government hopes that those reports will show annual increases in the numbers of such journeys and provide help to us to monitor and evaluate the Government's success and the Act's efficacy in delivering on policy objectives. What amendment 15 does not do is help us to monitor and evaluate whether that anticipated success has provided value for money. Amendment 15 does not introduce an obligation on Welsh Ministers to report to the Assembly how much this will cost. Minister, you will remember that the committee's evidence on the matter of money was less than enthusiastic, shall we say? There is deep scepticism about the cost implications of this Bill, and it is the uncynical optimist who believes that local authorities will not have to commit to extra funding.

Your amendment 14 imposes a duty on local authorities to report, but to report to Welsh Ministers—you did not mention that in your opening remarks, Minister—the annual costs of new or improved active travel routes and related facilities. So, you will know how much this Act is costing local authorities. I would be grateful, therefore, if you could provide a logical explanation in your reply of why this Bill does not impose a similar duty on Welsh Ministers to report that information to us. Local authorities may be accountable to you, Minister, but you are accountable to the Assembly on behalf of the people of Wales, and it is inequitable for you to insist that local authorities report proactively if AMs cannot expect the same of you. I hear what you say, that you would expect to do this anyway, but it is not good enough to say that we could submit questions to you if you are not prepared to deal with councils on that basis.

I agree with what you say that this place should be making high-quality law. As it stands, amendment 15 allows Welsh Ministers to report on the good news but to leave the bad news to the detective skills of Assembly Members. I think that that is spin, and enshrining spin in legislation is not something that this Assembly should consider. Therefore, I recommend the Welsh Conservative amendment to Members as a way of correcting the reporting imbalance inherent in amendment 15, and improving the transparency of Government activity.

Mae gwelliannau 15A a 15B yn ceisio gwella gwelliant 15 y Llywodraeth. Mae'r gwelliant hwnnw'n ceisio cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Cynulliad ar natur a maint y teithiau teithio llesol a wneir gan gerddwyr a beicwyr. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth fod y Llywodraeth yn gobeithio y bydd yr adroddiadau hynny yn dangos cynnydd blynyddol yn nifer y teithiau o'r fath ac yn ein cynorthwyo i fonitro a gwerthuso llwyddiant y Llywodraeth ac effeithiolrwydd y Ddeddf o ran cyflawni amcanion polisi. Yr hyn nad yw gwelliant 15 yn ei wneud yw ein helpu i fonitro a gwerthuso a yw'r llwyddiant disgwyliedig wedi darparu gwerth am arian. Nid yw gwelliant 15 yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar gost hyn. Weinidog, byddwch yn cofio bod tystiolaeth y pwyllgor ynglŷn ag arian yn llai na brwdfrydig, dywedwn? Ceir amheuon dwfn am oblygiadau cost y Bil hwn, a'r optimist ansinigaidd sy'n credu na fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymrwymo i gyllid ychwanegol.

Mae eich gwelliant 14 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad, ond i gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru—ni wnaethoch sôn am hynny yn eich sylwadau agoriadol, Weinidog—ar gostau blynyddol llwybrau teithio llesol newydd neu well a chyfleusterau cysylltiedig. Felly, byddwch chi'n gwybod faint y mae'r Ddeddf hon yn ei gostio i awdurdodau lleol. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi esboniad rhesymegol yn eich ateb ynghylch pam nad yw'r Bil hwn yn gosod dyletswydd debyg ar Weinidogion Cymru i gyflwyno'r wybodaeth honno i ni. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn atebol i chi, Weinidog, ond rydych chi'n atebol i'r Cynulliad ar ran pobl Cymru, ac mae'n annheg i chi fynnu bod awdurdodau lleol yn adrodd yn rhagweithiol os na all ACau ddisgwyl yr un peth gennyh chi. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, y byddech yn disgwyl gwneud hyn beth bynnag, ond nid yw'n ddigon da dweud y gallem gyflwyno cwestiynau i chi os nad ydych yn barod i ddelio â chynghorau ar y sail honno.

Rwy'n cytuno â'r hyn yr ydych yn ei ddweud y dylai'r lle hwn fod yn gwneud cyfraith o ansawdd uchel. Fel y mae, mae gwelliant 15 yn caniatáu i Weinidogion Cymru adrodd ar y newyddion da ond gadael y newyddion drwg i sgiliau ditectif Aelodau'r Cynulliad. Rwy'n meddwl mai sbin yw hynny, ac nid yw ymgorffori sbin mewn deddfwriaeth yn rhywbeth y dylai'r Cynulliad hwn fod ei ystyried. Felly, rwy'n cymeradwyo gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig i Aelodau fel ffordd o gywiro'r anghydbwysedd cynhenid, o ran adrodd, yng ngwelliant 15, a gwneud gweithgarwch y Llywodraeth yn fwy tryloyw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym yn croesawu'r Bil yn gyffredinol. Mae llawer yn well nag ydoedd pan ddechreuodd ar ei siwrnai, ac rydym yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, gan eu bod yn gorfodi llywodraeth y dydd i adrodd ar weithrediad y cynllun yn flynyddol. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i lawer o'r pryderon a gafodd eu mynegi yn y pwyllgor, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn. Fel dywedais, byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Gweinidog.

Mae gwelliant cyntaf y Llywodraeth yn sicrhau bod adroddiad blynyddol i'r lle hwn ar weithrediad y Bil, ac mae'n cadarnhau'r angen i'r Llywodraeth wneud hynny. Mae hefyd yn sicrhau bod bwriadau'r Bil yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae gwelliant 15 John Griffiths yn dderbyniol iawn, ac rydym yn croesawu hynny, ond rydym yn credu bod y gwelliant yn enw Byron Davies, sy'n sicrhau bod adroddiad ariannol ynghlwm â'r adrodd blynyddol, yn hollbwysig. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod, wrth gwrs, yn bwriadu adrodd ar wariant y Llywodraeth yn y maes hwn yn flynyddol, ond ni fydd y Gweinidog hwn yn Weinidog am byth. Mae'n anodd credu hynny ac yntau wedi bod yn hollbresennol, bron, ar feinciau'r Llywodraeth yn y blynyddoedd diwethaf, ond fe ddaw amser pan na fydd ef yma am ryw reswm neu'i gilydd. Mae'n bwysig, felly, bod 'commitment' yn y Bil i adrodd ar yr adnoddau y mae'r Llywodraeth yn eu darparu i lywodraeth leol ar gyfer gwireddu'r bwriadau hyn. Mae'n ddigon hawdd dweud bod yn rhaid i lywodraeth leol adrodd yn ôl ar wariant, ond os nad oes sicrwydd bod llywodraeth y dydd yn ariannu llywodraeth leol er mwyn cyflawni hyn, rwy'n credu bod hynny'n ddiffygiol. Dyna pam rydym yn credu y dylid cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Byron Davies.

Generally speaking, we welcome the Bill. It is far better now than it was when it started on its journey, and we support the Government amendments that have been tabled, because they would force the government of the day to report on the implementation of the scheme on an annual basis. We acknowledge that the Minister has responded positively to many of the concerns expressed in the committee, and we appreciate that very much. As I said, we will be supporting the Minister's amendments.

The first Government amendment would ensure that there is an annual report to this place on the implementation of the Bill, and it confirms the requirement on the Government to do that. It would also ensure that the intentions of the Bill are fully implemented. Amendment 15 in the name of John Griffiths is acceptable, and we welcome that, but we also believe that the amendment tabled in the name of Byron Davies, which would ensure the production of a financial report alongside the annual report, is crucially important. The Minister has stated that he, of course, intends to report on Government expenditure in this area on an annual basis, but the Minister here will not be Minister forever. It is difficult to believe that, given that he has been ever present, almost, on the Government benches over the past few years, but the time will come when he is no longer here for one reason or another. It is important therefore that there should be a commitment within this Bill to report on the resources that the Government has made available to local government to implement these aspirations. It is easy enough to say that local government must report back on expenditure, but if there is no assurance that the government of the day will fund local government to achieve this, then that is deficient. That is why we believe that the amendment tabled in the name of Byron Davies should be supported.

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish to seek some clarification from the Minister at the outset of these Stage 3 proceedings that the shared surfaces that I have mentioned at virtually every opportunity when we have discussed active travel, will be taken into consideration. I would also like clarification that, when authorities or you report to this Assembly, we make sure that authorities are not offloading what they should have already been doing under their equality impact assessment on their cycleways, and that the Welsh Government, in its spirit of moving forward, does not let authorities off the hook on their equality impact assessments.

Hoffwn geisio mwy o eglurder gan y Gweinidog ar ddechrau'r trafodion Cyfnod 3 bod yr arwynebau a rennir y soniais amdanynt ar bron bob cyfle pan oeddem yn trafod teithio llesol, yn cael eu hystyried. Hoffwn hefyd gael gwybod, pan fydd awdurdodau lleol neu chi'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad hwn, ein bod yn gwneud yn siŵr nad yw awdurdodau yn dadlwytho'r hyn y dylent fod wedi bod yn ei wneud eisoes o dan eu hasesiad effaith ar gydraddoldeb ar eu llwybrau beicio, ac nad yw Llywodraeth Cymru, yn ei hawydd i symud ymlaen, yn caniatáu i awdurdodau osgoi eu dyletswyddau o ran asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

The Welsh Liberal Democrats are pleased to support the Active Travel (Wales) Bill, which seeks to encourage people to travel in more sustainable ways. The Bill has grown and evolved, and I believe that it is a more comprehensive, ambitious and effective piece of legislation as a result. Research released by Sustrans in August, 'Short journeys, big savings', revealed that the average driver makes 464 short car journeys a year. This means that every driver travels, on average, over 1,200 miles in short trips, or a return journey from Land's End to John O'Groats. It is these short journeys that we are trying to change, as we try to encourage a modal shift that will see people get out of their car and walk or cycle instead.

To see whether the Bill is achieving this aim, we will need to measure the rate of walking and cycling to determine whether there has been an increase to enable us to identify improvements that can be made in the future. We welcome the fact that the Government is acknowledging the need to report on the level of infrastructure usage through amendment 8. We thank the Minister for taking our views in previous Stages on board. However, we believe that there is an issue of clarity with the drafting here, and I totally agree with you, Minister, that we must hold ourselves to the highest possible standards with our new legislative powers. So, I would ask you to think carefully about this issue.

In asking how the level of active travel has changed, you could read it in two possible ways: you could read it as asking for a volume measure of the change in active travel, which is perhaps, I believe, what you were hoping to ask for; alternatively, you could be asking local authorities to describe how the change was achieved. The two are slightly different things, which the lack of clarity in the drafting makes possible. Our amendment simply seeks to add clarity is what we think is your attention here, to ensure that local authorities report on the change in the level of usage as a volume measure, and on how that change has been achieved.

We will support all the amendments in this group, and, in particular, we welcome the requirement for local authorities to report on the costs they incur in securing continuous improvement, as this recognises the need to monitor the financial implications for local authorities. However, we do not believe that this goes quite far enough, and we therefore support the amendments from Byron Davies that will ensure that Welsh Ministers collate information on costs when carrying out their own annual reporting duty, and that they report on the funding that they are making available to enable local authorities to push this forward.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch o gefnogi'r Bil Teithio Llesol (Cymru), sy'n ceisio annog pobl i deithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Mae'r Bil wedi tyfu ac esblygu, ac rwy'n credu ei fod yn ddarn mwy cynhwysfawr, uchelgeisiol ac effeithiol o ddeddfwriaeth o ganlyniad. Dangosodd ymchwil a ryddhawyd gan Sustrans ym mis Awst, 'Short journeys, big savings', bod y gyrrwr cyfartalog yn gwneud 464 o deithiau byr yn y car y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod pob gyrrwr yn teithio, ar gyfartaledd, dros 1,200 o filltiroedd mewn teithiau byr, neu daith o Land's End i John O'Groats ac yn ôl. Y teithiau byr hyn yr ydym yn ceisio eu newid, wrth i ni geisio annog newid a fydd yn gweld pobl yn dod allan o'u ceir a cherdded neu feicio yn lle hynny.

I weld a yw'r Bil yn cyflawni'r nod hwn, bydd angen inni fesur cyfradd cerdded a beicio i benderfynu a fu cynnydd, er mwyn ein galluogi i nodi gwelliannau y gellir eu gwneud yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth yn cydnabod yr angen i adrodd ar lefel y defnydd o'r seilwaith drwy welliant 8. Rydym yn diolch i'r Gweinidog am ystyried ein barn mewn Cyfnodau blaenorol. Fodd bynnag, credwn fod problem o ran eglurder y drafftio yma, ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi, Weiniidog, bod yn rhaid inni fynnu'r safonau uchaf posibl inni ein hunain gyda'n pwerau deddfwriaethol newydd. Felly, byddwn yn gofyn i chi feddwl yn ofalus am y mater hwn.

Wrth ofyn sut y mae lefel y teithio llesol wedi newid, fe allech chi ddarllen hynny mewn dwy ffordd bosibl: gallech ei ddarllen fel bod yn gofyn am fesur cyfanswm y newid mewn teithio llesol, sydd efallai, rwy'n credu, yr hyn yr oeddech yn gobeithio gofyn amdano; fel arall, gallech fod yn gofyn i awdurdodau lleol ddisgrifio sut y cyflawnwyd y newid. Mae'r ddau yn bethau ychydig yn wahanol, sy'n bosibl oherwydd y diffyg eglurder yn y drafftio. Mae ein gwelliant yn syml yn ceisio gwneud yr hyn y credwn eich bod yn canolbwyntio yma yn fwy eglur, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiad ar y newid yn lefel y defnydd fel mesur o'r cyfanswm, ac ar sut y mae'r newid wedi cael ei gyflawni.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau yn y grŵp hwn, ac, yn benodol, rydym yn croesawu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar y costau sy'n deillio o sicrhau gwelliant parhaus, gan fod hyn yn cydnabod yr angen i fonitro'r goblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn mynd yn ddigon pell, ac felly rydym yn cefnogi'r gwelliannau gan Byron Davies a fydd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn casglu gwybodaeth am gostau wrth gyflawni eu dyletswydd adrodd blynyddol eu hunain, a'u bod yn cyflwyno adroddiad ar y cyllid y maent yn sicrhau fydd ar gael i alluogi awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â hyn.

The active travel Bill, we all believe, has excellent intentions, and it sends a really important signal that we are serious about changing Wales's culture of car dependency for the future. However, it is inevitable that the implementation will not be without costs for local authorities. It is important that we are able to monitor this to ensure that the expectations that we are putting forward are reasonable and that future provision is adequately costed and funded, so that the future is bright for this particular Bill.

Rydym i gyd yn credu bod bwriadau'r Bil teithio llesol yn rhagorol, ac mae'n rhoi neges bwysig iawn ein bod o ddirif ynglŷn â newid diwylliant Cymru o ddibyniaeth ar y car ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd costau ar gyfer awdurdodau lleol yn sgil ei roi ar waith. Mae'n bwysig ein bod yn gallu monitro hyn i sicrhau bod y disgwyliadau yr ydym yn eu cyflwyno yn rhesymol a bod y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei chostio a'i hariannu'n ddigonol, fel bod y dyfodol yn ddisglair ar gyfer y Bil penodol hwn.

18:12

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bleser gennyf innau siarad am y grŵp hwn o welliannau i Fil Teithio Llesol (Cymru). Rwy'n hoff iawn o'r cyfieithiad i'r Gymraeg—pwy bynnag a'i gwnaeth; cyfieithwyr i'r Llywodraeth, mae'n debyg—oherwydd mae'n cyfeirio at ffaith bod teithio gweithgar, heini—gwel i mi beidio â dweud 'hoyw', achos mae hynny'n gallu golygu rhywbeth arall—yn gorfforol yn llesol i'r unigolyn, y gymuned a'r amgylchedd.

It is a pleasure to speak to this group of amendments to the Active Travel (Wales) Bill. I am very fond of the Welsh translation—whomever came up with it; probably translators within the Welsh Government—because it refers to the fact that active, healthy travel—I had better not use the word 'hoyw' because that can mean something else entirely—and physically active travel, is beneficial to the individual, to the community and to the environment.

Roedd hefyd yn bleser gennyf fod yn rhan o'r seremoni pan gyflwynwyd y syniad hwn am y tro cyntaf ar ffurf deiseb—rwy'n meddwl mai chwe blynedd yn ôl yr oedd hynny. Os ydw i yn anghywir, bydd Lee Waters wedi anfon e-bost ataf cyn i mi eistedd i lawr, ond rwy'n meddwl mai chwe blynedd yn ôl y derbynwyd y ddeiseb gyntaf. Yr hyn a oedd yn ddiddorol i mi yn y cyfnod hwnnw oedd trial pyslo sut y byddai Llywodraeth a drafftwy'r Bil yn troi'r awydd hon i newid agwedd pobl—newid arferion pobl drwy newid eu hagwedd—yn ddeddfwriaeth. Rhaid imi ganmol y modd y mae'r Gweinidog wedi dod yn nes at ei goed, fel petai—roedd yng nghanol y coed, chwarae teg iddo, ddydd Gwener diwethaf, yng Nghoed-y-Brenin, ar ei feic, yn dangos ei fod yn deithiwr llesol, adeg agor yr estyniad, neu'r rhan newydd, i'r ganolfan sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn y fan honno. Rwy'n sicr y bydd llawer o ddefnydd o'r lle hwnnw ar gyfer ymarferion awyr agored. Mae'r Gweinidog wedi dod yn nes atom ni drwy'r broses hon, lle'r ydym wedi dilyn y Bil.

It was also a pleasure to participate in the ceremony at which this concept was first introduced in the form of a petition—I think that that was around six years ago. If I am wrong, Lee Waters will have sent me an e-mail before I have sat down, but I believe that it was six years ago that we received the initial petition. What was interesting to me during that period was puzzling how the Government and those drafting the Bill would turn this aspiration for a change in people's attitude—changing people's habits through changing their attitude—into legislation. I must praise the way in which the Minister has moved on these matters—he was in the middle of the woods, fair play to him, last Friday, on his bike in Coed-y-Brenin, showing that he himself was an active traveller. He was there to open the extension, or the new part of the centre that Natural Resources Wales has at Coed-y-Brenin. I am sure that great usage will be made of that facility for outdoor exercise. The Minister has moved closer to us through this process, as we have followed the course of the Bill.

Mae'r Bil wedi datblygu o osod pwerau ar eraill i fapio llwybrau a gwneud darpariaeth, boed yn llywodraeth leol neu yn gyrrff cyhoeddus eraill, i sefyllfa lle mae gofynion newydd. Dyna pam y byddaf yn cefnogi gweddill y welliannau hefyd. Ond mae gennyf un cwestiwn am y welliannau hyn. Os ydym yn gosod cyfrifoldeb—pwynt Suzy Davies oedd hwn—ac os yw'r Gweinidog yn gosod cyfrifoldeb ar lywodraeth leol, mae'r ffigurau hynny ar gael, ac felly, maent ar gael yn gyhoeddus. Maent yn rhan o wybodaeth yr adran berthnasol a'r Gweinidog perthnasol. Felly, fe all unrhyw bwyllgor y Cynulliad neu Aelod o'r Cynulliad gael gafael ar y ffigurau hyn yn union syth. Nid wyf yn siŵr a yw'r syniad hwn o geisio gorfodi'r Llywodraeth drwy ddeddf i ddangos beth sydd yn ei chyllideb yn ffordd ddefnyddiol o ddeddfu. Ond mater o ddadl yw hynny.

The Bill has evolved from placing responsibilities on others to map routes and to make provision, be they within local government or other public bodies, to a position where there are new requirements. That is why I will also be supporting the rest of the amendments. However, I have one question on these amendments. If we are placing responsibility—and this was Suzy Davies's point—and if the Minister places a responsibility on local government, then those figures are available and, therefore, are available publicly. The figures form part of the information held by the relevant department and the relevant Minister. Therefore, any Assembly committee or any Assembly member can access those figures immediately. I am not sure whether this concept of trying to require the Government, through legislation, to show what is in its budget is that useful a way of legislating. However, that is a matter for debate.

Mater pwysicach, rwy'n meddwl, yw mai'r unig ffordd i'r Bil lwyddo pan ddaw yn Ddeddf yw i'r ymagwedd hon ddod yn rhan sylfaenol o gynllunio pob math o drafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n rhaid iddi fod yn rhan o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ac o'r modd mae'r cynllun cenedlaethol hwnnw wedyn yn cael ei weithredu yn lleol.

A more important point, I believe, is that the only way that this Bill is going to succeed when enacted is that this attitude should become a fundamental part of the planning of all kinds of transport in Wales. We must ensure that it is part of the national transport plan and how that national plan is then implemented at a local level.

Rwy'n falch, fel y dywedodd y Gweinidog, o'r sylw rhyngwladol mae'r deddfu hwn wedi'i dderbyn. Dyma'r ail waith eleni i ni yn y Senedd hon fod yn deddfu ar fater sydd wedi cael sylw rhyngwladol. Roedd y ddeddfwriaeth ar organau yn ddeddfwriaeth arloesol, fel mae'r deddfwriaeth hon hefyd. Rwy'n falch o fod yn rhan o'r broses hon, oherwydd pethau fel hyn yw diben datganoli.

I am pleased, as the Minister said, of the international attention that this legislation process has attracted. This is the second time this year that we in this Senedd have been legislating on an issue that has received international coverage. The organ legislation was ground breaking, as is this legislation. I am pleased to play a part in this process, because that is why we have devolution.

18:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddatl.

18:16 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

First, I thank Members for their general support for this legislation, and their recognition of its significance and importance, and also the fact that we have strengthened the legislation as we have gone through the legislative process.

Yn gyntaf, rwy'n diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth gyffredinol i'r ddeddfwriaeth hon, a'u cydnabyddiaeth o'i harwyddocâd a'i phwysigrwydd, a hefyd y ffaith ein bod wedi cryfhau'r ddeddfwriaeth wrth fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol.

With regard to some of the specific points, in terms of shared use of routes, this will be dealt with in the design guidance, and I very much recognise the issues that Ann Jones mentioned. Of course, the Equalities Act also relates to local authorities and is pertinent to these issues, but it will be dealt with in the design guidance.

O ran rhai o'r pwyntiau penodol, o safbwynt defnyddwyr yn rhannu llwybrau, ymdrinnir â hyn yn y canllawiau dylunio, ac rwyf yn sicr yn cydnabod y materion a grybwyllwyd gan Ann Jones. Wrth gwrs, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol ac mae'n berthnasol i'r materion hyn, ond ymdrinnir â hyn yn y canllawiau dylunio.

There are of course mechanisms for monitoring Welsh Government expenditure available to AMs around our budget processes, for example, and we have to recognise that, as has been stated in terms of the debate on these amendments. It is in fact quite unusual to have monitoring and reporting requirements included on the face of legislation, and that is because that would happen anyway—it is generally good practice to make sure that what we are delivering is making a real difference. I noticed the strength of feeling among Assembly Members as we went through the scrutiny process, but I still feel that reporting requirements have to be proportionate and reasonable. We do not want too much resource to be funnelled into producing monitoring reports instead of creating the active travel routes and promoting them effectively. I recognise local authorities' concerns about the affordability of duties, and Welsh Government is committed to meeting the costs of delivering this Bill. However, it is the case that the more resource we spend on producing detailed and complex monitoring reports, the less there is to actually deliver the core provisions of the Bill.

Mae mecanweithiau ar gael i Aelodau'r Cynulliad, wrth gwrs, ar gyfer monitro gwariant Llywodraeth Cymru, er enghraifft o gwmpas ein prosesau cyllideb, a rhaid inni gydnabod hynny, fel y nodwyd o ran y ddatl ar y gwelliannau hyn. Mewn gwirionedd mae'n eithaf anarferol cynnwys gofynion monitro ac adrodd ar wyneb y ddeddfwriaeth, oherwydd y byddai hynny'n digwydd beth bynnag—yn gyffredinol mae'n arfer da i wneud yn siŵr bod yr hyn a ddarparwn yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Sylwais ar gryfder y teimladau ymhlith Aelodau'r Cynulliad wrth inni fynd drwy'r broses graffu, ond rwy'n dal i deimlo bod yn rhaid i ofynion adrodd fod yn gymesur ac yn rhesymol. Nid ydym am i ormod o adnoddau gael eu sianelu i baratoi adroddiadau monitro yn lle creu'r llwybrau teithio llesol a'u hyrwyddo'n effeithiol. Rwy'n cydnabod pryderon awdurdodau lleol ynglŷn â sicrhau bod dyletswyddau'n fforddiadwy, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gwrdd â chostau cyflwyno'r Bil hwn. Fodd bynnag, mae'n wir mai po fwyaf o adnoddau y byddwn yn eu gwario ar baratoi adroddiadau monitro manwl a chymhleth, y lleiaf a fydd ar gael i gyflawni'r darpariaethau craidd y Bil.

18:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 2: Dyletswyddau Traffig Ffyrdd a Phriffyrdd (Gwelliannau 2, 16, 17, 22 a 23)**

**Group 2: Highways and Road Traffic Duties (Amendments 2, 16, 17, 22 and 23)**



18:19	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	The lead amendment in the group is amendment 2. I call on the Minister to move amendment 2 and to speak to it and the other amendments in the group.	Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 2. Galwaf ar y Dirprwy Brif Weinidog i gynnig gwelliant 2 a siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
18:19	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	I move amendment 2 in my name.	Cynigïaf welliant 2 yn fy enw i.
	I will speak to all the amendments in this group together.	Byddaf yn siarad am yr holl welliannau yn y grŵp hwn gyda'i gilydd.
	<p>Section 8 of the Bill requires local authorities to take reasonable steps to enhance provision for walkers and cyclists whenever they construct or improve highways. Amendment 16 extends this requirement to a range of other highway functions, including maintenance, land acquisition and more. This amendment strengthens the Bill by placing a higher priority on enhancing provision for walkers and cyclists. However, I recognise that there are other highway functions that can cause disruption for active travellers, and where their needs could be given more consideration.</p>	<p>Mae adran 8 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr pryd bynnag y maent yn adeiladu neu'n gwella priffyrdd. Mae gwelliant 16 yn ymestyn y gofyniad hwn i ystod o swyddogaethau priffyrdd eraill, gan gynnwys cynnal a chadw, caffael tir a mwy. Mae'r gwelliant hwn yn cryfhau'r Bil trwy roi blaenoriaeth uwch ar wella darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod swyddogaethau priffyrdd eraill sy'n gallu tarfu ar deithwyr llesol, a lle y gellid rhoi mwy o sylw i'w hanghenion.</p>
	<p>It may not be possible to enhance provision for walkers and cyclists during road works or when exercising parking duties, but that does not mean that the needs of walkers and cyclists should not be given prime consideration at these points. Road closures should not force walkers and cyclists onto overly long or dangerous diversions. Parking layouts should not make it harder for pedestrians to cross the road. Network management activities should reflect that pedestrians and cyclists have different travel patterns and needs to motorised vehicles. To address this, amendment 17 will require Welsh Ministers and local authorities to have regard to the needs of walkers and cyclists when exercising a range of traffic management functions.</p>	<p>Efallai na fydd modd gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn ystod gwaith ar y ffordd neu wrth gyflawni dyletswyddau parcio, ond nid yw hynny'n golygu na ddylai anghenion cerddwyr a beicwyr gael prif ystyriaeth ar yr adegau hyn. Ni ddylai cerddwyr a beicwyr gael eu gorfodi ar wyriadau rhy hir neu beryglus pan fydd ffyrdd ar gau. Ni ddylai'r modd y trefnir manau parcio ei gwneud yn fwy anodd i gerddwyr groesi'r ffordd. Dylai gweithgareddau rheoli rhwydwaith adlewyrchu'r ffaith bod gan gerddwyr a beicwyr batrymau ac anghenion teithio gwahanol i gerbydau modur. I ymdrin â hyn, bydd gwelliant 17 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer ystod o swyddogaethau rheoli traffig.</p>
18:20	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We welcome the amendments in this section that reflect the principle of our amendment at Stage 2 regarding the provision for walkers and cyclists when delivering and improving highway schemes. The committee considered this issue in some depth and recommended a presumption that there will be enhanced provision made for walkers and cyclists in schemes for the creation or improvement of highways. Although the Government amendment does not go that far, we recognise the concern expressed by the Minister in committee that a presumption could lead to provision that provides poor value for money or leads to highway schemes not proceeding where they are required.</p>	<p>Rydym yn croesawu'r gwelliannau yn yr adran hon sy'n adlewyrchu egwyddor ein gwelliant yng Nghyfnod 2 ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth gyflwyno a gwella cynlluniau priffyrdd. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth fanwl i'r mater hwn ac mae wedi argymhell rhagdybiaeth y gwneir gwell darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr mewn cynlluniau ar gyfer creu neu wella priffyrdd. Er nad yw gwelliant y Llywodraeth yn mynd mor bell â hynny, rydym yn cydnabod y pryder a fynegwyd gan y Gweinidog yn y pwyllgor y gallai rhagdybiaeth arwain at ddarpariaeth sy'n rhoi gwerth gwael am arian neu beri i gynlluniau priffyrdd beidio â mynd rhagddynt lle mae eu hangen.</p>
	<p>A requirement to take reasonable steps to enhance the provision for walkers and cyclists and to have regard to their needs is therefore very welcome, Minister. It will ensure that facilities for walkers and cyclists are considered when creating and improving highways and that there is more adequate provision when road works are being carried out. We will, therefore, support the amendments in this section.</p>	<p>Felly, mae gofyniad i gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ac i ystyried eu hanghenion, i'w groesawu'n fawr, Weinidog. Bydd yn sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn cael eu hystyried wrth greu a gwella priffyrdd ac y gwneir darpariaeth fwy digonol wrth gynnal gwaith ar y ffordd. Byddwn, felly, yn cefnogi'r gwelliannau yn yr adran hon.</p>

- 18:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I call the Minister to reply. Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.
- 18:21 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I thank the Member for that support. Diolch i'r Aelod am y gefnogaeth honno.
- 18:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The question is that the amendment 2 be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.  
*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36* *Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36*
- Grŵp 3: Hyrwyddo cerdded a beicio (Gwelliannau 3, 3A, 12A, 12, 18A, 18B, 18, 19A, 19, 24A a 24)** **Group 3: Promotion of walking and cycling (Amendments 3, 3A, 12A, 12, 18A, 18B, 18, 19A, 19, 24A and 24)**
- 18:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The lead amendment in this group is amendment 3. I call on the Minister to move amendment 3 and to speak to the other amendment in the group. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 3 a siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.
- 18:22 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I move amendment 3 in my name. I will speak to all of the amendments in this group together. Cynigaf welliant 3 yn fy enw i. Byddaf yn siarad am bob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn gyda'i gilydd.  
  
During the scrutiny of this Bill, we have heard about how the promotion of active travel will further our aims of enabling more people to undertake active travel. I agree that the promotion of active travel will be an important factor in achieving the behaviour change that we are looking for. There were several non-Government amendments tabled at Stage 2 to expand the Bill to include the promotion of active travel. The principles of these amendments were right, but there were some problems with how they were drafted. I am very glad to be able to bring forward amendments that will address these principles and enshrine them in law. Wrth graffu ar y Bil hwn, rydym wedi clywed sut y bydd y gwaith o hyrwyddo teithio llesol yn hyrwyddo ein hamcanion o alluogi mwy o bobl i ymgymryd â theithio llesol. Rwy'n cytuno y bydd y gwaith o hyrwyddo teithio llesol yn ffactor pwysig wrth gyflawni'r newid ymddygiad yr ydym yn ei geisio. Cyflwynwyd nifer o welliannau anllwydraethol yng Nghyfnod 2 i ehangu'r Bil i gynnwys hyrwyddo teithio llesol. Roedd egwyddorion y gwelliannau hyn yn iawn, ond cafwyd rhai problemau gyda'r modd y cawsant eu drafftio. Rwy'n falch iawn o allu cyflwyno gwelliannau a fydd yn mynd i'r afael â'r egwyddorion hyn ac yn eu hymgorffori mewn cyfraith.  
  
I have brought forward amendments that will require Welsh Ministers and local authorities to promote active travel in exercising their functions under this Bill. I have also tabled amendments that require Welsh Ministers to have regard to the desirability of promoting active travel in issuing guidance or directions under this Bill and require local authorities to have regard to the desirability of active travel in preparing their integrated network plans. We have always said that we want local authorities to produce ambitious plans for creating an integrated network for active travel. Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn. Rwyf hefyd wedi cyflwyno gwelliannau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried dymunoldeb hyrwyddo teithio llesol wrth gyhoeddi canllawiau neu gyfarwyddiadau o dan y Bil hwn ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i ddymunoldeb teithio llesol wrth baratoi eu cynlluniau rhwydwaith integredig. Rydym bob amser wedi dweud ein bod am i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau uchelgeisiol er mwyn creu rhwydwaith integredig ar gyfer teithio llesol.

Amendment 12 will help to ensure that local authorities produce plans that have regard to the desirability of promoting active travel journeys. These amendments are comprehensive and cover the full range of the promotion of active travel. I have deliberately kept them flexible to maximise the opportunities open to Welsh Ministers and local authorities to promote active travel.

For that reason, I do not think that Eluned Parrott's amendments are going to help further this agenda. The appropriate use of active travel routes is already implicit within the promotion of active travel. I am concerned that highlighting it in this way is going to distort the kind of promotional activities that will take place. It gives the impression that the appropriate use of routes should be given greater priority than other promotional activities, such as encouraging people to change their mode of transport in the first place. I am also concerned that this amendment may encourage undue caution in local authorities, leading them to avoid more creative and innovative types of infrastructure.

I agree with Alun Ffred Jones that active travel is a very desirable mode of transport, especially for short journeys, but I cannot support this amendment. I spoke earlier about the Assembly's reputation as lawmaker and the need for us to maintain the highest standards when making law. The advice that I have received is that this amendment is not a workable proposition in law. This provision would mean that Welsh Ministers and local authorities should be seeking to make active travel the best way for a person to travel for all short journeys, not just the journeys where active travel could be more pleasant, quicker, easier or more practical. There are also issues of age and physical health.

What is workable is to say that Welsh Ministers and local authorities should encourage people to take their bike or walk by promoting the benefits of active travel to them. Local authorities may cut down the time that the journey takes by putting in a dedicated cycling lane that avoids traffic lights and dangerous junctions. They could provide bikes in towns and cities that are free or cheap to use. They can provide shelters in shopping streets or better public facilities to make the trip more pleasant. However, this provision is already there in paragraphs a and b:

'promote active travel journeys and secure new and improved active travel routes and related facilities'.

As well as the concept, there are other problems with the drafting. The provision is vague and subjective, and does not use terminology that is consistent with the rest of the Bill. As I mentioned earlier, there is no legal definition of active travel. I understand the sentiment of this amendment, but I cannot support it for these reasons.

Bydd gwelliant 12 yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn paratoi cynlluniau sy'n ystyried dymunoldeb hyrwyddo teithiau llesol. Mae'r gwelliannau hyn yn gynhwysfawr ac yn cwmpasu ystod lawn y gwaith o hyrwyddo teithio llesol. Rwyf yn fwriadol wedi eu cadw'n hyblyg i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gael i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol.

Am y rheswm hwnnw, nid wyf yn credu y bydd gwelliannau Eluned Parrott yn helpu i symud yr agenda hon yn ei blaen. Mae'r defnydd priodol o lwybrau teithio llesol eisoes ymhlwg yn y gwaith o hyrwyddo teithio llesol. Rwy'n pryderu y gellid ystumio'r math o weithgareddau hyrwyddo a fydd yn digwydd trwy ei amlygu yn y modd hwn. Mae'n rhoi'r argraff y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r defnydd priodol o lwybrau nag i weithgareddau hyrwyddo eraill, megis annog pobl i newid eu dull o deithio yn y lle cyntaf. Rwy'n pryderu hefyd y gallai'r gwelliant hwn annog awdurdodau lleol i fod yn orofalus, gan achosi iddynt osgoi mathau mwy creadigol ac arloesol o seilwaith.

Rwy'n cytuno ag Alun Ffred Jones bod teithio llesol yn ddull dymunol iawn o deithio, yn enwedig ar gyfer teithiau byr, ond ni allaf gefnogi'r gwelliant hwn. Siaradais yn gynharach am enw da'r Cynulliad fel deddfwr a'r angen inni gynnal y safonau uchaf wrth wneud deddfau. Y cyngor yr wyf wedi'i gael yw nad yw'r gwelliant hwn yn gynning ymarferol o safbwynt y gyfraith. Byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu y dylai Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol fod yn ceisio gwneud teithio llesol y ffordd orau i rywun deithio ar gyfer pob taith fer, nid dim ond y teithiau lle gallai teithio llesol fod yn fwy dymunol, yn gyflymach, yn haws neu'n fwy ymarferol. Rhaid ystyried materion oedran ac iechyd corfforol hefyd.

Yr hyn sy'n ymarferol yw dweud y dylai Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol annog pobl i fynd â'u beic neu gerdded drwy hyrwyddo manteision teithio llesol iddynt. Fe allai awdurdodau lleol gwtogi'r amser y mae'r daith yn ei chymryd drwy osod lôn feicio bwrpasol sy'n osgoi goleuadau traffig a chyffyrdd peryglus. Gallent ddarparu beiciau mewn trefi a dinasoedd sy'n rhad neu am ddim i'w defnyddio. Gallant ddarparu llochesi mewn strydoedd siopa neu well cyfleusterau cyhoeddus i wneud y daith yn fwy dymunol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon eisoes yno ym mharagraffau a a b:

'hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell.'

Yn ogystal â'r cysyniad, ceir problemau eraill gyda'r drafftio. Mae'r ddarpariaeth yn amwys ac yn oddrychol, ac nid yw'n defnyddio terminoleg sy'n gyson â gweddill y Bil. Fel y soniais yn gynharach, nid oes diffiniad cyfreithiol o deithio llesol. Rwy'n deall y bwriad wrth wraidd y gwelliant hwn, ond ni allaf ei gefnogi am y rhesymau hyn.

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hoffwn ddweud yn gyntaf fod y gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno gan y Gweinidog yn yr adran hon yn cyflawni rhywbeth a oedd yn gwbl absennol o'r Bil pan ddechreuodd ar ei daith. Mae'r newid hwn yn un sylweddol iawn, ac rydym yn diolch i'r Gweinidog am ymateb i sylwadau a wnaed yn y pwyllgor ac, wrth gwrs, gan dystion a oedd yn ymddangos o'n blaenau.

I would like to start by saying that the amendments tabled by the Minister in this group achieve something that was completely absent from the Bill when it started its journey. It is a very significant change, and we are grateful to the Minister for responding to comments made in committee and, of course, by witnesses who appeared before us.

Mae fy enw hefyd i lawr yn cefnogi gwelliannau sydd wedi cael eu rhoi yn enw Eluned Parrott, ac rwy'n credu mai ceisio gwarchod defnyddwyr bregus y mae'r gwelliannau hynny. Fodd bynnag, er fy mod wedi cefnogi'r gwelliannau, ac fy mod yn rhannu consŷrn a phryderon Eluned Parrott, rwy'n derbyn dadl y Gweinidog bod y gair 'priodol' yn creu problemau, o bosibl, achos ei bod yn amlwg, felly, os oes llwybrau priodol, mae llwybrau amhriodol hefyd. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai awdurdod lleol yn amharod i symud ymlaen gyda chynllun.

My name is also down in support of the amendments tabled by Eluned Parrott, and I believe that those amendments aim to protect vulnerable users. However, despite having supported those amendments, and despite sharing Eluned Parrott's concerns, I accept the Minister's argument that the word 'appropriate' could cause problems, because if there are appropriate routes, it is clear that there are also inappropriate routes. That could lead to a situation whereby a local authority would be unwilling to progress with a scheme.

Gan droi at ein gwelliant ni—yr unig welliant, mewn gwirionedd—sef gwelliant 18, sydd wedi cael ei gyflwyno yn fy enw i, roeddem yn dweud o'r cychwyn ein bod eisiau gweld y Bil hwn yn cael ei gryfhau. Rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn ychwanegu at y ddyletswydd i gyflawni bwriad y Bil trwy wneud yn siŵr mai teithio llesol y'r ffordd fwyaf dymunol i deithio ar siwrneiau byr.

Turning to our amendment—the only amendment, in effect—namely amendment 18 in my name, we have been saying all along that we want to see this Bill strengthened. I believe that this amendment adds to the duty of achieving the Bill's aims by ensuring that active travel is the most desirable way of undertaking short journeys.

Mae'n ddiddorol iawn; er bod y Gweinidog yn credu nad yw'r gair 'dymunol' yn un y gellid ei ddiffinio, mae wedi defnyddio'r gair 'desirable' a 'desirability' sawl gwaith wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn. Mae wedi disgrifio'n union beth yw 'dymunol' yng nghyd-destun teithio llesol wrth ymateb a disgrifio'r hyn y mae'r Bil yn ceisio ei wneud. Yr hyn rydym ni yn ei ddweud yw y dylai llywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog weld y Bil hwn fel ffordd o greu amodau fel bod pobl yn dewis y ffyrdd hyn o deithio—cerdded neu feicio—ar gyfer teithiau byr. Dyna pam rydym yn glynu at ein bwriad, oherwydd ein bod yn credu y byddai'r gwelliant hwn yn cryfhau'r Bil. Wrth gwrs, os yw'n cael ei wrthod, rydym yn cefnogi gwelliant y Gweinidog.

It is very interesting; even though the Minister does not believe that the word 'desirable' can be defined, he has said 'desirable' and 'desirability' many times in moving these amendments. He has described fully the meaning of 'desirable' in the context of active travel in his responses and in describing the Bill's aims. What we are saying is that local government and central Government should see this Bill as a means of creating the right conditions for people to choose these modes of travel—walking and cycling—for short journeys. That is why we stick to our objective, because we believe that this amendment would strengthen the Bill. Of course, if it is rejected, we will support the Minister's amendment.

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We welcome the Government amendments in this section, which reflect amendments that we brought forward at Stage 2 on the duty for local authorities to promote active travel. We are grateful to the Minister for considering these areas. I truly believe that the promotion of active travel is central to achieving that culture shift that this Bill seeks to achieve. People will not be encouraged out of their cars unless they see the benefits of travelling by foot or by bike and they know where the routes are and that the facilities are there to help them make the active journeys more convenient. It is not enough that it is possible to perform a journey. People have to know that they can perform a journey, and that is the purpose of the promotion duty that we are so grateful to you for introducing.

Rydym yn croesawu gwelliannau'r Llywodraeth yn yr adran hon, sy'n adlewyrchu gwelliannau a gyflwynwyd gennym yng Nghyfnod 2 ar y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ystyried y meysydd hyn. Rwyf wir yn credu bod hyrwyddo teithio llesol yn ganolog i gyflawni'r newid diwylliant y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni. Ni fydd pobl yn cael eu hannog i adael eu ceir oni bai eu bod yn gweld y manteision cerdded neu deithio ar feic ac oni bai eu bod yn gwybod lle mae'r llwybrau a bod y cyfleusterau yno i'w helpu i wneud y teithiau llesol yn fwy cyfleus. Nid yw'n ddigon bod modd cyflawni taith. Mae'n rhaid i bobl wybod y gallant gyflawni taith, a dyna yw pwrpas y ddyletswydd hyrwyddo yr ydym mor ddiolchgar i chi am ei chyflwyno.

Our amendment today seeks to ensure that in exercising their functions under this Act, Welsh Ministers and local authorities will also promote the appropriate use of active travel routes. In response to Alun Ffred, I will say that it is about the appropriate use of the routes; it is not that the routes ought to be appropriate. Appropriate use, for example, would be cycling at a reasonable speed or cycling on the right side of the path to make sure that all users are using the spaces appropriately, and with the care and consideration that makes those spaces accessible and safe for everyone. The Minister believes that that is implicit in the Bill, but I believe that it should be explicit in the Bill. We chose the word 'appropriate' carefully, rather than the word 'safe', to avoid the potential for the risk aversion that you felt was a potential difficulty with previous draft amendments where we were looking at the issue of user safety. I completely agree that we do not want to create a risk-averse culture, where the sides of every active travel route is padded, just in case someone trips over or cycles over a bump in them. However, we have to recognise that the needs of all users are not the same, and, therefore, the appropriate use of a route is important.

